

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2011-2012

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Rhagair

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Mae fy adroddiad blynyddol eleni wedi'i seilio ar y canfyddiadau o'r ail flwyddyn o'r cylch arolygu a ddechreuodd ym mis Medi 2010.



Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar:

- y canfyddiadau o'r arolygiadau a gafodd eu cynnal yn 2011-2012;
- y canfyddiadau o'r adroddiadau rydyn ni'n eu hysgrifennu mewn ymateb i lythyr y Gweinidog i Estyn am ein cylch gwaith blynyddol;
- y gweithgarwch monitro dilynol o ddarparwyr sydd angen gwella;
- y cynnydd o safbwynt y blaenoriaethau cenedlaethol a'r ddarpariaeth; a'r
- data perfformio cenedlaethol, gan gynnwys data manwl ar ddeilliannau'r broses arolygu ac o ymatebion dysgwyr a rhieni i holiaduron.

Rwy'n awyddus i fynd ati yn y rhagair yma i dynnu sylw at rai o'r prif gasgliadau y gellir eu gwneud o'r dystiolaeth y mae fy arolygwyr wedi'i chasglu. Byddaf hefyd yn ystyried eu goblygiadau.

“

“Mae mwy o waith rhagorol i’w weld yn yr ysgolion uwchradd nac yn yr ysgolion cynradd, ond mae mwy o waith anfodddhaol i’w weld yn yr ysgolion uwchradd hefyd.”

Safonau

Yn yr ysgolion a arolygwyd ganddom eleni mae’r gyfran a gafodd eu barnu fel rhai da neu ragorol ychydig yn is na’r gyfran y llynedd. Mae mwy o waith rhagorol i’w weld yn yr ysgolion uwchradd nac yn yr ysgolion cynradd, ond mae mwy o waith anfodddhaol i’w weld yn yr ysgolion uwchradd hefyd. (Mae un o bob saith ysgol uwchradd yn rhagorol, ac mae un o bob saith yn anfodddhaol.) Mae safonau’r mwyafrif o’r ysgolion arbennig a’r ysgolion prif ffrwd annibynnol a gafodd eu harolygu eleni’n dda neu’n well. Mae’r safonau’n dal i amrywio yn y sectorau eraill.

Mae safonau lles yn y rhan fwyaf o’r sectorau’n gyffredinol uchel, ond dim ond yn hanner yr unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu harolygu y mae’r safonau lles yn dda neu’n well. Yn fwy cyffredinol, mae’r disgyblion yn cael eu cynnwys yn amlach yn y penderfyniadau am fywyd yr ysgol, ond dim ond mewn ychydig o’r ysgolion y

mae’r disgyblion yn cael cyfrannu at benderfyniadau ar eu dysgu. Presenoldeb yw’r agwedd wannaf ar les yn yr ysgolion o hyd. Nid yw’r presenoldeb mewn dros un o bob tair o’r ysgolion uwchradd yn ddigon da. Mae hefyd yn amrywio gormod o gymharu’r ysgolion cynradd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig â’r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Effaith arolygiadau 'dilynol'



Mae 'gweithgarwch dilynol' yn un o nodweddion newydd cylch arolygu 2010-2016 ac mae'n arwydd o ddull mwy cymesur o arolygu. Mae'n golygu ein bod yn cynnal ail ymweliad â'r ysgolion a'r darparwyr sydd angen gwella, er mwyn asesu eu cynnydd. Ein barn oedd bod angen gweithgarwch dilynol yn ychydig dan hanner o'r ysgolion neu'r darparwyr a gafodd eu harolygu'r llynedd. Pan aethom yn ôl i'r ysgolion uwchradd yr oeddem ni neu'r awdurdod lleol yn eu monitro, roedd yn bosibl gweld bod pob un wedi gwneud digon o gynnydd i gyfiawnhau peidio â gwneud trydydd ymweliad. Yn y sector cynradd, nid oes angen rhagor o fonitro gan Estyn ar 87% o'r ysgolion. Mae'r ysgolion yr ydym yn eu rhoi yn y categori 'angen gwelliant sylweddol' neu'r rhai sy'n galw am roi mesurau arbennig ar waith ynddyn nhw, yn cymryd mwy o amser fel arfer i ddod allan o'r categori gweithgarwch dilynol.

Yr ysgolion yr ydym wedi'u tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yw'r rhai sydd wedi gweithredu ar ein hargymhellion. Maen nhw wedi rhoi systemau ar waith yn yr ysgol drwyddi draw i ddelio â'r diffygion. Mae'r staff wedi cytuno ar y dulliau o roi'r systemau ar waith i wella'r safonau. Y prif ffactor sydd wedi sicrhau llwyddiant yw canolbwyntio ar atgyfnerthu'r addysgu a'r dysgu er mwyn diwallu anghenion penodol y dysgwyr. Un o brif nodweddion y gwaith yma yw bod yr arweinwyr a'r rheolwyr wedi rhoi systemau olrhain

disgyblion ar waith i fonitro perfformiad ac i bennu amcanion. Maen nhw wedi gosod lefelau newydd o ddisgwyliadau i'r arferion hunanarfarnu a monitro, drwy fynd ati i graffu ar waith y dysgwyr ac i arsylwi gwersi i adnabod y manau lle mae'r perfformiad yn dda. Maen nhw'n sicrhau wedyn bod pawb yn cael gwybod am yr arfer dda honno. Mae'r rheolwyr wedi mynd ati'n fwy hyderus i ddefnyddio systemau rheoli perfformiad i gynorthwyo ac i herio athrawon gwael, ac i wella perfformiad pawb. Cafodd yr athrawon eu hyfforddi i gydlynu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm i helpu pob disgybl i wella'i fedrau llythrennedd a rhifedd. Gallwch ddarllen astudiaethau achos Ysgol Gynradd Peter Lea, Ysgol Friars a Chylch Meithrin Penllwyn yn yr adran ar weithgarwch dilynol yn nes ymlaen yn yr adroddiad yma. Mae'r rhain yn dangos y math o welliannau sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr i safonau. Mae'r sectorau ôl-16 a'r ysgolion fel ei gilydd wedi gwneud gwelliannau yn sgil gweithgarwch dilynol. Y ddau sector lle'r oedd y gwelliannau mwyaf i'w gweld oedd dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i oedolion.

Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

Daeth yn amlwg yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fod angen gweithgarwch dilynol yn y mwyafrif o'r awdurdodau lleol. Yn yr achosion lle mae'r meysydd i'w gwella'n rhai amlwg, rydym yn gosod yr awdurdod lleol yn y categori 'yn peri pryder'. Cafodd tua chwarter o'r awdurdodau lleol a gafodd eu harolygu hyd yma eu rhoi yn y categori yma.

Y diffygion mwyaf cyffredin mae'r arolygwyr yn eu gweld yn yr awdurdodau lleol sy'n peri pryder yw: arwyddion o ddiffyg capasiti a gallu yn y swyddogion; ac arwyddion nad yw'r aelodau etholedig yn mynd ati'n ddigon da i herio perfformiad. Mae'r ffaith fod llawer o'r awdurdodau a gafodd eu rhoi yn y categorïau'n awdurdodau cymharol fach yn awgrymu bod diffyg capasiti'n ffactor arwyddocaol.

Oherwydd eu maint, nid yw'r awdurdodau bach yn gallu elwa ar arbedion maint. Mae ganddyn nhw lai o swyddogion i gyflawni'r holl wahanol ddyletswyddau mae angen iddyn nhw eu cyflawni. Mae diffyg arbenigedd manwl iawn yn cyfyngu

ar y cyngor a'r cymorth mae'r awdurdod yn eu cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd y swyddogion yn tueddu i ddelio ar lefel fwy cyffredinol ac arwynebol â'r holl wahanol ofynion sy'n dod i'w rhan. Ond gall yr awdurdodau mwy wneud arbedion maint sy'n caniatáu arbenigedd mwy manwl. Mae rôl swyddi'n gallu bod yn fwy pendant ac mae'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i'r ysgolion yn fwy arbenigol. Mae arbedion maint yn caniatáu'r awdurdodau i gyflogi mwy o bobl i ddelio â'r gwahanol gyfrifoldebau.

Mae'r rhesymeg sy'n sail i'r broses o uno colegau addysg bellach, ar y llaw arall, wedi deillio'n rhannol o ragolygon sy'n dangos buddion arbedion maint. Mae wedi bod yn bosibl gwreiddu'r buddion yma wedi hynny mewn sawl achos o uno colegau ar hyd a lled Cymru. Roedd sawl un o'r achosion yn golygu gweld sefydliad mwy'n uno ag un llai a oedd yn cael trafferth bodloni'r holl ofynion a oedd arno fel coleg ar ei ben ei hun.

Ond nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth lawn rhwng addysg bellach ac awdurdodau lleol. Ers i'r colegau ddod yn sefydliadau corfforedig tua 20 mlynedd yn ôl, maen nhw wedi sefyll ar eu traed eu hunain. Mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc, ar y llaw arall, yn bodoli ar y cyd â gwasanaethau eraill yr awdurdod i blant a phobl ifanc ei ardal. Mae'r gwasanaethau yma'n rhannu sylfaen o lywodraethu a rheolaeth gorfforaethol yng nghyd-destun democratiaeth leol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol.

Mae'n anodd uno gwasanaethau gwahanol awdurdodau lleol gan fod pob un yn trefnu setiau cymhleth o wasanaethau statudol sy'n dibynnu ar ei gilydd. Roedd adroddiad Beecham yn 2006 yn argymhell y dylai gwahanol wasanaethau a gwahanol awdurdodau lleol gydweithredu. Roedd hefyd yn addo adolygiad arall o'r system gyfan yn 2011, os nad oedd cydweithredu'n gweithio. Rydym yn gwybod erbyn hyn nad yw cydweithredu gwirfoddol wedi

gweithio gystal ag y dylai fod wedi gwneud. Roedd adroddiad Thomas yn 2010 yn argymhell symud gwasanaethau gwella ysgolion i gonsortia rhanbarthol erbyn mis Medi 2012, sef proses sydd eisoes ar waith. Er mai'r bwriad nawr yw trefnu gwaith y gwasanaethau gwella ysgolion yn rhanbarthol, mae'n dal yn un o ddyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol. Rhaid rhoi trefniadau lleol ar waith ym meysydd comisiynu, craffu ac atebolrwydd.

Mae gwasanaethau rhai o'r awdurdodau'n dda, ac mae ychydig o agweddau ar eu darpariaeth yn rhagorol. Mae gofyn cadw ac atgyfnerthu'r cryfderau yma ym mhob un o'r awdurdodau.

“

“Dim ond yn ddiweddar y mae’r awdurdodau lleol wedi dechrau monitro’n rheolaidd y defnydd yn eu hysgolion o strategaethau rheoli ymddygiad, a’u hadroddiadau ar y strategaethau.”

Diogelu

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli’r trefniadau i ddiogelu plant a phobl ifanc. Yn ystod haf 2011, aethom ati ar y cyd â’r corff sy’n arolygu gwasanaethau cymdeithasol (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) i gynnal ymchwiliad i allu awdurdod lleol Sir Benfro i ddiogelu’r plant yn ei hysgolion ac yn ei wasanaethau addysg eraill. Gwnaethom arolwg ar y cyd hefyd o drefniadau diogelu a rheoli ymddygiad dewis ehangach o unedau cyfeirio disgyblion ar hyd a lled y wlad. Yn sgil ein canfyddiadau, sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi, mae awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar hyd a lled Cymru wedi edrych yn fwy manwl ar eu harferion diogelu eu hunain. Maen nhw wedi bod yn mynd ati’n amlach i ddatblygu a diweddarau eu polisiau a’u gweithdrefnau ar recriwtio’n ddiogel ac ar amddiffyn plant. Ond mae ychydig o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi methu â datblygu eu polisiau’n ddigon trylwyr. Nid yw eu trefniadau ar gyfer recriwtio’n ddiogel yn cael eu rhoi ar waith yn drylwyr,

nid yw’r prif aelodau o’r staff wedi cael eu hyfforddi’n ddiweddar, ac nid yw ychydig o’r staff yn gwybod sut mae ymateb i ddatgeliad.

Dim ond yn ddiweddar y mae’r awdurdodau lleol wedi dechrau monitro’n rheolaidd y defnydd yn eu hysgolion o strategaethau rheoli ymddygiad, a’u hadroddiadau ar y strategaethau. Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiadau, mae’r awdurdodau lleol mwyaf rhagweithiol wedi llunio canllawiau ar ddefnyddio’r dull ‘amser allan’ yn briodol gyda’r disgyblion i dawelu sefyllfaoedd anodd.

Llythrennedd, rhifedd a chau'r bwlch tlodi

Dylai cyflwyno'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd helpu arweinwyr yr ysgolion i godi safonau drwy gynorthwyo'r athrawon i ganolbwyntio'n well ar lythrennedd a rhifedd. Er bod darpariaeth ychydig o'r ysgolion ym maes medrau'n rhagorol, mae gofyn codi safonau llythrennedd dros hanner o'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n ddyddiau cynnar yn llawer o'r ysgolion o ran cynllunio ar gyfer dilyniant medrau rhifedd. Mae'r disgyblion yn aml yn dangos diffyg hyder yn eu medrau rhifedd sylfaenol, fel rhannu a gweithio gyda ffracsiau. Maen nhw'n amharod i gymhwyso'r medrau hynny i ddatrys problemau, yn enwedig yng nghydestun pynciau eraill fel gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae safonau ysgrifennu'n peri pryder ym mhob un o'r sectorau. Mae dulliau dysgu gweithgar yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn ystod y Cyfnod Sylfaen wedi llwyddo i raddau helaeth i godi hyder y plant ac i'w gwneud yn fwy annibynnol. Er hynny, mae gormod o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a ffurfio llythrennau yng ngwaith ysgrifennu'r plant.

Nid yw'r athrawon yn y sectorau eraill yn yr ysgolion yn rhoi digon o gyfle i'r disgyblion yn y gwersi eraill heblaw am Gymraeg neu Saesneg, i ysgrifennu'n annibynnol mewn gwahanol arddulliau ac i wahanol bwrpasau.

Mae gofyn gweld arweinwyr yn gosod y broses o wella llythrennedd a rhifedd ac o gau'r 'bwlch tlodi' fel canolbwynt i'w gwaith cynllunio. Mae gofyn gweld athrawon yn cydlynu'n well eu cynlluniau i ddatblygu medrau'r disgyblion ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Dim ond yn rhai o'r ysgolion uwchradd y mae grwpiau sefydlog cadarn wedi gweithio i gryfhau medrau llythrennedd drwy gynlluniau gwaith y gwahanol bynciau. Prin iawn yw'r awdurdodau lleol hefyd sydd wedi gweithio gyda'r ysgolion i hybu arfer dda yn y gwaith o wella medrau llythrennedd a rhifedd. Mae posibilrwydd y gallai'r rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer y fframwaith llythrennedd a rhifedd helpu i wella'r gallu i gynllunio'r addysgu, y dysgu a'r asesu. Mae gofyn gweld yr arweinwyr yn newid diwylliant yr ysgolion er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd yma.

Bydd canlyniadau'r profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd ar gyfer pob disgybl rhwng 7 ac 14 oed, a fydd yn cael eu gosod o haf 2013 ymlaen, ar gael. Dylai'r rhain weithredu fel set fwy cydlynol o ddata y gall yr ysgolion ei defnyddio i gymharu canlyniadau darllen a rhifedd eu disgyblion â chanlyniadau ysgolion eraill. Bydd canlyniadau'r profion rhifedd yn rhoi'r darlun cenedlaethol cyntaf o allu'r disgyblion mewn rhifedd. Fe wnaethon ni ofyn i'r awdurdodau lleol eleni am ddata o'r profion darllen y maen nhw'n eu gosod i'r disgyblion yn ystod tymor yr haf 2012. Nid yw'n bosibl crynhoi'r wybodaeth yma i roi darlun cenedlaethol cwbl gyflawn o alluoedd darllen disgyblion Cymru gyfan am fod y gwahanol awdurdodau lleol wedi defnyddio profion gwahanol yn y gwahanol gamau. Ond mae'r wybodaeth a gawsom ganddyn nhw'n awgrymu bod sgorau darllen y disgyblion yn amrywio llawer gormod o'r naill ysgol ac awdurdod lleol i'r llall.

Mae'r ysgolion sydd â chyfrannau uchel o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i beidio â pherfformio gystal â'r ysgolion sydd â disgyblion o gefndiroedd â mwy o fantais. Ond mae rhai ysgolion yn mynd yn groes i hyn. O'r pum ysgol uwchradd lle'r oeddem wedi gweld perfformiad rhagorol wrth arolygu eleni, mae hawl gan tua chwarter neu fwy o ddisgyblion tair o'r ysgolion i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad y disgyblion yma'n dda. Yr hyn sy'n gyfrifol am hyn yw bod y tair ysgol yma'n trin mynd i'r afael ag anfantais fel gyffredin i'r ysgolion yma yw gwaith arwain cadarn. Mae penaethiaid cadarn yn arwain dull pendant, trefnus a chydlynol o gau'r bwlch tlodi drwy ddatblygu arbenigedd y staff, atgyfnerthu'r cysylltiadau cymunedol ac annog y rhieni i gynorthwyo. Mae'r mwyafrif o'r athrawon yn dweud mai ennyn diddordeb y rhieni yw un o'r prif ffactorau yn y gwaith o fynd i'r afael â dysgwyr dan anfantais sy'n tangyflawni.

Datblygu gallu



Bydd cyhoeddi safonau statudol newydd ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a sefydlu system genedlaethol o brofion, yn tynnu sylw at y maes yn yr ysgolion. Ond, os ydym am weld newidiadau sylweddol yn y deilliannau, mae angen canllawiau, safonau enghreifftiol a hyfforddiant ar gwricwlwm sydd i bob pwrpas yn cael ei ailwampio, ar yr athrawon. Mae angen datblygu gallu'r athrawon i wireddu'r gwelliannau rydym am eu gweld yn yr asesiadau allanol cenedlaethol ac yn y profion rhyngwladol fel PISA. Mae gofyn bod athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn gwybod yn union sut y dylai'r cwricwlwm a'r dull o'i gyflwyno newid. Ac mae angen mwy o gymorth arny'n nhw i wneud y newidiadau hynny.

Darparwyr ôl-16

Mae agwedd rhai o'r darparwyr ôl-16 at baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith yn amrywio gormod. Mae cystadlu am ddysgwyr ac am gyllid yn golygu weithiau bod buddiannau'r dysgwyr yn cael eu hanghofio. Mae rhai darparwyr, gan gynnwys ysgolion a cholegau fel ei gilydd, yn camarwain dysgwyr drwy eu cadw mewn darpariaeth anaddas. Mae rhai ysgolion hefyd yn ceisio dyblygu darpariaeth y byddai'n well ei chyflwyno mewn colegau addysg bellach neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Mae gallu sefydliadau addysg bellach i roi sylw i ddiffygion llythrennedd a rhifedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwella. Ond nid ydyn nhw wedi rhoi sylw i'r angen i gynllunio cyrsiau a fydd yn herio'r holl ddysgwyr i wella'u

medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau mwy ymarferol.

Mae rhai aelodau o staff y sector dysgu yn y gwaith yn cydnabod y dylai eu dysgwyr nhw hefyd allu darllen ac ysgrifennu'n dda, a gwneud cyfrifiadau rhifol perthnasol. Maen nhw'n addasu eu dulliau cyflwyno i helpu dysgwyr sy'n aml yn cychwyn ar lefel isel iawn, i wneud mwy o gynnydd. Ond mae rhai yn y sector yn dal yn amharod i baratoi'r dysgwyr i fodloni mwy na'r gofynion isaf yn eu medrau sylfaenol.

“

“Fe all Bagloriaeth Cymru weithredu fel sylfaen gadarn i system o gymwysterau yng Nghymru at y dyfodol, ar yr amod ei bod yn cael ei chyflwyno a'i hasesu'n fwy trwyadl o lawer.”

Darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed

Mae'r adolygiad o gymwysterau dysgwyr 14 i 19 oed wedi pennu cymhwyster Bagloriaeth Cymru fel un o'r ffyrdd canolog o gyflwyno cwricwlwm 14-19. Dangosodd adroddiad diweddar Estyn ar Fagloriaeth Cymru fod y cymhwyster yma'n cynnig llawer o fanteision i'r dysgwyr. Ymhlith y prif fanteision mae: ymestyn eu cwricwlwm wrth astudio craidd Bagloriaeth Cymru; gwella'u medrau hanfodol; a dod i ddeall yn well amryw o wahanol feysydd fel menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Ar ben hynny hefyd, mae gwneud eu hymchwiliadau eu hunain yn helpu llawer o'r dysgwyr i ddatblygu rhai o'r medrau ymchwilio a dadansoddi y byddan nhw eu hangen mewn addysg bellach, addysg uwch a swyddi. Ond mae'r safonau mae'r dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru'n eu cyflawni ar hyn o bryd, yn

amrywio gormod. Fel rhan o'r cymhwyster yma, mae'r dysgwyr yn ennill cymwysterau mewn medrau fel cyfathrebu a chymhwyso rhif, ond nid ydyn nhw bob amser yn astudio'r rhain ar lefel sy'n briodol iddyn nhw fel unigolion. Nid yw'r dulliau asesu'n ddigon cadarn chwaith. Fe all Bagloriaeth Cymru weithredu fel sylfaen gadarn i system o gymwysterau yng Nghymru at y dyfodol, ar yr amod ei bod yn cael ei chyflwyno a'i hasesu'n fwy trwyadl o lawer.

Cymharu deilliannau ôl-16

Er bod gennym ddigon o ddata cenedlaethol ar gyrhaeddiad dysgwyr 16 oed, nid oes unrhyw system genedlaethol gynhwysfawr o gasglu data ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr 18 oed y sectorau chweched dosbarth, addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu cymharu cyfraddau llwyddo cyrsiau ôl-16 fel Bagloriaeth Cymru, Safon Uwch a chysiau galwedigaethol yn y chweched dosbarth ac mewn sefydliadau addysg bellach. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr a rhieni'n gallu dewis cyrsiau a manau astudio ar sail gwybodaeth gynhwysfawr.

Arweinyddiaeth

Er bod yr adroddiad blynyddol yma'n croesawu'r arfer dda sydd i'w gweld, mae angen gwneud llawer eto i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yng ngallu ac ansawdd y gwaith arwain y mae'r ateb. Drwy ddweud hynny, rwy'n golygu nid yn unig y gwaith arwain mae penaethiaid, prifathrawon a phrif swyddogion gweithredol awdurdodau lleol yn ei wneud, ond hefyd y gwaith arwain sy'n rhaeadru i lawr i athrawon, i gynorthwywyr cymorth dysgu, i anogwyr dysgu ac i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gyflwyno ac o wasanaethu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Gall bob un o'r rhain gynnig arweinyddiaeth drwy eu camau gweithredu, eu hymddygiad a'u hymrwymiad.

Rhaid i uwch reolwyr neilltuo amser i faterion llywodraethu corfforaethol. Rhaid iddyn nhw reoli cyllidebau, cynnal a chadw cyfleusterau a chynllunio'r broses o ddefnyddio adnoddau. Rhaid iddyn nhw hefyd weithio yn ôl fframweithiau statudol a rheoleiddiol sy'n gofyn am safonau cydymffurfio uchel. Ond eu gwaith craidd yw cyflwyno addysg a hyfforddiant i'r disgyblion ac i'r dysgwyr eraill.

Dylen nhw ganolbwyntio ar y dulliau o wella profiadau a deilliannau'r dysgwyr.

Mae gan y darparwyr y mae eu perfformiad yn eu gwaith craidd yn gwella, arweinwyr sy'n gweithio gyda'r staff eraill i greu gweledigaeth ar gyfer newid. Sylfaen y weledigaeth honno yw'r medrau gorau un ym meysydd rheoli rhaglenni a rheoli pobl. Ar y cyd â'r medrau yma, maen nhw'n cydlynu amryw o wahanol brosiectau a mentrau, sy'n aml yn cyd-redeg, ym maes gwella'r dulliau o gyflwyno'r dysgu.

Mae lle i wella mewn ffyrdd cyffredinol a ffyrdd penodol. Yn benodol, mae angen i fwy o benaethiaid ysgolion roi sylw cadarn i berfformiad addysgu sydd o safon gyffredin. Mae angen i benaethiaid ysgolion uwchradd roi sylw i'r diffygion ym mherfformiad y rheolwyr canol a'r uwch reolwyr. Mae angen i lywodraethwyr wella'u harbenigedd a bod yn fwy heriol.

“

“Mae gan y darparwyr y mae eu perfformiad yn eu gwaith craidd yn gwella, arweinwyr sy'n gweithio gyda'r staff eraill i greu gweledigaeth ar gyfer newid.”

Arweinwyr systemau

Mae arweinwyr systemau¹ yn y consortia rhanbarthol yn allweddol yn y dasg o helpu'r ysgolion i wella ac i newid eu diwylliant. Wrth geisio mesur eu llwyddiant bydd rhaid gofyn i ba raddau y gallan nhw: ddadansoddi'r heriau; cynllunio'r ymyriadau a'r cymorth; defnyddio'r arfer dda sydd i'w gweld ar hyn o bryd; a gosod disgwyliadau clir ar gyfer gweithredu. Rhaid asesu hefyd a yw'r camau gweithredu'n arwain yn effeithiol at welliannau yn neilliannau'r dysgwyr.

Er bod tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod y consortia rhanbarthol yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran adnabod, hyfforddi a defnyddio arweinwyr systemau, nid yw'r cynnydd yn gyson. Nid yw'r syniadau ym mhob rhan o Gymru'n ddigon trefnus.

Rydym angen:

- meini prawf cyffredin ar gyfer dewis arweinwyr systemau;
- cytundeb ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau/cymwyseddau y bydd yr arweinwyr systemau eu hangen; ac
- un drefn gyffredin o fonitro'r broses o sicrhau ansawdd.

Mae angen gweithio yn ôl fframwaith mae pawb wedi cytuno arno ar gyfer arweinyddiaeth systemau. Mae angen hefyd am hyfforddiant ar y cyd ar lefel genedlaethol, a fydd yn gweithredu fel man cychwyn i bawb. Byddai hefyd yn rhoi cyd-destun y gall y consortia ei ddefnyddio i greu mwy o gyrsiau hyfforddi rhanbarthol i wella gallu penaethiaid, arweinwyr canol ac athrawon y sector ysgolion.

Canlyniad yr hyfforddiant cenedlaethol fyddai gosod safonau cyson ar gyfer rôl arweinwyr systemau. Byddai hefyd yn sicrhau bod y disgwyliadau o ran proffesiynoldeb y rôl yn gyson.

¹ Rhoddwyd y diffiniad yn y Rhestr termau arolygu 2012

Newid

Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr eraill ar fin mynd i gyfnod o newid mawr – newid yn y cwricwlwm a'r cymwysterau, a hyd yn oed newidiadau strwythurol o bosibl. Yr her yw gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgil y newidiadau.

Rwy'n gobeithio y bydd arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiad blynyddol yma i feddwl am eu dulliau o reoli newid yn eu sefydliadau gyda'r nod o adfywio'r diwylliant, o ganolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol ac o wella'r gwaith hunanarfarnu. Gallwch ddarllen astudiaethau achos, sy'n batrwm o'r arferion gorau, yn yr adroddiad yma drwyddo draw. Mae croeso hefyd i chi gysylltu â'r ysgol neu'r darparwr dan sylw yn yr astudiaeth i ofyn am fwy o wybodaeth. Mae pecynnau PowerPoint ar wefan Estyn hefyd y gallwch eu defnyddio i ysgogi gweithwyr proffesiynol, llywodraethwyr a rhieni i drafod. Maen nhw'n cynnig cyd-destun a man cychwyn ar gyfer trafod a chynllunio.

Os ydych yn weithiwr proffesiynol yn y sector, rwy'n gobeithio y byddwch yn defnyddio'r adroddiad blynyddol yma a'r adnoddau cysylltiedig i wneud mwy o gynnydd yn eich taith arbennig chi i wella.



Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cynnwys

- Adran 1 - Blaenoriaethau a darpariaeth
- Adran 2 - Gweithgareddau arolygu dilynoll
- Adran 3 - Adroddiad sector
- Adran 4 - Crynodebau o adroddiadau thematig Estyn
- Adran 5 - Sylwadau ar berfformiad
- Adran 6 - Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM
- Adran 7 - Data canlyniadau arolygu
- Adran 8 - Holiaduron

Adran 1: Blaenoriaethau a darpariaeth



Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Cynnwys

Llythrennedd a rhifedd yn yr ysgolion	1	Y Cyfnod Sylfaen	20
Llythrennedd	2	Darpariaeth	21
Canolbwyntio ar ysgrifennu	3	Asesu	21
Data profion darllen	4	Defnyddio byrddau arddangos	22
Rhifedd	5	Defnyddio labeli gludiog	22
Hyfforddiant ar gyfer llythrennedd a rhifedd	6	Defnyddio wal ddysgu	22
		Defnyddio ysgolion medrau	22
Llythrennedd a rhifedd yn y darparwyr ôl-16	7	Safonau	23
Asesiadau cychwynnol o lefelau llythrennedd a rhifedd mewn sefydliadau addysg bellach	8	Arweinyddiaeth a rheolaeth	24
Llythrennedd a rhifedd mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon	9	Pontio o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2	25
Tlodi ac anfantais yn yr ysgolion	10	Bagloriaeth Cymru	26
Tlodi a chyrhaeddiad	11		
Tlodi a phresenoldeb	12	Darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 mlwydd oed	30
Tlodi ac addysg heblaw addysg yn yr ysgol	13	Darpariaeth 14-16	31
Torri cylch tlodi ac anfantais	16	Y chweched dosbarth	32
Beth mae ysgolion effeithiol sydd mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud?	17	Colegau addysg bellach	32
Datblygiad staff	18	Dysgu yn y gwaith	33
Targedu anfantais	18	Data ar ddeilliannau	34
Ysgolion bro	19		

Rwy'n canolbwyntio yn yr adrannau sy'n dilyn ar y tair blaenoriaeth genedlaethol, sef llythrennedd, rhifedd a thlodi ac anfantais. Rwy'n enwi rhywfaint o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau yma o'r arolygiadau a'r arolygon perthnasol y mae AEM wedi'u cynnal yn ystod 2011-2012.

Mae'r adran yma hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar y Cyfnod Sylfaen, Bagloriaeth Cymru a'r ddarpariaeth 14-19.

Mae'r adran wedi'i rhannu yn ôl y penawdau yma:

- Llythrennedd a rhifedd yn yr ysgolion
- Llythrennedd a rhifedd yn y darparwyr ôl-16
- Tlodi ac anfantais yn yr ysgolion
- Y Cyfnod Sylfaen
- Bagloriaeth Cymru
- Darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 mlwydd oed

Llythrennedd a rhifedd yn yr ysgolion

Llythrennedd

Mae dros hanner o holl adroddiadau arolygu'r arolygwyr ar yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwneud argymhellion ynglŷn â datblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar rai ysgolion yr oedd eu perfformiad yn 'dda' ar y cyfan. Mae dros draean o argymhellion yr adroddiadau sy'n barnu bod perfformiad presennol ysgolion yn 'ddigonol' neu'n 'anfodddhaol', yn dweud bod rhaid i'r staff gryfhau'r ddarpariaeth mewn llythrennedd i'r disgyblion o bob gallu, a bod rhaid gwella'u cynnydd. Mae hyn yn arbennig o wir ym maes gwella ansawdd ysgrifennu'r disgyblion.

Canolbwyntio ar ysgrifennu

Yn yr achosion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau ysgrifennu'n fwyaf effeithiol, mae'r ysgolion yn:

- gosod dewis da o wahanol dasgau ysgrifennu estynedig sy'n rhoi sylw i ddi-ddordebau'r disgyblion a'r angen i herio grwpiau o'r disgyblion;
- rhoi sylw manwl i'r gwaith o farcio gwallau sillafu ac atalnodi, gan ddefnyddio meini prawf sydd wedi'u cytuno mewn strategaeth llythrennedd mae'r ysgol gyfan yn ei defnyddio;
- cynnig adborth manwl i'r disgyblion ar y ffyrdd o wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig, gan gynnwys rhoi cyngor clir ar wella agweddau ar lythrennedd; a
- dilyn yr adborth ysgrifenedig drwy osod tasgau byr pwrpasol i'r disgyblion fel cyfle i ymarfer yr agwedd benodol ar ysgrifennu y mae angen ei datblygu.

Er hynny, mae safonau ysgrifennu'n dal i beri pryder ym mhob un o'r sectorau ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, er bod mwyafrif o'r disgyblion yn cyflawni'n dda, mae lleiafrif ohonyn nhw'n gwneud gwallau sillafu ac atalnodi sylfaenol. Gwendid arall yw'r gallu i ffurfio llythrennau. Yn yr un ffordd, mae medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn wan. Nid ydyn nhw'n trosglwyddo'r medrau gramadeg a sillafu maen nhw wedi'u dysgu yn eu sesiynau iaith i'w gwaith ysgrifennu yn eu pynciau eraill, heb gymorth yr athro. Mae'r disgyblion yma'n gwneud gwallau sillafu ac atalnodi a fydd hefyd yn ymddangos yn eu gwaith yn y dyfodol. Nid ydyn nhw'n gallu trefnu eu gwaith ysgrifenedig heb help, ac nid ydyn nhw'n gallu ysgrifennu darnau hir i amryw o wahanol bwrpasau, fel disgrifio eu dull o wneud ymchwiliad ym maes gwyddoniaeth.

Mae gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion y 45% o'r ysgolion uwchradd lle'r oedd y safonau'n dda neu'n rhagorol, yn gywir. Dim ond ychydig o'r disgyblion sy'n gwneud llawer o wallau sillafu ac atalnodi. Nid yw ychydig o'r disgyblion mwy galluog yn yr ysgolion da'n gwneud gymaint o gynnydd ag y dylen nhw, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel uwch. Nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion y 40% o'r ysgolion uwchradd lle'r oedd y safonau'n ddigonol yn unig, yn darllen nac yn ysgrifennu'n ddigon da. Mae'r un peth yn wir yn yr 14% o'r ysgolion uwchradd lle'r oedd y safonau'n anfoddfaol. Mae gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn aml yn rhy fyr, nid yw'n defnyddio digon o ddewis o arddulliau a phwrpasau, ac mae gormod o wallau sillafu, atalnodi a gramadeg yn eu gwaith.

Nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd yn y pynciau heblaw am Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf i ysgrifennu darnau hir i nifer o wahanol bwrpasau. Nid ydyn nhw chwaith yn cael digon o gyfleoedd i elwa ar ddull o farcio sy'n eu helpu i gywiro'u gwaith. Nid yw athrawon tua chwarter o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn addasu eu gwaith yn ddigon da i helpu'r disgyblion i godi lefel eu medrau ysgrifennu a darllen. Mae hyn yn arbennig o wir yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y disgyblion mwy galluog. Nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymarfer a gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd i'r lefel sy'n briodol i amryw o'r meysydd pwnc.

Mae gormod o ddefnydd o daflenni gwaith yn rhai o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn atal y disgyblion rhag ysgrifennu eu hymatebion eu hunain. Yn yr achosion yma, nid yw hyd yn oed y disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu darnau hir. Nid ydyn nhw chwaith yn defnyddio amryw o wahanol ddulliau o ysgrifennu, nac yn ysgrifennu i wahanol bwrpasau. Ar ben hynny, nid yw'r disgyblion y mae eu gallu ar lefel ganolig yn datblygu ac yn cymhwyso'u medrau mor gyflym ag y dylen nhw. Maen nhw'n dibynnu gormod ar atebion sy'n dilyn patrwm parod, ac mae hynny'n cyfyngu ar y cyfle i wella'u medrau ysgrifennu eu hunain.

Ychydig yn unig o'r ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu cysylltiadau sefydlog da â'u hysgolion cynradd er mwyn cynllunio cwricwlwm sy'n datblygu medrau'r disgyblion sy'n trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, yn briodol. Mae'r ysgolion yma hefyd yn trefnu diwrnodau hyfforddi ar y cyd fel cyfle i'r athrawon i ganolbwyntio gyda'i gilydd ar ddatblygu agweddau ar lythrennedd, fel strategaethau ysgrifennu neu fedrau darllen.

“

“Ychydig yn unig o'r ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu cysylltiadau sefydlog da â'u hysgolion cynradd er mwyn cynllunio cwricwlwm sy'n datblygu medrau'r disgyblion sy'n trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, yn briodol.”



Data profion darllen

Roeddem yn sôn yn adroddiad blynyddol y llynedd am arolwg bach a wnaethom o ysgolion uwchradd i ddysgu sut mae'r ysgolion yn profi medrau darllen y disgyblion.

Aethom ati eleni i ofyn i'r awdurdodau lleol am y data ar yr asesiadau o fedrau darllen y disgyblion yn eu hysgolion yn ystod tymor yr haf 2012, cyn tymor yr haf 2013 pan fydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno prawf darllen cenedlaethol newydd.

Cawsom y data oddi wrth bob un o'r awdurdodau lleol. Roedd 15 o'r awdurdodau wedi cynnal profion o fedrau'r rhan fwyaf o'r grwpiau blwyddyn yn ystod haf 2012, a hynny o Flwyddyn 2 neu Flwyddyn 3 i Flwyddyn 8 neu Flwyddyn 9. Roedd saith o'r awdurdodau wedi dewis llai o grwpiau i wneud y prawf. Roedd y rhain wedi canolbwyntio'n bennaf ar y disgyblion oedd ar ddechrau neu ar ddiwedd cyfnodau allweddol, ym Mlwyddyn 2 neu Flwyddyn 3, Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

Nid yw'r wybodaeth sy'n deillio o'r profion yn rhoi darlun cenedlaethol clir i ni gan nad yw'n bosibl cymharu'r setiau o ddata.

Mae gwahanol awdurdodau lleol wedi defnyddio gwahanol brofion darllen, ac wedi cynnal y profion yn ystod gwahanol gamau. Mae'n anodd, felly, dod i gasgliadau cyffredinol heblaw am ddweud y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r holl awdurdodau wedi gallu defnyddio'r un profion. Ond mae rhai pethau'n gyffredin i bob un o'r profion, fel yr adeg y cafodd y profion eu gwneud. Roedd disgyblion Blwyddyn 6 y mwyafrif o'r awdurdodau wedi gwneud y profion darllen yn ystod tymor yr haf 2012.

Mae'r wybodaeth a gawsom am y perfformiad wrth ddarllen yn awgrymu bod lefel sgorau darllen y disgyblion yn amrywio llawer gormod ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Bydd y disgyblion sydd wedi cael sgorau darllen o dan 85 yn y profion safonedig yn cael trafferth dilyn y cwricwlwm heb gymorth. Mae'r ganran o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd wedi cael sgorau o dan 85 yn y profion safonedig yn amrywio o 6% yn ardal un awdurdod i 28% mewn awdurdod arall. Mae natur safonedig y profion yn golygu bod disgwyl i 16% ar gyfartaledd o'r disgyblion gael sgôr o dan 85.

Rhoddodd tua hanner o'r awdurdodau lleol wybodaeth i ni oedd wedi'i seilio ar brofion darllen mewn Saesneg. Roedd y wybodaeth honno wedi'i rhannu yn ôl rhyw ac yn ôl hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch rhwng lefelau perfformio cymharol y bechgyn a'r merched y mae eu gallu darllen yn dda neu'n well yn amrywio o'r naill awdurdod i'r llall. Mae hynny'n arwydd o'r gwahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched yn yr asesiadau mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Yn y tri awdurdod lleol a roddodd wybodaeth i ni am brofion darllen mewn Cymraeg fel iaith gyntaf, mae llawer mwy o amrywio i'w weld rhwng lefel perfformio cymharol y merched a'r bechgyn, nag sydd i'w weld mewn Saesneg. Mae hyn unwaith eto'n arwydd o'r gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched sydd i'w weld ym maes Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r bwlch yn lefel perfformio'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion hynny sydd heb yr hawl, yn llawer mwy yn y profion darllen. Mae mwy o amrywio hefyd o'r naill awdurdod i'r llall.

Mae'r gwahanol awdurdodau lleol yn trosglwyddo'r sgorau darllen i'r ysgolion uwchradd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae sawl un o'r awdurdodau'n trosglwyddo'r wybodaeth drwy eu systemau gwybodaeth reoli electronig yn ystod tymor yr haf. Yn rhai o'r awdurdodau, mae'r clystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwneud eu trefniadau eu hunain i drosglwyddo'r wybodaeth. Mae dulliau'r ysgolion uwchradd o ddefnyddio'r wybodaeth i helpu'r disgyblion yn amrywio hefyd, ac mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn gwneud eu profion ategol eu hunain.

Nid yw'n bosibl crynhoi'r wybodaeth am ganlyniadau profion darllen presennol yr ysgolion a gawsom oddi wrth yr awdurdodau lleol i greu un set drefnus o ddata ar alluoedd darllen y disgyblion ar hyd a lled Cymru. O haf 2013 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd i bob grŵp blwyddyn, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Bydd gwneud hyn yn hwyluso'r dasg o lunio adroddiadau ar y sefyllfa ar hyd a lled y wlad. A dylai'r ysgolion fod yn gallu cymharu eu canlyniadau darllen a rhifedd â chanlyniadau ysgolion tebyg eraill.

Rhifedd

Mae datblygu medrau rhifedd yn golygu rhoi profiad i'r disgyblion o ddefnyddio mathemateg y tu allan i'r gwersi mathemateg. Mae'n ddyddiau cymharol gynnar yn y gwaith o gynllunio ar gyfer rhifedd ym mhob un o'r meysydd pwnc yn yr ysgolion. Dim ond ychydig iawn o'r ysgolion sydd wedi rhoi strategaeth drefnus ar waith i godi o gam i gam lefel yr her ym maes rhifedd drwy gydol pob un o'r cynnodau allweddol. Byddai strategaeth o'r fath yn golygu hefyd fod athrawon pob un o'r pynciau'n defnyddio'r un technegau i addysgu rhifedd.

Mae'r adroddiadau arolygu ar tua chwarter o'r ysgolion cynradd yn argymhell codi safonau mathemateg neu rifedd. Nid yw disgyblion yn yr ysgolion yma'n ddigon hyderus yn eu medrau rhif sylfaenol, fel rhannu a gweithio gyda ffracsiynau. Maen nhw hefyd yn amharod i gymhwyso'u medrau i ddatrys problemau naill ai ym maes mathemateg neu yng nghyd-destun pynciau eraill fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion cynradd hynny y mae eu darpariaeth ym maes rhifedd yn rhagorol, mae'r ysgol wedi cynllunio cyfleoedd sy'n dda ac yn llawn dychymyg i'r disgyblion gymhwyso a gwella'u medrau

ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae athrawon yr ysgolion yma'n addysgu medrau rhifedd yn systematig. Mae'r disgyblion yn cael digon o gyfle i gymhwyso'u medrau yn y pynciau eraill, a hynny mewn cyd-destunau ystyrlon ac ar lefel briodol o her. Ond mae'n ddyddiau cynnar yn y gwaith o gynllunio rhifedd yn tua chwarter o'r ysgolion cynradd, ac nid yw wedi codi'r safonau. Nid yw'r tasgau yn yr ysgolion yma'n cael eu cynllunio'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob disgybl.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion uwchradd hynny sy'n rhoi blaenoriaeth bendant i rifedd yng nghynlluniau datblygu'r ysgol, mae athrawon yr ysgol gyfan yn defnyddio dull cydlynol a chyson o addysgu rhifedd. Mae'r athrawon yn creu cyfleoedd diddorol a pherthnasol i'r disgyblion i ddefnyddio a gwella'u medrau. Mae cyfle i ddisgyblion yn eu gwersi hanes ddadansoddi a chymharu data ar nifer y bobl a gafodd eu clwyfo mewn gwahanol ryfeloedd, ac mae cyfle yn eu gwersi daearyddiaeth i ddisgyblion gymhwyso dulliau trigonometreg i amcangyfrif uchder gwahanol goed.

Ond mae gwaith cynllunio ar gyfer dilyniant tua hanner o'r ysgolion uwchradd yn wan. Er bod y mwyafrif o'r adrannau mathemateg yn

cynnig dewis da o brofiadau i'r disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd, nid yw'r disgyblion yn defnyddio digon o wahanol dechnegau rhifedd yn eu pynciau eraill. Ar y cyfan, mae'r gwaith yn golygu gwneud gwaith graff syml. Canlyniad hyn yw nad yw'r athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymarfer a gwella'r technegau maen nhw'n eu dysgu yn y gwersi mathemateg.

Mae llawer o'r ysgolion uwchradd yn defnyddio cymhwyster 'Cymhwyso Rhif' Sgiliau Hanfodol Cymru i olrhain cynnydd y disgyblion mewn rhifedd. Ond nid yw ennill y cymwysterau yma'n golygu'n anorfod fod y disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gyson ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae diffyg cydbwysedd i'w weld yn llawer o'r ysgolion o ran yr amser mae'r athrawon yn ei dreulio ar waith papur sy'n gysylltiedig â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a'u hamser yn gwella medrau'r dysgwyr a'u trosglwyddo i hybu'r dysgu yn y rhannau eraill o'r cwricwlwm.

Yn yr achosion lle mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn astudio'r cymwysterau yma fel rhan o Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru, nid yw lefel astudio'r cymhwyster bob amser yn briodol i'r dysgwyr unigol. Mae'r mwyafrif

o'r myfyrwyr yn astudio cymwysterau 'Cymhwyso Rhif' ar lefel 2, a phrin iawn yw'r rhai sy'n ennill y cymhwyster ar lefel 3. Mae hyn yn golygu nad yw'r myfyrwyr yn cael y cyfle i gymhwyso'u medrau rhifedd ar lefel sy'n ddigon uchel. Yn groes i hynny, mae llawer mwy o fyfyrwyr yn ennill y cymhwyster cyfatebol mewn Cyfathrebu, ar lefel 3.

I godi'r safonau mewn rhifedd dylai pob ysgol:

- roi systemau ar waith yn yr ysgol drwyddi draw i ddatblygu rhifedd y disgyblion o gam i gam ym mhob un o feysydd y cwricwlwm;
- cynllunio cyfleoedd cyson i'r disgyblion gymhwyso'u medrau mewn amryw o wahanol wersi a chyd-destunau;
- codi hyder a gwella medrau pob athro'n ddigon da i ddatblygu medrau rhifedd drwy gyfrwng eu pynciau; a
- gofalu bod athrawon pob pwnc yn defnyddio dull cyson o asesu ac olrhain cynnydd y disgyblion mewn rhifedd.

Hyfforddiant ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Mae ein harolygon o lythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 ac o'r Fframwaith Sgiliau yn dangos bod angen am hyfforddiant ysgol gyfan i gydlynu'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn rhoi blaenoriaeth i lythrennedd yn eu cynlluniau gwella, ychydig ohonyn nhw sydd â gweithgorau wedi'u sefydlu'n dda i gynllunio cyfleoedd mewn cynlluniau gwaith a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gryfhau medrau llythrennedd. Ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi gweithredu i helpu ysgolion i hyrwyddo arfer dda wrth ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd.

Mae trefniadau da gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, yn enwedig o ran gwella medrau llythrennedd y disgyblion. Ond yn rhyw un o bob tair ysgol, nid yw uwchreolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro effaith hyfforddiant. Nid yw rheolwyr yn mynd i'r afael ag anghysonderau mewn arfer rhwng dosbarthiadau yn yr un ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd anghyson, ac yn rhyw chwarter o'r ysgolion, nid yw safonau'r disgyblion ddim gwell na digonol.

Rhaglenni ymyrryd ar gyfer cyflawnwyr isel fu testun llawer o'r hyfforddiant llythrennedd yn yr ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach na hyfforddiant a datblygiad ysgol gyfan i'r rhan fwyaf o'r staff addasu'u harfer i gynnwys strategaethau llythrennedd i bob disgybl. Yn mwyafrif o'r ysgolion uwchradd, mae gormod o amrywio o ran galluoedd yr athrawon i gefnogi a datblygu darllen ac ysgrifennu yn eu pynciau. Y rheswm am hyn yn aml yw bod yr athrawon mewn pynciau heblaw am Saesneg ddim yn gwybod digon am y math o strategaethau llythrennedd y gallen nhw eu rhoi ar waith yn ddefnyddiol.

Nid yw hyfforddiant athrawon i ddatblygu rhifedd y disgyblion wedi'i ddatblygu gystal naill ai yn yr ysgolion cynradd neu'r ysgolion uwchradd. Mae'n ddyddiau cynnar ar y rhan fwyaf o ysgolion o ran eu dull o ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn o adrannau, er enghraifft, sy'n gweithio gyda'i gilydd i sefydlu sut fyddan nhw'n addysgu sut i ddefnyddio taenlenni yn nhechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gwyddoniaeth, neu waith graff yn mathemateg, hanes a daearyddiaeth.

Nid ydyn nhw'n cynllunio cwricwlwm sy'n datblygu medrau generig yn gynyddol ar draws pob pwnc. Felly dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae disgyblion yn elwa o effaith adrannau unigol yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i gyflawni'r un nodau.

Llythrennedd a rhifedd yn y darparwyr ôl-16

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn y sefydliadau addysg bellach yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'u llythrennedd. Mae medrau gan y rhan fwyaf ohonyn nhw mewn dealltwriaeth lythrennol ar y lefel sydd ei hangen arnyn nhw ar gyfer eu prif gwrs. Maen nhw'n gallu dod o hyd i wybodaeth mewn amrywiaeth o destunau a defnyddio medrau fel aroleuo'n dda. Ond nid yw llawer ohonyn nhw'n datblygu eu medrau'n ddigon da o ran llunio casgliadau ac ymresymu. Nid ydyn nhw'n gallu dadansoddi testunau'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau, ar lefel sy'n addas ar gyfer eu cwrs astudio. Mae lleiafrif ohonyn nhw'n datblygu eu sillafu yng nghyd-destun eu prif bwnc. Ond nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu medrau effeithlon yn ysgrifennu précis, yn crynhoi testun ac yn ysgrifennu adroddiadau.

Mae ychydig o sefydliadau addysg bellach yn gadael i'r dysgwyr ddilyn cymwysterau llythrennedd a rhifedd ar lefel y maen nhw eisoes wedi'i chyrraedd pan fyddan nhw'n dod i mewn. Mae hyn yn golygu bod rhai dysgwyr yn cymryd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel nad yw'n ei herio nhw a lefel nad yw'n adeiladu ar eu medrau llythrennedd a rhifedd presennol.

Mae llawer o ddysgwyr mewn dysgu yn y gwaith yn dechrau ar eu rhaglenni galwedigaethol gyda medrau llythrennedd a rhifedd isel iawn. Nid ydyn nhw bob amser yn cael digon o gymorth i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd i lefel a fyddai'n eu helpu nhw i lwyddo yn y gweithle. Yn rhy aml mae sefydliadau hyfforddi a darparwyr dysgu yn y gwaith yn methu rhoi sylw i lythrennedd a rhifedd. Nid yw lleiafrif o'r darparwyr yma'n gweld mai eu gwaith nhw yw datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Nid ydyn nhw'n mynd ati'n rheolaidd i asesu medrau'r dysgwyr ar ddechrau cwrs, ac nid ydyn nhw'n cynllunio'n ddigon da i wella medrau eu dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth yn cyflawni'u medrau Sgiliau Hanfodol Cymru,

ond mae llawer o ddysgwyr yn methu gwella'r medrau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y crefftau, y proffesiynau a'r gyrfaedd maen nhw wedi'u dewis. Serch hynny, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o ran datblygu amrywiaeth eang o fedrau yn darllen, ysgrifennu, llefaredd a rhifedd fel rhan o'u rhaglenni.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr, mewn sefydliadau addysg bellach a darpariaeth dysgu yn y gwaith yn rhoi blaenoriaeth uwch i lythrennedd yn hytrach na rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn y sector ôl-16 yn addysgu rhifedd fel pwnc ar ei ben ei hun. Mae gormod o ddarparwyr nad ydyn nhw'n addysgu rhifedd mewn cyd-destunau ymarferol. Maen nhw'n cynllunio'r addysgu i fodloni meini prawf cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru heb roi digon o ystyriaeth i'r medrau rhifedd y bydd eu hangen ar y dysgwr i'w helpu i ddeall ei brif gwrs astudio. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr bob amser yn cael dysgu'r medrau rhifedd penodol y mae eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu hastudiaethau galwedigaethol.

Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn y dosbarthiadau addysg sylfaenol i oedolion yn gwneud cynnydd o ran datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maen nhw'n dysgu medrau newydd priodol ac maen nhw'n gallu rhoi enghreifftiau cadarnhaol o sut maen nhw'n mynd ati i drosglwyddo'r medrau hynny i leoliadau cymdeithasol, teulu a gwaith. Enghraifft o hyn yw defnyddio'u medrau llythrennedd i ddarparu cymorth gweinyddol i glwb pêl-droed lleol. Serch hynny, mae ychydig o ddarparwyr addysg sylfaenol i oedolion yn llwyddo i gyflawni canrannau uchel o lwyddiant yn ôl pob golwg, trwy adael i ddysgwyr gymryd cymwysterau ar lefelau sydd ymhell islaw eu gallu. Mae hyn yn golygu nad yw ychydig o ddysgwyr yn cael eu herio'n ddigon da. Nid ydyn nhw'n gwneud y cynnydd y dylen nhw fod yn ei wneud, ac maen nhw'n gadael y darpariaeth dysgu sylfaenol i oedolion gyda thystysgrif nad oes fawr o ddefnydd iddi. Er enghraifft, mae ychydig o ddysgwyr sydd eisoes wedi llwyddo i ennill TGAU Saesneg yn gadael y darpariaeth addysg sylfaenol i oedolion gyda chymhwyster llythrennedd ar lefel mynediad 2.

Asesiadau cychwynnol o lefelau llythrennedd a rhifedd mewn sefydliadau addysg bellach

Y llynedd fe gynhalion ni arolwg o sefydliadau addysg bellach i ganfod pa wybodaeth maen nhw'n ei chasglu am fedrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr ar ddechrau'u cyrsiau. Fe wnaeth rhyw hanner y sefydliadau ymateb i'n cais am wybodaeth. Eleni, fe gynhalion ni rannau o'r arolwg eto, ac fe wnaeth pob sefydliad bron ymateb.

Fe ganfuon ni eto eleni fod bron pob dysgwr wedi cael asesiad cychwynnol o lythrennedd a rhifedd ar ddechrau'u cwrs. Mae sefydliadau addysg bellach yn defnyddio tri phrif offeryn asesu sy'n rhoi lefel medrau llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr ar raddfa chwe phwynt. Mae pob un ohonyn nhw'n cynhyrchu canlyniadau tebyg o ran lefelau medrau.

Mae data eleni'n dangos gwelliant bach yn lefelau medrau dysgwyr pan fyddan nhw'n dod i mewn. Mae gan ryw un o bob tri dysgwr fedrau llythrennedd ar lefel 2, ac mae gan ddwy ran o dair fedrau llythrennedd ar lefel 1 neu is. Mae lefelau medrau rhifedd yn parhau'n is o lawer na'r lefelau mewn llythrennedd. Mae gan tua thri chwarter y dysgwyr fedrau rhifedd ar lefel 1 neu is.

Mae cyfanswm nifer y dysgwyr sydd â medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel 1 neu is yn dal yn rhy uchel. Mae'r dysgwyr yma'n llai tebygol o fod â'r medrau sydd eu hangen arnyn nhw i gymhwyso llythrennedd a rhifedd yn annibynnol yn eu gwaith, yn eu dysgu neu yn eu bywydau bob dydd. Maen

nhw'n fwy tebygol o fod angen cymorth mewn tasgau fel llenwi ffurflenni cais am swyddi. Fe allai'r ffaith nad oes ganddyn nhw fedrau annibynnol eu hatal nhw rhag cael swyddi neu rhag llwyddo yn y crefftau, y proffesiynau neu'r gyrfaedd maen nhw wedi'u dewis.

Mae sefydliadau addysg bellach yn parhau i gynnig dewis helaeth o raglenni cymorth. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae nifer y dysgwyr sy'n cael cynnig cymorth y tu allan i'r dosbarth wedi bod yn uchel. Hefyd, mae cyfrannau uchel wedi bod o ddysgwyr sydd wedi tynnu allan o gael cymorth cyn diwedd y tymor cyntaf. Mae hyn wedi golygu nad yw pob dysgwr wedi cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae arolwg eleni'n dangos fod sefydliadau'n targedu'u cymorth yn fwy effeithlon at ddysgwyr y maen nhw wedi'u hadnabod fel dysgwyr â medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel isel, neu ddysgwyr ag anabledau ac anawsterau dysgu. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn cynnig cymorth sy'n fwy derbyniol i'r dysgwyr unigol weithiau, fel rhoi 'cyfeillion' cyfoed iddyn nhw weithio gyda nhw. Mae cymorth mewn grwpiau bach, yn y dosbarth gyda chynorthwydd addysgu, yn parhau'n ddewis poblogaidd arall gyda dysgwyr. Mae'r data y casglon ni'n dangos eleni fod mwy o'r rheini sydd wedi cael cynnig cymorth y tu allan i'r dosbarth gydag athrawon arbenigol yn manteisio ar y cynnig. Mae'r nifer sy'n aros mewn cymorth

y tu allan i'r dosbarth am fwy na thymor wedi gwella eleni i bron i ddwbl y nifer y llynedd. Mae hyn yn awgrymu fod y dysgwyr sy'n cael eu hadnabod i gael y cymorth hwn yn fwy addas i'r math yma o ddarpariaeth. Mae ganddyn nhw fwy o gymhelliant, maen nhw'n teimlo bod y cymorth yn fuddiol.

Serch hynny, nid yw sefydliadau addysg bellach yn mynd ati i fesur effaith eu rhaglenni cymorth ar safonau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Nid ydyn nhw'n arfarnu pa mor effeithiol yw'r mentrau cymorth amrywiol maen nhw'n eu cynnig.

Llythrennedd a rhifedd mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Yn ein harolygiad o hyfforddiant cychwynnol i athrawon eleni, fe ganfuon ni fod ychydig o hyfforddeion yn darparu modelau iaith da iawn i'r disgyblion maen nhw'n eu haddysgu. Maen nhw'n defnyddio termau cywir iawn yn eu haddysgu, ac yn ehangu geirfa'r disgyblion. Ond nid oes medrau llythrennedd digon sicr gan leiafrif o'r hyfforddeion. Maen nhw'n gwneud camgymeriadau atalnodi a sillafu yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw ychydig iawn ohonyn nhw'n modelu iaith lafar yn gywir chwaith.

Mae hyfforddiant y sector cynradd yn talu sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yr hyfforddeion, a'r rhan bwysig maen nhw'n ei chwarae yn nysgu'r plant. Er hynny, mae'r sylw sy'n cael ei roi i lythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hyfforddiant y sector uwchradd yn amrywio gormod rhwng pynciau. Mae darpariaeth arbennig o dda i wella llythrennedd yr hyfforddeion ar raglen y sector cynradd i ôl-raddedigion, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r hyfforddeion. Ond nid yw'r dulliau yma wedi'u datblygu gystal ar draws rhaglenni eraill.


Tlodi ac anfantais yn yr ysgolion

Tlodi yw sail llawer o'r heriau mwyaf difrifol sy'n wynebu ein cymdeithas heddiw. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu dal mewn tlodi yn agored i niwed mewn llawer o ffyrdd. Mae mwy o berygl y byddan nhw'n gwneud yn wael yn yr ysgol. Maen nhw'n fwy tebygol o fod yn absennol, ymddwyn yn wael, cael eu gwahardd a chael eu haddysgu yn rhywle heblaw am mewn ysgol. Efallai na fyddan nhw'n cael cyfle i gael yr un adnoddau, fel cyfrifiadur neu fan tawel i weithio, sydd ar gael i'w cyfoedion. Efallai na fydd eu rhieni'n gallu'u helpu gyda'u gwaith ysgol am fod canfyddiad a phrofiad y rhieni eu hunain o'r ysgol yn negyddol. Fel oedolion, maen nhw'n fwy tebygol o fod ar gyflog isel, o fod yn ddi-waith, neu o ddiodef iechyd salach. Os nad yw ysgolion yn mynd i'r afael â hyn yn ddigon cynnar ac yn bendant, gall ymddieithrio o ddysgu fynd yn broses gylchol: gall tangyflawniad arwain at bresenoldeb gwael, anawsterau ymddygiad neu waharddiad, ac mae hynny yn ei dro yn arwain at gyrhaeddiad gwael ac ymddieithrio pellach. Nid yw effaith tlodi'n anochel, serch hynny, ac mae'r adran hon yn disgrifio sut mae'r ysgolion mwyaf effeithiol wedi torri'r cylch anfantais yma.

Tlodi a chyrhaeddiad

Mae tystiolaeth glir o'r cysylltiad ystadegol rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Yn gyffredinol, mae disgyblion o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o gyrraedd lefelau is na disgyblion eraill. Ym mhob cyfnod allweddol yng Nghymru, mae'r disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim¹ yn perfformio'n llawer gwaeth na'r rhai heb yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad. Mae'r bwlch rhwng perfformiad plant o gefndiroedd mwy cyfoethog a thlotach yn mynd yn fwy yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae perfformiad y grwpiau o ddisgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim (PYDd) a'r disgyblion heb hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwella bob blwyddyn, ond mae'r bwlch yn dal yn rhy fawr. Mae'r bwlch yn mynd yn fwy eto yn yr ysgolion uwchradd, fel mae Ffigur 1.1 yn dangos.

Ffigur 1.1: Bwlch yng nghanrannau disgyblion PYDd a'r disgyblion nad ydyn nhw'n hawlio PYDd sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod rhwng 2009 a 2011



¹ Mae prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu i ddisgyblion mewn teuluoedd sydd ar incwm isel, ac mae'r lefelau'n rhoi mesur o dlodi sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin.

Tlodi a phresenoldeb

Mae'r tabl canlynol yn awgrymu bod perthynas rhwng cyfran y disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim a chyfradd absenoliaeth. Mae'n dangos yn gyffredinol fod cyfraddau absenoliaeth uwch gan yr ysgolion sydd â chyfran uwch o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Ffigur 1.2: Absenoliaeth gan ddisgyblion o oed ysgol gorfodol ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir, yn ôl y gyfran sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, 2011-2012²(a)

Cyfran â hawl i gael prydau ysgol am ddim	Canran y sesiynau ysgol a gollwyd		
	Pob absenoldeb	Absenoldebau heb eu hawdurdodi	Nifer yr ysgolion
10% neu lai	6.3	0.6	50
15% neu lai, ond dros 10%	7.2	0.9	58
20% neu lai, ond dros 15%	8.0	1.1	34
30% neu lai, ond dros 20%	8.9	1.9	52
dros 30%	10.7	3.6	27
Pob ysgol a gynhelir	7.9	1.4	221

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cymru
(a) Mae'r data prydau ysgol am ddim wedi'i seilio ar gyfartaledd tair blynedd.

² SDR159/2012 – Absenoliaeth o Ysgolion Uwchradd, 2011/12, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120925/?skip=1&lang=cy>

Tlodi ac addysg heblaw addysg yn yr ysgol

Mae cysylltiad hefyd rhwng tlodi ac anawsterau ymddygiad. Mae'r tabl isod yn dangos bod cyfran anghyfartal o ddisgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn cael eu haddysg heblaw yn yr ysgolion (bron i ddwy ran o dair, o gymharu ag un o bob pump pe baen nhw'n cael eu cynrychioli'n gyfartal).

Ffigur 1.3: Disgyblion sy'n cael eu prif addysg heblaw addysg yn yr ysgol, yn ôl hawl i gael prydau ysgol am ddim³

Hawl i brydau ysgol am ddim	2009/10 (a)		2010/11		2011/12	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Hawl i gael PYDd	646	65%	689	66%	711	69%
Heb hawl i gael PYDd	349	35%	354	34%	315	31%
Cyfanswm	995		1,043		1,026	


Ffynhonnell: Cyfrifiad Disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Llywodraeth Cymru

(a) Fe wnaeth dau awdurdod lleol fethu darparu data ar gyfer 2009-2010. Darparodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ddata yn y blynyddoedd dilynol.

³ SDR 140/2012 - Disgyblion sy'n Derbydd Addysg Heblaw yn yr Ysgol, 2011/12, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120829/?skip=1&lang=cy>

Mae llawer o resymau pam nad yw disgyblion yn cael eu haddysg yn yr ysgol. Mewn llawer o achosion, y rheswm am hyn yw eu bod nhw wedi cael eu gwahardd o ysgol, a hynny oherwydd eu hymddygiad yn aml. Mae Ffigur 1.4 yn dangos, pan fo disgyblion yn cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgolion, bod y gyfran uchaf ohonyn nhw (bron i 40%) yn cael eu haddysgu mewn uned cyfeirio disgyblion.

Ffigur 1.4: Cofrestriadau disgyblion y rhai sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol, yn ôl darpariaeth addysgol, 2011-2012⁴ (ffigureau Cymru gyfan)



⁴ SDR 140/2012 - Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol, 2011/12, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120829/?skip=1&lang=cy>

Dylai unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) gael eu defnyddio fel canolfannau arhosiad byr sy'n darparu addysg i ddisgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion heriol, gyda'r nod o'u hail-integreiddio yn ôl yn ysgolion y brif ffrwd. Ond mae llwyddiant UCDau o ran ailintegreiddio disgyblion neu o ran cynnig cwricwlwm eang yn amrywio'n annerbyniol, hyd yn oed rhwng safleoedd yr un UCD. Roedd disgyblion ar un safle UCD yr arolygon ni'n ddiweddar yn mynychu'n rhan-amser yn unig, ac nid oedden nhw'n ennill cymwysterau defnyddiol; ond ar safle arall yr un UCD, mae'r disgyblion yn cael rhaglen amser llawn ac yn cael cynnig cwricwlwm amrywiol, ac maen nhw'n ennill cymwysterau priodol.

Mewn llawer o UCDau, mae'r disgyblion yn gwella'u medrau darllen, sillafu a'u medrau cymdeithasol, ac yn ennill amrywiaeth o gymwysterau addas. Mae'r disgyblion yn dysgu i reoli'u hymddygiad, ac mae llawer ohonyn nhw, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, yn mynd yn ôl i'w hysgol yn llwyddiannus. Mewn lleiafrif o'r UCDau, serch hynny, nid yw'r disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da. Nid ydyn nhw'n cyfrannu'n gyson at benderfyniadau am fywyd a gwaith yr UCDau, ac maen nhw'n aros yn yr UCD am gyfnodau hir.

Mae'r staff addysgu yn yr UCDau yn gwneud gwaith anodd gyda disgyblion y mae eu hymddygiad nhw'n gallu bod yn heriol. Mae llawer ohonyn nhw'n gwneud y gwaith hwnnw'n dda. Yn gyffredinol mae polisïau priodol gan yr UCDau ar waith i'w helpu nhw yn eu gwaith gyda disgyblion sy'n agored i niwed. Eleni, fe wnaethon ni ymweld â nifer o UCDau


i arfarnu eu strategaethau rheoli ymddygiad, a sut maen nhw'n mynd ati i ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol ac ataliad. Mae chwech o'r saith UCD yr ymwelon ni â nhw wedi mabwysiadu polisïau addas i reoli ymddygiad. Mae'r staff yn yr UCD yma wedi'u hyfforddi'n dda, ac maen nhw'n hyderus yn defnyddio'r technegau yma i ddatrys sefyllfaoedd a allai greu gwrthdaro.

Yn yr arfer orau, mae staff UCD yn addysgu'r disgyblion sut i reoli'u hymddygiad eu hunain, ac maen nhw'n defnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad y maen nhw wedi cytuno arnyn nhw, ac asesiadau risg disgyblion unigol i'w helpu. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw systemau cynllunio disgyblion yn mynd i'r afael yn ddigon da â rheoli ymddygiad anodd gyda disgyblion unigol. Yn aml, nid ydyn nhw'n defnyddio asesiadau risg disgyblion unigol nac asesiadau risg oddi ar y safle'n ddigon da i ddiogelu disgyblion a staff yn ddigonol. Nid yw'r UCDau yn gwneud digon i fonitro effaith eu harfer o ddydd i ddydd ar les ac ymddygiad y disgyblion. Nid yw'r dulliau o gadw cofnodion yn ddigon manwl bob amser i alluogi gwneud dadansoddiadau a fyddai'n helpu'r staff i arfarnu pa mor dda mae eu strategaethau a'u harferion yn gweithio.

Torri cylch tlodi ac anfantais

Er bod Ffigur 1.5 yn dangos bod cysylltiadau cryf rhwng tlodi a pherfformiad pob ysgol uwchradd yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 4 (o ran cyrraedd y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg), mae hefyd yn dangos bod ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg yn perfformio'n wahanol iawn, ac mae rhai ysgolion yn llwyddo er gwaetha'r ffaith eu bod yn wynebu amgylchiadau heriol.

Ffigur 1.5: Canran y dysgwyr 15 oed sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg / Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn 2012



Beth mae ysgolion effeithiol sydd mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud?

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd ni adroddiad arolwg ('Arfer effeithiol o ran mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion'). Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o astudiaethau achos o arfer orau o ysgolion sydd wedi gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais mewn amgylchiadau heriol. Mae perfformiad yr ysgolion uwchradd sydd ag astudiaethau achos yn cael ei ddangos gan y sgwariau coch yn ffigur 1.5 uchod. Mae'r llinell ddu yn dangos beth fyddai perfformiad 'disgwyliedig' ysgol gan ystyried anfantais (y lefel prydau ysgol am ddim ar gyfer yr ysgol). Mae'r ysgolion sydd uwchlaw'r llinell yma'n perfformio'n well na'r disgwyl. Mae'r ysgolion yma ag astudiaethau achos yn perfformio'n dda yn erbyn dangosydd perfformiad ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, a mathemateg.

Mae'r ysgolion yma'n gwneud beth mae pob ysgol lwyddiannus yn ei wneud i sicrhau cyflawniad y dysgwyr, ond maen nhw hefyd yn creu ethos cadarnhaol tu hwnt sy'n golygu bod dysgwyr dan anfantais yn gallu cyflawni'n dda. Mae'r ysgolion yma'n defnyddio

strategaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i frwydro yn erbyn y ffactorau sy'n rhoi dysgwyr dan anfantais. Mae'r astudiaethau achos yn disgrifio rhai camau gweithredu ymarferol y mae'r ysgolion wedi'u cymryd.

Yn benodol, mae ysgolion effeithiol sydd mewn amgylchiadau heriol yn mabwysiadu dull strategol ar draws yr ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddyn nhw ddull strwythuredig, cydlynol sy'n cynnwys ffocws o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Maen nhw hefyd yn datblygu arbenigedd y staff er mwyn diwallu anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddyn nhw ddiwylliant o rannu arfer orau a chynnig cyfleoedd i athrawon arsylwi'i gilydd. Hefyd, mae ganddyn nhw dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Camau gweithredu ymarferol

Dolenni astudiaethau achos

Defnyddio data i olrhain cynnydd

Ysgol Gyfun Cwrt Sart
Ysgol Gynradd Llwynypia

Gwella medrau llythrennedd a rhifedd

Ysgol Gyfun Sandfields
Ysgol Melyd

Datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol

Ysgol Bryn Elian

Gwella presenoldeb ac ymddygiad

Ysgol Gyfun Cefn Hengoed

Teilwra'r cwricwlwm

Ysgol Gyfun Cwrt Sart

Gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi

Ysgol Gynradd y Castell
Ysgol Gynradd St Woolos

Gwrando ar ddysgwyr

Ysgol Gyfun Cwrt Sart
Ysgol Gyfun Cefn Hengoed

Cynnwys rhieni a gofalwyr

Ysgol Uwchradd Cathays
Ysgol Mount Stuart

Datblygiad staff

Mae diffyg ymrwymiad staff i wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn un o'r prif rwystrau i'w goresgyn wrth fynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais. Mae angen hyfforddiant a datblygiad staff i fynd i'r afael â'r mater yma. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion llwyddiannus yn buddsoddi llawer iawn i ddatblygu medrau arweinwyr, athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr er mwyn gwella'r deilliannau i ddysgwyr dan anfantais.

Mae gan lawer o'r ysgolion llwyddiannus ddiwylliant cryf o ran arfer dda, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'r ysgolion yma'n cynnig digonedd o gyfleoedd i athrawon arsylwi'i gilydd, ac i rannu dulliau o gynllunio ar draws yr ysgol. Maen nhw wedi treulio amser yn datblygu dulliau ysgol gyfan mewn meysydd fel addysgu medrau llythrennedd, hyrwyddo lles emosiynol a gwella cyrhaeddiad bechgyn. Maen nhw hefyd wedi adnabod cyfleoedd hyfforddi i'r staff ddatblygu medrau arbenigol, fel medrau mewn therapi chwarae neu reoli dicter.

Mae bron pob un o'r ysgolion llwyddiannus yn defnyddio dulliau rheoli perfformiad i wella safonau a lles eu dysgwyr dan anfantais. Yn yr ysgolion yma, mae gan bob aelod o staff dargedau gwella penodol y mae modd eu mesur, ac mae'r targedau yma'n gysylltiedig â tharged yr ysgol i wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais. Mae hyn yn gwneud pob aelod o staff yn atebol am wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Targedau anfantais

Nid yw'r bwch tlodi wedi cau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf cyllid grant ychwanegol a mentrau fel RAISE⁵. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer cynorthwyo disgyblion dan anfantais yn cael ei ddefnyddio'n aml ar wella cyrhaeddiad yn fwy cyffredinol (hybu medrau llythrennedd disgyblion ar gyfer yr holl ddisgyblion hynny sydd o dan lefel medrau benodol ac ati), yn hytrach na'i ddefnyddio ar fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion dan anfantais (yn ddiwylliantol, yn gymdeithasol, yn ariannol ac ati) a chanolbwyntio ar y materion penodol yma ar gyfer disgyblion sy'n cael pryddau ysgol am ddim. Nid yw llawer o ysgolion yn trin y grantiau yma fel elfennau ar wahân i elfennau eraill o'u cyllid. Maen nhw'n eu trin fel ychwanegiad at ffrydiau arian arferol. Felly nid y disgyblion hynny o gefndiroedd tlotach yw'r disgyblion sy'n elwa'n uniongyrchol o'r cyllid ychwanegol yma bob tro. Y ffaith nad yw llawer o ysgolion yn gwneud digon i fonitro cynnydd disgyblion o gefndiroedd tlotach sydd i gyfrif am hyn yn aml, ac nid oes unrhyw feincnodau cenedlaethol a thargedau cenedlaethol ar gyfer deilliannau i ddisgyblion dan anfantais.

⁵ Roedd y Rhaglen RHAGORI, ('Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion' yng Nghymru), yn rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru o 2006-2009 a oedd yn darparu grantiau i ysgolion ag 20% neu fwy o'r disgyblion yn hawlio pryddau ysgol am ddim er mwyn targedu disgyblion dan anfantais a chodi'u lefelau perfformiad.

Ysgolion bro

Mae bron pob ysgol yn gweld ei hun fel ysgol fro. Ond nid yw'r un ddealltwriaeth gyffredin gan ysgolion o'r hyn maen ei olygu i fod yn ysgol fro. Mae ychydig o ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais wedi adnabod heriau yn eu cymuned leol. Yn sgil hyn maen nhw wedi mynd ati i gryfhau cysylltiadau cymunedol er mwyn, er enghraifft, codi cyfraddau presenoldeb, gwella ymddygiad, a chodi lefel cymorth rhieni.

Er bod dysgwyr yn cael cynnig amrywiaeth o ddysgu y tu allan i oriau mewn llawer o ysgolion, dim ond yr ychydig enghreifftiau gorau sy'n cynnig gweithgareddau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio'n ofalus i gynyddu hyder, cymhelliant a hunan-barch y dysgwyr. Lle mae'r ysgolion wedi cael yr effaith fwyaf ar wella cyflawniad y dysgwyr, mae'r staff yn mynd ati i gynllunio dysgu y tu allan i oriau er mwyn cyfateb i anghenion y dysgwyr, ac i gyd-fynd â'r cwricwlwm. Er bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gweithio gydag amrediad o asiantaethau, nid yw arweinwyr yr ysgolion yn cydlynu gwaith aml-asiantaeth yn ddigon systematig i sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol ac amserol. Mae'r ychydig ysgolion sy'n cymryd rhan yn fwyaf effeithiol mewn gaith aml-asiantaeth wedi sefydlu protocolau a phrosesau ar gyfer y gwaith yma, gan gynnwys sefydlu paneli aml-asiantaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dweud mai cael rhieni i gymryd rhan yw'r her fwyaf o ran mynd i'r afael â thangyflawniad dysgwyr dan anfantais. Mae llawer o ysgolion, yn enwedig yr ysgolion cynradd, yn ymwybodol iawn o'r amrywiaeth o broblemau sy'n wynebu teuluoedd eu dysgwyr, ac mae ychydig o ysgolion yn mynd ati'n strategol i weithio gyda rhieni er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Ond nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn defnyddio amrywiaeth ddigon eang o strategaethau i gael rhieni i gymryd rhan.

Dolenni i adroddiadau Estyn ar dlodi ac anfantais

I gael rhagor o wybodaeth am adroddiadau blaenorol ar dlodi ac anfantais, neu ar ddefnydd ac effaith cyllid RHAGORI mewn ysgolion, cliciwch ar y dolenni yma:

Arfer effeithiol o ran mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012

Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion, 2012

Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011

Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, 2010

Effaith RHAGORI 2008-2009: adroddiad ar drydedd blwyddyn y rhaglen, 2009

Effaith cyllid RHAGORI, adroddiad interim ar ôl 18 mis, 2008

Effaith cyllid RHAGORI, adroddiad interim, 2007

Y Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen, sydd ar gyfer plant rhwng tair a saith oed, wedi'i gyflwyno'n raddol i ysgolion a lleoliadau er 2004. Ar ôl rhoi'r cyfnod sylfaen ar brawf yn y lle cyntaf, cafodd y cwricwlwm newydd ei gyflwyno fesul dipyn i bob plentyn o dan bump oed ym mis Medi 2009. Yn 2010, cafodd y cyfnod ei ymestyn i blant pump i chwe blwydd oed, ac yn haf 2012, fe wnaeth y garfan lawn gyntaf o blant gyrraedd diwedd y Cyfnod.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys llawer o nodweddion arwyddocaol. Mae'n cynnwys:

- cymarebau uwch o ymarferwyr i blant;
- mwy o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored;
- mwy o ymchwilio ac archwilio ymarferol i'r byd o amgylch plant, fel eu bod nhw'n gallu gweld sut mae pethau'n gweithio a dod o hyd i ffyrdd i ddatrys problemau;
- dysgu mwy trwy brofiadau er mwyn datblygu medrau meddwl, gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, yn ogystal â medrau rhifedd; a
- mwy o ddewisiadau i blant mewn dysgu ymarferol, gan gynnwys ymyrraeth bwrpasol a phersonol gan yr ymarferwyr.

⁶ Y chwe maes dysgu yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae'r cwricwlwm wedi'i lunio ar sail y saith⁶ prif faes dysgu, er mwyn meithrin datblygiad a lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol plentyn. Mae angen cynnig pob maes mewn ffordd sy'n briodol i allu, oedran a chyfnod datblygu plentyn.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol o'n harolygiadau a'n harolygon yn awgrymu bod y Cyfnod Sylfaen yn llwyddo mewn llawer ffordd. Mae'n amlwg fod mwyafrif helaeth y plant iau o'r oed yma'n mwynhau'r gweithgareddau mwy creadigol a chyffrous sy'n cael eu cynnig iddyn nhw bellach. Mae'n amlwg hefyd fod hyn wedi arwain at welliannau i'w lles, eu hymddygiad a'u datblygiad corfforol. Mae dulliau dysgu gweithgar yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn helpu plant i ddatblygu'n fwy a mwy annibynnol a hyderus.

O'r dechrau'n deg, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr (athrawon a staff cymorth) a rhieni wedi dangos cefnogaeth aruthrol i'r dull newydd o addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yn gynnar, yn sgil y pwyslais newydd ar ddysgu yn yr awyr agored aeth arweinwyr a staff ati i archwilio'u darpariaeth awyr agored. Yn y rhan fwyaf o achosion, pan aeth yr ymarferwyr ati i wneud hyn, fe welon nhw y byddai angen iddyn nhw greu mwy o gyfleoedd yn yr awyr agored os oedd y plant i gael amrywiaeth o brofiadau uniongyrchol go iawn o'r byd naturiol a meysydd archwilio newydd a chyffrous. Dros amser, aeth staff ysgolion a lleoliadau, a'r rhieni weithiau, ati i

weithio i drawsnewid ac ymestyn y manau a oedd ar gael iddyn nhw yn yr awyr agored, er mwyn eu gwneud nhw'n ardaloedd dysgu mwy dynamig, hyblyg ac amlbwrpas. Aeth yr ymarferwyr gorau ati i siarad â'r plant hefyd, a siarad â'i gilydd, ynghylch pa fathau o weithgareddau roedden nhw'n mynd i'w cynllunio, er mwyn gwneud cymaint o ddefnydd ag y gallen nhw o'r posibiladau a oedd ar gael. Yn un lleoliad, fe wnaeth y staff gynllunio ffeil gynhwysfawr 'Mathemateg a Dysgu yn yr Awyr Agored' a oedd yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer pwysu, didoli a chymharu llysiâu o'r ardd roedden nhw wedi'i chreu. Roedd yn cynnwys manylion am helfeydd siapiau a helfeydd patrymau, gan ddefnyddio blodau a rhisgl, a chyfres o weithgareddau ymarferol i ddatrys problemau.

Ers eu hadeiladu, mae'r manau awyr agored yma wedi cael eu defnyddio i ddatblygu a manteisio'n llawn ar synnwyr chwilfrydedd naturiol y plant a'u dyhead i archwilio, gan ddefnyddio'u synhwyrâu. O ganlyniad, mae dysgu wedi dod yn fwy o hwyl i'r plant iau, ac maen nhw'n dangos lefelau uchel o gymhelliant a dyfalbarhad.

Mae cynnydd wedi bod hefyd yn y lefelau y mae rhieni a'r gymuned wedi cymryd rhan, lle mae rhieni wedi helpu i glirio ac ailgynllunio safleoedd. Maen nhw'n dal yn weithgar yn cynnal a chadw'r safleoedd yma, ac yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant.

Darpariaeth

Yn ein hysgolion a'n lleoliadau gorau, mae'r ymarferwyr yn deall ac yn cymhwysu egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen, tra'n rhoi ffocws cadarn hefyd ar wella safonau llythrennedd a rhifedd. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda ac mae diben clir iddyn nhw. Hefyd, mae eu cynnwys a'r lefel cymorth yn cyfateb i angen y plant. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau'n taro'r cydbwysedd cywir, hynny yw, y cydbwysedd rhwng gweithgareddau'n cael eu harwain gan y plentyn a gweithgareddau'n cael eu harwain gan yr athro. Mae ganddyn nhw gydbwysedd hefyd rhwng strwythur a rhyddid i ddewis, yn dilyn rhywfaint o orddibynnu ar chwarae a gweithgareddau'n cael eu harwain gan y plentyn yn gynnar yn y peilot. Er mwyn atgyfnerthu hyn, mae yna hyblygrwydd i ddarparu yn ôl 'cyfnod nid oed', ac mae'r medrau sy'n cael eu defnyddio yn gysylltiedig â pha mor berthnasol maen nhw i'r gweithgareddau.

Yn gyffredinol, mae llawer o ysgolion yng Nghymru'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen trwy garwsél o weithgareddau sy'n mynd ymlaen yn barhaus. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau, mae strategaethau clir i ymestyn y dysgu drwy gymorth oedolion neu ymyrraeth. Dim ond mewn nifer fach o ddarparwyr yr arsylwon ni eleni y mae'r gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n wael. Hefyd, mae yna sefyllfaoedd lle nad yw'r plant yn gwneud fawr o gynnydd, er eu bod nhw'n edrych yn brysur, am eu bod yn aml yn ailadrodd yr un gweithgareddau heb ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r gyfran (lleiafrif) o ysgolion a lleoliadau yn llai eleni nag o'r blaen lle nad yw'r plant yn gwneud digon o gynnydd oherwydd diffyg cydbwysedd rhwng gweithgareddau'n cael eu harwain gan y plentyn a gweithgareddau'n cael eu harwain gan yr ymarferydd.

Asesu

Nid oes proffil gwaelodlin cenedlaethol wedi cael ei ddefnyddio i athrawon asesu plant pan fyddan nhw'n dod i mewn i'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn golygu bod cryn amrywio wedi bod o ran y ffordd mae ymarferwyr yn adnabod ac yn olrhain cyflawniad. Mae'r mwyafrif o'r ymarferwyr yn mynd ati'n ofalus i gofnodi cynnydd plant unigol, ac maen nhw'n defnyddio'r hyn maen nhw'n ei weld ac yn ei gofnodi i gynllunio rhagor o weithgareddau. Ond weithiau dim ond disgrifio beth mae'r plant yn ei wneud yn hytrach na nodi'r lefelau medrau maen nhw wedi'u cyflawni mae'r mae'r cofnodion cynnydd yn ei wneud. Weithiau, oherwydd bod ansicrwydd ynghylch beth ddylid ei asesu, mae'r athrawon yn cymryd cyfnodau hir o amser yn y dosbarth i gofnodi asesiadau manwl o bob plentyn, gan adael i'r cynorthwyrwyr cymorth dysgu gyflwyno'r cwricwlwm yn ystod y cyfnodau hynny.

Mae ysgolion yn datblygu arferion asesu sy'n cynnwys y plant yn fwy uniongyrchol yn yr 'asesu ar gyfer dysgu', ond nid yw'r dull yma wedi'i ddatblygu digon eto mewn llawer o ysgolion.

Mae ymarferwyr yn tueddu gwneud llai o asesu o ddysgu'r plant yn yr awyr agored na'u dysgu dan do – mae hyn yn golygu nad ydyn nhw bob amser yn olrhain sut mae'r plant yn datblygu rhai o'u medrau.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gofnodi cynnydd y plant Ac i ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer cynllunio. Mae rhai enghreifftiau'n cael eu rhoi isod.

Defnyddio byrddau arddangos

Mewn ysgol gynradd fach, mae dau fwrdd arddangos yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod pob un o'r ymarferwyr yn chwarae rhan yn weithredol yn asesu dysgu'r plant. Mae un bwrdd wedi'i labelu fel y bwrdd cyflawniadau: "beth mae'r plentyn yn gallu'i wneud?" tra bod yr ail fwrdd yn cynnwys beth mae angen i'r plentyn wneud i ddatblygu, ac mae'n dwyn y label "mae angen i mi...". Mae'r ymarferwyr yn defnyddio labeli gludiog i gofnodi datblygiad y plant a'r ffordd ymlaen, ac maen nhw'n gosod y rhain ar y byrddau perthnasol. Mae'r wybodaeth yma'n cael ei chasglu'n ddyddiol a'i thrafod gan bob un o'r ymarferwyr mewn cyfarfodydd byr ar ddechrau pob diwrnod. Mae nodiadau byr yn cael eu gwneud o'r prif bwyntiau o'r cyfarfodydd yma ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio i drefnu gwaith yr ymarferwyr yn ystod y dydd. Mae cerrig milltir allweddol yng nghynnydd y plant yn cael eu nodi hefyd yn ystod y cyfarfodydd yma. Nid yw'r nodiadau gludiog yn cael eu cadw, ond yn cael eu hanfon adref gyda'r plant.

Defnyddio labeli gludiog

Mae defnydd da yn cael ei wneud o dechnoleg gwybodaeth mewn ysgol gynradd o faint canolig i gynorthwyo'r ymarferwyr i gofnodi cynnydd y plant. Mae bwriadau dysgu ar gyfer gweithgareddau'n cael eu harwain gan oedolion yn cael eu hargraffu ar labeli gludiog. Wrth i'r plant gyflawni'r bwriad dysgu, mae'r label yn cael ei osod ym mhorthffolios plant unigol, ac mae'r dyddiad yn cael ei nodi. Mae cofnod yn cael ei wneud mewn system olrhain TG.

Defnyddio wal ddysgu

Mewn un dosbarth meithrin, mae dysgu'r plant yn cael ei ddathlu trwy ddefnyddio arddangosfa 'wal ddysgu'. Mae'r arddangosfa'n dangos lluniau o'r plant yn dysgu, ac mae'r rhain yn cael eu labelu i ddangos ymddygiad dysgu da, fel rhannu da, a gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae trafod y lluniau gyda'r plant yn gallu atgyfnerthu'r dysgu trwy eu hatgoffa nhw o'r hyn wnaethon nhw a'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud.

Defnyddio ysgolion medrau

Mae ymarferwyr mewn un ysgol wedi gweithio gyda'i gilydd i adnabod set o fedrau ar gyfer plant o dair i saith mlwydd oed a allai gael ei datblygu drwy ddefnyddio mwy nag un maes dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi gweld bod modd datblygu'r medrau 'archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau' yn y maes dysgu gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal ag yn y maes dysgu datblygu creadigol. Wedyn mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r adrannau 'Ystod' o'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' i adnabod profiadau perthnasol a fyddai'n datblygu medrau priodol.

Safonau

Mae mwyafrif y plant yn dysgu medrau da sy'n briodol i'w hoed yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn haf 2012, cafodd y garfan gyntaf o blant saith oed eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn lle lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn 2012, fe wnaeth mwy na naw o bob deg disgybl gyflawni deilliant 5 o leiaf (y lefel ddisgwyliedig) yn y maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLLADd). Llwyddodd ychydig dros wyth o bob deg disgybl i gyflawni'r lefel yma ym mhob un o'r tri maes dysgu DPChLLADd, iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, a datblygiad mathemategol.

Ar y cyfan, mae safonau yn siarad a gwrando'n datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae plant yn defnyddio chwarae rôl yn dda, dan do ac yn yr awyr agored; maen nhw hefyd yn gwneud defnydd da o'r dull 'cadair boeth' a thechnoleg, fel microffonau a dyfeisiadau recordio, i helpu i ddatblygu'u medrau siarad a gwrando. Mae llawer o'r plant yn ddarllenwyr brwd sy'n hoffi siarad am y llyfrau maen nhw wedi'u darllen, ac maen nhw'n mwynhau gwrando ar storiâu. Y rhain yw'r plant sy'n llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Serch hynny, mae medrau ysgrifennu'r plant yn dal i beri gofid. Yn y lleiafrif o ysgolion lle gwelon ni wendidau yn ysgrifennu'r plant, mae gormod o blant saith oed yn cynhyrchu darnau o waith sy'n dibynnu gormod ar gymorth yr ymarferydd, a/neu maen nhw'n anniben oherwydd camgymeriadau atalnodi, sillafu a gramadegol syml. Mae hyn yn arbennig o

wir mewn ysgrifennu sy'n cael ei wneud fel rhan o waith trawsgwricwlaidd. Mae medrau llawysgrifen gwan gan y plant yn aml.

Mae medrau'r plant mewn sesiynau mathemateg yn gyffredinol dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu i gyfrif, didoli a threfnu rhifau yn ôl eu gallu, ac mae llawer ohonyn nhw'n gallu cofio ffeithiau rhifau'n sydyn i ddatrys problemau. Ond yn gyffredinol nid yw'r plant yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn meysydd eraill.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r holl blant bron yn mwynhau dysgu Cymraeg. Maen nhw'n ymateb yn briodol i gwestiynau, cyfarwyddiadau a storiâu yn ystod y sesiynau grŵp cyfan. Ond yn gyffredinol nid yw'r hyder gan y rhan fwyaf o'r plant i ddefnyddio Cymraeg yn ddigymell yn eu chwarae, gyda'r staff neu gyda'i gilydd. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn datblygu'n rhy araf. Fe welon ni hyn yn aml lle nad oes unrhyw ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn fwy aml yn wir mewn lleoliadau na mewn ysgolion.

⁷ Arfarniad o ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, Ionawr 2013

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth dda yn hollbwysig i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Yn yr ysgolion ac mewn lleoliadau, y cynhwysion allweddol i sicrhau llwyddiant arfer orau yw arweinyddiaeth gref a dylanwadol, a rheolwyr canol gwybodus sydd â medrau arwain tîm, law yn llaw â gwaith tîm da gan ymarferwyr sy'n deall cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ac ymdrech benderfynol i wella safonau.

Lle mae arweinwyr a rheolwyr yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen, maen nhw'n defnyddio'u gwybodaeth yn dda i gefnogi a herio athrawon yn eu cynllunio a'u harfer. Mae eu dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen yn sail i'w penderfyniadau strategol allweddol. Maen nhw'n gwneud penderfyniadau gwario ar sail y blaenoriaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgu'r plant. Maen nhw'n cynllunio'n dda ar gyfer gwella, ac yn nodi meini prawf llwyddo er mwyn mesur effaith eu camau gweithredu ar gynnydd y plant. Mae ganddyn nhw bolisiau ysgol gyfan y maen nhw'n gofalu bod pob un o'r ymarferwyr yn eu deall a'u cymhwyso, er enghraifft mewn perthynas â sut maen nhw'n mynd ati i asesu a chofnodi gwybodaeth am safonau neu i addysgu ffoneg.

“

“Lle mae arweinwyr a rheolwyr yn deall egwyddorion ac arfer y Cyfnod Sylfaen, maen nhw'n defnyddio'u gwybodaeth yn dda i gefnogi a herio athrawon yn eu cynllunio a'u harfer.”

Pontio o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2

Ym mis Medi 2012, fe wnaeth carfan y Cyfnod Sylfaen o blant saith oed drosglwyddo i gyfnod allweddol 2. Roedd llawer o'r plant yma wedi dysgu'r medrau angenrheidiol i wneud cynnydd yn unol â'u hoed a'u gallu yng nghyfnod allweddol 2. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr a rheolwyr yn cydnabod fod trosglwyddo i ffordd fwy ffurfiol o weithio yn gofyn am reoli a chynllunio gofalus er mwyn iddo lwyddo. I gyflawni pontio llwyddiannus, mae ysgolion wedi newid eu harfer yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:


- defnyddio dulliau addysgu'r Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 3;
- trefnu i'r holl athrawon cyfnod allweddol 2 arsylwi yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen;
- darparu hyfforddiant i'r ysgol gyfan ar y Cyfnod Sylfaen; a
- hwyluso cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd rhwng athrawon diwedd y Cyfnod Sylfaen ac athrawon sy'n gweithio ar ddechrau cyfnod allweddol 2.

Bagloriaeth Cymru

Mewn 166 o ysgolion, 30 o sefydliadau addysg bellach, pump o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, un uned cyfeirio disgyblion ac un coleg arbenigol annibynnol, fe wnaeth nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Diploma Bagloriaeth Cymru yn 2012 gynyddu 36% yn gyffredinol o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o ysgolion yn sylweddol uwch na'r cynnydd mewn addysg bellach, lle cododd cynnydd o 8% yn 2012 gyfanswm nifer yr ymgeiswyr addysg bellach i dros 7,000.⁸ Mae cyfanswm nifer yr ymgeiswyr o ysgolion dros 16,000.

Mae Ffigur 1.6 yn dangos y cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr rhwng 2004 a 2012 ar dair lefel Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ar draws pob sector.

Ffigur 1.6: Nifer yr ymgeiswyr fesul lefel o 2004 i 2012⁹



^{8/9} Darparwyd y data a'r graffiau gan CBAC ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae llawer o ysgolion yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a/neu yn y cyfnod ôl-16. Yn y cyfnod cyn-16, mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer cymhwyster canolradd Bagloriaeth Cymru wedi cynyddu 73% yn 2012, o gymharu â ffigurau 2011, i 7,100.

Mewn addysg bellach, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cael ei gynnig ym mhob coleg addysg bellach, er nad yw'n cael ei gynnig ar bob safle'r colegau. Yn y colegau addysg bellach mae lleiafrif o'r dysgwyr yn dilyn cymhwyster galwedigaethol mawr i fodloni gofyniad 'opsiynau' diploma uwch Bagloriaeth Cymru. Mae hyn yn cyfrif am dros 20% o'r ymgeiswyr sy'n astudio'r diploma uwch. Mae ychydig o ddysgwyr yn y colegau'n cyfuno Safon Uwch gyda chymhwyster galwedigaethol ar gyfer eu Diploma Bagloriaeth Cymru Uwch. Serch hynny, mae 74% o ddysgwyr yn yr ysgolion a'r colegau yn dilyn y diploma uwch gydag opsiynau Safon Uwch yn unig.

Mae'r Ffigur 1.7 yn dangos dosbarthiad y llwyddiannau ar lefelau gwahanol dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer ysgolion a cholegau.

Ffigur 1.7: Canlyniadau yn ôl math o ganolfan

Canlyniadau CBC, 2010-2012 (a) Ffynhonnell: CBAC	Ysgolion			Colegau		
	2010	2011	2012	2010	2011	2012
Nifer y canolfannau (b)	87	136	166	27	29	30
Sylfaenol						
Cyn 16						
Ymgeiswyr	490	913	1,748	36	0	0
% o'r diploma wedi'i gyflawni	82%	86%	76%	94%	-	-
Ôl 16						
Ymgeiswyr	12	249	101	1,810	1,741	1,641
% o'r diploma wedi'i gyflawni	83%	88%	60%	89%	83%	81%
Canolradd						
Cyn 16						
Ymgeiswyr	1,144	2,053	7,100	46	8	6
% o'r diploma wedi'i gyflawni	87%	83%	81%	76%	100%	0%
Ôl 16						
Ymgeiswyr	349	1,443	515	2,126	2,367	2,282
% o'r diploma wedi'i gyflawni	68%	86%	78%	77%	79%	77%
Uwch						
Ôl 16						
Ymgeiswyr	3,481	5,782	6,876	1,919	2,534	3,116
% o'r diploma wedi'i gyflawni	90%	93%	89%	81%	87%	87%

(a) Mae'r canlyniadau sy'n cael eu dangos ar gyfer yr haf ym mhob blwyddyn.

(b) Ar gyfer rhai colegau aml-safle, mae'r canlyniadau'n cael eu dangos ar wahân ar gyfer y safleoedd amrywiol felly mae ffigur nifer y canolfannau ar gyfer colegau'n uwch.

Ar lefel diploma sylfaenol, mae ysgolion bron wedi dyblu nifer yr ymgeiswyr cyn-16 er 2011, ac mae ychydig dros dri chwarter o'r disgyblion yn ennill y diploma yma. Mae'r gyfradd lwyddo ar gyfer y diploma canolradd yn y cyfnod cyn-16 yn aros yn debyg i gyfradd y blynyddoedd blaenorol, tra bod nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu deir gwaith i dros 7,000 er 2011. Yn y cyfnod ôl-16 yn yr ysgolion, mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dilyn y diploma uwch. Mae'r gyfradd lwyddo ar gyfer y diploma yma yn parhau'n debyg i gyfradd y blynyddoedd blaenorol, ar ryw 90%.

Mewn addysg bellach, mae mwy o ddysgwyr ôl-16 wedi'u cofrestru ar gyfer y diploma sylfaenol a'r diploma canolradd nag yn yr ysgolion. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer y diplomâu yma'n debyg i gyfraddau'r blynyddoedd blaenorol. Mae llawer llai o ymgeiswyr ar gyfer y diploma uwch mewn addysg bellach nag yn yr ysgolion, er bod y cyfraddau llwyddo'n debyg.

Mae Bagloriaeth Cymru'n cynnig llawer o fuddion i ddysgwyr. Drwy astudio craidd Bagloriaeth Cymru, mae mwyafrif y dysgwyr yn gwella'u medrau hanfodol, ac maen nhw'n deall amrywiaeth o destunau'n well, gan gynnwys menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes, nag y bydden nhw fel arall. Yn benodol, mae cynnal eu hymchwiliadau unigol yn helpu llawer o fyfyrwyr i ddatblygu rhai o'r medrau ymchwilio a dadansoddi sydd eu hangen ar gyfer addysg bellach, addysg uwch a chyflogaeth. Mae'r dysgwyr hefyd yn datblygu'u hyder a'u medrau cymdeithasol drwy gyfranogi yn y gymuned a phrofiad gwaith.

Astudiaeth achos: Ysgol y Preseli – Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r myfyrwyr

Mae Ysgol y Preseli yn ysgol Gymraeg ddynodedig gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yng Nghrymch, Sir Benfro. Mae 967 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Yn 2011, roedd 6.1% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol 17.7%. Roedd yr ysgol yn rhan o gynllun peilot Bagloriaeth Cymru, ac mae wedi cynnig y cymhwyster er 2004.

Camau gweithredu

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi mireinio'i rhaglen Bagloriaeth Cymru. Yn 2009, fe wnaeth gyflwyno cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4, ac roedd hyn yn golygu bod angen mwy o waith i wneud yn siŵr bod disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau, ac yn adeiladu ar beth rodden nhw wedi'u ddysgu ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth fawr o weithgareddau; mae hyn yn cynnwys ymweliadau â digwyddiadau lleol a chenedlaethol, cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, a chysylltiadau sydd wedi'u sefydlu'n dda gyda sefydliad addysg uwch lleol. Mae pob un o'r staff yn gysylltiedig â rhyw agwedd ar gyflwyno Bagloriaeth Cymru, ac maen nhw'n cael hyfforddiant o ansawdd uchel yn rheolaidd.

Deilliannau

Mae bron pob un o'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar ddechrau Blwyddyn 12 yn ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch. Mae'r ffigurau yma'n uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion ar hyd a lled Cymru. Mae dealltwriaeth dda iawn gan y rhan fwyaf o'r myfyrwyr o faterion cyfoes, materion gwleidyddol ac amrywiaeth eang o destunau eraill sydd wedi'u cynnwys yn rhaglen astudio Bagloriaeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn teimlo'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'u profiadau'n ymwneud â Bagloriaeth Cymru a'r effaith gadarnhaol mae'r rhaglen wedi'i chael ar eu paratodau ar gyfer addysg uwch, addysg bellach neu gyflogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen i'r adroddiad arolwg ar ddarpariaeth Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd.

Ond, er gwaetha'r safonau uchel iawn sy'n cael eu cyflawni gan leiafrif o ddarparwyr, mae'r safonau sy'n cael eu cyflawni ar Fagloriaeth Cymru'n amrywio'n fawr rhwng dysgwyr a rhwng ysgolion. Mae'r dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hefyd yn ennill cymwysterau mewn amrywiaeth o fedrau hanfodol, fel Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hastudio ar lefel sy'n briodol iddyn nhw fel unigolion. Mewn llawer o ysgolion, mae anghydbwysedd rhwng yr amser sy'n cael ei dreulio ar gwblhau'r gwaith papur sy'n ymwneud â chymwysterau medrau hanfodol, a'r amser sy'n cael ei dreulio ar wella medrau'r dysgwyr eu hunain a throsglwyddo'r rhain i gefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm.

O'r holl elfennau yn y craidd, mae'r safonau isaf yn y modiwl iaith 20 awr, sydd yn gyffredinol heb fod yn ddigon heriol i gynnal diddordeb y dysgwyr, yn enwedig y dysgwyr mwy galluog. Ond mae ansawdd yr addysgu yn y craidd yn gyffredinol dda yn y mwyafrif o ysgolion. Yn lleiafrif o'r sesiynau addysgu, nid yw'r dysgwyr yn cael eu herio digon am nad yw'r athrawon yn mynd ati'n ddigon da i gynllunio i ddiwallu anghenion amrediad gallu llawn y dysgwyr.

Mae'r amrediad eang o safonau sy'n cael eu cyflawni ar graidd Bagloriaeth Cymru'n awgrymu y byddai graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n adlewyrchu amrediad deilliannau'r dysgwyr yn decach.

“

“Mae'r dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hefyd yn ennill cymwysterau mewn amrywiaeth o fedrau hanfodol, fel Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hastudio ar lefel sy'n briodol iddyn nhw fel unigolion.”

Darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 mlwydd oed

Drwy weithio mewn partneriaeth, mae'r darparwyr yn gyffredinol yn cynnig amrywiaeth fawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Mae pob un o'r ysgolion wedi bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ac mae gwelliant wedi bod mewn deilliannau. Serch hynny, yn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw ehangu'r cyrsiau wedi creu gwelliant mewn deilliannau allweddol, er enghraifft, nifer y dysgwyr sy'n gadael gyda phump cymhwyster da, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Dros gyfnod o bum mlynedd, fe wnaeth y niferoedd sy'n aros ymlaen mewn addysg gynyddu'n raddol o 77% yn 2007 i 85% yn 2011. Fe wnaeth cyfran y dysgwyr 16 oed yn aros mewn addysg y llynedd gynyddu ddau bwynt canran. I'r rhain sy'n aros mewn addysg ar ôl 16 oed, fe wnaeth 55% aros yn y chweched dosbarth yn yr ysgol, ac aeth 45% ymlaen i golegau addysg bellach. Roedd mynd i'r coleg yn llwybr mwy poblogaidd i'r myfyrwyr gwrywaidd o gymharu â'r myfyrwyr benywaidd.

O gymharu â 2010, roedd cynnydd bach yng nghanran y dysgwyr 16 oed yn mynd i mewn i'r farchnad lafur yn 2011, naill ai mewn cyflogaeth neu hyfforddiant yn y gweithle. Aeth canran uwch o ddysgwyr 16 oed i mewn i hyfforddiant neu waith yn cael eu cefnogi gan y llywodraeth, na chanran y rhai 17 neu 18 oed.

Darpariaeth 14-16

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynorthwyo dysgwyr Blwyddyn 9 yn dda i wneud y dewisiadau opsiynau ar gyfer cyfnod allweddol 4. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael cyngor da pan fyddan nhw'n dewis eu hopsiynau TGAU ac opsiynau eraill. Er mwyn cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 9 yn ystod y broses dewis opsiynau, mae colegau'n cynnig sesiynau blasu sy'n ymwneud â llwybrau dysgu newydd posibl. Ond nid oes digon o wybodaeth a chynngor gwybodus a diduedd am yrfaeodd ar gael i'r dysgwyr bob amser sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur. Yn lleiafrif o ysgolion, mae'r dysgwyr yn gorfod gwneud eu dewisiadau'n gynnar iawn yn y flwyddyn ysgol, ac mae hyn yn gallu cael effaith negyddol ar eu dysgu. Ar ôl penderfynu eisoes i ollwng rhai pynciau erbyn diwedd Blwyddyn 9, mae'r lleiafrif yma o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gryn dipyn yn llai yn y pynciau hynny ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn mynd ati'n ddigon da i gynllunio'r amserlen ar gyfer opsiynau cyffredinol a

galwedigaethol a gweithgareddau cyfoethogi eraill, ac mae ychydig o ddisgyblion yn colli gwersi yn y pynciau craidd i fynychu cyrsiau gyda darparwyr eraill. Yn ychydig iawn o ysgolion, mae strwythur y cwricwlwm 14-19 yn golygu hefyd fod ychydig o bynciau cyfnod allweddol 3 yn cael eu blocio gyda'i gilydd ar yr un diwrnod. Os yw'r athro neu'r disgyblion yn absennol, fe all hyn gael fwy o effaith ar eu cynnydd na fyddai'n digwydd fel arfer mewn ysgol arall.

Er bod partneriaethau rhwng ysgolion a gyda darparwyr eraill yn gyffredinol dda, yn ychydig o ysgolion, mae nifer y dysgwyr yn dewis dilyn cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr eraill yn isel iawn. Y rheswm am hyn yn aml yw bod y dysgwyr yn amharod i deithio i ddarparwyr eraill, neu am nad ydyn nhw'n gwybod digon am y cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr eraill.

Lle mae'r ddarpariaeth cwricwlwm yn rhagorol, mae'r ysgolion yn arloesol ac yn llawn dychymyg yn y ffordd maen nhw'n darparu'n gynhwysfawr ar gyfer anghenion a

dyheadau gwahanol y dysgwyr, beth bynnag yw eu gallu neu ddiddordebau arbennig. Mae'r trefniadau yma'n galluogi dysgwyr ar draws yr amrediad gallu i wneud cynnydd da iawn.

Mae'r berthynas rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 wedi'u sefydlu'n dda yn gyffredinol, er bod partneriaethau'n gryfach yng nghyfnod allweddol 4, lle nad yw'r darparwyr yn cystadlu'n uniongyrchol am fyfyrwyr. Lle mae'r disgyblion 14-16 yn astudio mewn mwy nag un darparwr, mae'r cydweithredu'n dda fel arfer rhwng y darparwr, ac mae trefniadau ar y cyd ar gyfer cynllunio a sicrhau ansawdd. Hefyd, mae gwybodaeth am bresenoldeb ac olrhain yn cael ei rhannu.

Y chweched dosbarth

Mae ysgolion â chweched dosbarth yn cynnig amrywiaeth eang o bynciau. Ond yn lleiafrif o'r ysgolion nid yw'r chweched dosbarth yn gost effeithiol. Mewn ardaloedd gwledig y mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion lle nad yw'r chweched dosbarth yn gost effeithiol. Mae hyn yn gwneud cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn fwy heriol oherwydd yr angen i drefnu cludiant ychwanegol a chysiau cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd, mae meintiau dosbarthiadau'n dal i amrywio gormod yn y ddarpariaeth chweched dosbarth. Er mwyn bodloni gofynion y Mesur, mae lleiafrif o ysgolion yn cynnig rhai cyrsiau nad ydyn nhw'n hyfyw yn economaidd. Pan fo'r ysgol wedi gwneud ymrwymiad i gynnal dosbarth ym Mlwyddyn 12, mae'n rhaid iddi barhau â'r dosbarth ym Mlwyddyn 13, hyd yn oed os oes llai o ddisgyblion yn y dosbarth am fod y cyfraddau cadw wedi bod yn wael. Mewn rhai achosion, mae'r ysgolion yn cofrestru dysgwyr ar gyrsiau sy'n amhriodol iddyn nhw. O ganlyniad, maen nhw'n gadael yr ysgol yn ystod Blwyddyn 12, neu ar ddiwedd Blwyddyn 12.

Colegau addysg bellach

Nid yw rhai dysgwyr 16 oed yn cael arweiniad sy'n ddigon annibynnol pan fyddan nhw'n dewis cyrsiau. Mae'r nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgolion, ar ôl sylweddoli bod eu dewis gwreiddiol o gyrsiau wedi bod yn anghywir iddyn nhw, yn mynd ymlaen i gofrestru mewn colegau addysg bellach yn 17.

Mae rhai colegau addysg bellach yn cynnig darpariaeth drydyddol, mewn ardaloedd lle mai ysgolion 11-16 yw'r norm. Yn gyffredinol maen nhw'n cynnig dewis helaeth iawn o ddewisiadau pynciau oherwydd eu maint, a'r arbedion maint sy'n deillio o hynny. Mae colegau hefyd yn darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol arbenigol, ac mae dysgwyr yn gallu elwa o gyfnod trosglwyddo sydd wedi'i gynllunio'n dda o'r ysgol i amgylchedd dysgu gwahanol. Mae adnoddau o safon diwydiant a staff addysgu arbenigol yn y colegau yma.

Ymhlith rhai darparwyr ôl-16, mae'r agweddau at baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith yn amrywio i lefel annerbyniol. Mae cystadleuaeth am ddysgwyr ac am gyllid yn golygu weithiau

bod anghenion y dysgwyr yn cael eu diystyru. Mae rhai darparwyr yn cofrestru dysgwyr ar lefelau sy'n rhy isel iddyn nhw. Yn y gorffennol mae rhai darparwyr wedi rhoi blaenoriaeth i gael dysgwyr drwy gymaint o gymwysterau ag y gallan nhw er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosib o gyllid yn cael ei golli, heb ystyried anghenion addysgol go iawn yr unigolion. Mae'r agwedd yma at gynyddu incwm a chyfraddau cyrhaeddiad i'r eithaf ar draul diwallu anghenion dysgwyr a'r gymuned yn annerbyniol. Mae'n golygu y gall coleg ymddangos ei fod yn llwyddo trwy gynhyrchu cyfraddau cyrhaeddiad uchel ar gyfer ei fyfyrwyr, ond nid yw mewn gwirionedd yn cofrestru'r cyfrannau disgwylidig o fyfyrwyr o ardaloedd dan anfantais, ac nid yw'n ychwanegu gymaint o werth ag y dylai at lefelau cyrhaeddiad blaenorol y myfyrwyr.

Dysgu yn y gwaith

Nid yw darparwyr dysgu yn y gwaith yn cymryd gymaint o ran mewn gweithio mewn partneriaeth 14-16, ond mae rhai ohonyn nhw wedi chwarae rhan fawr yn darparu cyfleoedd estynedig ar gyfer profiad gwaith i leiafrif bach iawn o ddisgyblion sy'n dilyn llwybr gwahanol ac nad ydyn nhw'n mynychu addysg y brif ffrwd. Weithiau mae'r ddarpariaeth yma'n gysylltiedig ag unedau cyfeirio disgyblion neu'n cael ei threfnu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

I'r dysgwyr hynny yn 16 oed nad ydyn nhw'n yn mynd i syth i gyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant o'r ysgol, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu nifer o raglenni arbenigol – Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith – sy'n ceisio cynorthwyo pobl i mewn i waith.

Mae'r rhaglenni 'cyflogadwyedd' yma wedi'u cynllunio i ennyn diddordeb pobl, i fynd i'r afael â rhwystrau i ddysg, ac maen nhw'n cynnig cymwysterau sylfaenol a phrofiad gwaith. Mae'r rhaglenni'n darparu ar gyfer grwpiau cleientiaid gwahanol o dan 18 oed

a dros 18 oed, nad ydyn nhw mewn addysg neu gyflogaeth amser llawn.

Erbyn hyn mae'r rhaglenni wedi bod yn rhedeg ers rhyw flwyddyn. Serch hynny, mae nifer y cleientiaid sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen yn sylweddol is nag yr oedd data cychwynnol yn ei awgrymu. Nid yw cleientiaid bob amser yn cael eu cyfeirio'n effeithiol at y rhaglen gan asiantaethau cyfeirio. Mae cyfraddau dilyniant wedi gwella ychydig bach o'r rhaglenni Adeiladu Sgiliau nad ydyn nhw'n cael eu cynnig rhagor. Mae'r niferoedd o ddysgwyr sy'n symud ymlaen i hyfforddiant arall neu gyflogaeth yn uwch ar y rhaglenni Hyfforddeiaeth nag ar y rhaglenni Camau at Waith, lle mae'r lefel dilyniant yn parhau'n anfoddfaol.

Mae mwyafrif y darparwyr yn mynd ati'n effeithiol i asesu rhwystrau'r dysgwyr i ddysgu, ond mae ansawdd ac effeithiolrwydd cymorth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn amrywio'n fawr. Mae rhwystrau

cymhleth, a rhwystrau niferus yn aml, gan lawer o ddysgwyr rhag gwneud cynnydd. Yn aml mae darparwyr yn dod i wybod am y rhwystrau difrifol yma, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, ymddygiad troseddol a phroblemau personol eraill, pan fyddan nhw wedi adeiladu perthynas gyda'r dysgwyr dros amser. Mae'r wybodaeth yma'n dod yn rhy hwyr yn aml i'r darparwr allu mynd i'r afael â'r materion a rhoi cymorth effeithiol i'r dysgwyr yn ystod cyfnod byr y rhaglen.

“

“Mae mwyafrif y darparwyr yn mynd ati'n effeithiol i asesu rhwystrau'r dysgwyr i ddysgu, ond mae ansawdd ac effeithiolrwydd cymorth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn amrywio'n fawr.”

Data ar ddeilliannau

Nid oes unrhyw ddata cymharol cenedlaethol ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed sydd mewn addysg a hyfforddiant. Yr unig fesurau ar gyfer perfformiad i ysgolion yw'r trothwy lefel 3 (sy'n cynrychioli dau gymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol cyfwerth) a'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog. Nid oes gofyniad ar golegau addysg bellach i gyhoeddi'u canlyniadau lefel 3 yn yr un ffordd ag y mae gofyniad ar ysgolion, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu perfformiad ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill. Yn yr un modd, nid oes gofyniad ar ysgolion â chweched dosbarth i gyhoeddi cyfraddau llwyddo myfyrwyr sy'n mynd i mewn i'r chweched dosbarth yn 16 oed.

Nid oes un system genedlaethol yn bodoli eto ar gyfer Cymru i gipio a chyhoeddi data ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr yn gyson ar draws y chweched dosbarth, y sector addysg bellach a'r sector dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd llunio barnau ynglŷn â buddion dilyn yr un rhaglenni neu gyrsiau mewn darparwyr gwahanol. Mae'n golygu nad yw rhieni a dysgwyr yn gallu gwneud dewisiadau cwbl wybodus ynghylch ble ddylen nhw barhau â'u hastudiaethau ôl-16.

Adran 2: Gweithgareddau arolygu dilynol

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Cynnwys

Ysgolion cynradd	3	Unedau cyfeirio disgyblion	14
Ysgolion uwchradd	6	Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc	15
Lleoliadau i blant dan bump oed	9	Sefydliadau addysg bellach	15
Gweithgareddau dilynol mewn sectorau eraill	12	Dysgu yn y gwaith	16
Ysgolion arbennig a gynhelir	13	Dysgu oedolion yn y gymuned	16
Ysgolion arbennig annibynnol	13	Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon	17
Ysgolion annibynnol	14	Cymraeg i oedolion	17

Fel rhan o'r trefniadau arolygu newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2010, fe gyflwynon ni dri math newydd o weithgarwch 'dilynol' yn dilyn arolygiad:

- arfer orau;
- monitro gan Estyn; a
- monitro gan yr awdurdod lleol.

Rydym yn dal i ddefnyddio'r ddau gategori statudol y gallwn roi darparwyr ynddyn nhw. Y ddau gategori yw:

- angen gwelliant sylweddol; a
- mesurau arbennig.

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd (2010-2011), roeddem yn sôn am nifer y darparwyr a gafodd eu rhoi ym mhob un o'r categorïau newydd yma. Eleni, gallwn adrodd ar ddeiliannau ein hymweliadau â'r darparwyr yma yn ystod 2011-2012. Rydym hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o ysgolion a lleoliadau i ddangos sut mae ein gweithgareddau dilynol yn helpu darparwyr i wella.

Mae'r arolygwyr yn gofyn i ddarparwyr sydd wedi cael eu barnu'n 'rhagorol' i ddarparu astudiaeth achos o'u harfer orau er mwyn tynnu sylw pobl eraill at eu harferion llwyddiannus. Rydym yn rhoi nifer o'r astudiaethau achos yma yn yr adran Arfer Orau ar ein gwefan.

Er hynny, byddwn yn ail-ymweld ag ysgolion a lleoliadau lle mae gofyn i Estyn neu eu hawdurdodau lleol wneud gwaith monitro dilynol o'r meysydd sydd i'w gwella. Maint yr heriau maen nhw'n eu hwynebu sy'n pennu nifer yr ail-ymweliadau. Mae Ffigur 2.1 yn dangos niferoedd y darparwyr lle'r oeddem wedi nodi yn ystod 2011-2012 fod angen gweithgarwch dilynol, ac yn 2010-2011.

Ffigur 2.1: Siart yn dangos nifer yr ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd a'r lleoliadau lle'r oeddem wedi nodi yn ystod arolygiad craidd yn 2011-2012 fod angen gweithgarwch dilynol (ffigrau 2010-2011 mewn cromfachau)

	Cynradd	Uwchradd	Lleoliadau
Monitro gan yr ALL	36 (51)	3 (6)	31 (10)
Monitro gan Estyn	56 (43)	16 (6)	21 (7)
Gwelliannau sylweddol	8 (8)	5 (1)	-
Mesurau arbennig	6 (4)	1 (0)	-
Gwelliant â ffocws (lleoliadau'n unig)	-	-	0 (1)

Deilliannau'r ymweliadau monitro y gwnaethom yn ystod 2011-2012 sydd dan sylw yn yr adran yma o'r Adroddiad Blynyddol. Mae Ffigur 2.2 yn dangos faint o ddarparwyr gafodd eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

Ffigur 2.2: Siart yn dangos nifer yr ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd a'r lleoliadau y gwnaethom eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yn 2011-2012 ar ôl eu rhoi yn y categori gweithgarwch dilynol yn 2010-2011

	Cynradd	Uwchradd	Lleoliadau
Monitro gan yr ALL	31	6	6
Monitro gan Estyn	33	6	5
Gwelliannau sylweddol	6	0	-
Mesurau arbennig	0	0	-
Gwelliant â ffocws (lleoliadau'n unig)	-	-	1

Mae'r ysgolion a'r lleoliadau yn y mwyafrif o'r achosion wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion yn eu hadroddiadau arolygu erbyn yr ymweliad dilynol gan Estyn neu'r awdurdod lleol. Nid oes angen rhagor o weithgarwch dilynol arnyn nhw. Er enghraifft, o'r 38 o ysgolion cynradd a'r chwe ysgol uwchradd a gafodd ymweliad monitro gan Estyn eleni, roedd 33 o'r ysgolion cynradd a chwech o'r ysgolion uwchradd wedi gwella'n sylweddol. Nid oedd angen parhau i'w monitro. Mae'r darparwyr sydd heb ddod allan o'r categori gweithgarwch dilynol naill ai:

- wedi'u symud i lefel arall, fwy difrifol, o weithgarwch dilynol o ganlyniad i fonitro gan yr awdurdod lleol, monitro gan Estyn neu ail arolygiad;
- wedi cau neu wedi uno â darparwr arall; neu
- heb gael ymweliad eto.

Ysgolion cynradd

Mae'r ysgolion cynradd rydym wedi'u tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yn canolbwyntio'n dda ar wella safonau a darpariaeth i'r disgyblion. Mae'r ysgolion yma wedi rhoi sylw da i bob un o'r argymhellion oedd yn eu hadroddiadau arolygu. Mae'r uwch-reolwyr a'r corff llywodraethol wedi mynd ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd o ran rhoi sylw i'r argymhellion arolygu, ac maen nhw wedi cynnwys pob aelod o staff yn y broses. Fel arfer, mae'r ysgolion yma wedi cryfhau'r gwaith arwain a rheoli, yn enwedig systemau sicrhau ansawdd yr ysgol. Y canlyniad yw bod meysydd pwysig fel addysgu ac asesu'n fwy cyson drwyddi draw yn yr ysgolion. Hefyd, mae gwell cymorth ychwanegol ar gael i'r disgyblion y mae eu medrau llythrennedd yn wan. Mewn llawer o achosion, mae'r athrawon wedi elwa ar gyfleoedd i arsylwi arfer orau yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion eraill.

Astudiaeth achos: Dod allan o'r categori monitro gan Estyn

Mae Ysgol Gynradd Peter Lea yn y Tyllgoed ar gyrion Caerdydd. Mae 284 o ddisgyblion yn yr ysgol, ac mae hawl gan tua 37% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ganran yma'n uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fe wnaethon ni roi'r ysgol yn y categori 'angen monitro gan Estyn' yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2011. O ganlyniad i'r cynnydd da mae'r ysgol wedi'i wneud o ran rhoi sylw i'r argymhellion arolygu, cafodd yr ysgol ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yn ystod haf 2012.

Mae safon yr addysgu wedi gwella cryn dipyn. Erbyn hyn mae pob un o'r athrawon yn defnyddio data i fonitro cynnydd y disgyblion ac i roi cymorth ychwanegol pan fydd disgybl ei angen. Yn 2012, roedd gwelliant mawr yn y canlyniadau mewn ysgrifennu Saesneg i lefel sy'n llawer uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Un o brif lwyddiannau'r ysgol oedd lleihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a pherfformiad merched ym maes ysgrifennu. Caeodd y bwlch yn y deilliannau asesu o tua 36 pwynt canran. Yn y pynciau Saesneg a gwyddoniaeth, mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch, ac mae hynny'n rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â niferoedd tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Ymatebodd yr ysgol yn brydlon i argymhellion yr adroddiad arolygu, hyd yn oed cyn iddo gael ei gyhoeddi. Un ffactor allweddol yn y cynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud oedd cynnwys pob aelod o'r staff a'r llywodraethwyr o gychwyn y broses o wneud gwelliannau. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu llywodraethwr â phob un o'r argymhellion, a hwylusodd hyn y dasg o adolygu'r cynnydd yn rheolaidd.

Mae'r pennaeth yn dweud bod cael ei rhoi yn y categori gweithgarwch dilynol wedi helpu'r ysgol i weld bod angen rhoi blaenoriaeth i feysydd penodol. Roedd hyn yn arbennig o wir o safbwynt safonau a chysondeb y gwaith addysgu ac asesu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn canolbwyntio'n well ar safonau a chynnydd y disgyblion wrth arsylwi gwersi, fel bod pob aelod o'r staff yn deall y disgwyliadau.

Astudiaeth achos: Dod allan o'r categori gwelliant sylweddol

Yn Aberhonddu y mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Priordy. Mae 128 o ddisgyblion yn yr ysgol, ac mae hawl gan tua 23% i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ganran yma'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 5% o'r disgyblion yn siarad ieithoedd Dwyrain Ewrop ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg.

Ar ôl ei harolygiad ym mis Hydref 2010, cafodd yr ysgol ei henwi fel ysgol yr oedd angen gwelliant sylweddol arni. O safbwynt y perfformiad a'r rhagolygon gwella fel ei gilydd, cafodd yr ysgol ei barnu'n 'ddigonol' at ei gilydd. Rhestrodd yr adroddiad bump o argymhellion. Yn eu plith oedd bod angen gwella ymddygiad y disgyblion a datblygu eu medrau allweddol, sef gwranddo, ysgrifennu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Pan aeth yr arolygwyr yn ôl i fonitro cynnydd yr ysgol ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, eu barn yr adeg honno oedd bod yr ysgol wedi gwella'n arw. Cafodd yr ysgol ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion lle'r oedd angen gwelliant sylweddol. Roedd ymgynghorwyr yr awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda'r ysgol ac wedi cynnig digon o gymorth mewn meysydd pwysig. Roedd polisi newydd ar waith ym maes disgyblaeth. Roedd y staff, y disgyblion a'r rhieni wedi cyfrannu at y gwaith o lunio'r polisi, ac roedden nhw'n ei ddeall. Roedd llai o lawer o achosion o ymddygiad gwael. Roedd gwelliannau yn y ffordd yr oedd yr athrawon yn cynllunio cyfleoedd y disgyblion i ddatblygu ac i ddefnyddio'u medrau allweddol ym mhob pwnc wedi codi safonau mewn darllen, ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae ychydig o ysgolion yn y categori gweithgarwch dilynol wedi methu â gwneud digon o gynnydd o ran rhoi sylw i'r argymhellion arolygu. Canlyniad hyn yw y bydd yr ysgolion yma'n cael gweithgarwch dilynol mwy manwl. Nid yw'r ysgolion yma'n aml wedi gwneud digon i wella hunanarfarnu a chynllunio. Oherwydd hyn mae ansawdd yr addysgu a'r asesu'n anghyson, ac nid yw'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylen nhw fod yn ei wneud.

Astudiaethau achos o arfer orau

Gofynnnon ni i dri deg o ysgolion cynradd eleni am astudiaethau achos o arfer orau, o gymharu ag 20 y llynedd. Roeddem wedi cynnwys ysgolion eleni lle'r oeddem wedi rhoi barn 'ragorol' yn un neu fwy o'r dangosyddion ansawdd. Mae'r astudiaethau achos rydym wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan yn rhoi sylw i nifer o wahanol agweddau, gan gynnwys yr arferion gorau yn y gwaith arwain, darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, cefnogi disgyblion mwy galluog a dawnus, a gwella safonau mewn llythrennedd.

Monitro gan yr awdurdod lleol a monitro gan Estyn

Eleni, fe nodon ni fod 48% o'r ysgolion cynradd i gael monitro dilynol. Mae hwn yn gynnydd o dri phwynt canran o gymharu â'r llynedd. Mae cyfran yr ysgolion y mae angen monitro gan Estyn arny'n nhw wedi codi o 18% i 26%.

Mae'r argymhellion yn adroddiadau arolygu'r ysgolion lle mae angen monitro gan Estyn yn ymwneud yn aml â gwella cyflawniadau'r disgyblion, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Yn yr ysgolion yma, agweddau eraill i'w gwella yw trylwyrdd yr hunanarfarnu a rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol.

Ysgolion lle mae gofyn gwelliant sylweddol neu roi mesurau arbennig ar waith

Eleni, nododd yr arolygwyr fod gofyn rhoi mesurau arbennig ar waith neu fod angen gwelliant sylweddol ar 7% o'r ysgolion lle'r oedd pryderon difrifol am y gwaith arwain a'r safonau. Mae hwn yn gynnydd o ddau bwynt canran o gymharu â'r llynedd.

Nid yw'r un o'r ysgolion a gafodd eu rhoi yn y categori mesurau arbennig y llynedd nac eleni wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i'w tynnu oddi ar y rhestr o ysgolion lle mae angen gweithgarwch dilynol. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn gwneud cynnydd araf a chyson o ran rhoi

sylw i'r argymhellion arolygu. Ond nid ydyn nhw wedi dangos eto bod y gallu ganddyn nhw i adnabod y meysydd lle maen nhw'n dal i danberfformio, ac i roi sylw'n ddigon da i'r diffygion. Mae rhai o'r ysgolion yn y categori mesurau arbennig yn cael trafferth gwneud cynnydd am fod ansefydlogrwydd neu newidiadau cyson yn nhîm yr ysgol o uwch-arweinwyr.

Ysgolion uwchradd

Mae pob un o'r ysgolion uwchradd lle'r oedd angen monitro gan Estyn neu fonitro gan yr awdurdod lleol y llynedd wedi rhoi sylw i'w hargymhellion arolygu'n llwyddiannus. Maen nhw wedi cynllunio dulliau systematig da o roi sylw i'r gwendidau a gafodd eu nodi. Mae llawer o'r ysgolion yma wedi gwella'r safonau mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn eu cyflawni. Mae'r ysgolion wedi mynd ati i ddefnyddio data am berfformiad yn well ac i olrhain cynnydd y disgyblion yn ofalus drwy gydol y cyfnod allweddol. Mae'r athrawon wedi seilio targedau'r disgyblion unigol ar ddisgwyliadau uchel, ac maen nhw wedi trefnu mentora a chymorth addas i'r rhai sy'n debygol o dangyflawni.

Er mwyn gwella ansawdd yr addysgu, mae'r ysgolion yn mynd ati'n amlach fel arfer i arsylwi gwersi. Maen nhw hefyd wedi canolbwyntio ar wendidau penodol, fel herio'r disgyblion mwy galluog neu drwy wneud y cwricwlwm a chynlluniau'r gwersi'n fwy cyson. Mae'r gwaith o arfarnu'r gwersi yma wedi mynd yn fwy dadansoddol a gonest. Er hynny, mewn achosion prin, nid oes digon o bwyslais o hyd ar gynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon wedi defnyddio'r broses o arsylwi gwersi fel ffordd o rannu arfer dda ar ddulliau addysgu ac asesu.

Yn llawer o'r ysgolion a gafodd eu monitro, mae gwelliannau wedi bod o ran y ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig mewn llythrennedd. Mae'r staff wedi cydlynu eu dulliau o gyflwyno'r cwricwlwm, ac wedi dechrau canolbwyntio'n fwy manwl ar agweddau ar lythrennedd, fel sillafu ac ysgrifennu darbwyllo. Mewn un ysgol yn arbennig, mae'r adrannau fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth wedi lleihau'r defnydd o daflenni gwaith ac wedi cynyddu'r cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu darnau hir mewn amryw o wahanol arddulliau ac i wahanol bwrpasau.

“

“Mae'r athrawon wedi defnyddio'r broses o arsylwi gwersi fel ffordd o rannu arfer dda ar ddulliau addysgu ac asesu.”

Astudiaeth achos: Dod allan o'r categori monitro gan Estyn

Mae Ysgol Friars yn ysgol gyfun ddwyieithog i fechgyn a merched rhwng 11 ac 18 oed ym Mangor, Gwynedd. Mae 1,328 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys 235 yn y chweched dosbarth. Mae hawl gan dros 14% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'r ffigwr yma'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw tua 4% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg, ac mae 13% o'r disgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Fe wnaethon ni roi'r ysgol yn y categori 'angen monitro gan Estyn' yn dilyn yr arolygiad ym mis Medi 2011. Gan fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da yn y gwaith o roi sylw i'r argymhellion arolygu mewn amser eithaf byr, cafodd yr ysgol ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol yn nhymor yr hydref 2012.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi gwella ers yr arolygiad.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd arbennig o dda o ran gwella'r ffordd y mae llythrennedd yn cael ei gydlynu a'i fonitro. Cafodd cydlynnydd llythrennedd newydd ei benodi, ac mae gweithgor trawsadrannol a chynllun gweithredu llythrennedd ar waith. Mae'r ysgol wedi newid ei pholisi marcio i ganolbwyntio'n fanylach ar agweddau ar lythrennedd, ac mae wedi hyfforddi'r staff mewn dulliau addysgu medrau llythrennedd.

Gwnaeth yr ysgol yr un math o gynnydd da yn y gwaith o wella ansawdd yr addysgu a'r marcio. Dros y flwyddyn mae cynnydd wedi bod yn nifer y gwersi sy'n dda neu'n well. Ac mae'r gwersi erbyn hyn yn fwy heriol, yn fwy amrywiol ac yn ysgogi'r disgyblion yn well.

Y prif ffactor sydd wedi cyfrannu at y gwelliannau yma yw'r ffaith fod y gweithdrefnau monitro ac arfarnu'n drylwyr a chyson. Mae system gynhwysfawr o hunanarfarnu gan yr ysgol sy'n canolbwyntio'n gadarn ar safonau ac ansawdd yr addysgu. Mae'r ysgol yn disgrifio'n glir yr hyn mae'n ei ddisgwyl o'r arweinwyr ac o'r staff. Mae'r arfarniadau'n cael eu seilio ar feini prawf sy'n benodol ac yn hawdd eu deall, ac mae'r ysgol wedi gwneud llawer i helpu staff i ffurfio barn sy'n fwy cyson a chywir.

Mae'r staff yn defnyddio un dull cyffredin o gofnodi arfarniadau sy'n fanwl ac yn glir, ac sy'n cynnwys ffurflen arsylwi gwersi sydd wedi'i dylunio'n dda. Mae'r deilliannau'n cael eu cofnodi mewn cronfa ddata soffistigedig. Mae'n bosibl defnyddio'r gronfa ddata i ddadansoddi'n fanwl y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, ym mhob un o adrannau'r ysgol ac o safbwynt y gwahanol agweddau ar yr addysgu a'r dysgu. Mae unrhyw achos o danberfformio'n cael sylw cadarn. Mae'r arweinwyr ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif drwy drefniadau rheoli llinell da sydd â phwyslais cadarn.

Yn ôl y pennaeth, roedd rhoi'r ysgol yn y categori monitro dilynol wedi ysgogi'r tîm rheoli i roi cynlluniau ailstrwythuro ar waith ac i aildrefnu'r tîm o reolwyr canol. Roedd gwneud hyn yn golygu canolbwyntio'n well ar safonau, gan arwain at wella nifer o'r dangosyddion cyfnod allweddol 4. Roedd hefyd yn golygu dosbarthu'r gwaith arwain yn well, newid ansawdd y gwaith monitro'n arw a datblygu medrau'r disgyblion ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

“

“Eleni, roedd angen ymweliad dilynol ar 54% o’r ysgolion uwchradd, sy’n gynnydd o gymharu â’r llynedd.”

Astudiaethau achos o arfer orau

Fe wnaethon ni ofyn y llynedd i wyth o ysgolion am astudiaethau achos o arfer orau. Eleni, fe ofynnion ni i wyth o ysgolion eraill am astudiaethau achos. Roedd pump o’r wyth ysgol wedi cael eu barnu’n rhagorol o safbwynt eu perfformiad presennol a’u rhagolygon gwella, ac roedd rhagolygon y tair ysgol arall yn rhagorol. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgolion yma wedi cael eu barnu’n rhagorol mewn tri o leiaf o’r dangosyddion ansawdd, ac mewn nifer ohonyn nhw’n aml. Oherwydd hynny, roedd yr astudiaethau achos yn rhoi sylw i lawer o’r dangosyddion ansawdd, ond roedden nhw’n canolbwyntio ar y prif ffactorau a oedd wedi cyfrannu at farn a oedd yn gadarnhaol at ei gilydd. Yn eu plith oedd yr arferion gorau mewn gweithio mewn partneriaethau, datblygiad proffesiynol i ategu’r addysgu, gwella presenoldeb, a datblygu medrau’r disgyblion.

Monitro gan yr awdurdod lleol a monitro gan Estyn

Y llynedd, roedd angen ymweliadau dilynol ar tua 40% o’r ysgolion uwchradd. Roedd gofyn ymweliad monitro gan Estyn ar chwech ohonyn nhw, a gofynnion ni i’r awdurdod lleol i adrodd ar gynnydd chwe ysgol arall.

Mae pob un o’r ysgolion a gafodd eu monitro gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn wedi gwella digon, ac nid oes angen monitro pellach arnyn nhw.

Eleni, roedd angen ymweliad dilynol ar 54% o’r ysgolion uwchradd, sy’n gynnydd o gymharu â’r llynedd. Er bod nifer yr ysgolion uwchradd sydd i gael eu monitro gan yr awdurdod lleol wedi gostwng o chwech i dri, roedd cynnydd o chwech i un ar bymtheg yn nifer yr ysgolion y bydd Estyn yn eu monitro.

Mae llawer o nodweddion da a rhagolygon gwella da fel arfer gan yr ysgolion sydd i’w monitro gan yr awdurdod lleol. Ond mae meysydd pwysig i’w gwella o ran y safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, ac yn aml mewn lleiafrif o’r sesiynau addysgu y gwelon ni, ac yn y broses o farcio gwaith y disgyblion.

Mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella ym mherfformiad yr ysgolion sydd angen ymweliad monitro gan Estyn. Ond mae diffygion yn rhagolygon gwella llawer o’r ysgolion hynny hefyd. Yn aml, nid yw’r adroddiadau hunanarfarnu’n adnabod y meysydd pwysig i’w gwella, ac nid yw’r cynlluniau gwella’n ddigon heriol. Mae cyfraddau presenoldeb a medrau’n feysydd sy’n peri pryder hefyd.

Ysgolion lle mae gofyn gwelliant sylweddol neu roi mesurau arbennig ar waith

Eleni, cynyddodd nifer yr ysgolion uwchradd lle mae angen gwelliant sylweddol, o un ysgol i bump. Cafodd un ysgol ei rhoi yn y categori mesurau arbennig. Mae’r ysgol lle’r oedd angen gwelliant sylweddol y llynedd wedi gwneud cynnydd o ran rhoi sylw i’r argymhellion yn ei hadroddiad arolygu. Ond mae’n ddyddiau cynnar ar lawer o’r gwelliannau, ac felly bydd Estyn yn ymweld â’r ysgol eto i fonitro’r cynnydd.

Lleoliadau i blant dan bump oed

Yn y lleoliadau sydd wedi gwella, mae'r arweinwyr yn gwybod sut y gallan nhw wella ac mae ansawdd y profiadau dysgu'n well o lawer. Mae pwrpas cliriach i'r gweithgareddau, ac maen nhw'n fwy addas i oedrannau'r plant.

Ymhlith y dulliau gweithredu cyffredin sydd wedi helpu'r lleoliadau i ddod allan o'r categori monitro gan Estyn neu fonitro gan yr awdurdod lleol mae: cael fformatau cynllunio gan yr awdurdod lleol; cymryd golwg cyffredinol ar y dasg o ddatblygu medrau; a chymorth ychwanegol i asesu drwy arsylwi. Mae athrawon ymgynghorol wedi gweithio drwy fodolau hunanarfarnu gyda'r lleoliadau, ac wedi cytuno ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maen nhw hefyd wedi helpu gyda'r gwaith cynllunio.

Astudiaeth achos: Dod allan o'r categori monitro gan Estyn

Mae Cylch Meithrin Penllwyn yn cael ei gynnal yn neuadd y pentref ym Mhenllwyn, ger Aberystwyth. Mae mwyafrif o'r plant sy'n dod i'r cylch yn byw yn y gymuned leol ac yn yr ardaloedd o amgylch. Daw tua hanner y plant o gartrefi Cymraeg. Mae'r cylch wedi'i gofrestru i ddarparu ar gyfer 20 o blant rhwng dwy a hanner a phedair blwydd oed. Mae'r cylch yn aelod o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ceredigion. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Meithrin.

Fe wnaethon ni roi'r lleoliad yn y categori monitro gan Estyn yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2011.

Erbyn eu hymweliad monitro yn ystod haf 2012, roedd yr ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi gwneud cymaint o gynnydd sylweddol fel eu bod yn croesawu'r arolygwyr i'r lleoliad i weld y newidiadau yr oedden nhw wedi'u gwneud i'r ddarpariaeth. Ar ôl yr arolygiad cychwynnol, roedden nhw wedi rhoi sylw i awgrymiadau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella; wedi rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau; ac wedi rhoi llawer o syniadau ar waith ar ôl mynychu cyrsiau hyfforddi allanol a mewnol, sydd wedi codi safonau'r plant.

Mae'r lleoliad wedi datblygu ffordd hwylus o hunanarfarnu. Dyma un o'r prif ffactorau yn y cynnydd roedd yr ymarferwyr wedi'i wneud. Erbyn hyn mae hunanarfarnu'n rhan annatod o waith y lleoliad, ac mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r pwyllgor rheoli wedi cytuno ar gynllun gweithredu addas sy'n sicrhau bod yr ymarferwyr yn mynd ati i gynnal arfer dda ac i gyflwyno newidiadau.

Mae'r plant yn cael gwell cyfleoedd i ddefnyddio'u medrau ym mhob maes dysgu. Gwnaeth y mwyafrif o'r plant gynnydd da, yn enwedig yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae system gofnodi newydd yn rhoi crynodeb clir o gyflawniadau pob plentyn, ac mae'r ymarferwyr yn diweddarau eu proffiliau ar sail eu cynnydd.

Roedd yr ymarferwyr arweiniol yn llawn cyffro ynglŷn â'r ymweliad monitro, ac yn ei weld fel profiad cadarnhaol. Dywedon nhw fod cael eu rhoi yn y categori monitro dilynol wedi canolbwyntio'u meddyliau ar y pethau roedd angen eu gwella, a bod gwneud y gwelliannau wedi cryfhau'r lleoliad a'i wneud yn lle gwell.

“

“Eleni, fe wnaethon ni wahodd 19 o leoliadau i roi astudiaethau achos o arfer orau. Mae llawer o’r rhain yn disgrifio’r arferion gorau yn y gwaith mewn partneriaethau neu’r gwaith arwain. Prin iawn yw’r astudiaethau achos o arfer orau yn y gwaith cynllunio neu asesu.”

Astudiaethau achos o arfer orau

Y llynedd, gofynnwn ni i naw o leoliadau am astudiaethau achos o arfer orau. Eleni, fe wnaethon ni wahodd 19 o leoliadau i roi astudiaethau achos o arfer orau. Mae llawer o’r rhain yn disgrifio’r arferion gorau yn y gwaith mewn partneriaethau neu’r gwaith arwain. Prin iawn yw’r astudiaethau achos o arfer orau yn y gwaith cynllunio neu asesu.

Monitro gan yr awdurdod lleol a monitro gan Estyn

Eleni, mae 21% o’r lleoliadau angen eu monitro gan awdurdod lleol, ac mae angen ymweliad monitro gan Estyn ar 15% ohonyn nhw. Y llynedd, cafodd 9% o’r lleoliadau eu rhoi yn y categori monitro gan yr awdurdod lleol, ac 8% yn y categori monitro gan Estyn. O’r lleoliadau a gafodd eu rhoi yn y categori monitro gan awdurdod lleol, mae mwyafrif ohonyn nhw wedi gwneud cynnydd da ac wedi cael eu tynnu o’r categori monitro dilynol.

O’r lleoliadau a gafodd eu rhoi yn y categori monitro gan Estyn, mae pob un wedi gwneud cynnydd da. Mae pob un ond un wedi cael ei dynnu o’r categori monitro gan Estyn. Yn y lleoliad sy’n dal yn y categori monitro gan Estyn, roedd nodweddion ansicr i’r gwaith arwain, a byddwn yn ymweld â’r lleoliad eto.

Dyma’r meysydd i’w gwella a arweiniodd at fonitro dilynol:

- y safonau wrth ddatblygu’r iaith Gymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- y profiadau dysgu, yn enwedig cynllunio a darparu ar gyfer y Gymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a defnyddio’r awyr agored;
- yr asesu;
- rôl y pwyllgor rheoli neu’r perchennog drwy well gwaith monitro a chanolbwyntio’n fwy manwl ar y meysydd i’w gwella; a’r
- gweithdrefnau hunanarfarnu a’r cynllunio ar gyfer gwella.

Lleoliadau lle mae gofyn gwelliant â ffocws

Mae’r categori gwelliant â ffocws yn cael ei ddefnyddio pan fydd lleoliadau’n peri pryder. Mae gofyn monitro gan Estyn unwaith y tymor arnynt.

Eleni, cafodd un lleoliad ei enwi fel lleoliad lle’r oedd angen gwelliant â ffocws. Roedd gwendidau yn nealltwriaeth yr arweinydd o’r gweithgareddau sy’n addas i blant ifanc ac yn ansawdd gyffredinol y ddarpariaeth. Cafodd un lleoliad ei osod hefyd yn y categori gwelliant â ffocws drwy fonitro gan Estyn. Mae’r awdurdod lleol bellach wedi diddymu’r cyllid mae’n ei roi ar gyfer lleoedd addysg yn y lleoliad yma.

Dim ond yn un lleoliad yr oedd angen gwelliant â ffocws y llynedd. Fe wnaeth y lleoliad yma gynnydd da yn erbyn yr argymhellion ar gyfer gwella, a chafodd ei dynnu o’r categori monitro dilynol ym mis Mawrth 2012.

Gweithgarwch dilynol mewn sectorau eraill

Mae Ffigurau 2.3 a 2.4 yn dangos nifer y darparwyr yn y gwahanol categorïau gweithgarwch dilynol yn 2011-2012 ac yn 2010-2011.

Ffigur 2.3: Siart yn dangos nifer y darparwyr lle'r oeddem wedi nodi yn ystod arolygiadau craidd yn 2011-2012 fod angen gweithgarwch dilynol (fffigurau 2010-2011 mewn cromfachau)

	Ysgolion	Unedau cyfeirio disgyblion	Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
Monitro gan Estyn	0 (1)	3 (1)	3 (3)
Gwelliant sylweddol	0 (0)	1 (0)	1 (1)
Mesurau arbennig	0 (0)	0 (0)	1 (1)

Cafodd un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion eu tynnu o'r categori monitro gan Estyn yn 2011-2012.

Ffigur 2.4: Siart yn dangos nifer y darparwyr lle'r oeddem wedi nodi yn ystod arolygiadau craidd yn 2011-2012 fod angen gweithgarwch dilynol (fffigurau 2010-2011 mewn cromfachau)

	Colegau addysg bellach	Dysgu yn y gwaith	Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned	Addysg gychwynnol i athrawon	Cymraeg i oedolion
Monitro gan Estyn	0 (0)	1 (2)	2 (2)	1 (0)	0 (1)
Ail arolygiad	0 (1)	1 (0)	0 (0)	0 (0)	0 (0)
Ymweliad gan arolygydd cyswllt	1 (0)	0 (0)	0 (0)	0 (0)	0 (0)

Ysgolion arbennig a gynhelir

Mae tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n rhagorol at ei gilydd, ac fe wnaethon ni ofyn iddyn nhw am astudiaethau achos i'w rhoi ar ein gwefan. Nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y tair ysgol arall a gafodd eu harolygu.

Mae un ysgol arbennig a gynhelir a gafodd ei rhoi'r llynedd yn y categori monitro gan Estyn, wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Nid oes angen rhagor o weithgarwch dilynol arni.

Ysgolion arbennig annibynnol

Ym mhob arolygiad o ysgolion arbennig annibynnol, mae'r tîm arolygu'n llunio barn gan holi i ba raddau mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Eleni, llwyddodd dwy ysgol arbennig annibynnol i fodloni pob un o'r rheoliadau. Yn y ddwy ysgol arall, mae gwendidau yn ansawdd yr addysg maen nhw'n ei darparu. Y prif wendid yw nad yw'r addysgu a'r cynllunio'n ddigon da. Byddwn ni'n ymweld eto â'r ddwy ysgol yma er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu statws fel ysgol gofrestrdig.

Ysgolion annibynnol

Fe wnaethon ni nodi eleni fod arfer ragorol i'w gweld mewn dwy ysgol. Fe wnaethon ni ofyn i'r ysgolion yma am astudiaethau achos yn sôn am brofiadau dysgu, am wella ansawdd a chyfeiriad strategol, ac am effaith y gwaith arwain.

Ym mhob arolygiad o'r ysgolion annibynnol, mae'r tîm arolygu'n llunio barn gan holi i ba raddau mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Eleni, fe wnaethon ni gynnal arolygiadau monitro dilynol mewn tair ysgol a oedd wedi methu â bodloni pob un o'r rheoliadau yma yn arolygiadau'r llynedd. Mae pob un o'r ysgolion yma wedi gweithredu'n briodol ac wedi gwneud cynnydd da i gydymffurfio â'r rheoliadau. Erbyn hyn mae dwy o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae'r ysgol arall yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio.

Unedau cyfeirio disgyblion

Mae un o'r saith o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yr arolygon ni eleni wedi paratoi astudiaeth achos o'i harfer ragorol o ran y cymorth a'r arweiniad effeithiol sydd ar gael i ferched ifanc sydd ar fin dod yn famau.

Mae angen monitro gan Estyn ar dair o'r UCDau. Mae angen gwelliant sylweddol ar un ohonyn nhw. Yn yr UCDau yma, nid yw'r arweinwyr a'r rheolwyr yn gwneud yn siŵr bod ansawdd y gwaith gyda'r disgyblion yn dda bob amser. Nid ydyn nhw chwaith yn defnyddio

data neu wybodaeth o ysgolion y disgyblion i gynllunio gwelliannau. Nid yw'r disgyblion i gyd yn cael addysg amser llawn nac yn cael cyfle i ddilyn cwricwlwm sy'n ddigon eang. Nid yw eu presenoldeb yn dda chwaith. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Nid yw adeiladau tair o'r UCDau yma'n addas i'r diben.

Fe wnaethon ni fonitro un UCD y llynedd. Gwnaeth yr UCD yma gynnydd da yn erbyn yr argymhellion ar gyfer gwella. Cafodd yr uned ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Fe wnaethon ni ofyn i ddau awdurdod eleni am astudiaethau achos o'r arferion gorau yn y gwaith o arwain a gwella ysgolion.

Mae gofyn sylw pellach ar bump o'r wyth awdurdod a gafodd eu harolygu, i'w helpu i wella. Mae gofyn rhoi mesurau arbennig ar waith mewn un awdurdod, ac mae gofyn gwelliant sylweddol ar awdurdod arall. Mae'r safonau'n anfoddfaol yn y ddau awdurdod yma.

Bydd Estyn hefyd yn monitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion arolygu yn y tri awdurdod arall lle nad yw llawer o agweddau ar eu gwaith yn well na digonol.

Yn aml, nid yw'r awdurdodau lle mae angen ymweliadau dilynol wedi ymateb i'r argymhellion yn yr arolygiadau blaenorol. Mae llawer o ddysgwyr neu grwpiau o ddysgwyr yn methu â chyflawni gystal ag y dylen nhw. Ar ben hynny, nid yw'r awdurdodau yma'n arfarnu eu gwaith yn ddigon cadarn, ac nid ydyn nhw'n dwyn eu hunain na'u partneriaid i gyfrif yn llwyddiannus.

Sefydliadau addysg bellach

Rydym wedi cwblhau saith arolygiad o sefydliadau addysg bellach gan ddefnyddio'r fframwaith newydd. Eleni, gofynnwn ni i ddau goleg baratoi astudiaeth achos o arfer orau.

Bydd gofyn gweithgarwch dilynol mewn un coleg lle'r oedd ei berfformiad presennol a'i ragolygon gwella'n ddigonol yn unig. Bydd yr arolygydd cyswllt yn monitro cynnydd y coleg. Y llynedd, roedd angen ail arolygiad ar un coleg lle'r oedd ei berfformiad presennol a'i ragolygon gwella'n anfoddfaol. Nid ydym wedi cynnal yr ail arolygiad hwnnw eto.

Dysgu yn y gwaith

Hyd yma rydym wedi cwblhau 12 o arolygiadau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith gan ddefnyddio'r fframwaith newydd.

Eleni, mae angen gweithgarwch dilynol mewn dau o'r darparwyr dysgu yn y gwaith.

Y llynedd, fe wnaethon ni farnu mai digonol oedd perfformiad presennol dau o'r darparwyr dysgu yn y gwaith, a bod gofyn i Estyn fonitro'r ddau. Nid ydym wedi cynnal ail ymweliad â nhw eto.

Dysgu oedolion yn y gymuned

Rydym wedi cwblhau pum arolygiad o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned gan ddefnyddio'r fframwaith newydd, ac wedi cwblhau un arolygiad sefydliadol.

Fe wnaethon ni farnu bod pedair o'r partneriaethau'n ddigonol neu'n anfoddfaol mewn un neu fwy o'r ddwy farn gyffredinol. Digonol neu anfoddfaol yw trefniadau gwella ansawdd y pedair partneriaeth. Mae gwaith arwain tair o'r partneriaethau'n ddigonol neu'n anfoddfaol. Mae dysgwyr yn cyflawni safonau digonol neu anfoddfaol mewn tair o'r partneriaethau. O ganlyniad, bydd Estyn yn parhau i fonitro cynnydd y pedair partneriaeth.

Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Eleni, fe wnaethon ni arolygu un darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, sef Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru. Dyma'r arolygiad cyntaf yn y cylch arolygu presennol yma o ddarparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Rydym wedi barnu bod safonau'n ddigonol am nad oes gan leiafrif o'r hyfforddeion fedrau llythrennedd ddigon cadarn mewn Saesneg a Chymraeg, a bod angen gwella'u medrau cynllunio a myfyrio. Fe wnaethon ni argymhell hefyd fod y darparwr yn gwella cysondeb yr hyfforddiant ym mhob un o'r rhaglenni, a bod yr arweinwyr canol yn monitro safonau a hyfforddiant er mwyn sicrhau gwelliant yn gyflym ac yn effeithlon.

Canfuom fod y gwaith arwain yn dda at ei gilydd, a bod y rhagolygon gwella'n dda. Er hynny, gan fod y safonau a'r perfformiad presennol wedi cael eu barnu'n 'ddigonol', bydd Estyn yn monitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu.


Cymraeg i oedolion

Rydym wedi cwblhau dau arolygiad ym maes Cymraeg i Oedolion gan ddefnyddio'r fframwaith newydd. Eleni, fe wnaethon ni ofyn i'r darparwr yr arolygon ni am astudiaeth achos o arfer orau am fod ei ragolygon gwella a'i waith mewn partneriaethau'n rhagorol.

Y llynedd, ein barn oedd mai 'digonol' oedd perfformiad presennol a rhagolygon gwella'r darparwr Cymraeg i Oedolion a gafodd ei arolygu. Eleni, aethom ati i fonitro'r darparwr yma. Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion ar gyfer gwella. Nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach arno.

Adran 3: Adroddiad sector

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Cynnwys

Ysgolion cynradd		Ysgolion annibynnol		Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc		Dysgu oedolion yn y gymuned	
Perfformiad a rhagolygon	1	Perfformiad a rhagolygon	23	Perfformiad a rhagolygon	37	Perfformiad a rhagolygon	52
Gweithgarwch dilynol	1	Gweithgarwch dilynol	23	Gweithgarwch dilynol	37	Gweithgarwch dilynol	52
Deilliannau	2	Deilliannau	24	Deilliannau	38	Deilliannau	53
Darpariaeth	4	Darpariaeth	25	Darpariaeth	39	Darpariaeth	54
Arweinyddiaeth a rheolaeth	6	Arweinyddiaeth a rheolaeth	26	Cymorth i wella ysgolion	39	Arweinyddiaeth a rheolaeth	55
				Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol	40	Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon	
Ysgolion uwchradd		Colegau arbenigol annibynnol		Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles	41	Deilliannau	57
Perfformiad a rhagolygon	8	Deilliannau	27	Mynediad a lleoedd ysgol	42	Darpariaeth	58
Gweithgarwch dilynol	8	Darpariaeth	27	Arweinyddiaeth a rheolaeth	43	Arweinyddiaeth a rheolaeth	58
Deilliannau	9	Arweinyddiaeth a rheolaeth	28				
Darpariaeth	11			Sefydliadau addysg bellach		Cymraeg i oedolion	
Arweinyddiaeth a rheolaeth	13			Perfformiad a rhagolygon	44	Deilliannau	59
		Unedau cyfeirio disgyblion		Gweithgarwch dilynol	44	Darpariaeth	60
Ysgolion arbennig a gynhelir		Perfformiad a rhagolygon	29	Deilliannau	45	Arweinyddiaeth a rheolaeth	61
Perfformiad a rhagolygon	15	Gweithgarwch dilynol	29	Darpariaeth	46		
Gweithgarwch dilynol	15	Deilliannau	30	Arweinyddiaeth a rheolaeth	47		
Deilliannau	16	Darpariaeth	31			Dysgu yn y sector cyfiawnder	
Darpariaeth	17	Arweinyddiaeth a rheolaeth	32	Dysgu yn y gwaith		Deilliannau	62
Arweinyddiaeth a rheolaeth	18	Lleoliadau i blant dan bump oed		Perfformiad a rhagolygon	48	Darpariaeth	62
		Perfformiad a rhagolygon	33	Gweithgarwch dilynol	48	Arweinyddiaeth a rheolaeth	63
Ysgolion arbennig annibynnol		Gweithgarwch dilynol	33	Deilliannau	49		
Perfformiad a rhagolygon	19	Deilliannau	34	Darpariaeth	50		
Gweithgarwch dilynol	19	Darpariaeth	35	Arweinyddiaeth a rheolaeth	51		
Deilliannau	20	Arweinyddiaeth a rheolaeth	36				
Darpariaeth	21						
Arweinyddiaeth a rheolaeth	22						

Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2012, roedd 1,412 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hynny'n golygu bod 23 o ysgolion yn llai nag ym mis Ionawr 2011. Roedd 262,144 o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn Ionawr 2012, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol pan oedd 259,189 o ddisgyblion. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i nifer y disgyblion cynradd godi. Eleni, fe wnaethon ni arolygu 218 o ysgolion cynradd.

Perfformiad a rhagolygon

Mae perfformiad presennol ychydig dan dri chwarter o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n dda neu'n well. Mae hyn chwe phwynt canran yn is na'r llynedd. Mae perfformiad 3% o'r ysgolion cynradd yn rhagorol, ac mae perfformiad ychydig dros chwarter yn ddigonol. Mae perfformiad presennol un ysgol yn anfodhaol.

Y rhagolygon gwella yw mesur o hyder yr arolygwyr yng ngallu'r ysgol i ysgogi ei gwelliant ei hun yn y dyfodol. Mae rhagolygon gwella 6% o'r ysgolion cynradd yn rhagorol. Mae'r rhagolygon yn dda neu'n well mewn pedair o bob pum ysgol gynradd. Mae hyn bum pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Digonol yw rhagolygon 17% o'r ysgolion cynradd, ac mae rhagolygon 4% yn anfodhaol.

Yn achos llawer o ysgolion lle mae'r perfformiad presennol yn ddigonol ond bod y rhagolygon gwella'n dda, mae pennaeth neu dîm o arweinwyr cymharol newydd yn rhoi mentrau priodol ar waith i sicrhau gwelliant.

Gweithgarwch dilynol

Mae nifer yr ysgolion cynradd a gafodd gais gennym am astudiaethau achos o arfer ragorol wedi codi i 30 eleni, o 20 y llynedd. Eleni, fe wnaethon ni gynnwys ysgolion a oedd wedi cael eu barnu gennym yn 'rhagorol' mewn un neu fwy o'r dangosyddion ansawdd.

Eleni, fe wnaethon ni enwi 48% o'r ysgolion cynradd yr oeddem wedi eu harolygu i gael ymweliadau dilynol oherwydd pryderon am ddeilliannau'r arolygiad. Mae'r ffigwr dri phwynt canran yn uwch na'r llynedd. Mae cyfran yr ysgolion y mae gofyn i Estyn eu monitro wedi codi o 18% i 26% eleni.

Eleni, fe wnaethon ni enwi 7% o'r ysgolion y gwnaethom eu harolygu fel ysgolion sy'n peri pryder oherwydd arweinyddiaeth a safonau gwael. Mae'r ffigwr ddau bwynt canran yn uwch na'r llynedd.

O'r ysgolion yr oedd angen monitro gan Estyn arnyn nhw'r llynedd, mae 77% wedi sicrhau gwelliannau. Nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol arnyn nhw. Mae 61% o'r ysgolion yr oedd angen i'r awdurdod lleol eu monitro wedi gwneud gwelliannau hefyd. Cawsant eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol pellach.

Nid yw'r un o'r ysgolion a gafodd eu rhoi yn y categori mesurau arbennig y llynedd nac eleni wedi sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol cyn eu tynnu o'r categori.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

¹ Ysgolion sy'n peri pryder yw'r ysgolion hynny sy'n cael eu rhoi mewn categorïau lle mae gofyn rhoi 'mesurau arbennig' ar waith neu fod 'angen gwelliant sylweddol' arnyn nhw.

Deilliannau

Mae safonau ychydig dan dri chwarter o'r ysgolion yn dda neu'n well. Eleni, dim ond digonol yw safonau ychydig dros chwarter o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn llawer o'r ysgolion yma, mae cyfradd cynnydd disgyblion y gwahanol grwpiau blwyddyn yn amrywio gormod. Nid yw disgwyliadau'r staff o'r hyn y gall eu disgyblion ei gyflawni'n ddigon uchel yn ychydig dros chwarter o'r ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cyflawni gystal ag y gallen nhw.

Mewn lleiafrif sylweddol o'r ysgolion cynradd, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud digon o gynnydd. Er bod y mwyafrif yn mynd ymlaen i gyflawni'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu grŵp blwyddyn, nid oes digon o'r disgyblion yma'n cyflawni'r lefelau uwch yn yr asesiadau ar ddiwedd y

Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Y ffaith nad yw'r athrawon yn gosod tasgau sy'n eu herio'n ddigon da yw'r rheswm pennaf dros weld hyn yn digwydd. Rheswm arall yw nad yw'r athrawon yn eu herio a'u cynorthwyo i wneud y cynnydd y gallen nhw ei wneud.

Yn 2012, cyflawnodd 83% o'r disgyblion y lefel a ddisgwylir mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mewn llawer o'r ysgolion, mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Dim ond mewn ychydig iawn o'r ysgolion y mae'r safonau'n rhagorol. Yn yr ysgolion


yma, mae'r holl ddisgyblion bron yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl o gymharu â'u cyrhaeddiad ar adeg eu derbyn i'r ysgol. Yn y nifer bach yma o'r ysgolion, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn arbennig o dda, ac yn cyrraedd safon uchel ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Mewn dros bedair o bob pump o'r ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n ofalus ac yn siarad yn hyderus. Mae eu geirfa'n cynyddu. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen testunau priodol yn eithaf cywir. Maen nhw'n deall y testun yn dda ac yn defnyddio'u gwybodaeth am ffoneg i weithio allan unrhyw eiriau anghyfarwydd. Mewn tua phedair o bob pum ysgol, mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen

yn dysgu medrau da mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Nid yw disgyblion dros un o bob pum ysgol yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigon da ym mhob maes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn siarad yn glir ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau. Maen nhw'n gallu esbonio'u syniadau. Mae disgyblion tua phedair o bob pump o'r ysgolion yn dysgu medrau priodol yn eu gwersi Saesneg a mathemateg. Ond, mewn tua dwy o bob pum ysgol, nid yw'r disgyblion yn mynd ati'n ddigon da i ddatrys problemau nac i ddefnyddio rhesymeg fathemategol. Nid ydyn nhw chwaith yn defnyddio'u medrau gwybodaeth a chyfathrebu uwch ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Ffigur 3.1: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Mae mynd ati i roi sylw i'r cyswllt rhwng anfantais a pherfformiad gwael yn dal yn broblem. Mae deilliannau'r disgyblion yn dda neu'n well yn tua phedair o bob pump o'r ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu eleni lle mae gan lai na 24% o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Dim ond yn achos tua hanner o'r ysgolion y mae mwy na 24% o'u disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, y mae hyn yn wir. Yn ychydig o'r ysgolion sydd â'r canrannau uchaf (dros 32%) o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn. Yn yr ysgolion yma, mae cyswllt clir rhwng gallu'r ysgol i ddatblygu medrau cymdeithasol, ymddygiad a bywyd y disgyblion, a'i gallu i helpu'r disgyblion i wneud cynnydd cyson wrth ddysgu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Eleni, fe adroddon ni fod angen i 40% o'r ysgolion cynradd godi eu safonau mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Mae safonau ysgrifennu'r disgyblion yn benodol yn peri pryder o hyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi sylfaenol, neu maen nhw'n cael trafferth ffurfio llythrennau. Yn dros chwarter o'r ysgolion, mae medrau ysgrifennu gwan gan leiafrif sylweddol o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Nid ydyn nhw'n trosglwyddo'r medrau gramadeg a sillafu maen nhw wedi'u dysgu mewn sesiynau iaith i'w gwaith ysgrifennu yn y pynciau eraill heb gymorth yr athro. Nid ydyn nhw'n gallu mynd ati ar eu pennau eu hunain i roi trefn ar eu gwaith ysgrifenedig. Ac nid ydyn nhw'n gallu

ysgrifennu darnau hir i wahanol bwrpasau, fel esbonio sut aethon nhw ati i wneud ymchwiliad gwyddonol.

Yn tua phedair o bob pump o'r ysgolion, mae'r disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau darllen yn briodol yn y rhannau eraill o'r cwricwlwm. Ond, mewn un o bob pum ysgol, mae gormod o'r disgyblion yn darllen ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol. Nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ran dod i ddeall y pethau maen nhw'n eu darllen.

Nid oes fawr ddim newid wedi bod o ran safonau'r disgyblion mewn rhifedd. Mewn tua phedair o bob pum ysgol, mae'r disgyblion yn dysgu medrau priodol yn eu gwersi mathemateg. Ond prin yw gallu disgyblion tua dwy o bob pum ysgol i ddatrys problemau ac i ddefnyddio'u rhesymeg fathemategol ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn cychwyn yn dda wrth ddysgu siarad a gwranddo yn Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod sesiynau grŵp cyfan, ac mae ganddyn nhw agwedd gadarnhaol at siarad Cymraeg. Mae'r safonau yng nghyfnod allweddol 2 yn gwella'n araf, ond mewn lleiafrif sylweddol o'r ysgolion, nid yw'r disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da. Yn yr ysgolion yma'n aml, nid yw'r athrawon yn neilltuo digon o amser i wella medrau Cymraeg ail iaith y disgyblion, ac nid oes gan lawer o'r athrawon ddigon o hyder i addysgu Cymraeg,

yn enwedig i ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2. Nid yw disgyblion un o bob deg ysgol hyd yn oed yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddysgu medrau Cymraeg fel ail iaith. Mewn ysgolion prin iawn, mae bron pob disgybl yn deall ei waith Cymraeg yn dda, ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Yn yr achosion eithriadol yma, mae'r disgyblion yn dysgu defnyddio dewis eang o batrymau brawddegau'n gywir ac yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac yn darllen a mynegi'r un pryd.

Mae ansawdd lles y disgyblion yn dda neu'n well yn y mwyafrif o'r ysgolion cynradd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae eu hymddygiad yn dda ar y cyfan. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwranddo'n astud ac maen nhw'n frwdfrydig. Yn yr ychydig iawn o ysgolion rhagorol, mae bron pob un o'r disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn dangos diddordeb brwd mewn dysgu.

Mae bwlch mawr o hyd rhwng cyfraddau presenoldeb ysgolion mewn ardaloedd lle mae amddifadedd cymdeithasol ar ei waethaf, a'r cyfraddau mewn ardaloedd heb lawer o amddifadedd. Mewn llawer o ysgolion, mae cyswllt pendant rhwng canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, lefelau absenoldeb, a deilliannau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Ym mhob ysgol bron, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gweithredu er mwyn bod yn iach. Mae llawer ohonyn nhw'n cymryd rhan yn rheolaidd

mewn gweithgareddau corfforol ac yn mynd i weithgareddau allgyrsiol er mwyn cadw'n heini.

Yn llawer o'r ysgolion, mae cyngorau'r ysgol yn gweithio gyda'r gymuned leol. Maen nhw'n dod at ei gilydd i godi arian at elusennau lleol, ac mae mwy a mwy yn gweithio gyda swyddogion cymunedol i wella diogelwch a glendid yr ardal o amgylch yr ysgol. Ond dim ond mewn ychydig o'r ysgolion y mae'r disgyblion yn chwarae rôl bwysig yn y broses o arfarnu agweddau ar fywyd yr ysgol neu yn y dasg o wneud penderfyniadau ar y ffyrdd o wella safonau a darpariaeth. Yn rhai o'r ysgolion, mae'r disgyblion yn monitro cynnydd yn erbyn targedau sydd wedi'u cytuno yn y cynllun datblygu ysgol, ac yn arfarnu cynnydd eu cyfoedion.

Ym mhob ysgol bron, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol o'i gilydd, o staff ac o ymwelwyr, ac yn eu trin â pharch. Mae llawer ohonyn nhw'n derbyn cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain ac yn datblygu'r medrau sy'n eu galluogi i weithio'n gynhyrchiol gyda phobl eraill.

Yr iaith Gymraeg yn arwain y ffordd

Mae Ysgol Comins Coch yn arwain y ffordd yn y gwaith o addysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau drwy raglen drochi ddwys a drwy wneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu pynciau eraill.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr [astudiaeth achos](#).

Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth at ei gilydd yn dda neu'n well yn ychydig dros bedair o bob pump o'r ysgolion cynradd yr arolygon ni.

Mae llai na thri chwarter o'r ysgolion yn cynnig profiadau dysgu sy'n dda neu'n well. Yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae'r cwricwlwm yn gynhwysfawr, yn gytbwys ac yn berthnasol, ac yn ateb y gofynion statudol. Yn y Cyfnod Sylfaen, er bod y gwaith cynllunio'n briodol ar y cyfan, nid yw darpariaeth y mwyafrif o'r ysgolion i'r plant chwech a saith oed yn estynedig ac yn barhaus. Yng nghyfnod allweddol 2, mewn tua dwy o bob pum ysgol, nid yw'r athrawon yn addasu eu cynlluniau'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob disgybl. Yn y mwyafrif o'r ysgolion yma mae'r athrawon yn dibynnu gormod ar ddefnyddio cynlluniau masnachol. Yn rhy aml mae pob un o'r disgyblion, beth bynnag yw ei allu, yn gwneud yr un gwaith.

Mae tua thri chwarter o'r ysgolion yn cynllunio'n briodol er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn y gwersi Saesneg, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i'r disgyblion ddefnyddio'u medrau darllen a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Ond, yn tua chwarter o'r ysgolion, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion, yn enwedig cynllunio ar gyfer y disgyblion mwy galluog, yn dal yn wan. Nid oes digon o gyfleoedd yn y gwersi Saesneg a mathemateg ac mewn amryw o wahanol feysydd pwnc i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau darllen a rhifedd i'r lefel sy'n briodol. Mae'r ysgolion prin iawn hynny sy'n cynnig darpariaeth ragorol yn defnyddio dull holi sy'n helpu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau'n annibynnol ym mhob agwedd bron ar eu


dysgu. Yn yr ysgolion yma, mae'r disgyblion a'r staff yn trafod y medrau y mae angen eu defnyddio wrth astudio testun, ac mae'r disgyblion eu hunain yn dod i benderfyniad ar y ffyrdd y bydd y tasgau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r ddarpariaeth wedi cael ei datblygu gystal yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn rhoi pwyslais da ar ddatblygu gallu'r disgyblion i ddeall hanes a diwylliant Cymru. Ond mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw profiadau'r disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith yn datblygu digon ar eu dysgu blaenorol. Nid yw'r ysgolion yn neilltuo digon o amser i addysgu Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynd ati'n dda i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion amgylcheddol a materion y byd. Mae'r disgyblion yn mynd ati'n rheolaidd i amcangyfrif eu hól troed byd-eang, ac maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau masnach deg. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion ddysgu am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn dewis eang o wahanol bynciau.

Mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn tua phedair o bob pum ysgol. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi dod i ddeall dull gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda. Maen nhw'n cydbwysu'n dda'r gweithgareddau dan arweiniad oedolion a'r gweithgareddau mae'r plant yn eu hysgogi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwybodaeth llawer o'r athrawon am eu pynciau'n dda ac mae'r athrawon a'r plant yn rhannu'r un amcanion

Ffigur 3.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



dysgu clir. Ond mewn lleiafrif o'r ysgolion yma, nid yw disgwyliadau'r athrawon o'u disgyblion yn ddigon uchel, yn enwedig o ran yr hyn y gall y disgyblion mwy galluog ei gyflawni mewn darllen, ysgrifennu a rhifedd. Yn yr ysgolion prin hynny lle mae'r addysgu'n rhagorol, mae'r holl athrawon bron yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n annog y disgyblion i feddwl yn ofalus ac yn rhesymegol. Mae'r gwersi'n symud yn eu blaenau'n ddigon cyflym ac mae disgwyliadau'r staff o bob un o'r disgyblion yn uchel. Yn tua un o bob pump o'r ysgolion, nid yw'r addysgu fawr gwell na digonol. Yn llawer o'r ysgolion yma, mae'r gwersi'n symud yn eu blaenau'n rhy araf ac mae gormod o ddefnydd cyson o daflenni gwaith. Er bod y rhain yn mynd â sylw'r disgyblion, nid ydyn nhw'n eu helpu i gymhwyso'u medrau'n llawn nac i ddysgu'n annibynnol.

Mae diffygion i'w gweld yn y gwaith o asesu cynnydd y disgyblion yn gywir mewn tua dwy o bob pum ysgol. Mae diffygion hefyd wrth ddefnyddio'r data sy'n deillio o'r broses asesu. Mae'r gweithdrefnau safoni, cymedroli ac olrhain yn briodol yn llawer o'r ysgolion. Ond mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw gwaith marcio'r athrawon yn pennu'r camau nesaf y dylai'r disgyblion eu cymryd, ac nid oes digon o'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o asesu eu cynnydd eu hunain. Mae gormod o'r ysgolion yn

methu â defnyddio canfyddiadau'r broses asesu'n gyson ar draws yr ysgol wrth bennu'r targedau ar gyfer gwella. Nid ydyn nhw chwaith yn cadw at y polisi asesu mae'r ysgol wedi cytuno arno. Mae pob ysgol bron wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni, ac mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio deilliannau'r broses asesu fel sail i'r gwaith o gynllunio at y dyfodol.

Mae bron pob ysgol yn mynd ati'n effeithiol i hybu iechyd a lles y disgyblion. Mae hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn un o gryfderau pob ysgol bron. Yn ychydig o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion wedi cael ei datblygu'n dda ym mhob un o feysydd y cwricwlwm, ac mae hyn yn helpu'r disgyblion i ddysgu medrau cymdeithasol a medrau bywyd.

Mae bron pob ysgol yn cymhwyso'i pholisi rheoli ymddygiad yn gyson. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i wella presenoldeb y disgyblion. Ond, yn achos rhai o'r ysgolion, prin yw effaith y strategaethau yma.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi gweithdrefnau da ar waith i adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Mae llawer o'r ysgolion

yn cynnig ymyriadau priodol sy'n helpu'r disgyblion yma i ddal i fyny â'u cyd-ddisgyblion. Nid yw lleiafrif o'r athrawon yn helpu'r disgyblion wrth addysgu'r dosbarth cyfan i atgyfnerthu'r medrau maen nhw wedi'u dysgu mewn rhaglenni ymyrryd. Mae pob un bron o'r ysgolion yn atgyfeirio'r disgyblion yn briodol at wasanaethau arbenigol sy'n gallu cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

Mae pob ysgol bron wedi rhoi polisiâu a gweithdrefnau boddhaol ar waith i amddiffyn lles y disgyblion. Yn yr ysgolion prin hynny lle nad yw'r gweithdrefnau wedi cael eu datblygu'n ddigonol, at ei gilydd nid yw'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ac nid ydyn nhw'n gwybod sut mae ymateb i ddatgeliad.

Mae'r holl ysgolion bron yn sefydlu ethos cynhwysol sy'n sail i holl feysydd gwaith yr ysgol. Y canlyniad yw eu bod nhw'n creu diwylliant o onestrwydd lle mae pawb yn parchu ei gilydd. Mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i drin yn deg. Er hynny, nid yw'r penaethiaid a'r athrawon wedi rhoi sylw llawn eto i farn y disgyblion ar eu profiadau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i helpu'r disgyblion i ddysgu am amrywiaeth.

Mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio'r adnoddau a'r lle sydd ar gael yn dda. At ei

gilydd mae'r ysgolion yn cynnal a chadw eu hadeiladau i safon addas, ac mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n creu amgylcheddau dysgu sy'n ddeniadol ac yn ysgogol. Mae adeiladau ychydig dros 5% o'r ysgolion mewn cyflwr gwael a'r cyfleusterau toiled yn annigonol. Mae ychydig iawn o'r ysgolion yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored a'u hamgylchedd lleol yn rhagorol. Ond mae ychydig o ysgolion yn dal i fethu â chynnig digon o brofiadau yn yr awyr agored i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Yr awyr agored gwych

Drwy weithio gyda nifer o bartneriaid strategol, mae **Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarn-sbeit** wedi llwyddo i dreialu prosiect 'Ysgol Awyr Agored'. Nod y project yw datblygu gwybodaeth y plant am yr awyr agored yn eu hardal, ac i feithrin synnwyr o falchder ynddi, perchenogaeth ohoni a'r gallu i'w mwynhau.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gwaith arwain ychydig dan bedair o bob pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n dda neu'n well. Yn yr ysgolion prin hynny lle mae'r gwaith arwain yn rhagorol, mae'r tîm o uwch-arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarn o wella. Yn yr ysgolion yma, mae pob aelod o'r staff yn deall sut mae cynnal a gwella safonau. Maen nhw'n gweithredu gyda'i gilydd gyda'r nod o gyflawni'r blaenoriaethau mae'r ysgol wedi cytuno arnyn nhw.

Mae llawer o'r ysgolion yn dadansoddi data'n dda ac yn eu defnyddio'n briodol i osod targedau gwella i'r ysgol gyfan. Mae cyswllt clir mewn tua dwy o bob tair ysgol rhwng blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella a'r ffordd y mae'r arweinwyr yn rheoli perfformiad y staff.

Mae uwch-reolwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn mynd ati i roi sylw i berfformiad athrawon unigol sy'n amlwg yn anfodddhaol. Maen nhw'n rhoi targedau, hyfforddiant a chymorth priodol ar waith, ac maen nhw'n monitro cynnydd yr athrawon yn rheolaidd. Ond mewn gormod o'r ysgolion, nid yw'r penaethiaid yn mynd ati'n ddigon cadarn i roi sylw i

berfformiad addysgu sydd o safon ddigon cyffredin. Nid ydyn nhw chwaith yn cynnig digon o gymorth i'r athrawon hynny y mae eu gwaith prin yn ddigonol, nac yn eu herio digon.


Mae'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethol yn cynorthwyo'r pennaeth yn briodol, ac yn ei helpu i osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llawer o'r gyrff llywodraethol yn gwybod i ba safon mae'r ysgol yn perfformio, ac maen nhw'n deall y broses o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Ond nid yw llywodraethwyr tair o bob deg ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yma i herio'r ysgol o safbwynt y safonau mae'n eu cyflawni. Roedd mwy o argymhellion gwella eleni i lywodraethwyr yr ysgolion cyfrwng Cymraeg nag i lywodraethwyr yr ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae dwy o bob tair ysgol wedi rhoi trefn dda neu well ar waith i wella ansawdd. Mae gan yr ysgolion yma brosesau effeithiol a systematig o hunanarfarnu sy'n cynnwys pob aelod o'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r uwch-reolwyr yn defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth berthnasol sy'n cynnwys craffu ar gynlluniau ac ar waith y

disgyblion, ac arsylwi gwersi. Yn y mwyafrif o'r ysgolion yma, mae cynllun gwella'r ysgol yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwella, ac mae cyswllt da â'r meysydd i'w datblygu sydd dan sylw yn yr adroddiad hunanarfarnu.

Yn y traean o'r ysgolion lle nad yw'r hunanarfarnu fawr gwell na digonol, nid yw'r uwch-reolwyr yn canolbwyntio digon ar safonau'r disgyblion. Yn llawer o'r ysgolion yma dim ond disgrifio'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud y mae'r adroddiad hunanarfarnu. Nid yw'n arfarnu cyflawniad y disgyblion, nac yn craffu ar effaith darpariaeth yr ysgol ar ddysgu. Nid yw llawer o uwch-reolwyr yr ysgolion yma'n defnyddio canlyniadau'r broses fonitro i osod targedau gwella clir y gallwn ni eu mesur. Mae ychydig iawn o'r ysgolion yma wedi penodi penaethiaid newydd yn ddiweddar, sydd wrthi'n cyflwyno trefniadau gwell.

Figur 3.3: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi sefydlu cysylltiadau da ag ysgolion eraill yr ardal i weithio ar brojectau penodol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion hynny lle mae arferion yn rhagorol, mae pob un o'r athrawon yn gweithio ar y cyd ag athrawon o ysgolion eraill i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ysgolion yma wedi hen sefydlu diwylliant o gydweithio'n fewnol ac yn allanol, ac mae'r athrawon yn rhannu arfer arloesol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gyda'r rhieni a'r gymuned leol. Mae ychydig o ysgolion wedi creu partneriaethau â busnesau lleol a sefydliadau cenedlaethol, ac mae'r rhain yn cyfrannu'n rhagorol at y gwaith o wella deilliannau'r disgyblion. Mae pob ysgol bron wedi hen sefydlu trefniadau pontio sy'n helpu'r disgyblion yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dechrau cydweithio mwy ag ysgolion eraill eu clwstwr i safoni a chymedroli gwaith y disgyblion ac wrth asesu eu gwaith ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae pob ysgol bron wedi creu systemau priodol i reoli eu cyllid. Mae llawer o'r ysgolion yn mynd ati'n dda i gysylltu eu gwariant â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'u hadnoddau'n dda i wella safonau a'r ddarpariaeth i ddisgyblion. Ond nid yw uwch-reolwyr tua chwarter o'r ysgolion yn mynd ati'n ddigon da i fonitro effaith penderfyniadau gwario ar safonau.

At ei gilydd mae'r uwch-reolwyr yn defnyddio staff yn briodol er mwyn manteisio ar eu medrau a'u harbenigedd. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol da i'r staff, yn enwedig o safbwynt y flaenoriaeth genedlaethol i wella medrau llythrennedd disgyblion. Ond nid yw uwch-reolwyr tua un o bob tair ysgol yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro effaith yr hyfforddiant. Mae hyn yn golygu nad yw'r rheolwyr yn rhoi sylw i anghysonderau yn arferion y gwahanol ddsbarthiadau yn yr un ysgol, ac nad yw cynnydd y disgyblion yn gyson. Yn achos tua chwarter o'r ysgolion, nid yw safonau'r disgyblion fawr gwell na digonol.

Y farn eleni oedd bod chwarter o'r ysgolion yn cynnig gwerth am arian nad oedd yn well na digonol. Yn yr ysgolion yma:

- mae cynnydd a safonau'r disgyblion yn amrywio gormod;
- mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn cymharu'n wael â chanlyniadau ysgolion tebyg eraill; neu
- nid yw'r trefniadau hunanarfarnu'n canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Blaenoriaeth i'r Gymraeg fel ail iaith

Mae gan **Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug** weledigaeth glir ac mae wedi ymrwymo'n gadarn i ddwyieithrwydd y staff a'r disgyblion fel ei gilydd. Un rhan o'r strategaeth yw rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon. Mae'r athrawon yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau hyfforddi i wella'u medrau llafar Cymraeg drwy gyrsiau sabothol, y brifysgol leol a grŵp cymorth ysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Ysgolion uwchradd

Roedd 221 o ysgolion uwchradd yng Nghymru ym mis Ionawr 2012, sef un yn llai nag ym mis Ionawr 2011. Mae nifer y disgyblion yn yr ysgolion uwchradd wedi bod yn gostwng bob blwyddyn er 2004. Roedd 198,015 o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2012, gostyngiad o 3,215 ar y ffigwr ym mis Ionawr 2011. Eleni, fe wnaethon ni arolygu 35 o ysgolion uwchradd.

Perfformiad a rhagolygon

Mae perfformiad 46% o'r ysgolion yn dda neu'n well, ac mae perfformiad 14% yn rhagorol. Mae cyfran yr ysgolion lle mae'r perfformiad yn rhagorol yn ddigon tebyg i'r llynedd, ond mae'r perfformiad presennol yn dda mewn cyfran lawer is o ysgolion. Y llynedd, roedd perfformiad bron hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda, ond eleni dim ond yn tua un o bob tair ysgol y mae'r perfformiad yn dda. Dim ond digonol yw'r perfformiad yn 40% o'r ysgolion uwchradd, ac mae'n anfodhaol yn 14% o'r ysgolion. Mae'r ffigwr yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r rhagolygon gwella'n rhagorol yn 23% o'r ysgolion. Mae'r gyfran yma ar gyfer rhagolygon rhagorol yr un fath â'r llynedd, ond mae canran yr ysgolion â rhagolygon da wedi gostwng eleni o 61% i 34%. Dim ond digonol yw'r rhagolygon gwella yn 40% o'r ysgolion uwchradd.

Yn y mwyafrif o'r ysgolion lle mae'r rhagolygon yn rhagorol, mae eu perfformiad presennol yn rhagorol hefyd. Yn yr ysgolion yma, mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar waith eu hysgolion ac maen nhw wedi sefydlu diwylliant o atebolrwydd. Daethom i'r casgliad mai da yn unig yw perfformiad yr ysgolion eraill lle mae'r rhagolygon yn rhagorol o achos mai dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae eu rhagolygon wedi bod yn rhagorol, er bod eu perfformiad yn gwella ac yn rhagori ar y disgwyliadau. Nid yw'r ysgolion yma wedi dangos eto eu bod yn gallu cynnal eu rhagoriaeth.

Dim ond mewn lleiafrif o'r ysgolion lle mae'r rhagolygon yn dda y mae eu perfformiad presennol yn dda hefyd. Dim ond perfformiad digonol sydd yn y mwyafrif arall o'r ysgolion lle mae'r rhagolygon yn dda. Efallai mai'r ffaith fod pennaeth newydd yn yr ysgol sy'n gyfrifol am hyn, neu fod

y gwelliannau'n rhai diweddar neu heb gyrraedd y lefel eto sy'n cyfiawnhau barnu bod eu perfformiad yn dda.

Gweithgarwch dilynol

Eleni, fe ofynnwn ni i wyth ysgol am astudiaeth achos o arfer ragorol. Ym mhump o'r wyth ysgol, rydym wedi barnu bod eu perfformiad presennol a'u rhagolygon gwella'n rhagorol. Ein barn oedd bod rhagolygon y tair ysgol arall yn rhagorol.

Roedd angen ymweliadau dilynol ar tua 40% o'r ysgolion uwchradd y llynedd. Roedd angen ymweliad monitro gan Estyn ar chwech, a gofynnwn ni i'r awdurdod lleol i adrodd ar gynnydd chwe ysgol arall. Mae pob un o'r ysgolion a gafodd eu monitro gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn wedi gwella gymaint fel nad oes angen rhagorol o fonitro arnyh nhw.

Eleni, mae angen ymweliad dilynol ar 54% o'r ysgolion uwchradd, sy'n gynnydd ar y ffigwr ar gyfer y llynedd. Er bod nifer yr ysgolion uwchradd a fydd yn cael eu monitro gan yr awdurdod lleol wedi gostwng o chwech i dair, mae cynnydd sylweddol (o chwech i un ar bymtheg) wedi bod yn nifer yr ysgolion y bydd Estyn yn eu monitro.

Eleni, cododd nifer yr ysgolion uwchradd sydd angen gwelliant sylweddol o un i bump. Mae un ysgol yn y categori mesurau arbennig.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgareddau dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau'n dda neu'n well at ei gilydd yn llai na hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu. Maen nhw'n rhagorol yn tua un o bob saith o'r ysgolion, ond maen nhw'n anfoddfaol yn yr un gyfran o ysgolion.

Yn yr ysgolion lle mae'r safonau rhagorol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o safbwynt gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn y gwersi. Nid oes unrhyw wahaniaethau mawr ym mherfformiad y grwpiau gwahanol o ddisgyblion fel bechgyn a merched, disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr ysgolion yma'n arbennig, mae medrau llythrennedd y disgyblion wedi'u datblygu'n dda ac maen nhw'n eu defnyddio'n hynod o effeithiol. Mae'r

disgyblion yn hyderus ac yn ystyriol wrth ymateb ar lafar yn y gwersi, sy'n helpu i atgyfnerthu eu dealltwriaeth. Maen nhw'n darllen yn rhugl ac yn llwyddo i ddethol a dadansoddi gwybodaeth. Mae llawer o'r disgyblion yn creu darnau ysgrifenedig hir sy'n ystyrlon ac wedi'u trefnu'n dda. Mae eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg yn gywir ar y cyfan. Yn yr ysgolion yma, mae'r perfformiad yn yr arholiadau allanol yn rhagorol o gymharu â lefelau perfformiad cymharol ysgolion tebyg eraill. Mae hyn yn arbennig o wir yn y cyfrannau sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys mathemateg a Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad wedi bod yn gyson uchel yn y meysydd yma ers rhai blynyddoedd.


Eleni, roedd y safonau'n dda at ei gilydd mewn llai o ysgolion na'r llynedd. Yn yr ysgolion lle mae'r safonau'n dda, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn y gwersi. Mae llawer yn gallu cofio'u gwaith blaenorol yn dda, ac maen nhw'n defnyddio'r gwaith yma'n dda i wella'u dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn gwrandao'n astud, ac mae llawer yn darllen yn dda ac yn defnyddio strategaethau addas i ddethol gwybodaeth neu i ymateb yn briodol i'r testun. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu darnau ystyriol sy'n enwi'r nodweddion allweddol, ac maen nhw'n dewis cynnwys addas i ategu eu hesboniadau a'u dadleuon. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n gywir, ond mae

Dull cyfannol o wella presenoldeb

Mae **Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed** wedi defnyddio dewis da o wahanol strategaethau a dull amlasiantaeth o weithio, ac mae hynny wedi gwella presenoldeb y disgyblion yn fawr.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Ffigur 3.4: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



rhai'n gwneud gormod o wallau sillafu a gwallau atalnodi weithiau. Nid yw ychydig o'r disgyblion mwy galluog yn yr ysgolion yma'n gwneud gymaint o gynnydd ag y dylen nhw, yn enwedig o ran datblygu medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel uwch. Mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion yn addas, ac maen nhw'n eu cymhwyso'n dda mewn pynciau eraill fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Yn yr ysgolion yma, mae perfformiad yn arholiadau allanol cyfnod allweddol 4 yn gwella at ei gilydd, ond nid yw wedi llwyddo eto i sicrhau patrwm sy'n gyson uchel am nifer o flynyddoedd.

Yn yr ysgolion lle'r ydym wedi barnu bod y safonau'n ddigonol, mae cynnydd y mwyafrif o'r disgyblion yn y gwersi'n amrywiol ond yn deg. Er bod llawer o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir yn y dosbarth, nid yw lleiafrif sylweddol ohonyn nhw'n darllen ac yn ysgrifennu'n ddigon da. Nid yw'r disgyblion yma'n dangos bod eu dealltwriaeth o'r hyn maen nhw wedi'i ddarllen yn gadarn. Mae'r darnau maen nhw'n eu hysgrifennu'n aml yn fyr, yn defnyddio ychydig o wahanol arddulliau a phwrpasau, ac yn cynnwys gormod o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, ond mewn llawer o'r ysgolion lle mae'r safonau'n ddigonol, nid yw'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda. Yn llawer o'r ysgolion yma hefyd, mae medrau rhifedd y disgyblion yn wan neu nid ydyn nhw'n eu cymhwyso'n dda ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae'r bechgyn yn tanberfformio mewn lleiafrif o'r ysgolion lle mae'r safonau'n ddigonol. Er bod perfformiad yn yr arholiadau'n gwella'n gyffredinol yn yr ysgolion yma, mae'r safon yn dal yn is nag y dylai fod o gymharu â lefelau perfformio ysgolion tebyg.

Mae'r safonau'n anfodddhaol at ei gilydd yn tua un o bob saith o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Prif ddiffygion yr ysgolion yw'r cynnydd araf mae lleiafrif sylweddol o'r

disgyblion yn ei wneud yn y gwersi, a medrau llythrennedd gwan y disgyblion. Nid yw'r disgyblion yn hyderus wrth ymateb ar lafar ac mae eu hatebion yn aml yn rhy fyr ac yn hunanymwybodol. Nid oes digon o ddatblygu wedi bod o fedrau darllen, ysgrifennu a rhifedd lleiafrif o'r disgyblion, ac nid ydyn nhw'n defnyddio'r medrau yma'n dda yn eu gwersi yn y rhannau eraill o'r cwricwlwm. Mae cyfraddau perfformio pob un o'r ysgolion yma'n llawer is na'r gyfradd mae ysgolion tebyg yn ei chyflawni yn arholiadau allanol cyfnod allweddol 4. Roedd eu cynnydd yn y cyfnodau allweddol blaenorol yn wael hefyd.

Mae'r safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yn dda mewn ychydig o ysgolion ac maen nhw'n gwella yn y mwyafrif ohonyn nhw. Mae'r safonau'n arbennig o gadarn yn yr ysgolion hynny lle mae safonau rhagorol at ei gilydd. Ond mae Cymraeg fel ail iaith yn faes pwysig y mae angen ei wella yn tua un o bob pum ysgol.

Mae'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru'n amrywio'n fawr o ddisgybl i ddisgybl ac o ysgol i ysgol. Er enghraifft, mae'r safonau mewn ymchwiliadau unigol yn gallu amrywio o lefel llwyddo i lefel uchel iawn. Mae llawer o'r amrywio yn y safonau'n dod yn sgil y gwahanol ffyrdd mae'r gwahanol ysgolion yn mynd ati i gynllunio ac i gyflwyno'r ddarpariaeth. Mae hefyd yn deillio o'r amrediad eang yng ngallu'r disgyblion sy'n astudio'r Fagloriaeth, yn enwedig ar lefel 3.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael cefnogaeth dda. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yr athrawon yn delio'n briodol ag achosion o fwlio. Mae llawer o'r disgyblion yn deall pa mor bwysig yw byw'n iach, ac maen nhw'n cymryd rhan mewn dewis da o weithgareddau corfforol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion hefyd yn datblygu medrau bywyd a medrau cymdeithasol pwysig. Rhai o'r ffyrdd mwyaf cyffredin o wneud hyn yw cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol;

derbyn cyfrifoldebau, er enghraifft, pan fydd disgyblion hyn yn gweithredu fel 'cyfeillion' i'r disgyblion iau; a gwirfoddoli. Mae'r disgyblion yn aml yn gwneud y gweithgareddau yma fel rhan o'u gwaith ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Mae ymddygiad yn dda yn y mwyafrif o'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais, yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd ac mae eu hagwedd at ddysgu, yr ysgol a'i gilydd yn dda. Yn yr ysgolion lle mae lles yn rhagorol yn gyffredinol, yr elfennau amlwg yw safonau uchel yn ymddygiad y disgyblion a pharodrwydd rhagorol i ddysgu. Er bod ymddygiad yn gyffredinol dda mewn lleiafrif o'r ysgolion, mae rhai o'r disgyblion naill ai'n treulio gormod o amser â'u sylw ar rywbeth heblaw eu tasgau, neu maen nhw'n tarfu rhywfaint.

Mae disgyblion y rhan fwyaf o ysgolion yn cyfrannu at benderfyniadau ar agweddau ar amgylchedd yr ysgol, y trefniadau bwyta'n iach a'r gwaith o lunio polisïau gwrthfwlio. Mae'r disgyblion yn cael mwy a mwy o gyfle i ddweud eu barn am y pethau y byddan nhw'n eu dysgu, ac ar y broses o ddysgu. Bydd hyn yn digwydd drwy arolygon rheolaidd a grwpiau ffocws, a drwy helpu i arsylwi gwersi fel rhan o gynlluniau fel 'Gwerthuswyr Ifanc'. Ond rhaid dweud mai dim ond mewn lleiafrif o'r ysgolion yr oedd y math yma o gyfraniad yn nodwedd amlwg. Nid yw disgyblion chwarter o'r ysgolion yn dylanwadu llawer iawn ar y gwaith o ddatblygu prif bolisïau a chynlluniau'r ysgol. Nid oes gan ychydig iawn o ysgolion ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt.

Mae presenoldeb yn dda neu'n dda iawn yn y mwyafrif o'r ysgolion yr arolygon ni'r llynedd, ond dyma'r agwedd wannaf ar les y disgyblion. Nid yw presenoldeb yn ddigon da yn ychydig o dan un o bob tair ysgol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion hynny lle'r oeddem wedi barnu mai dim ond digonol yw'r ysgolion at ei gilydd, presenoldeb gwael oedd y prif faes sydd angen ei wella.

Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well at ei gilydd yn bron i ddwy o bob tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Ein barn oedd bod y ddarpariaeth yn dda eleni mewn llai o ysgolion na'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r profiadau dysgu'n dda neu'n well yn ychydig dros ddwy o bob tair ysgol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgolion i gyd yn bodloni'r gofynion statudol. Mae cwricwlwm llawer o'r ysgolion yn defnyddio trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus i adeiladu'n dda ar brofiadau cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig dewis eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Yn chwarter o'r ysgolion, mae dewis gwell o gyrsiau wedi arwain at welliannau yn y deilliannau. Ond mae cyfyngiadau'r amserlen yn rhai o'r ysgolion yn cwtogi ar ddewisiadau'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw'r ysgolion yn cynllunio dilyniant yn ddigon gofalus i'r pynciau yng nghyfnod allweddol 2.


Mae pedair o bob pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n cynnig cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y chweched dosbarth. Mae traean o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n cynnig cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth fel ei gilydd. Mae myfyrwyr yn gallu elwa mewn sawl ffordd ar Fagloriaeth Cymru. Drwy astudio craidd Bagloriaeth Cymru, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwella'u medrau hanfodol ac maen nhw'n dod i ddeall llawer o wahanol feysydd yn well. Yn eu plith mae menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes na fydden nhw wedi'u hastudio fel arall. Yn benodol, mae'r gwaith ymchwilio unigol yn helpu llawer o'r disgyblion i ddatblygu rhai o'r medrau ymchwilio a dadansoddi y byddan nhw eu hangen mewn addysg bellach, addysg uwch a swyddi. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned a phrofiad gwaith yn codi hyder y disgyblion ac yn gwella'u medrau cymdeithasol.

Mae dros hanner o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau da ar waith i ddatblygu medrau. Mae'r dull cyson o ddatblygu medrau ysgrifennu ym mhob pwnc sydd i'w weld yn rhai

o'r ysgolion yn helpu i godi safonau llythrennedd. Yn bron un ysgol o bob tair, mae diffygion yn y gwaith o gydlynw a monitro medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Nid yw adrannau pwnc tua chwarter o'r ysgolion yn addasu gwaith yn ddigon da i gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu a'u medrau darllen ar lefel uwch. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion rhai ysgolion i ymarfer a gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau heblaw am Saesneg/Cymraeg neu fathemateg.

Mae darpariaeth un o bob pum ysgol ar gyfer y Gymraeg yn nodwedd gadarn, ac mae mwy a mwy o ddisgyblion yn sefyll arholiadau llawn y cwrs. Ond nid yw disgyblion mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael digon o gyfleoedd sydd wedi'u cynllunio i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi ar yr amserlen. Mae'r addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda yn y mwyafrif o'r ysgolion. Mae tua chwarter o'r ysgolion yn trefnu cysylltiadau rhyngwladol buddiol er mwyn helpu'r disgyblion i ddeall dinasyddiaeth fyd-eang.

Figur 3.5: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Mae'r addysgu'n dda neu'n well at ei gilydd yn llai na hanner o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Yn yr ychydig o ysgolion hynny lle mae'r addysgu'n rhagorol, mae'r ychydig o addysgu'n gyson a'r disgwyliadau o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni'n uchel. Mae'r athrawon yn trefnu tasgau cyffrous sy'n gofyn llawer gan y disgyblion ac sy'n herio'u meddyliau ac yn ymestyn eu dealltwriaeth. Maen nhw'n gofyn cwestiynau treiddgar ac yn arwain gwaith grŵp effeithiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a medrau meddwl y disgyblion yn dda. Ond yn dros hanner o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, nid yw disgwyliadau lleiafrif o'r athrawon yn ddigon uchel, yn enwedig o ran y disgyblion mwy galluog. Nid ydyn nhw chwaith yn gosod gweithgareddau heriol sy'n cyfateb i anghenion a galluoedd y disgyblion. Yn ychydig o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn mynd ati'n effeithiol i reoli ymddygiad sy'n tarfu rhywfaint.

Mae'r systemau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd y disgyblion yn dda yn llawer o'r ysgolion. Yn un o bob pum ysgol, mae'r system asesu'n rhy newydd iddi fod wedi dylanwadu ar y broses o wella safonau. Mae disgyblion y mwyaf o'r ysgolion yn cael cyfleoedd rheolaidd i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith y disgyblion eraill. Ond nid yw gwaith marcio tua hanner o'r ysgolion yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r disgyblion ynglŷn â gwella'u gwaith.

Nid yw'r athrawon yn gofalu bod y disgyblion yn adolygu eu sylwadau marcio nac yn ymateb iddyn nhw, yn enwedig o ran gwella cywirdeb eu gwaith ysgrifenedig.

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn dda neu'n well yn naw o bob deg o'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig darpariaeth effeithiol sy'n sicrhau lles a datblygiad personol y disgyblion, ac maen nhw'n cynnig gwybodaeth a chyngor defnyddiol iddyn nhw. Mae llawer o'r ysgolion wedi sefydlu partneriaethau cadarn â dewis da o wasanaethau arbenigol gyda'r nod o fod yn gefn i'r disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i amddiffyn y disgyblion. Mae llawer o'r ysgolion yn mynd ati'n effeithiol i gynorthwyo'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er hynny, yn ychydig o'r ysgolion, nid yw'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn cael y cymorth sy'n angenrheidiol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gymunedau gofalgar a chynhwysol lle mae'r mwyaf o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. At ei gilydd maen nhw hefyd yn cael cyfle cyfartal i ddilyn holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r agweddau yma'n nodwedd arbennig o gadarn mewn lleiafrif o'r ysgolion. Mae llawer o'r ysgolion yn gwneud defnydd

effeithiol o adnoddau dysgu sy'n diwallu anghenion y disgyblion a gofynion y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau a safleoedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, er bod diffygion yn ansawdd yr adeiladau yn dros un o bob tair ysgol. Yn rhannau allanol yr adeiladau y mae'r diffygion pennaf, ac mae'r toiledau mewn cyflwr gwael a'r cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol yn ddiffygiol. Yn un o bob pum ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r cyfleusterau chwaraeon yn dda iawn.

Balchder yn y Gymraeg yn dod â llwyddiant

Mae **Ysgol Gyfun Treorci** yn mynd ati i helpu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn arbennig o lwyddiannus. Mae datblygu'r iaith yn rhywbeth mae'r ysgol gyfan yn ei wneud, ac mae'n cynnig darpariaeth o safon a threfniadau effeithiol yn ystod y cyfnod o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn gwneud gwaith da neu well yn bron i dair o bob pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Eleni, roedd llai o ysgolion na'r llynedd lle'r oedd y gwaith arwain yn dda. Yn ychydig o ysgolion, mae'r farn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol am arweinyddiaeth a rheolaeth yn is na'r farn ar gyfer y dangosydd ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth. Un rheswm cyffredin dros weld hyn yn digwydd yw bod pennaeth newydd neu dîm newydd o arweinwyr wedi dechrau gwella rhai meysydd pwysig fel ymddygiad a phresenoldeb, ond bod safonau a gwerth am arian yn parhau'n ddigonol yn unig ac nid yw'r prosesau hunanarfarnu'n gyson eto. Oherwydd hynny, mae'r farn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol yn is.


Mae gwaith arwain tri chwarter o'r ysgolion yn dda neu'n well. Mae'r gyfran o'r ysgolion lle'r oeddem wedi barnu fod y gwaith arwain yn rhagorol, wedi cynyddu eleni. Mae gwaith arwain rhagorol i'w weld yn ychydig dros chwarter o'r ysgolion. Mae gan yr ysgolion lle mae'r gwaith arwain yn rhagorol dîm effeithiol iawn o uwch-arweinwyr. Maen nhw'n cyflawni eu rôl fel rheolwyr llinell yn dda iawn. Maen nhw'n rhoi pwyslais pendant ar wella safonau ac addysgu, ac maen nhw'n cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac â'r aelodau eraill o'r staff. Yn ystod cyfarfodydd gyda'r staff maen nhw'n eu rheoli, maen nhw'n cytuno ar gamau gweithredu clir sy'n canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf sydd i'w gwella. Maen nhw'n mynd ati i ddadansoddi data'n drwyadl er mwyn monitro perfformiad a

thargedu tanberfformiad i wella cyrhaeddiad, ymddygiad a phresenoldeb. Mae cysondeb i'w weld hefyd yn ansawdd arweinwyr canol yr ysgolion yma. Mae'r arweinwyr canol yn cael eu dal yn atebol yn llawn am eu meysydd cyfrifoldeb ac maen nhw'n gweithredu dan ddiwylliant o ymddiriedaeth a disgwyliadau uchel.

Yn llawer o'r ysgolion, mae'r arweinwyr yn gosod cyfeiriad clir sy'n rhoi pwyslais ar wella safonau ac addysgu. Mae diffiniad da ar y cyfan o rôl a chyfrifoldebau'r arweinwyr. Mewn lleiafrif o'r ysgolion lle mae'r gwaith arwain yn ddigonol yn unig, mae'r gwaith arwain canol yn anghyson. Nid yw trefniadau rheoli llinell yr ysgolion yma'n gadarn ac mae diffyg pwyslais a her yn y targedau rheoli perfformiad.

Mae llywodraethwyr llawer o'r ysgolion yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Ond, yn ychydig o ysgolion, mae'r llywodraethwyr yn canolbwyntio gormod ar drafod yr agweddau mae'r ysgol eisoes yn eu gwneud yn dda. Nid ydyn nhw'n herio'r pennaeth o safbwynt y materion anoddach, yn enwedig materion fel arweinyddiaeth a pherfformiad. Er bod llywodraethwyr yr ysgolion yma'n gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ddata sydd ar gael, nid ydyn nhw'n defnyddio'r data'n ddigon da i herio arweinwyr yr ysgol ac i sicrhau gwelliannau. Mae'r gyfran yma, sef 17%, yn is na'r 25% o ysgolion y llynedd lle'r oedd y llywodraethwyr yn methu â defnyddio'r wybodaeth am berfformiad yn dda i ddal yr ysgol yn atebol.

Ffigur 3.6: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Deialog broffesiynol effeithiol

Mae athrawon y gwahanol adrannau yn **Ysgol Bryngwyn** yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau o dri i helpu ei gilydd i wella ansawdd eu haddysgu.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Mae ychydig o ysgolion wedi rhoi trefniadau arbennig o gadarn ar waith i wella ansawdd. Mae adroddiadau hunanarfarnu'r gwahanol adrannau'n gyson iawn. Mae'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac yn dadansoddi'r data'n drylwyr, ac maen nhw wedi'u seilio ar wahanol fathau o dystiolaeth. Mae'r trefniadau wedi galluogi'r ysgolion yma i wneud cynnydd sylweddol ers eu harolygiad diwethaf.

Er bod llawer o'r ysgolion yn casglu tystiolaeth uniongyrchol fel sail i'r broses hunanarfarnu, dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n mynd ati'n rheolaidd ac yn systematig i arfarnu. Yn yr ysgolion yma, mae adroddiadau hunanarfarnu'r ysgol gyfan a llawer o adroddiadau hunanarfarnu'r adrannau'n gynhwysfawr ac yn enwi'r meysydd priodol sydd angen eu gwella.

Ond yn y tair bron o bob pum ysgol lle nad oedd y broses o wella ansawdd fawr gwell na digonol, nid yw'r arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol nac yn ei defnyddio'n effeithiol. Wrth arsylwi gwersi, nid oes pwyslais digon pendant ar effaith yr addysgu ar gynnydd y disgyblion. Y canlyniad yw nad yw'r adroddiadau hunanarfarnu a'r cynlluniau gwella'n rhoi digon o sylw i bob un o'r meysydd pwysig y mae angen eu gwella. Yn yr ysgolion yma, mae gormod o anghysondeb hefyd yn ansawdd y cynlluniau gwella'r ysgol gyfan a'r cynlluniau gwella adrannau. Nid yw'r cyswllt rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella'n ddigon clir, ac nid yw'r cynlluniau'n sôn am raddfeydd amser clir a deilliannau y mae'n bosibl eu mesur.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r staff i wneud gweithgareddau datblygu proffesiynol. Yn llawer o'r ysgolion mae'r rhain yn cysylltu'n briodol â'r targedau rheoli perfformiad. Mae llawer o'r ysgolion wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu gweithgorau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig llythrennedd a gwella ansawdd yr addysgu. Ond mae'n rhy gynnar ym mhob achos bron i asesu effaith y gwaith ar safonau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n effeithiol gyda'u partneriaid yn y gwaith o wella safonau a lles y disgyblion. Yn llawer o'r ysgolion mae'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth 14-19 gyda'r ysgolion partner a'r colegau yn dda neu'n well. Mae'n cynnig mwy o ddewisiadau i'r disgyblion ac yn galluogi'r arweinwyr i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy cost effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion wedi sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd effeithiol, gan rannu gwybodaeth am bresenoldeb a gwybodaeth olrhain â darparwyr eraill fel mater o drefn. Mae hyn yn eu galluogi i ymyrryd pan na fydd y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, neu fod angen adolygu'r cyrsiau pan fo'r deilliannau'n wael. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion wedi sefydlu partneriaethau sy'n gadarn at ei gilydd â'r rhieni a'r ysgolion cynradd. Ond yn yr ychydig ysgolion hynny lle nad yw gweithio mewn partneriaethau fawr gwell na digonol, nid yw'r gweithgareddau pontio'n cael eu cydlynu'n ddigon da gyda'r ysgolion cynradd, ac nid oes digon o ddatblygu wedi bod ar y cysylltiadau â'r rhieni.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn monitro gwariant yn fanwl ac yn dyrannu adnoddau'n briodol i'r blaenoriaethau maen nhw wedi'u pennu. Er hynny, mae diffyg yng nghyllideb ychydig dros chwarter o'r ysgolion, ac mae

gan ryw 14% o'r rhain ddiffyg sylweddol sydd wedi casglu dros y blynyddoedd diwethaf. Ym mhob ysgol bron, mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ond yn ychydig iawn o'r ysgolion mae gormod o'r athrawon yn addysgu'r tu allan i'w meysydd arbenigedd, ac mae hyn yn amharu ar safonau.

Ar y cyfan, mae 46% o'r ysgolion yn cynnig gwerth da neu well am arian. Ond digonol yn unig ar y gorau yw gwerth am arian tua hanner o'r ysgolion. Yn yr ysgolion yma, nid yw'r safonau'n cymharu'n dda â safonau ysgolion tebyg. Nid yw lleiafrif o'r athrawon yn diwallu anghenion y disgyblion o bob gallu yn ddigon da. Ac nid yw'r gwaith hunanwerthuso a'r cynllunio ar gyfer gwella'n canolbwyntio ar y meysydd pwysig y mae angen eu gwella.

Ysgolion arbennig a gynhelir

Mae ysgol arbennig yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar sail gwahanol anabledau dysgu neu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Awdurdodau lleol sy'n ariannu'r ysgolion arbennig a gynhelir. Ym mis Ionawr 2012, roedd 43 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Roedd 4,254 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu yn yr ysgolion arbennig ym mis Ionawr 2012, sef cynnydd o 4,181 ym mis Ionawr 2011.

Perfformiad a rhagolygon

Aethom ati eleni i arolygu chwech o ysgolion arbennig a gynhelir. Mae perfformiad pump o'r ysgolion yma'n dda ar y cyfan, ac mae perfformiad un yn rhagorol. Mae'r ffigurau yma'n debyg i rai'r llynedd pan oedd perfformiad pump o'r ysgolion yn dda ar y cyfan, perfformiad dwy'n rhagorol a pherfformiad un ysgol yn ddigonol. Nid oedd perfformiad presennol yr un o'r ysgolion yn anfoddfaol y llynedd nac eleni. Yn yr ysgolion hynny lle mae'r perfformiad presennol yn dda neu'n well, dyma'r ffactorau sy'n cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer y disgyblion: disgwyliadau uchel y staff; ansawdd da'r gofal a'r cymorth; a'r partneriaethau cadarn mae'r ysgolion wedi eu sefydlu â gwasanaethau arbenigol eraill.

Mae'r rhagolygon gwella'n dda ar y cyfan ym mhump o'r ysgolion, ac yn rhagorol yn un arall. Mae'r patrwm wrth farnu eleni'n llai cadarnhaol na'r llynedd, pan oedd y rhagolygon gwella'n rhagorol yn chwech o'r wyth o ysgolion a gafodd eu harolygu. Y ffactorau sy'n cyfrannu at ragolygon gwella rhagorol un o'r ysgolion yw: diwylliant o hunanarfarnu sydd wedi'i ddatblygu'n arbennig o dda; a defnyddio data manwl yn effeithiol iawn i adnabod anghenion ac i asesu cynnydd y disgyblion.

Gweithgarwch dilynol

Mae tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n rhagorol ar y cyfan. Mae'r tair wedi anfon astudiaethau achos i'w rhoi ar ein gwefan. Nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol yn y tair ysgol arall yr arolygon ni.

Mae un ysgol arbennig a gynhelir, a gafodd ei monitro gan Estyn y llynedd, wedi gwneud cynnydd da o safbwynt argymhellion yr adroddiad arolygu. Nid oes angen rhagorol o weithgarwch dilynol arni.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda ar y cyfan. Mae safonau un ysgol yn rhagorol.

Mae'r holl ddisgyblion bron yn cyflawni safonau da, o ystyried eu galluoedd a'u hanghenion penodol. Mae pob un bron yn ennill cymwysterau priodol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.


Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac wrth gymhwyso'r medrau yma i wahanol sefyllfaoedd fel siopa a pharatoi prydau bwyd. Maen nhw'n rhoi eu barn ac yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyd-ddisgyblion ac oedolion. Mae'r disgyblion â'r anghenion mwy cymhleth yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda i'w helpu i gyfathrebu. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda i gyflwyno'u gwaith ac i ymchwilio ar y rhyngrwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu geirfa sylfaenol yn y Gymraeg, yn ôl eu gallu a'u hanghenion. Maen nhw'n defnyddio'r eirfa honno'n briodol yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol.

Mae lles y disgyblion yn dda neu'n well ym mhob un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Mae presenoldeb yr holl ddisgyblion bron yn dda, oni bai fod cyflyrau meddygol yn arwain at gyfnodau o absenoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae'r rheini sydd ag anawsterau ymddygiad yn dysgu i wella'u hymddygiad dros amser.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maen nhw'n deall sut mae bod yn iach ac maen nhw'n cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol.

Yn yr holl ysgolion a gafodd eu harolygu, mae'r disgyblion sy'n aelodau o gyngor yr ysgol yn cyfrannu at benderfyniadau am fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys trafod materion fel hylendid a maeth yng nghaffi'r ysgol, a recriwtio staff. Newidiodd ddisgyblion un o'r ysgolion drefn yr egwyl ginio er mwyn osgoi ciwio, gwella ymddygiad a gwneud i bethau redeg yn fwy hwylus.

Ffigur 3.7: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth yn dda ar y cyfan ym mhump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu. Mae darpariaeth un ysgol yn rhagorol.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig dewis o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion y disgyblion. Ymhlith y profiadau mae cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol yn y gymuned, a phrofiadau synhwyrdd i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Yng nghyfnod allweddol 4 a'r sector ôl-16, mae'r disgyblion yn dilyn llwybrau dysgu priodol gan gynnwys Dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Gwobrwyo (ASDAN) a modiwlau Agored Cymru. Mae'r disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd i wneud profiad gwaith ac i wirfoddoli yn y gymuned. Ar y cyfan, mae'r ysgolion yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Nid yw ychydig o staff lleiafrif o'r ysgolion yn cynnig cyfleoedd addas rheolaidd i'r disgyblion i ddatblygu'r medrau yma ar draws y cwricwlwm.

Mae addysgu pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda, ac mae addysgu un ysgol yn rhagorol. Mae'r holl athrawon bron yn defnyddio dewis eang o wahanol arddulliau ac adnoddau addysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r mwyafrif o athrawon yn mynd ati'n ofalus i gynllunio gwaith sy'n cyfateb i anghenion a galluoedd y disgyblion.

Mae'r holl ysgolion yn defnyddio data asesu'n dda wrth olrhain cynnydd y disgyblion. Mae disgyblion y mwyafrif o'r ysgolion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o asesu eu cynnydd o'i gymharu â'u targedau unigol. Maen nhw'n deall sut y gallan nhw wella. Mae'r cynorthwyr cymorth dysgu'n gweithio'n dda er mwyn gwella dysgu, ymddygiad a lles y disgyblion.


Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn rhagorol ym mhedair o'r chwe ysgol a gafodd eu harolygu, ac yn dda mewn dwy ysgol. Pan fo'r y ddarpariaeth yn rhagorol mae dewis da o wahanol asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i gynorthwyo pob un o'r disgyblion. Mae pob un o'r ysgolion wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i reoli ymddygiad y disgyblion.

Rôl bwysig i dechnoleg yn y dasg o helpu disgyblion i gyflawni'u potensial

Mae **Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**, Caerdydd, wedi buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd er mwyn helpu i wella medrau cyfathrebu'r disgyblion a chwalu'r pethau sy'n eu rhwystro rhag dysgu.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Figur 3.8: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd y gwaith arwain a rheoli'n dda ym mhump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni. Mae gwaith arwain a rheoli un ysgol yn rhagorol. Mae pennaeth ac arweinwyr eraill pob un o'r ysgolion wedi gosod gweledigaeth glir i'r ysgol, ac mae pob aelod o'r staff yn rhannu'r un weledigaeth. Mae'r cyrff llywodraethol yn cynorthwyo'r ysgolion yn dda, ond nid ydyn nhw'n gosod digon o her i'r mwyafrif o'r ysgolion.

Mae'r prosesau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n dda. Yn gyffredinol mae'r adroddiadau hunanarfarnu'n pennu ac yn blaenoriaethu'r meysydd sydd angen eu gwella, ac maen nhw'n cael eu cysylltu'n agos â chynlluniau gwella manwl. Ond nid yw adroddiadau hunanarfarnu tua hanner o'r ysgolion yn arfarnu'n ddigon trwyadl.


Mae systemau ar waith ym mhob un o'r ysgolion ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r athrawon yn cael adborth defnyddiol o arsylwadau rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth, ac maen nhw'n deall y pethau mae angen eu gwneud i wella.

Mae pob un o'r ysgolion yn defnyddio data'n effeithiol i bennu anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion, ac i fonitro'u cynnydd. Maen nhw'n defnyddio'r data yma'n dda er mwyn helpu'r ysgol i wella a gwella deilliannau'r disgyblion.

Mae gwaith partneriaeth hanner o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n rhagorol, ac mae gwaith y tair ysgol arall yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithio'n agos gyda'r ysgolion arbennig eraill ac ysgolion y brif ffrwd ac wedi datblygu dewis da o fentrau. Yn eu plith mae cymorth a hyfforddiant i ysgolion y brif ffrwd; rhannu cyfleusterau arbenigol; cynnig mwy o gyfleoedd yng nghwricwlwm y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a rhaglen mentora cyfoedion.

Mae medrau'r staff arbenigol yn arbennig o dda, ac mae'r ysgolion yn eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo'r disgyblion o safbwynt eu hanghenion dysgu unigol. Mae dewis da o adnoddau yn llawer o'r ysgolion, ac mae'r ysgolion yn cyfateb y rhain yn dda i ddi-ddordebau a galluoedd y disgyblion. Roedd pob un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n cynnig gwerth da neu well am arian. Yn yr achosion lle'r oedd y gwerth am arian yn rhagorol, roedd hyn yn deillio o ansawdd uchel iawn yr adnoddau a'r ffordd y mae'r staff yn eu defnyddio i gyflawni safonau rhagorol i'r disgyblion.

Figur 3.9: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Ysgolion arbennig annibynnol

Ym mis Ionawr 2012, roedd 32 o ysgolion arbennig annibynnol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Maen nhw'n addysgu cyfanswm o tua 500 o ddisgyblion. Mae llawer o'r ysgolion yma'n rhai bach iawn sy'n addysgu llai na 15 o ddisgyblion sy'n dod yn bennaf o'r cartrefi plant sydd wedi'u cysylltu â'r ysgolion. Mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o'r holl ysgolion arbennig annibynnol am fod y disgyblion yn yr ysgolion yma'n agored iawn i niwed.

Yn ystod 2011-2012, agorodd tair o ysgolion annibynnol cofrestredig bach, ac fe gaeodd un ysgol arall. Ym mis Gorffennaf 2012, nid oedd gan saith o'r ysgolion sy'n gysylltiedig â chartrefi plant unrhyw ddisgyblion gan fod y plant sy'n byw ynddyn nhw'n cael eu haddysg mewn ysgolion lleol eraill.

Perfformiad a rhagolygon

Aethom ati eleni i arolygu pedair ysgol arbennig annibynnol. Mae perfformiad un o'r ysgolion yn rhagorol. Mae effaith staff yr ysgol honno ar ddeilliannau disgyblion y mae eu hymddygiad yn heriol iawn, yn gadarnhaol iawn yn y tymor hir. Mae perfformiad un ysgol yn dda, a pherfformiad dwy arall yn ddigonol.

Mae rhagolygon gwella tair o'r ysgolion yn dda neu'n well. Mae arweinwyr a rheolwyr yr ysgolion hynny wedi gosod gweledigaeth glir i'r ysgol, ac mae pob aelod o'r staff yn rhannu'r un weledigaeth. Mae'r ysgolion yma'n defnyddio hunanarfarnu'n effeithiol ac yn mynd ati mewn ffyrdd priodol i wneud gwelliannau. Nid yw arweinwyr yr un ysgol lle nad yw'r rhagolygon gwella fawr gwell na digonol yn canolbwyntio digon ar wella deilliannau'r disgyblion.

Wrth arolygu pob ysgol arbennig annibynnol, mae'r tîm arolygu'n ffurfio barn ar y graddau mae'r ysgol yn llwyddo i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Gweithgarwch dilynol

Mae dwy ysgol arbennig annibynnol wedi llwyddo eleni i fodloni pob un o'r rheoliadau. Fe welon ni wendidau yn ansawdd yr addysg yn y ddwy ysgol arall, ac mae'r gwendidau hynny'n deillio'n bennaf o'r ffaith nad yw'r gwaith addysgu a chynllunio'n ddigon da. Byddwn yn ymweld eto â'r ddwy ysgol yma i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gadw'u statws cofrestredig.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae disgyblion pob un o'r pedair ysgol arbennig annibynnol a gafodd ei harolygu eleni'n llwyddo i ennill dewis priodol o gymwysterau achrededig. Yn un o'r ysgolion lle mae'r safonau'n dda, llwyddodd pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill gwobr efydd Dug Caeredin ac amryw o wahanol gymwysterau TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru. Yn yr ysgolion lle'r oeddem wedi barnu bod y safonau'n rhagorol, mae'r disgyblion hŷn a mwy galluog yn ennill cymwysterau ASDAN am ddewis da o wahanol gyflawniadau yn y meysydd llythrennedd, rhifedd, medrau cymdeithasol a medrau bywyd, medrau corfforol ac addysg yn yr awyr agored.

Mae disgyblion un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n gwneud cynnydd rhagorol o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae pob un o'r disgyblion yma'n gwneud gwelliannau sylweddol o ran datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, ac maen nhw'n dod yn fwy annibynnol.


Roedd safonau un ysgol yn dda, ac mae ei disgyblion yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd a'u medrau cymdeithasol yn dda. Ond digonol yn unig oedd safonau dwy ysgol. Nid yw eu disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Er enghraifft, nid yw'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio priflythrennau nac atalnodau llawn yn briodol, ac nid ydyn nhw'n cyflwyno'u gwaith yn dda. Ar ben hynny nid oes digon o ddatblygu wedi bod ar fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Mae disgyblion un ysgol yn cael camymddwyn a gwastraffu amser yn y gwersi, sy'n golygu nad ydyn nhw'n gwneud llawer o gynnydd.

Mae disgyblion dwy o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n cael cyfleoedd da i gyfleu eu barn. Ond nid yw lles disgyblion dwy ysgol arall yn well na digonol, neu mae eu lles yn anfoddhaol. Nid yw staff yr ysgolion yma'n holi'r disgyblion yn ddigon aml am eu bywydau yn yr ysgol nac am y problemau fel bwlio sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae disgyblion y mwyafrif o'r ysgolion arbennig annibynnol yr aethon i'w gweld fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol, yn gwneud cynnydd da sy'n cyfateb i'w galluoedd. Mae presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yr ysgolion yma'n gwella dros amser ac maen nhw'n dda at ei gilydd.

Mae ymddygiad y disgyblion yn wael yn llai o ysgolion na'r llynedd. Un o'r rhesymau dros weld ffigur is yw'r ffaith nad yw rhai o'r ysgolion yn dal i weithredu.

Ffigur 3.10: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae ansawdd darpariaeth y pedair ysgol arbennig annibynnol a gafodd eu harolygu eleni'n amrywio'n fawr.

Mae darpariaeth un ysgol yn rhagorol ar sail yr addysgu rhagorol sydd ynddi. Mae'r gwaith cynllunio'n cael ei gysylltu'n ofalus â'r asesiad trylwyr iawn o anghenion dysgu'r disgyblion unigol, ac mae hon yn arfer sydd i'w chanmol. Mae athrawon yr ysgol yma'n rheoli ymddygiad y disgyblion yn dda iawn ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnal diddordeb y disgyblion yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol i hybu iechyd a lles y disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig nifer o wahanol leoliadau gwaith priodol, mewn meysydd fel peirianeg, trin gwallt ac arlwy.

Mae cwricwlwm yr ysgol lle mae'r ddarpariaeth yn dda'n eang ac yn briodol, ac mae digon o adnoddau i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion. Yn yr achosion lle nad yw'r ddarpariaeth yn well na digonol, mae'r cwricwlwm yn fwy cyfyng er ei fod yn dal yn briodol.


Mae pob un o'r ysgolion yn defnyddio dysgu yn yr awyr agored yn dda, ac yn cynnwys gweithgareddau fel dringo creigiau a gofalu am anifeiliaid. Yn yr achosion gorau, mae'r gweithgareddau yma'n gwneud llawer i godi hyder a gwella lles y disgyblion.

Mae darpariaeth un ysgol yn anfodddhaol. Nid yw disgwyliadau ei hathrawon yn ddigon uchel o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Ar ben hynny, mae'r athrawon yn cyrraedd yn hwyr ac yn rhoi seibiant i'r disgyblion ar ôl cwblhau tasg fach yn hytrach na chadw pethau i fynd a chynnig gweithgaredd diddorol arall. Canlyniad hyn yw nad yw'r disgyblion yn cynnal trefn weithio dda.

Mae'r pedair ysgol wedi rhoi polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu'r disgyblion.

Mae'r mwyafrif o'r ysgolion arbennig annibynnol yr aethom i'w gweld fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol, sydd ddim yn rhan o raglen arolygu ffurfiol Estyn, yn cynnig dewis da o gyfleoedd dysgu i'w disgyblion mewn amgylchedd addas. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau eu haddysg. Ond nid oes digon o ysgolion yn defnyddio'r broses asesu'n ddigon da wrth gynllunio rhaglen bwrpasol sy'n diwallu anghenion y gwahanol ddisgyblion ac yn codi cyrhaeddiad y dysgwyr yma sy'n agored i niwed.

Ffigur 3.11: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gwaith arwain un o'r ysgolion arbennig annibynnol yr arolygon ni'n rhagorol. Mae gwaith arwain un ysgol arall yn dda, a gwaith arwain y ddwy ysgol arall yn ddigonol yn unig.


Pan fo'r gwaith arwain yn rhagorol mae'r rheolwyr yn gosod gweledigaeth glir i'r ysgol. Mae yno ddiwylliant lle mae'r staff yn herio'r ysgol ac yn eu herio'i gilydd, er mwyn codi safonau. Mae pob aelod o'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, maen nhw'n cyfrannu at system drwyadl o hunanarfarnu ac yn cynllunio'n effeithiol i wella'r ysgol.

Mae'r un ysgol lle nad yw'r gwaith arwain a rheoli'n well na digonol, newydd gael perchennog newydd. Er bod cynlluniau gwella clir yn yr ysgol yma, nid oes digon o amser wedi bod eto i'r rhain ddechrau effeithio arni. Yn yr ysgol arall lle'r oeddem wedi barnu mai digonol oedd y gwaith arwain a rheoli, nid oes digon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu er mwyn codi safonau.

Mae tair ysgol wedi mynd ati i ddatblygu partneriaethau da. Yn eu plith mae cysylltiadau â busnesau lleol sy'n cynnig profiad gwaith i'r disgyblion. Mae'r ysgolion yma hefyd wedi sefydlu cysylltiadau da ag ysgolion a cholegau'r ardal er mwyn cynnig mwy o gymwysterau i'r disgyblion. Ond nid yw un ysgol yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer dyfodol y disgyblion sy'n gadael yr ysgol.

Mae'n dal yn ddyddiau cynnar ar waith hunanarfarnu dros hanner o'r ysgolion yr aethom i'w gweld fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol. Nid yw'r ysgolion yma'n deall y broses yn ddigon da. Nid ydyn nhw'n pennu'r meysydd priodol i'w gwella er mwyn codi safonau'r ysgol. Er enghraifft, ychydig iawn o'r ysgolion yma sydd wedi rhoi systemau ar waith i reoli perfformiad eu staff neu i gynnig digon o hyfforddiant i'r staff i wella'u medrau.

Ffigur 3.12: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Ysgolion annibynnol

Roedd 34 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru ym mis Ionawr 2012.

Aethom ati eleni i arolygu pedair o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Mae pob un o'r rhain yn ysgolion bob-oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion y cyfnodau cynradd ac uwchradd fel ei gilydd.

Wrth arolygu pob ysgol annibynnol, mae'r tîm arolygu'n asesu i ba raddau mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Llwyddodd bob un o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni i fodloni pob un o'r rheoliadau yma.

Perfformiad a rhagolygon

Mae perfformiad tair o'r ysgolion yn rhagorol ar y cyfan, a pherfformiad un arall yn dda. Mae disgyblion y tair ysgol lle mae'r perfformiad presennol yn rhagorol yn dangos diddordeb brwd ac maen nhw'n llawn cymhelliant. Maen nhw'n datblygu medrau sy'n eu paratoi'n effeithiol i ddysgu. Mae gwerthoedd clir a disgwyliadau uchel yn sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac maen nhw'n cyfrannu llawer at y perfformiad rhagorol yn yr arholiadau allanol yn ystod cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

Mae rhagolygon gwella tair o'r ysgolion yn rhagorol ar sail y gwaith arwain strategol o safon, y synnwyr cadarn o ddiben, y disgwyliadau uchel a'r ymrwymiad i werthoedd ac amcanion mae pawb yn eu rhannu. Mae trefniadau hunanarfarnu trwyadl a threfniadau cynllunio'r broses wella wedi arwain at safonau sy'n gyson uchel a gwelliannau sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth. Dim ond digonol yw rhagolygon gwella un ysgol. Mae diffygion yn ei gwaith arwain ac yn ei gwaith o gynllunio ar gyfer gwella.

Gweithgarwch dilynol

Rydym wedi enwi dwy ysgol eleni fel rhai lle mae arfer yn rhagorol. Rydym wedi gofyn i'r ddwy ysgol am astudiaethau achos sy'n rhoi sylw i brofiadau dysgu, i waith gwella ansawdd a chyfeiriad strategol, ac i effaith y gwaith arwain.

Aethom ati eleni i gynnal arolygiadau monitro dilynol mewn tair ysgol oedd wedi methu â bodloni pob un o Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) yn eu harolygiadau'r llynedd. Fe welon ni fod pob un o'r ysgolion yma wedi cymryd camau priodol a'u bod wedi gwneud cynnydd da o ran cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae dwy o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau erbyn hyn. Mae'r ysgol arall yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu eleni'n rhagorol, ac mae safonau un ysgol yn dda.

Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda, gan ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth yn effeithiol mewn cyd-destunau newydd, gan ffurfio cysylltiadau, dehongli deunydd newydd a datrys problemau.

Mae disgyblion tair o'r ysgolion yn cyflawni safonau uchel iawn erbyn yr adeg y byddan nhw'n gadael yr ysgol. Mae eu canlyniadau yn yr arholiadau allanol yn rhagorol. Yn llawer o'r achosion, mae'r disgyblion yn cael eu paratoi'n arbennig o dda ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Mae llawer o ddisgyblion pob un o'r ysgolion yn cyfrannu'n dda at drafodaethau yn y gwersi. Maen nhw'n aml yn cyflwyno'u syniadau mewn ffordd hyderus ac aeddfed ac mewn iaith rugl ac effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion y tair ysgol yn defnyddio'r medrau darllen yma'n effeithiol iawn i ddethol a dehongli gwybodaeth ac i ffurfio casgliadau.


Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol yn dda. Maen nhw'n ysgrifennu'n fwy a mwy effeithiol i amryw o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd. Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda, yn cyfleu syniadau bywiog ac yn defnyddio geirfa sy'n amrywiol ac yn ddiddorol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau hir mewn amryw o wahanol arddulliau, gan ddefnyddio iaith briodol a chyflwyno syniadau cymhleth yn effeithiol. Ond, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw lleiafrif o ddisgyblion hanner o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, yn ysgrifennu darnau hir yn ddigon da. Nid yw ychydig o'r disgyblion ym mhob un o'r cyfnodau allweddol yn cyflwyno'u gwaith yn dda. Maen nhw'n gwneud camgymeriadau sillafu yn aml.

Mae disgyblion tair o'r ysgolion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn sicr gan, er enghraifft, gyfrifo fformwlâu a dehongli siartiau a data. Mae medrau meddwl beirniadol a medrau datrys problemau disgyblion yr ysgolion yma wedi datblygu'n dda, ac maen nhw'n eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion pob un o'r ysgolion yn bresennol yn rheolaidd. Maen nhw'n cynorthwyo ac yn parchu ei gilydd, ac yn dangos diddordeb brwd yn eu dysgu. Mae disgyblion pob un o'r ysgolion yn cyfrannu at y broses o benderfynu ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Yn ychydig o'r achosion, mae'r disgyblion wedi dylanwadu ar y broses o benderfynu ar drefniadau'r cwricwlwm. Ond yn amlach na dim mae'r penderfyniadau wedi'u cyfyngu i bethau fel yr adeiladau, yr amgylchedd ac amrywiaeth ac ansawdd y bwyd sydd ar gael yn y ffreutur.

Figur 3.13: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda ar y cyfan, ac mae darpariaeth un ysgol yn rhagorol.

Mae pob un o'r ysgolion yn cynnig cwricwlwm cytbwys a chynhwysfawr sy'n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae cwricwlwm pob un o'r ysgolion yn mynd ati'n dda i ddatblygu'r hyn mae'r disgyblion yn ei wybod a'i ddeall. Mae'n sicrhau hefyd fod llawer o'r disgyblion yn cael eu herio drwy wneud gweithgareddau perthnasol sy'n atgyfnerthu ac yn ymestyn eu dysgu, gan eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae dewis da iawn o gyrsiau academiaidd ar lefel TGAU a Safon Uwch ar gael i ddisgyblion tair o'r ysgolion. At ei gilydd mae'r cysylltiadau rhwng adrannau cynradd a hŷn yr ysgolion a gafodd eu harolygu'n sicrhau parhad ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cysylltiadau yma'n cyfrannu llawer at y safonau uchel mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Yn un o'r ysgolion, nid yw'r broses o gynllunio'r cwricwlwm o oed babanod hyd at y plant hŷn yn datblygu'n ddigon da bob amser ar ddysgu blaenorol y disgyblion.

Mae'r ysgolion at ei gilydd yn cynllunio'n broses o ddatblygu medrau'r disgyblion yn dda. Yn benodol, mae'r ysgolion yn cynnig cyfleoedd amrywiol iawn i'r disgyblion i ddatblygu eu medrau siarad, darllen a meddwl. Ond nid yw'r cyfleoedd sydd ar gael mewn dwy o'r ysgolion yn cael eu cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Mae tair ysgol yn cynnig dewis amrywiol iawn o weithgareddau allgyrsiol sy'n ehangu ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae hon yn ffordd arbennig o dda o gyfrannu at eu datblygiad cymdeithasol a phersonol.

Mae addysgu tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda neu'n well. Yn yr un ysgol lle'r oeddem o'r farn fod yr addysgu'n rhagorol, gwybodaeth eang yr athrawon am eu pynciau, y disgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion a'r gallu i herio'n drwyadl sy'n gwneud yr addysgu'n rhagorol.

Lle mae'r addysgu'n gyson dda, y nodweddion mwyaf cyffredin yw:


- bod yr athrawon yn cynnig esboniadau clir ac yn gofyn cwestiynau craff sy'n annog y disgyblion i feddwl yn ofalus am eu gwaith ac i wella'u dealltwriaeth;
- bod gweithgareddau dysgu ysgogol yn ennyn dychymyg a diddordeb y disgyblion; a
- bod adborth adeiladol yn helpu'r disgyblion i ddeall sut y gallan nhw wella.

Yn yr achosion lle mae diffygion i'w gweld yn yr addysgu, y ffaith nad yw'r athrawon yn herio'r disgyblion digon yw'r rheswm pennaf dros weld diffygion. Ar ben hynny, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach i wneud pethau fel gwaith ymchwil a datrys problemau.

Mae athrawon pob un o'r ysgolion yn monitro cynnydd y disgyblion yn ofalus. Mae athrawon tair o'r ysgolion, yn enwedig yn yr adrannau uwchradd, yn dadansoddi gwahanol ddata asesu i wirio bod y disgyblion yn cael eu herio digon i wella. Mae'r athrawon yn rhoi strategaethau ymyrryd priodol ar waith lle mae angen hynny.

Mae pob un o'r ysgolion wedi rhoi trefniadau gofal a chymorth effeithiol ar waith. Maen nhw'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

Ffigur 3.14: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gwaith arwain a rheoli tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n rhagorol ar y cyfan. Digonol yw gwaith arwain a rheoli un ysgol arall.

Mewn dwy ysgol lle mae'r gwaith arwain yn rhagorol, mae'r arweinwyr:

- yn sefydlu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol ar sail disgwyliadau uchel, amgylchedd cefnogol a'r ymdrech i sicrhau rhagoriaeth;
- yn pennu blaenoriaethau clir ac yn gosod cyfeiriad cadarn i bob agwedd ar waith yr ysgol; ac
- yn hyrwyddo synnwyr cadarn o ddiben ac ymrwymiad yr ysgol gyfan i werthoedd ac amcanion mae pawb eu rhannu.

Yn yr achosion lle nad yw'r gwaith arwain yn well na digonol, nid oes diffiniad clir o rôl a chyfrifoldebau'r staff. Nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithio digon ar y dasg o wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae perchnogion pob un o'r ysgolion yn helpu i osod cyfeiriad strategol yr ysgol ac yn goruchwyllo'i gwaith yn effeithiol. Maen nhw'n gwybod llawer am berfformiad yr ysgol ac yn cynnig her briodol.

Mae gwaith hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n dda neu'n well. Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgolion yma'n drylwyr ac yn cynnwys dadansoddiadau manwl o berfformiad y disgyblion

ac ansawdd y dysgu. Mae'r trefniadau yma'n arwain at bennu blaenoriaethau datblygu clir, ac maen nhw wedi cyfrannu at welliannau mawr yn y safonau a'r ddarpariaeth.

Yn yr achosion lle mae'r trefniadau gwella ansawdd yn llai effeithiol, nid yw'r broses o arsylwi gwersi'n ddigon trwyadl. Nid yw'r rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad yn gadarn. Oherwydd hyn, nid yw'r ysgol yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu.

Mae tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu wedi sefydlu partneriaethau cadarn gyda chyrrff fel busnesau a mudiadau chwaraeon a diwylliannol yn yr ardal. Mae'r cysylltiadau yma'n cyfrannu'n fawr at y broses o wella cyflawniadau'r disgyblion ac at eu datblygiad personol a diwylliannol.


Mae pob un o'r ysgolion yn mynd ati'n ofalus i reoli materion ariannol, ac maen nhw'n cynllunio'n ddoeth ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae tair o'r ysgolion a gafodd eu harolygu'n defnyddio adnoddau'n rhagorol. Maen nhw'n gofalu bod cyllid yn cael ei ddyrannu i flaenoriaethau sydd wedi'u disgrifio'n glir, ac yn cyflawni deilliannau rhagorol ar gyfer y disgyblion.

Uchelgais yw'r allwedd i gyflawni

Mae rhaglen fentora ar gyfer athrawon yn **Ysgol y Gadeirlan**, Caerdydd, wedi helpu i atgyfnerthu'r arferion addysgu ac i hyrwyddo arfer dda yn yr ysgol drwyddi draw. Ar ben hynny, drwy fynd ati i ddefnyddio data'n fwy effeithiol i herio'r disgyblion i gyflawni graddau TGAU uwch, a drwy olrhain eu cynnydd yn ofalus, mae'r disgyblion wedi dod yn fwy uchelgeisiol. Mae'r camau yma wedi galluogi'r disgyblion i ddeall eu potensial ac i arfarnu eu cynnydd yn fwy pendant.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Ffigur 3.15: Nifer yr ysgolion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Colegau arbenigol annibynnol

Mae colegau arbenigol annibynnol yn darparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 18-25 oed sydd ag anawsterau dysgu ac anabledau. Roedd chwech o golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru ym mis Ionawr 2012 o gymharu â thri ym mis Ionawr 2011. Cynhaliodd Estyn ymweliadau monitro mewn dau o'r colegau eleni. Yr ymweliadau monitro yma yw sylfaen y wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma gan nad oedd Estyn wedi gwneud arolygiad llawn o unrhyw un o'r colegau arbenigol annibynnol yn ystod 2011-2012. Dim ond yn ddiweddar y cafodd tri o'r chwe choleg eu sefydlu, ac nid ydyn nhw wedi cael ymweliadau monitro nac arolygiad llawn eto.

Deilliannau

Mae deilliannau un o'r colegau'n dda iawn. Mae ychydig o'r dysgwyr yn symud ymlaen i golegau addysg bellach. Mae'r dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth yn datblygu'r medrau byw'n annibynnol y byddan nhw eu hangen i symud i leoliadau preswyl eraill. Mae'r dysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu dros amser, ac mae'r dysgwyr mwy galluog yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae dysgwyr y coleg arall yn dangos diddordeb ac maen nhw'n llawn cymhellant. Pan fo hynny'n briodol maen nhw'n ennill cymwysterau mewn pynciau fel gwaith coed, garddio, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a choginio.

Mae ymddygiad dysgwyr y ddau goleg yn gwella dros amser. Maen nhw'n dysgu i reoli eu pryderon, yn gweithio mewn grwpiau ac yn cadw eu sylw ar y dasg drwy gydol y diwrnod yn y coleg. Mae'r dysgwyr yn gwneud penderfyniadau am fywyd y coleg drwy gyngor y myfyrwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr un coleg wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisi ar ddangos parch yn y coleg ac wedi helpu i baratoi cynlluniau ar gyfer system mentora cyfoedion.

Darpariaeth

Mae cwricwlwm cynhwysfawr a chytbwys ar gael i ddysgwyr un o'r colegau. Maen nhw'n cymryd rhan mewn dewis amrywiol iawn o weithgareddau allgyrsiol. Mae cynllun menter tîm yn gyfle da i'r dysgwyr ddod i ddeall byd manwerthu. Mae dysgwyr y coleg arall yn cymryd rhan mewn dewis amrywiol iawn o weithgareddau addas. Maen nhw'n mynd i sesiynau ymarferol mewn pynciau fel coginio, siopa a gweithio ar y fferm i ddysgu medrau cymdeithasol a medrau bywyd a fydd yn ddefnyddiol. Mae dysgwyr un o'r colegau'n cael cyfleoedd rhagorol i ddysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r coleg yma'n cynnig darpariaeth dda hefyd i ddysgwyr Cymraeg iaith gyntaf, gan gynnwys gwneud gwaith asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ansawdd yr addysgu yn un o'r colegau'n dda. Mae'r athrawon yn creu cynlluniau gwersi a gweithgareddau sy'n cyfateb i alluoedd ac anghenion y dysgwyr unigol. Mae'r athrawon, y cynorthwywyr addysgu a'r staff preswyl yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ofalu bod pob dysgwr yn dangos diddordeb drwy gydol y sesiynau. Mae staff y coleg arall yn cynllunio sesiynau'n ofalus i ddiwallu anghenion y dysgwyr unigol. Ond nid ydyn nhw bob amser yn herio'r dysgwyr mwy galluog yn ddigon da, ac nid oes cysylltiad agos bob tro rhwng y cynlluniau gwersi a'r cynlluniau dysgu unigol.

Mae dewis da o wahanol arbenigwyr, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, a seicolegwyr dysgwyr, ar gael yn y ddau goleg i gynorthwyo'r dysgwyr yn effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae tîm arwain cadarn yn y ddau goleg, sy'n gosod gweledigaeth glir ar gyfer gwella ac sy'n canolbwyntio ar y safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni.

Mae prifathro un o'r colegau'n gweithio'n effeithiol gyda chyrrff o'r gymuned leol a'r gymuned drwyddi draw er mwyn dod i ddeall anabledau dysgu'n well. Mae ymddiriedolwyr y coleg arall yn cynnig her briodol i'r coleg ac yn ei gynorthwyo i wneud y gwelliannau mae angen eu gwneud.

Mae prosesau hunanarfarnu'n dangos bod rheolwyr y ddau goleg yn deall yr hyn mae angen ei wneud i wella'r coleg. Mae'r colegau'n defnyddio data'n dda i gyfrannu at y cynlluniau gwella, ac mae hyn yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae rheolwyr un coleg yn cadw cofnodion manwl sy'n dangos i ble mae'r dysgwyr yn mynd ar ôl gadael y coleg. Mae'r arweinwyr yma'n rheoli adnoddau'n dda iawn. Mae rheolwyr y coleg arall newydd gyflwyno system rheoli perfformiad sy'n eu helpu i adnabod arfer dda ac i roi sylw i danberfformio.

Unedau cyfeirio disgyblion

Mae 41 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yng Nghymru. Aethom ati eleni i arolygu saith UCD.

Perfformiad a rhagolygon

Mae perfformiad presennol pump o'r UCDau yn dda neu'n rhagorol, ac mae perfformiad dwy UCD yn ddigonol. Yn y pum UCD lle mae'r perfformiad yn dda neu'n rhagorol, mae'r safonau cyflawni'n dda neu'n well. Mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu neu eu lles, ac mae'r addysgu o ansawdd da. Mae'r diffygion yn y ddwy uned arall yn cynnwys prinder cyfleoedd i astudio cwricwlwm priodol, diffyg cynnydd wrth ddatblygu medrau, presenoldeb gwael a diffygion wrth geisio ennyn diddordeb y dysgwyr.

Mae rhagolygon gwella dwy UCD yn dda, a rhagolygon un uned yn rhagorol. Dim ond digonol yw rhagolygon gwella tair UCD, ac mae rhagolygon gwella un uned yn anfoddfaol. Mae diffygion sylweddol yng ngwaith arwain a rheoli'r pedair UCD yma. Ymhlith y diffygion mae: methu â rhoi sylw i anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion; methu â defnyddio data i adnabod sut mae gwella; a methu â monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Gweithgarwch dilynol

Mae un o'r saith UCD a gafodd eu harolygu eleni wedi paratoi astudiaeth achos o arfer rhagorol sy'n disgrifio'i dull o gynnig cymorth ac arweiniad effeithiol i ferched ifanc sydd ar fin dod yn famau.

Mae gofyn i Estyn fonitro tair o'r UCDau a gafodd eu harolygu, ac mae angen gwelliant sylweddol ar un o'r unedau. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yr unedau yma'n gofalu bob tro fod gwaith y disgyblion o ansawdd da, ac nid ydyn nhw'n defnyddio data na gwybodaeth o ysgolion y disgyblion fel sail i'r broses o gynllunio gwelliannau. Nid yw pob un o'r disgyblion yn cael addysg amser llawn na chyfle i ddilyn cwricwlwm cynhwysfawr. Nid yw eu presenoldeb yn dda chwaith. Canlyniad hyn yw nad yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Nid yw adeiladau tair o'r unedau'n addas i'w pwrpas.

Aethom ati'r llynedd i fonitro un UCD. Daeth yr uned yn ei blaen yn dda wrth roi sylw i'r argymhellion ar gyfer gwella, ac rydym wedi ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau a lles disgyblion pedair o'r UCDAu a gafodd eu harolygu'n dda. Mae safonau a lles disgyblion un o'r unedau'n rhagorol. Mae disgyblion yr UCD yma'n gwneud cynnydd da neu well o gymharu â'u cyflawniadau blaenorol. Yn benodol maen nhw'n gwella'u darllen, eu sillafu a'u medrau cymdeithasol, ac maen nhw'n ennill amryw o gymwysterau addas gan gynnwys cymwysterau TGAU. Mae'r mwyafrif o'r cymwysterau ar lefel 2. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith llwyddiannus sy'n eu helpu'n fawr i symud i goleg neu i hyfforddiant neu swydd. Mae disgyblion ôl-16 yr un UCD lle'r oedd y safonau'n rhagorol yn symud i addysg bellach neu swydd. Maen nhw hefyd yn dod i ben yn dda â'r cyfrifoldebau sy'n deillio o ddod yn famau.


Mae disgyblion pob un o'r UCDAu yn dysgu i reoli'u hymddygiad yn well. Mae lawer o'r disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, yn mynd yn ôl i'w hysgol yn llwyddiannus.

Ond nid yw safonau a lles dwy o'r UCDAu yn well na digonol. Mae deilliannau un o'r UCDAu yma'n wahanol ar ddau safle'r uned. Cyfle i fynychu'n rhan-amser yn unig sydd ar un safle, ac nid yw'r disgyblion ar y safle yma'n ennill cymwysterau defnyddiol. Mae disgyblion y safle arall yn cael rhaglen amser llawn, a chyfle i ddilyn cwricwlwm amrywiol ac i ennill cymwysterau priodol. Nid yw disgyblion y ddwy uned yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da ac nid ydyn nhw'n cyfrannu'n rheolaidd at benderfyniadau ar fywyd a gwaith yr unedau. Mae presenoldeb ychydig o ddisgyblion un o'r UCDAu yn wael iawn ac effeithiodd hyn ar y mesur o'r presenoldeb cyfartalog cyffredinol y llynedd, sef 77% yn unig. Mae presenoldeb y disgyblion yn yr UCD arall sydd heb fod yn cynnig digon o oriau o addysg, yn wael. Nid yw'r disgyblion yn dangos llawer o ddiddordeb yn y rhaglen. Nid ydyn nhw'n deall yn ddigon da pam bod angen bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff.

“

“Mae disgyblion pob un o'r UCDAu yn dysgu i reoli'u hymddygiad yn well.”

Figur 3.16: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth pedair UCD yn dda, ac mae darpariaeth un uned yn rhagorol. Mae'r UCDAu yma'n cynnig cwricwlwm i'r disgyblion sy'n cyfateb yn gyffredinol i'w hanghenion. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau iaith Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn effeithiol ac mae eu gwybodaeth am eu pynciau'n dda. Maen nhw'n mynd ati'n ofalus i gynllunio gwaith sy'n cyfateb i alluoedd y disgyblion ac sy'n gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Nid yw rhai o'r athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer y medrau yma, yn enwedig rhifedd. Maen nhw'n defnyddio gormod o daflenni gwaith, mae cyflymder eu gwersi'n rhy araf, neu mae eu disgygliadau'n rhy isel o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni.

Nid yw disgyblion y ddwy UCD lle nad yw'r ddarpariaeth yn well na digonol, yn cael y 25

awr o addysg amser llawn mae'r unedau'n cael eu hannog i'w darparu. Mae cwricwlwm un UCD yn gul, ac nid yw'n cynnig cyfle i'r disgyblion astudio gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, nac i astudio ar gyfer TGAU. Mae hyn yn atal cynnydd y disgyblion. Nid yw'r athrawon yn mynd ati'n ddigon da wrth baratoi eu gwaith i ddefnyddio gwybodaeth o ysgolion y disgyblion neu gynlluniau addysg unigol. Nid ydyn nhw'n canolbwyntio ar wella gallu'r disgyblion i greu perthynas â phobl eraill, nac ar wella'u gallu i ddeall pwysigrwydd byw'n iach.

Mae trefniadau chwech o'r saith UCD ym meysydd gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Pan fo'r trefniadau'n dda, mae'r uned yn gweithio'n dda gyda llawer o wahanol asiantaethau i gynnig i'r disgyblion y gefnogaeth maen nhw ei hangen. Mae'r

UCD yn mynd ati'n dda i adnabod ac i gynorthwyo'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae pob un o'r UCDAu wedi rhoi polisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith i gadw'r disgyblion yn ddiogel.


Mae trefniadau dwy o'r UCDAu o ran cyfleusterau toiled yn annerbyniol. Maen nhw'n golygu bod staff a disgyblion neu ferched a bechgyn yn rhannu toiled. Mae adeiladau anaddas mewn tair o'r unedau. Mae'r mwyafrif o'r UCDAu yn defnyddio'u hadeiladau'n dda. Pan fo lle'n brin, maen nhw'n defnyddio dewis o wahanol gyfleusterau oddi ar y safle i wella'r ddarpariaeth.

Strategaethau effeithiol i rwystro merched yn eu harddegau rhag beichiogi, ac i gynorthwyo merched bechiog yn eu harddegau

Mae **Uned Mamau Ifanc Cyfle** yn Wrecsam yn helpu i baratoi merched ifanc yn eu harddegau i ddod yn famau ifanc, ac yn eu cynorthwyo ar yr un pryd gyda'u haddysg. Mae Cyfle hefyd yn rhedeg rhaglen addysg i gyfoedion i ysgolion uwchradd yr ardal sy'n helpu'r disgyblion i ddeall goblygiadau a realiti magu plant yn ifanc, heb fod wedi cynllunio hynny.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Figur 3.17: Nifer yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth


Mae rheolwyr y tair UCD lle mae'r gwaith arwain a rheoli'n dda neu'n well, yn gosod cyfeiriad clir i bob maes gwaith. Maen nhw'n defnyddio data'n dda i adnabod yr agweddau ar addysgu, dysgu a phresenoldeb sydd angen eu gwella. Mae'r rheolwyr yn gofyn i'r rhieni a'r gofawyr, y staff, y disgyblion ac aelodau'r gymuned am eu barn ar waith yr UCDau. Maen nhw'n defnyddio canlyniadau'r arolygon yma i greu cynlluniau datblygu manwl sy'n rhoi blaenoriaeth i'r meysydd sydd i'w gwella. Maen nhw'n mynd ati'n ofalus i wirio perfformiad y staff, ac yn gosod targedau heriol i ddiwallu anghenion staff unigol a'r UCD gyfan. Mae'r pwyllgorau rheoli'n adnabod yr UCD yma'n dda ac yn deall eu cryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Maen nhw'n herio'r rheolwyr a'r staff ac yn gofalu eu bod yn canolbwyntio ar wella'r deilliannau'r disgyblion.

Digonol yw ansawdd gwaith arwain a rheoli tair o'r UCDau, ac mae'n anfodddhaol yn un o'r unedau. Nid yw rheolwyr yr UCDau yma'n defnyddio data'n dda i adnabod y meysydd sydd angen eu gwella ac i osod targedau heriol. Nid oes dewis digon da o wahanol aelodau o'r tu allan i'r awdurdod ar y pwyllgorau rheoli. Oherwydd hyn, mae'n anodd dal yr UCD a'r awdurdod lleol yn atebol. Nid ydyn nhw'n canolbwyntio digon ar wella'r deilliannau ar gyfer y disgyblion.

Nid yw rheolwyr tair o'r UCDau yn gwirio'n rheolaidd pa mor dda mae'r staff yn gwneud. Nid ydyn nhw'n cynnal trafodaethau ffurfiol nac yn gosod a chofnodi targedau ar gyfer gwella. Canlyniad hyn yw nad yw pob un o'r disgyblion yn cael darpariaeth a chymorth o'r un ansawdd.

Mae pob un o'r UCDau yn gweithio'n dda gyda'u gwahanol bartneriaid, ac yn enwedig gyda'r rhieni. Canlyniad hyn yw bod llawer o'r UCDau yn diwallu anghenion y disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau. Mae'r staff yn elwa'n gyffredinol ar weithio gyda staff ysgolion yr ardal, gan ddatblygu a rhannu eu harbenigedd. Ond er gwaetha'r gwaith da yma, nid yw'r UCDau bob amser yn gweithio'n ddigon agos gyda'u partneriaid addysg a hyfforddiant, fel yr ysgolion uwchradd lleol, yn y gwaith o gynllunio a rhannu adnoddau a sicrhau bod safon gwaith y disgyblion yn dda.

Ffigur 3.18: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Lleoliadau i blant dan bump oed

Mae rhyw 700 leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant rhwng tair a phump oed yng Nghymru. Nid oes awdurdod lleol yn cynnal y lleoliadau yma. Mae nifer y lleoliadau nas cynhelir sydd wedi'u cofrestru gyda phartneriaethau lleol i ddarparu addysg yn amrywio. Mae'n dibynnu ar gael plant tair oed neu hŷn yn mynychu'r lleoliad, ac ar y trefniadau lleol i ariannu'r ddarpariaeth. Cynyddodd nifer y lleoliadau sy'n darparu addysg yn gyson rhwng 2004 a 2009, gan gyrraedd uchafswm o 780 o leoliadau yn 2008-2009. Er 2010, mae nifer y lleoliadau wedi dod i lawr o ryw 40 bob blwyddyn. Aethom ati eleni i arolygu 146 o leoliadau nas cynhelir. Mewn lleoliadau bach sydd â llai na chwech o blant tair oed yn dod yn rheolaidd, dim ond sôn am y ddarpariaeth a'r gwaith arwain y bydd yr arolygwyr yn eu hadroddiad. Pwrpas gwneud hyn yw'r rhwystro'r posibilrwydd o adnabod plant unigol o'r adroddiadau.

Perfformiad a rhagolygon

Mae perfformiad 86% o'r lleoliadau nas cynhelir yn dda. Mae perfformiad 14% o'r lleoliadau'n ddigonol. Pan fo'r arolygwyr yn gweld diffygion yn y perfformiad, diffygion yn y dysgu a'r addysgu yw'r rhain fel arfer, yn enwedig diffygion wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

Mae rhagolygon gwella 91% o'r lleoliadau'n dda neu'n well, a rhagolygon 6% yn rhagorol. Digonol yw rhagolygon 9% o'r lleoliadau. Dros y ddwy flynedd diwethaf, gallu lleoliad i adnabod ei gryfderau a'i feysydd i'w gwella, ac i gynllunio ar gyfer gwella, yw prif ffactorau'r dasg o benderfynu pa mor dda neu beidio yw ei ragolygon gwella.

Gweithgarwch dilynol

Gofynnwyd i 19 o leoliadau eleni am astudiaeth achos o'u harferion rhagorol.

Mae angen ymweliadau monitro gan yr awdurdod lleol ar 21% o'r lleoliadau eleni, ac mae gofyn ymweliad monitro gan Estyn ar 15%. Y llynedd, roedd angen monitro gan yr awdurdod lleol ar 9% o'r lleoliadau, a monitro gan Estyn ar 8%. Mae'r mwyafrif o'r lleoliadau a gafodd eu rhoi yn y categori monitro gan yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da. Maen nhw wedi cael eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Mae pob un o'r lleoliadau yr oedd gofyn i Estyn eu monitro wedi gwneud cynnydd da. Erbyn hyn, dim ond un sy'n dal yn y categori monitro gan Estyn.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau


Mae'r rhan fwyaf o blant y lleoliadau a gafodd eu harolygu'n gwneud cynnydd da o ran eu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar. O safbwynt eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae cynnydd llawer o'r plant yn briodol ac weithiau'n dda.

Mae'r plant yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau'n gwrandao'n dda, yn siarad yn glir ac yn mwynhau gwrandao ar storïau a rhannu llyfrau ag oedolion. Mae'r plant hŷn a mwy aeddfed yn dechrau deall pwysigrwydd ysgrifennu, fel ysgrifennu rhestr cyn ymweld â'r siop neu wrth anfon gwahoddiad i barti. Mae plant ychydig o'r lleoliadau'n adnabod eu henwau ar eu matiau ar y bwrdd bwyd ac ar arddangosiadau ar y wal. Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol gywir yn ystod gweithgareddau chwarae ac maen nhw'n defnyddio cofrestrï arian a ffonau symudol yn hyderus wrth chwarae rôl. Mae medrau llawer o'r plant wrth reoli teganau sy'n rhedeg ar fatris neu lygoden cyfrifiadur yn dda hefyd.

Roeddem wedi tynnu sylw'r llynedd at bryderon am safonau'r plant mewn Cymraeg yn y lleoliadau cyfrwng Saesneg. Er bod safonau wedi gwella ar y cyfan, nid yw'r plant mewn dros un o bob tri lleoliad cyfrwng Saesneg yn gwneud digon o gynnydd mewn Cymraeg. Nid yw'r plant yn ddigon hyderus at ei gilydd i ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r sesiynau byr gyda'r grŵp cyfan, fel adeg cofrestru neu yn ystod gweithgareddau canu ar ddiwedd sesiwn. Nid yw'r plant yn defnyddio'r Gymraeg wrth chwarae neu ddysgu, oni bai fod oedolyn yno i'w hannog.

Mae'r holl blant bron yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau ac maen nhw'n mwynhau eu cyfnodau yno. Canlyniad hyn yw eu bod yn dod yn ddysgwyr mwy hyderus ac annibynnol.

Ffigur 3.19: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth tua naw o bob deg o'r lleoliadau'n dda. Mae llawer o'r lleoliadau'n trefnu dewis eang o weithgareddau diddorol a chyffrous sy'n cymhell bron pob un o'r plant i ddysgu.

Mae llawer o'r lleoliadau'n cynllunio'r cwricwlwm yn dda. Mae cynlluniau'r ymarferwyr yn ddigon manwl a hyblyg i addasu wrth i ddiddordebau'r plant newid. Mae'r ymarferwyr yn pennu medrau'n glir wrth gynllunio dogfennau, ac maen nhw'n rhoi sylw da iddyn nhw ym mhob maes dysgu. Ond mae gwendidau i'w gweld mewn bron chwarter o'r lleoliadau, mewn meysydd fel darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg (yn y lleoliadau cyfrwng Saesneg), technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a defnyddio'r awyr agored. Mae diffyg parhad a dilyniant i'w weld yn y gwaith cynllunio hefyd. Canlyniad hyn yw nad yw'r ymarferwyr

yn cynnig digon o her bob tro i'r plant mwy galluog. Nid yw'r ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar ymestyn galluoedd y plant y mae eu medrau mewn Cymraeg iaith gyntaf yn dda.

Mae gwelliannau i'w gweld eleni o ran gallu'r ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn dysgu a datblygu. Mae llawer o'r ymarferwyr yn dangos eu bod yn deall yn well ei bod yn bwysig bod plant yn dysgu drwy brofiadau uniongyrchol, a bod yr addysgu a'r ymyrraeth yn canolbwyntio ar y plant. Yn yr ychydig o leoliadau prin hynny lle mae gwendidau i'w gweld yn yr addysgu, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r dull holi'n ddigon da gan annog y plant i feddl drostyn nhw eu hunain. Ar ben hynny, mae'r asesiadau'n arwynebol.

Mae bron pob un o'r lleoliadau'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da. Mae cyfnod ymsefydlu priodol yn helpu'r plant i ymgartrefu'n gyflym wrth drosglwyddo o'r cartref, i fwyta'n iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ailgylchu eu cartonau llaeth ac i gompostio ffrwythau.


Mae'r amgylchedd yn y rhan fwyaf o leoliadau'n gynnes ac yn groesawgar, ac mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae safon yr adnoddau'n dda ar y cyfan ac maen nhw'n gweddu i oedran a diddordebau'r plant. Ond mae lleiafrif o'r lleoliadau'n cael trafferth ariannu adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n rhwystro'r plant rhag gwneud cynnydd yn y maes yma.

Dull cyfannol o sicrhau lles

Mae **Cylch Meithrin Ynysybwl** yn Rhondda Cynon Taf yn defnyddio amryw o wahanol strategaethau i hybu lles y plant. Yn eu plith mae: cynnwys y rhieni a'r gymuned, a neilltuo amser i helpu'r plant i gyfleu eu hemosiynau mewn geiriau.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Ffigur 3.20: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gwaith arwain 89% o'r lleoliadau y gwnaethon ni eu harolygu'n dda neu'n well. Yn y nifer bach iawn o'r lleoliadau lle mae'r gwaith arwain yn rhagorol, mae synnwyr clir o gyfeiriad a diben gan yr ymarferwyr, ac mae'r gwaith tîm yn effeithiol iawn ac yn cael blaenoriaeth. Mae'r arweinwyr yn rhoi pwyslais cadarn ar wella deilliannau, ac maen nhw'n barod i ddysgu ac i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Yn yr ychydig o leoliadau lle nad yw'r gwaith arwain yn well na digonol, nid yw'r pwyllgor rheoli, y person cofrestredig na'r perchennog yn deall yn iawn a yw'r lleoliad yn perfformio'n dda. Nid ydyn nhw chwaith yn canolbwyntio digon ar safonau a lles y plant.

Er gwaetha'r darlun yma o waith arwain sy'n gadarnhaol ar y cyfan, un o'r meysydd cymharol wan yng ngwaith y lleoliadau yw gwella ansawdd. Mae'r darlun eleni ychydig yn waeth na'r llynedd. Yn dros dri chwarter o'r lleoliadau lle mae'r arfer yn dda neu'n rhagorol, mae gwybodaeth yr ymarferwyr am gryfderau'r lleoliad ac am y meysydd sydd i'w gwella'n dda. Mae ganddyn nhw gynlluniau manwl i gyflwyno gwelliannau. Yn bron chwarter o'r lleoliadau lle mae'r arfer yn ddigonol neu'n anfodddhaol, mae'r prosesau hunanarfarnu'n arwynebol a'r gwaith cynllunio'n wan. Nid yw'r lleoliadau yma'n mynd ati'n gadarn i arfarnu cynnydd y plant ac nid yw'r camau gwella'n cael digon o flaenoriaeth nac yn cael eu prisio'n iawn.

Mae gweithio mewn partneriaethau'n dda neu'n well yn y mwyafrif o'r lleoliadau. Mae'r berthynas â'r rhieni a'r gofalwyr yn dal yn un o'r prif gryfderau, ac mae'r lleoliadau'n cynnwys y rhieni a'r gofalwyr mwy a mwy yn addysgu eu plant. Mae'r lleoliadau'n gwella'r cysylltiadau ag ysgolion


cynradd yr ardal yn raddol, er mwyn sicrhau parhad eu dysgu a rhannu adnoddau.

Mae arweinwyr y rhan fwyaf o'r lleoliadau'n rheoli adnoddau'n dda. Maen nhw'n defnyddio'u staff yn briodol i hybu dysgu'r plant, ac mae llawer o'r ymarferwyr wedi cael eu hyfforddi'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm. Nid yw ymarferwyr lleiafrif sylweddol o'r lleoliadau cyfrwng Saesneg yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r plant. Nid ydyn nhw wedi cael eu hyfforddi'n dda yn y technegau i'w defnyddio wrth gynorthwyo plant i ddysgu Cymraeg.

Aethom ati'r llynedd i arolygu 58 o leoliadau bach sydd â llai na chwech o blant tair oed ar eu cofrestr. Mae lleoliadau bach yn llwyddo'n arbennig o dda i greu ethos teuluol cadarn, ac mae'r rhan fwyaf yn cynnig gofal o'r safon gorau. Er bod maint bach y lleoliad yn ychwanegu at safon y gofal yn aml, mae'n gallu bod yn anfantais hefyd. Mae bod â llai o ymarferwyr yn golygu bod mwy o waith i'w wneud, gan nad oes rhywun arall ar gael i ddirprwyo'r gwaith iddo. O ran hyfforddi'r staff a chadw eu gwybodaeth am fentrau'n ddiweddar, mae diffyg adnoddau i dalu am hyfforddiant a staff cyflenwi'n arwain at drafferthion pan nad oes unrhyw un ar gael i gymryd lle aelod o'r staff sy'n absennol.

Er gwaetha'r anawsterau yma, mae llawer o'r lleoliadau bach yn llwyddo i gynnig profiadau dysgu da i'r plant. Maen nhw'n defnyddio strategaethau addysgu effeithiol ac yn gwybod sut y gallan nhw wella. Ond mae gormod yn cael trafferth dod i ben â'r gofynion a'r disgwyliadau wrth ddarparu addysg gyflawn. Mae problemau sydd angen sylw'n codi mewn dros chwarter o'r lleoliadau bach yng nghyswllt y profiadau dysgu maen nhw'n eu darparu. Ac mae bron i un o bob tri lleoliad yn gweld hunanarfarnu'n dasg anodd. Mae diffygion yn ansawdd yr addysgu yn un o bob pum lleoliad. Ychydig iawn o'r lleoliadau sy'n gallu cynnig rhagoriaeth mewn unrhyw agwedd ar eu gwaith.

Figur 3.21: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth



Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Perfformiad a rhagolygon

Aethom ati eleni i arolygu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc wyth o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Dim ond mewn tri o'r awdurdodau y gwnaethon ni eu harolygu y mae perfformiad a'r rhagolygon gwella'n dda ar y cyfan. Yn yr awdurdodau lle'r oeddem o'r farn eu bod yn 'dda', mae'r gwaith arwain yn gadarn ac mae'r broses rheoli perfformiad yn ategu'r cynlluniau gwella. Digonol yw perfformiad tri awdurdod, ac mae perfformiad dau'n anfodddhaol. Mae safonau'r ddau awdurdod yma'n anfodddhaol, ac nid oes digon o'u hysgolion yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg. Dim ond digonol yw rhagolygon gwella pedwar o'r awdurdodau yma, ac mae rhagolygon un yn anfodddhaol. Wrth edrych ar yr awdurdodau y mae eu rhagolygon gwella fawr gwell na digonol, nid yw'r awdurdodau wedi ymateb yn ddigon da i argymhellion yr arolygiadau blaenorol. Mae llawer o'r dysgwyr neu'r grwpiau o ddysgwyr yn yr ysgolion mae'r awdurdodau yma'n eu cynnal, yn methu â chyflawni gystal ag y dylen nhw. Ar ben hynny, nid yw'r awdurdodau'n arfarnu eu gwaith yn gadarn ac nid ydyn nhw'n eu dal eu hunain nac yn dal eu partneriaid yn atebol yn llwyddiannus.

Gweithgarwch dilynol

Roeddem wedi gofyn i ddau awdurdod eleni am astudiaethau achos o arfer ragorol ym meysydd arwain a gwella ysgolion.

Mae angen sylw pellach ar bump o'r wyth awdurdod a gafodd eu harolygu, gyda'r nod o'u helpu i wella. Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith yn un o'r awdurdodau, ac mae angen gwelliant sylweddol ar un arall. Mae safonau'r ddau awdurdod yma'n anfodddhaol.

Bydd Estyn hefyd yn monitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Bydd hefyd yn monitro'r tri awdurdod arall lle nad oedd llawer o agweddau ar eu gwaith yn well na digonol, er mwyn asesu eu camau mwy cyffredinol i geisio gwella.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau tri awdurdod yn dda, mae safonau tri'n ddigonol ac mae safonau dau arall yn anfoddfaol.

Yn yr awdurdodau lle mae'r safonau'n dda:

- mae'r ysgolion yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg eraill ar hyd a lled Cymru;
- mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched yn fach;
- mae'r cynnydd rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd yn dda;
- mae sgorau darllen y disgyblion yn gwella wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol; ac
- mae llai a llai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae'r safonau'n ddigonol neu'n anfoddfaol, mae gormod o'u hysgolion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Ar ben hynny, nid yw perfformiad yr awdurdodau yma'n dda o gymharu â meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad. Mae'r meincnodau hynny wedi'u seilio ar wahanol fathau o wybodaeth sy'n rhoi sylw i'w cydestun, fel yr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau, mae cyflawniadau'r disgyblion yn cael eu cydnabod yn sgil y cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion ac mewn lleoliadau'r tu allan i'r ysgol. Ond mae nifer y disgyblion yn aml yn isel.

Mae tri awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i hyrwyddo lles. Mae trefniadau pedwar awdurdod yn ddigonol, a threfniadau un yn anfoddfaol.


Yn yr awdurdodau sydd wedi rhoi trefniadau da ar waith i hyrwyddo lles:

- mae ymateb y disgyblion i'r cymorth, yr arweiniad a'r cyngor proffesiynol sydd ar gael, wedi bod yn dda. Mae hynny wedi gwella'u lles a'u deilliannau;
- mae presenoldeb y disgyblion yn yr ysgolion yn cymharu'n dda â'r presenoldeb mewn awdurdodau eraill sydd â chefnidir cymdeithasol ac economaidd tebyg; ac
- mae'r disgyblion yn dangos mwy o ddiddordeb, ac mae llai o ddisgyblion wedi'u gwahardd o'r ysgol.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae lles yn ddigonol neu'n anfoddfaol, mae'r disgyblion yn colli gormod o ddiwrnodau yn yr ysgol. Nid yw cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau cyfnod penodol yn gwella'n ddigon cyflym.

Mae cyfran y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 heb fynd i addysg, hyfforddiant na swydd (NEET) yn gostwng yn y mwyafrif o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu'r llynedd. Ond nid yw'r niferoedd yn gostwng yn ddigon cyflym mewn ychydig o'r awdurdodau.

Figur 3.22: Niferoedd yr awdurdodau lleol a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth - Cymorth i wella ysgolion

Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnig gwasanaethau cymorth, monitro, herio ac ymyrraeth i'r ysgolion er mwyn codi eu safonau a gwella'u gwaith arwain a rheoli.

Mae'r cymorth mae un awdurdod lleol yn ei gynnig i wella ysgolion yn rhagorol. Mae cymorth un awdurdod yn dda, cymorth pedwar yn ddigonol a chymorth un yn anfoddfaol.

Mae gan yr awdurdodau sy'n dda neu'n well wybodaeth fanwl am eu hysgolion, ac maen nhw'n herio'n gadarn ac yn ymyrryd yn effeithiol i dargedu gwelliannau yn y safonau, y ddarpariaeth a'r gwaith arwain. Pan fod angen ymyrryd, mae camau cynnar yr awdurdod yn arwain at wella pethau'n brydlon. Yn yr awdurdodau a gafodd eu barnu fel rhai da neu well, mae swyddogion

yn dal arweinwyr a rheolwyr yr ysgolion yn atebol. Maen nhw'n eu herio'n gadarn i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n dadansoddi data ar berfformiad yn fanwl, gan adnabod achosion o danberfformio. Mae'r swyddogion yn gweithio hefyd i wella medrau ac i godi hyder y llywodraethwyr sy'n mynd ati i arfarnu data cyrhaeddiad y brif ffrwd ac yn herio perfformiad yr ysgolion. Ond nid yw'r swyddogion yn mynd ati'n ddigon da i gasglu a dadansoddi data ar allu pobl ifanc i ennill cymwysterau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cymharu deilliannau'r naill ddarparwr a'r llall.

Nid yw llawer o'r awdurdodau'n gwella perfformiad eu hysgolion yn ddigon cyflym nac yn ddigon trylwyr. Yn yr awdurdodau


sydd heb fod yn well na digonol, nid yw'r gwasanaeth gwella ysgolion yn adnabod pob un o'r ysgolion sydd dan berygl o danberfformio. Canlyniad hyn yw nad yw swyddogion ychydig o'r awdurdodau'n gwybod am y problemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr arolygiadau o'r ysgolion. Ychydig iawn yw'r awdurdodau sydd wedi defnyddio'u holl bwerau i roi sylw prydlon i achosion arwyddocaol o danberfformio.

Mae ansawdd gwaith swyddogion gwella ysgolion y mwyafrif o'r awdurdodau'n amrywio. Nid yw'r gwaith o reoli eu perfformiad yn ddigon trylwyr yn rhy aml. Nid yw'r uwch reolwyr a'r aelodau etholedig yn dal eu swyddogion yn atebol yn ddigon da.

Yn yr awdurdodau hynny sy'n ddigonol neu'n anfoddfaol, nid yw asesiadau'r athrawon ar ddiwedd pob un o'r cyfnodau allweddol yn cael eu safoni na'u cymedroli'n ddigon cywir i roi darlun clir o gyflawniadau'r disgyblion.

Cafodd yr holl awdurdodau eu cynnwys eleni mewn trefniadau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion trwy bedwar consortiwm rhanbarthol.

Ffigur 3.23: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion (dangosydd ansawdd 2.1)?



Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol

Mae'r maes gwasanaeth yma'n cynnwys bodloni rheidrwydd statudol i ddarparu ar gyfer dysgwyr â gwahanol anghenion dysgu ychwanegol a chydlynu'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

Mae gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol chwech o'r awdurdodau'n dda, ond digonol yn unig yw gwasanaethau dau awdurdod arall.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n paratoi'n dda cyn y diwygiadau statudol i faes anghenion addysgol arbennig. Maen nhw'n datblygu gwahanol ffyrdd o ddarparu a rheoli'r cymorth. Er enghraifft, mae pob awdurdod wrthi'n treialu cynlluniau datblygu unigol er mwyn cyfuno gwaith cynllunio'r gwahanol asiantaethau ac i fonitro'r cymorth sydd ar gael i bob dysgwr. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y

gwaith yma'n effeithiol ac yn llwyddo i hybu cyflawniadau'r dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdod wedi pennu meini prawf y broses o gynnig cymorth ychwanegol, ac o'i dynnu'n ôl. Mae'r ysgolion a'r rhieni'n deall y meini prawf yma'n dda. Mae ychydig o'r awdurdodau'n cyfyngu yn ôl y galw ar yr amser sydd ar gael i gymorth ychwanegol. Drwy wneud hynny, mae'n bosibl cynnig cymorth sy'n hyblyg ac yn gost-effeithiol, gan dargedu'r adnoddau at y meysydd lle mae'r angen pennaf. Ond mae gormod o ysgolion yn gofyn am gymorth ychwanegol am fod diffyg hyder yno o hyd i dderbyn cyfrifoldeb dros y disgyblion yma.

Mae llawer o'r awdurdodau'n ail-drefnu pethau er mwyn gwella'r cydweithio rhwng eu gwasanaethau anghenion ychwanegol, y gwasanaeth gwella ysgolion a'r partneriaid


eraill. Yn y chwe awdurdod a gafodd eu barnu fel rhai da, mae'r cydweithio yma sydd ar waith yn helpu'r gwasanaethau i ddefnyddio'u harbenigedd yn well wrth gynllunio a monitro deilliannau'r dysgwyr, ac wrth dargedu'r adnoddau at y dysgwyr hynny â'r angen pennaf. Ond nid oes trosolwg strategol da yn y ddau awdurdod sydd heb fod yn well na digonol. Nid ydyn nhw'n gwybod i ba raddau mae eu gwasanaethau cymorth yn effeithiol, nac yn deall eu heffaith. Nid ydyn nhw'n gwybod i ba raddau mae pob un o'r dysgwyr yn dod yn eu blaenau, nac a yw'r ddarpariaeth yn cynnig y gwerth gorau am arian.

Yn yr ychydig o awdurdodau sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth effeithiol, maen nhw'n llwyddo i ddatblygu gallu'r ysgolion i gynnig darpariaeth i'r disgyblion yn ôl eu hanghenion, heb ofyn am ragor o adnoddau.

Mae rhai o'r gwasanaethau arbenigol, fel y rheini ym meysydd awtistiaeth, dyslecsia a lleferydd ac iaith, yn mynd ati i asesu'n ofalus i ba raddau mae eu hyfforddiant a'u darpariaeth yn effeithiol. Maen nhw'n rhoi darlun clir o'u dulliau o wella deilliannau'r disgyblion. Ond, ar y cyfan, nid yw'r dulliau o asesu effaith yr hyfforddiant wedi cael eu datblygu'n dda.

Yn yr awdurdodau a gafodd eu barnu fel rhai sy'n cynnig cymorth anghenion dysgu ychwanegol da, mae anghenion y dysgwyr yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio sut i'w helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r naill gyfnod yn eu haddysg i'r nesaf.

Figur 3.24: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol (dangosydd ansawdd 2.2)?



Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles

Mae'r maes hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cynnwys gwasanaethau sy'n: hyrwyddo presenoldeb da; atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol; cynorthwyo grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed; a gwasanaethau sy'n cynnig y mathau priodol o arweiniad a chynghor i bobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys y trefniadau i gadw pob dysgwr yn ddiogel.

O'r wyth o awdurdodau a gafodd eu harolygu, mae tri'n dda ac mae pump yn ddigonol yng nghyswllt ansawdd eu gwasanaeth cynhwysiant cymdeithasol a lles.

Mae'r awdurdodau at ei gilydd wedi rhoi strategaethau a phrosiectau priodol ar waith i helpu grwpiau sy'n agored i niwed i gael eu cynnwys. Ond nid yw'r mwyafrif o'r awdurdodau'n arfarnu'r mentrau yma'n ddigon effeithiol i sicrhau rhagor o welliannau er lles y dysgwyr. Yn benodol, nid yw effeithiau strategaethau gwella presenoldeb hanner o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu wedi dod yn amlwg eto.


Mae cymorth presenoldeb ar ei orau pan fo'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion a'r gwahanol bartneriaid fel bod pawb yn gyfrifol am wella perfformiad. Yn yr awdurdodau a gafodd eu barnu fel rhai da, mae cydweithredu effeithiol rhwng yartneriaid statudol a

gwirfoddol wedi arwain at sefydlu timau amlasiantaeth ac amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd. Mae gwneud hyn wedi arwain mewn ychydig o achosion at gydlynw'r cymorth a'r ymyrraeth yn well, gyda'r nod o ddiwallu'r anghenion cymdeithasol ac addysgol a gafodd eu pennu. Mae gweithredu fel hyn wedi gwella cyfraddau presenoldeb a safonau'r disgyblion penodol yn yr ysgolion uwchradd. Ond nid yw wedi effeithio'n gadarnhaol eto ar yr ysgolion cynradd.

Mae llawer o'r awdurdodau'n atgyfnerthu eu dulliau o gyflwyno strategaethau rheoli ymddygiad ac o gynorthwyo. Yn y tri awdurdod a gafodd eu barnu fel rhai da, mae'r trefniadau yma'n helpu'r ysgolion a staff gwahanol asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i helpu teuluoedd i wella gallu'r plant a'r bobl ifanc i ddysgu. Mae'r awdurdodau yma'n canolbwyntio'u cymorth ar anghenion unigolion penodol drwy helpu eu teuluoedd i osod ffiniau ac amseroedd mynd i'r gwely sy'n gyson. Maen nhw'n eu helpu hefyd i ddeall pam mae presenoldeb da yn yr ysgol yn bwysig. Mae llawer o'r awdurdodau hefyd yn gwella'u dulliau o ddefnyddio data i gynllunio gwasanaethau. Mae lleiafrif o'r awdurdodau'n cofnodi gwaharddiadau'n fwy cyson, ac yn gweithio'n well i atal y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Yn sgil hynny, mae llai o geisiadau am gymorth pan fo ymyriadau wedi bod yn aneffeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yr arolygon ni eleni wedi rhoi trefniadau diogelu priodol ar waith. Mae trefniadau addas hefyd i drefnu archwiliadau'r swyddfa cofnodion troseddol o staff newydd a'r staff presennol, a hefyd i hyfforddi'r staff. Ond nid yw pob awdurdod lleol wedi mynd yn ddigon pell i sicrhau bod partneriaid sy'n gwneud gwaith ar y cyd neu waith wedi'i gomisiynu wedi gwneud yr archwiliadau priodol o'u staff. Mae swyddogion lleiafrif o'r awdurdodau lleol yn mynd ati'n rhy araf i roi gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu'r dysgwyr, neu i fynd ar drywydd honiadau neu broblemau eraill a ddaeth i'r amlwg. Mae rhai awdurdodau wedi methu â chynnal archwiliadau'r swyddfa cofnodion troseddol a heb wirio geirdaon. Yn yr achosion yma, nid yw'r drefn yn glir, ac efallai nad yw'r prif aelodau o'r staff, y llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgolion wedi cael hyfforddiant ymlaen llaw.

Ffigur 3.25: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda mae cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cael eu hyrwyddo (dangosydd ansawdd 2.3)?



Mynediad a lleoedd ysgol

Mae'r maes gwasanaeth yma'n cynnwys derbyn disgyblion i'r ysgolion, cynllunio lleoedd ysgol a mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymorth ieuencid. O'r wyth o awdurdodau lleol a gafodd eu harolygu, mae tri'n dda, mae pedwar yn ddigonol ac mae un yn anfodhaol.

Mae tua hanner o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu'n gwneud cynnydd da ac yn llwyddo i leihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgolion. Mae nifer y lleoedd dros ben yn yr awdurdodau eraill yn parhau'n uchel, nid oes llawer o gytuno ar y camau a ddylid eu cymryd, ac mae cynnydd yn rhy araf. Mae strategaethau i foderneiddio ysgolion yn cael eu dal yn ôl a'u rhwystro o achos diffyg

cefnogaeth yr aelodau etholedig. Hyd yn oed pan fo gwaith cynllunio wedi mynd yn ei flaen i gael gwared ar leoedd dros ben, anaml iawn y mae dadansoddiad llawn ar gael o fanteision cwtogi ar y lleoedd hynny.


Mae gan yr awdurdodau a gafodd eu barnu fel rhai da ddigon o adnoddau a chyllid i gytuno ar gynlluniau ac i'w rhoi ar waith i wneud eu hysgolion yn addas i'w pwrpas. Mae cynlluniau awdurdodau eraill yn dibynnu ar sicrhau llawer o gyllid allanol, ac nid oes cynlluniau ariannol gan rai o'r awdurdodau. Mae'r posibilïadau, felly, o'u cyflawni'n brydlon yn ansicr.

Mae bron pob un o'r awdurdodau'n cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar a darpariaeth chwarae sy'n ddigonol i ddiwallu'r galw. Mae ychydig o awdurdodau'n defnyddio lleoedd dros ben yn yr ysgolion cynradd yn dda i ddarparu lleoedd ar gyfer plant tair i bump oed.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau a gafodd eu harolygu'n cynnig dewis priodol o wasanaethau cymorth ieuencid. Ond mae cydlynu gwasanaethau cymorth ieuencid yn effeithiol yn dal yn her i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, mae'r partneriaid yn dod at ei gilydd i gytuno ar gynlluniau ond, yn ymarferol, maen nhw'n methu â chydlynu'r gwaith yma. Mae bylchau a dyblygu yn y ddarpariaeth sy'n golygu

gwerth gwael am arian. Ar ben hynny, nid oes gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau ddarlun cyffredinol clir o ansawdd y gwasanaeth y mae pobl ifanc yn ei gael, nac o'r deilliannau. Canlyniad hyn yw nad yw'n glir i ba raddau mae'r deilliannau i blant a phobl ifanc yn cael eu gwella yn sgil gwaith y gwasanaeth ieuencid neu'r gwasanaethau cymorth ieuencid. Mae gwasanaeth ieuencid rhai o'r awdurdodau lleol yn cynorthwyo'r gwasanaethau cymorth ieuencid mwy cyffredinol, ac mae'r gwasanaeth ieuencid yn mynd ati'n dda i sicrhau ansawdd eu gwaith hefyd.

Figur 3.26: Nifer y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda mae'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad a lleoedd ysgol (dangosydd ansawdd 2.4)?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

O'r wyth o awdurdodau lleol a gafodd eu harolygu, mae gwaith arwain tri awdurdod yn dda, mae gwaith arwain pedwar awdurdod arall yn ddigonol, ac mae gwaith arwain un awdurdod yn anfodddhaol.

Pan fo'r gwaith arwain yn dda, mae'r awdurdodau'n gweithio'n agos gyda'u partneriaid strategol i roi eu gweledigaeth ar waith er mwyn gwella deilliannau'r dysgwyr. Mae cysylltiadau clir yn yr awdurdodau yma rhwng anghenion sydd wedi'u pennu a gwaith cynllunio strategol a gweithredol. Mae pwyslais cadarn hefyd ar ddeilliannau. Mae'r swyddogion yn fodlon gwneud penderfyniadau strategol anodd a chreu perthynas dryloyw a llwyddiannus gyda'u partneriaid pwysig a'r ysgolion.

Mae lleiafrif o'r awdurdodau yr oeddem wedi barnu eu bod yn dda neu'n rhagorol wedi cymryd camau priodol i resymoli'r broses gynllunio, ac maen nhw hefyd yn cysylltu amcanion strategol cyffredin ag amcanion eu prif bartneriaid. Ond mae camau hanner o leiaf o'r awdurdodau i gynnwys eu holl flaenoriaethau mewn un cynllun cydlynol yn rhy araf. Er gwaethaf gwaith cynllunio corfforaethol effeithiol cyfarwyddiaethau

tua hanner o'r awdurdodau, prin yw'r pwyslais ar wella deilliannau plant a phobl ifanc. Nid ydyn nhw'n deall yn glir chwaith sut mae gweithredu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae'r tri awdurdod, lle'r oeddem wedi barnu bod eu gwaith gwella ansawdd yn dda, wedi rhoi prosesau hunanarfarnu cynhwysfawr ar waith sydd wedi'u hen sefydlu. Maen nhw'n adnabod yn gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae eu trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn cael eu defnyddio'n dda fel sail i waith cynllunio gwelliannau. Mae diwylliant o atebolrwydd yn y tri awdurdod, ac maen nhw'n dod yn eu blaenau'n dda wrth roi ar waith yr argymhellion o'r arolygiadau blaenorol.

Nid yw'r pum awdurdod nad oedd yn well na digonol, yn defnyddio hunanarfarnu'n gyson ym mhob un o'u gwasanaethau. Nid yw'r adroddiadau hunanarfarnu'n adnabod cynnydd anfodddhaol, ac nid oes proses drwyadl o ddadansoddi'n sail iddyn nhw. Mae'r adroddiadau'n aml yn methu gwneud llawer mwy na disgrifio ac nid ydyn nhw'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar effeithiau'r gwasanaethau. Gan fod y swyddogion yn

methu â thynnu sylw at y materion yma yn eu hadroddiadau, nid yw'r aelodau etholedig yn dod i wybod am achosion o danberfformio. Canlyniad hyn yw nad yw'r aelodau etholedig yn gallu herio'r swyddogion yn iawn na'u dal yn atebol am berfformiad ysgolion a gwasanaethau.

Yn y tri awdurdod lle mae gweithio llwyddiannus mewn partneriaethau, mae'r partneriaid strategol yn pennu anghenion cyffredin ac maen nhw'n gweithio i geisio cyflawni deilliannau cyffredin. Mae'r partneriaid yn yr awdurdodau yma'n cytuno ar flaenoriaethau, yn cynllunio'n effeithiol ac yn dal ei gilydd yn atebol yn dda.

Yn y mwyafrif o'r awdurdodau, nid yw'r swyddogion yn arfarnu effaith partneriaethau ar y deilliannau i blant a phobl ifanc. Nid yw'r awdurdodau yma'n gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau a gwybodaeth arbenigol pawb i ennyn diddordeb y dysgwyr. Nid ydyn nhw'n mesur effaith cydweithredu nac yn asesu'r costau.


Yn y tri awdurdod lle'r oeddem o'r farn fod y gwaith arwain yn dda, mae cyswllt amlwg rhwng adnoddau a blaenoriaethau'r

cyngor. Yn yr awdurdodau yma hefyd, mae'r gwaith rheoli perfformiad cyffredinol yn effeithiol ac mae'r gwaith rheoli arian yn gadarn. Mae'r awdurdodau yma'n canolbwyntio ar wella gwerth am arian ac mae ganddyn nhw strategaethau ar waith i wella effeithiolrwydd cost eu gwasanaethau i'r ysgolion a'r gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu'n allanol.

Yn y mwyafrif o'r awdurdodau lleol, mae'r swyddogion cyllid yn cynorthwyo'r ysgolion yn effeithiol, gan ofalu bod eu diffygion ariannol a'u gwargedion yn cael eu rheoli'n dda. Ond mae mwy a mwy o achosion i'w gweld o ddiffygion neu wargedion mawr yn casglu dros amser yn ysgolion tua un o bob tri o'r awdurdodau. Nid yw'r rhain yn cael sylw'n ddigon buan.

Mae tua hanner o'r awdurdodau'n cael trafferth cadw eu gwariant ar anghenion dysgu ychwanegol dan reolaeth. Nid yw'r un o'r awdurdodau a gafodd eu harolygu eleni'n gallu dangos adroddiad ar y gwerth am arian mae eu partneriaethau strategol yn ei roi. Nid ydyn nhw'n gallu dweud chwaith a yw'r cydweithredu'n gost effeithiol neu beidio.

Ffigur 3.27: Nifer yr awdurdodau lleol a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Sefydliadau addysg bellach

Roedd 20 o sefydliadau'n darparu cyrsiau addysg bellach a hyfforddiant yng Nghymru ym mis Ebrill 2012. Mae'r nifer ddau yn llai na'r llynedd ar ôl i Goleg y Barri a Choleg Glan Hafren a Choleg Menai a Choleg Llandrillo uno.

Yn 2011-2012, roedd 45,745 o ddysgwyr amser llawn yn y sefydliadau addysg bellach, sy'n nifer ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 117,655 o ddysgwyr rhan amser, sy'n ostyngiad o 5.2% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd chwarter o'r holl ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn 19 oed ac yn iau, tra bod 43% ohonyn nhw'n fyfyrwyr dan 25 oed. Mae'r canrannau yma'n debyg i rai'r flwyddyn flaenorol. Cofrestrodd niferoedd tebyg o fechgyn a merched ar gyrsiau amser llawn yn 2010-2011. Ond merched oedd 55% o'r myfyrwyr rhan amser a oedd wedi cofrestru yn 2010-2011.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau lefel 1 neu 2. Mae'r dysgwyr yma'n cyfrif am 60% o'r cyfanswm. Roedd rhyw 10% o'r dysgwyr wedi cofrestru ar lefel cyn mynediad neu lefel mynediad. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, ar y cyrsiau iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yr oedd y nifer uchaf o ddysgwyr wedi cofrestru.

Perfformiad a rhagolygon

Aethom ati eleni i arolygu tri sefydliad addysg bellach. Mae un o'r rhain yn goleg a gafodd ei ffurfio drwy uno chwe choleg llai, ac mae'n un o'r colegau mwyaf yng Nghymru erbyn hyn. Coleg sydd newydd uno â choleg arall yw un arall. Mae'r trydydd coleg wrthi'n trafod uno â choleg cyfagos.

Mae perfformiad a rhagolygon gwella dau o'r sefydliadau a gafodd eu harolygu'n dda ar y cyfan. Mae safonau'r ddau sefydliad yma wedi dangos tuedd am i fyny dros y tair

blynedd diwethaf. Mae ansawdd yr addysgu'n dda yn y ddau, ac maen nhw'n cynnig arweiniad a chymorth da i'r dysgwyr. Digonol yw perfformiad presennol a rhagolygon gwella'r trydydd sefydliad. Nid yw'r sefydliad yma wedi buddsoddi digon mewn codi'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni. Nid yw chwaith wedi gwella ansawdd yr addysgu, er ei fod yn buddsoddi'n dda mewn adeiladau ac adnoddau.

Gweithgarwch dilynol

Fe ofynnem i ddau sefydliad eleni am astudiaethau achos o arfer ragorol. Bydd angen gweithgarwch dilynol mewn un sefydliad lle'r oeddem o'r farn fod ei berfformiad presennol a'i ragolygon gwella'n ddigonol. Bydd yr arolygydd cyswllt yn monitro'i gynnydd.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

²SDR203/2012 – Addysg Bellach, Dysgu yn y Gwaith a Dysgu yn y Gymuned 2011/12 (dros dro), Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121127/?skip=1&lang=cy>

Deilliannau

Mae'r safonau mae dysgwyr dau o'r sefydliadau'n eu cyflawni'n dda, ac mae safonau'r dysgwyr yn y llall yn ddigonol. Yn y sefydliadau lle mae'r safonau'n dda, mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr o ran cwblhau ac ennill cymwysterau'n uwch na chyfraddau llwyddo'r colegau eraill yng Nghymru. Mae tuedd gyson am i fyny i'w gweld dros y tair blynedd diwethaf. Mae dysgwyr y ddau sefydliad yn cyflawni ar y lefel y byddai rhywun yn disgwyl iddyn nhw gyflawni, neu'n ddigon agos ati, o seilio'r rhagolygon ar eu cyrhaeddiad TGAU blaenorol yn yr ysgolion. Mae cyfraddau llwyddo'r trydydd sefydliad wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf. Ond, er bod cyfraddau cwblhau cyrsiau'n ddigonol ar y cyfan, maen nhw'n anfodhaol mewn rhai meysydd, gan gynnwys gwyddoniaeth a mathemateg, a hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth.

Mae cyfraddau cyrhaeddiad y tri sefydliad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru'n dda ar y cyfan.

Mae dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol o amddifadedd yn cyflawni'n dda yn y tri sefydliad, yn enwedig y rhai sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

Mae dysgwyr y tri sefydliad yn gwneud cynnydd da neu ddigonol yn eu dosbarthiadau. Maen nhw'n cymryd rhan yn dda yng ngweithgareddau'r dosbarth ac mae eu medrau llafar yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwybod am eu gwendidau ac maen nhw'n gwneud cynnydd da wrth atalnodi a sillafu. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn defnyddio dewis da o wahanol fedrau darllen i gasglu gwybodaeth o destunau. Maen nhw'n gallu crynhoi'r prif bwyntiau a dod i gasgliadau o'u gwaith ymchwil.


Mae nifer bach o ddysgwyr y tri sefydliad yn defnyddio Cymraeg yn dda yn eu rhaglenni, fel Bagloriaeth Cymru, a rhaglenni gofal a gofalu am gwsmeriaid.

Mae safonau lles y tri sefydliad yn dda. Mae'r dysgwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn esmwyth yn y coleg, ac maen nhw'n dweud pethau cadarnhaol am eu cynnydd. Maen nhw'n cymryd rhan yn dda yn y gwahanol weithgareddau ychwanegol sydd ar gael yn y coleg, gan gynnwys cynghorau myfyrwyr, digwyddiadau elusennol a chwaraeon. Yn un o'r sefydliadau, mae ymddygiad yn y dosbarth ac o amgylch y coleg yn dda iawn. Ond mewn un sefydliad, mae ymddygiad lleiafrif o'r dysgwyr yn y dosbarth weithiau'n eu rhwystro nhw a dysgwyr eraill rhag gwneud cynnydd yn eu hastudiaethau.

“

“Yn y sefydliadau lle mae'r safonau'n dda, mae cyfraddau llwyddo'r dysgwyr o ran cwblhau ac ennill cymwysterau'n uwch na chyfraddau llwyddo'r colegau eraill yng Nghymru.”

Ffigur 3.28: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae darpariaeth dau o'r sefydliadau a gafodd eu harolygu'n dda ar y cyfan, ac mae darpariaeth y trydydd yn ddigonol. Mae pob un o'r tri sefydliad yn darparu dewis eang o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd sy'n diwallu anghenion y dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Mae'r tri sefydliad yn cynllunio i'w gwricwlwm yn ofalus ac mae'r tri'n cynnig llwybrau dilyniant da i'r dysgwyr. Mae'r tri'n cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a dewis eang o bynciau Safon Uwch, yn bennaf i fyfyrwyr rhwng 16 ac 19 oed.

Mae dysgwyr y tri sefydliad yn cael asesiad cychwynnol i bennu eu lefel ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae'r dysgwyr y mae lefel eu gallu'n is yn cael asesiad diagnostig ychwanegol er mwyn asesu a oes anghenion cymorth dysgu ychwanegol ganddyn nhw. Mae athrawon un sefydliad yn defnyddio'r wybodaeth yma'n dda, gan lunio strategaethau i helpu'r dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd. Ond nid yw hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson drwyddi draw yn y ddau sefydliad arall. Mae athrawon dau o'r sefydliadau'n ymgorffori medrau hanfodol yn dda yn rhaglenni'r dysgwyr. Nid yw un sefydliad yn cynnig digon o gyfleoedd i'r dysgwyr i ddilyn cymwysterau lefel uwch, ac mae hyn yn atal datblygiad eu medrau llythrennedd ar lefel uwch. Er bod y tri

sefydliad yn hybu defnyddio'r Gymraeg, mae'r ddarpariaeth wedi'i chyfyngu i Gymraeg yn y gweithle a nifer bach o unedau ar y cyrsiau gofal a gofalu am gwsmeriaid.


Mae dysgwyr y tri sefydliad yn cael cyfleoedd da i ddsygu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae amrywiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang wedi'u cynnwys ym mhob un o raglenni tiwtorial un sefydliad.

Mae ansawdd gwaith addysgu dau o'r sefydliadau'n dda gan amlaf, ac mae'n ddigonol gan amlaf yn y llall. Yn yr achosion o addysgu da, mae'r athrawon yn cynllunio'u sesiynau'n effeithiol, yn defnyddio dewis eang o strategaethau addysgu i ennyn a chynnal diddordeb y dysgwyr ac maen nhw'n addasu gweithgareddau'n dda i gyfateb i alluoedd y dysgwyr. Mae'r athrawon yn cyflwyno gwersi ar gyflymder da ac yn caniatáu digon o amser i wneud y gweithgareddau. Maen nhw'n herio'r dysgwyr i gyflawni'n dda. Yn yr achosion o addysgu sy'n ddigonol yn unig, nid yw'r athrawon yn defnyddio dewis ddigon eang o dechnegau holi i wirio dealltwriaeth y dysgwyr. Nid ydyn nhw chwaith yn rheoli ymddygiad y dysgwyr yn ddigon effeithiol.

Mae'r tri sefydliad wedi rhoi trefniadau da ar waith i roi cymorth, gofal ac arweiniad i'r dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer ac yn gwybod sut i'w cael. Mae'r sefydliadau yma'n hyrwyddo iechyd a lles y dysgwyr yn dda.

Mae pob un o'r tri sefydliad wedi rhoi polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu'r dysgwyr. Maen nhw'n cynnig manau dysgu a manau cymdeithasol deniadol, dymunol a modern ac mae pob dysgwr yn gallu mynd iddyn nhw. Ond mae gan y tri sefydliad nifer bach o fannau addysgu sydd mewn cyflwr gwael ac nid ydyn nhw'n cyfateb i safonau uchel y rhan fwyaf o weddill yr adeiladau. Mae adnoddau da yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth ac maen nhw'n cynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol.

Ffigur 3.29: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gwaith arwain a rheoli dau o'r sefydliadau y gwnaethon ni eu harolygu'n dda. Mae'r prifathrawon a'r uwch reolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan osod a chyflawni blaenoriaethau strategol clir. Mae rheolwyr a staff y ddau sefydliad yma'n cyfathrebu'n dda neu'n dda iawn â'i gilydd. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn y safonau ac o ran ymddygiad. Nid yw arweinwyr a rheolwyr un o'r sefydliadau wedi gwneud digon i wella ansawdd yr addysgu a'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni. Nid ydyn nhw'n defnyddio data cymaryddion cenedlaethol yn dda i osod meincnod eu perfformiad er mwyn ei gymharu â pherfformiad colegau eraill Cymru.

Mae llywodraethwyr un o'r sefydliadau'n gwneud eu gwaith yn effeithlon ac yn

economaidd. Mae ganddyn nhw drefniadau pendant ar gyfer asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain. Mae llywodraethwyr coleg arall wedi cynorthwyo a herio'r rheolwyr yn gadarn yn ystod y broses uno. Mae llywodraethwyr y trydydd sefydliad yn cynorthwyo'r rheolwyr yn dda, ond nid ydyn nhw'n herio perfformiad digon.

Mae trefniadau gwella ansawdd dau o'r sefydliadau'n dda. Mae hunanasesu blynyddol yn rhan annatod o waith cynllunio strategol y sefydliadau yma. Mae pob aelod o'r staff yn cyfrannu'n dda at y broses hunanasesu drwy adolygu'r cyrsiau a'r cyfadrannau. Mae'r sefydliadau yma'n defnyddio adolygiadau mewnol o feysydd rhaglenni'n dda, gan adnabod y meysydd sydd angen eu gwella. Pan fo'r trefniadau'n ddigonol yn unig, nid yw'r rheolwyr yn defnyddio data'n ddigon aml i gymharu

perfformiad eu coleg â pherfformiad colegau eraill Cymru.

Mae gwaith partneriaeth y tri sefydliad yn amrywio. Maen nhw'n datblygu rhai partneriaethau effeithiol gydag awdurdodau lleol, ysgolion, cyflogwyr a'u cymunedau. Ond araf yw cyflymder y cynnydd o hyd o ran trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16. Un o effeithiau hyn yw diffyg cynnydd mewn rhai partneriaethau.


Mae dau o'r sefydliadau'n rheoli eu hadnoddau'n dda, ac mae gwaith rheoli adnoddau'r trydydd yn ddigonol. Mae'r tri'n rheoli eu hadnoddau ariannol yn dda, gan wella'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau sydd ar gael i'r dysgwyr. Ond nid yw un o'r colegau wedi rhoi digon o flaenoriaeth i ddefnyddio'i adnoddau i wella'r addysgu ac i godi safonau.

Coleg yn datblygu partneriaeth Cymru-Affrica

Mae'r bartneriaeth sy'n datblygu rhwng **Coleg Gŵyr Abertawe** ac Ysgol Gynradd Madungu yn Kenya wedi gwella datblygiad addysgol, cymdeithasol a deallusol myfyrwyr y ddau sefydliad.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr **astudiaeth achos**.

Figur 3.30: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu yn y gwaith

Yn 2011-2012, roedd 53,355 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r dysgwyr yma, roedd 15,570 yn gwneud prentisiaethau, roedd 18,855 yn gwneud prentisiaethau sylfaen, roedd 2,835 yn gwneud adeiladu sgiliau, roedd 11,475 yn gwneud hyffordddeaethau a chamau at waith, ac roedd 4,440 yn dilyn rhaglenni eraill.

Perfformiad a rhagolygon

Fe arolygon ni bump o ddarparwyr dysgu yn y gwaith eleni. Mae perfformiad tri o'r darparwyr yn dda, mae perfformiad un yn ddigonol a pherfformiad un darparwr yn annigonol. Mae rhagolygon gwella un o'r darparwyr yn rhagorol, mae rhagolygon tri'n dda a rhagolygon gwella un yn ddigonol.

Mae dysgwyr y darparwyr yr oeddem wedi barnu eu bod yn dda'n cwblhau eu hyfforddiant ar gyfraddau sy'n uwch na'r cymaryddion cenedlaethol. Mae'r uwch reolwyr yn gosod ac yn monitro targedau strategol clir ar gyfer safonau a gwelliant y dysgwyr. Mae'r darparwyr yma wedi sefydlu diwylliant a hanes o wella'n gyson. Ond mae dysgwyr y darparwr lle gwelon ni berfformiad anfodddhaol yn cwblhau eu hyfforddiant ar gyfraddau sy'n is o lawer na'r cymaryddion cenedlaethol. Nid yw'r uwch reolwyr wedi mynd ati i ddatblygu strategaethau clir na chynlluniau ar gyfer gwella.

Gweithgarwch dilynol

Mae angen gweithgarwch dilynol ar ddau o'r darparwyr dysgu yn y gwaith. Byddwn yn ail-arolygu un darparwr, a bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ail ddarparwr tua 18 mis ar ôl dyddiad ei arolygiad.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau


Barnodd yr arolygwyr bod safonau dau o'r darparwyr yn dda, bod safonau dau ddarparwr yn ddigonol a bod safonau un darparwr yn annigonol.

Mae dysgwyr y ddau ddarparwr lle'r oedd y safonau'n dda'n cwblhau eu hyfforddiant cyn pen y cyfnod o amser sydd ar gael, ac maen nhw'n gwneud cynnydd da. Mae'n amlwg eu bod yn gymwys yn yr agweddau ymarferol ar eu hyfforddiant, ac mae eu gwybodaeth ddamcaniaethol sylfaenol yn sicr. Mae'r dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau'n gynt na'r cyfartaledd ar gyfer y sector. Mae'r dysgwyr yn y darparwyr lle'r oedd y safonau'n ddigonol yn unig neu'n anfodddhaol yn gwneud cynnydd araf. Maen nhw'n cymryd mwy o amser na'r cyfartaledd ar gyfer y sector i gwblhau eu fframweithiau. Nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol ar lefel uwch a gwybodaeth ddamcaniaethol dda.

Nid yw medrau llythrennedd neu rifedd y mwyafrif o'r dysgwyr yn datblygu neu'n gwella'n ddigon da yn ystod eu hyfforddiant. Nid yw eu medrau ysgrifennu'n datblygu'n effeithiol chwaith. Nid oes digon o ddysgwyr yn dod i ddeall pwysigwydd datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda, ac nid ydyn nhw chwaith yn deall pwysigwydd iaith a diwylliant Cymru'n dda.

Mae hunanhyder a hunan-barch y mwyafrif o'r dysgwyr yn gwella yn ystod eu hyfforddiant. Mae llawer o'r dysgwyr yn mwynhau eu hyfforddiant, ac maen nhw'n aelodau gwerthfawr o staff y cyflogwr. Mae presenoldeb yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn dda ar y cyfan yn y mwyafrif o'r darparwyr.

Figur 3.31: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Mae tri o'r darparwyr hyfforddiant yn cynnig dewis addas o feysydd dysgu ar y lefelau priodol ar ffurf rhaglenni. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd da i'r dysgwyr i symud ymlaen at gam nesaf yr hyfforddiant. Ond anaml y mae'r rhaglenni'n diwallu anghenion y dysgwyr yn llawn gan nad ydyn nhw'n datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da. At ei gilydd, nid yw'r darparwyr yn gwneud digon i ddatblygu medrau llythrennedd y dysgwyr. Nid yw'r hyfforddwyr a'r aseswyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn ddigon da i helpu'r dysgwyr i ddeall i ba raddau maen nhw'n dod yn eu blaenau, nac i ddeall sut y gallan nhw wella'u medrau llythrennedd. Nid oes digon o ddysgwyr yn elwa ar gael adborth adeiladol ysgrifenedig a fydd yn eu galluogi i wella'u perfformiad yn y dyfodol.

Nid yw'r aseswyr a'r hyfforddwyr yn gwneud digon i ddatblygu medrau rhifedd y dysgwyr. Nid ydyn nhw'n ymgorffori tasgau rhifedd yn effeithiol yn yr hyfforddiant a'r tasgau asesu. Nid yw'r tasgau rhifedd yn cael eu cysylltu chwaith â medrau gwaith neu fedrau bywyd. Nid yw'r aseswyr yn rhoi adborth llafar nac ysgrifenedig clir i'r dysgwyr ar eu perfformiad a'u cynnydd.


Ar y cyfan mae ansawdd yr hyfforddi, yr addysgu a'r asesu'n gyffredinol dda ym mhrif faes dysgu tri o'r darparwyr a gafodd eu harolygu. Dim ond digonol yw ansawdd gwaith dau ddarparwr. Mae'r gweithgareddau yn y sesiynau da wedi cael eu trefnu'n dda i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Mae'r asesiadau yn y swydd wedi cael eu cynllunio'n dda. Mae'r aseswyr yn cadw cofnodion manwl o gynnydd eu dysgwyr, ac maen nhw'n gosod targedau heriol ar gyfer cwblhau gwaith ymarferol ac ysgrifenedig. Ond nid yw'r aseswyr a'r hyfforddwyr yn cynllunio'r gwaith asesu yn y swydd ac i ffwrdd o'r swydd yn gyson ac yn ddigon da. Nid yw'r aseswyr a'r hyfforddwyr yn herio pob un o'r dysgwyr yn effeithiol, er mwyn codi safon eu medrau ymarferol a'u gwaith theori.

Nid yw'r mwyafrif o'r darparwyr yn gwneud digon i annog y dysgwyr sy'n Gymry Cymraeg i wneud eu hyfforddiant ac i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r mwyafrif o'r darparwyr wedi ymgorffori diwylliant Cymru'n ddigon trwyadl yn eu rhaglenni hyfforddi.

At ei gilydd mae'r darparwyr wedi rhoi trefniadau da ar waith i gynnig gofal, arweiniad a chymorth i'r dysgwyr. Mae pob un o'r darparwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at amrywiaeth yn dda. Mae pob un o'r darparwyr wedi llunio polisiau a gweithdrefnau diogelu priodol.

Mae amgylchedd dysgu un darparwr yn rhagorol, mae amgylchedd dysgu dau ddarparwr yn dda, a digonol yw amgylchedd dysgu un darparwr. Ond mae adeiladau ac adnoddau un darparwr yn anfodddhaol, sy'n atal cynnydd y dysgwyr. Mae llawer o'r dysgwyr yn gweithio mewn mannau gweithio dymunol, ac mae dewis helaeth o adnoddau ar gael ar eu cyfer wrth wneud eu gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Ffigur 3.32: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd y gwaith arwain a rheoli'n amrywio'n fawr. Mae uwch reolwyr y darparwyr yr oeddem o'r farn eu bod yn dda neu'n well, yn gosod blaenoriaethau a thargedau strategol clir ar gyfer safonau a gwelliant y dysgwyr. Ond nid yw arweinwyr a rheolwyr y ddau ddarparwr y mae eu gwaith rheoli'n ddigonol ar y gorau, yn hyrwyddo gweithdrefnau hunanasesu cadarn sy'n gallu adnabod yn glir y diffygion a'r camau gwella.


Yn gyffredinol, mae ansawdd y gwaith mewn partneriaeth gydag isgontractwyr a phartneriaid allweddol yn peri pryder. Nid yw'r mwyafrif o'r darparwyr sy'n arwain a'u hisgontractwyr yn gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd bob tro gyda'r nod o wella safonau ac ansawdd yr hyfforddi a'r asesu. Maen nhw'n tueddu i beidio â rhoi blaenoriaeth i anghenion y dysgwyr.

Mae'r darparwyr yr oeddem wedi barnu eu bod yn dda neu'n rhagorol yn defnyddio dewis da o ddulliau sicrhau ansawdd a systemau gwybodaeth reoli i fonitro pob agwedd ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu hisgontractwyr. Ond nid yw'r mwyafrif o'r darparwyr sy'n arwain wedi rhoi systemau cadarn ar waith i arfarnu a monitro pob agwedd ar waith eu hisgontractwyr. Nid yw uwch reolwyr y darparwyr sydd heb fod yn well na digonol wedi creu strategaethau a gweithdrefnau clir i ofalu bob pob dysgwr yn cael yr hyfforddiant gorau. Nid yw'r darparwyr yma'n adnabod arfer dda ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i bob un o'r isgontractwyr. Mae'r dulliau cyfathrebu rhwng y darparwyr sy'n arwain a'r isgontractwyr yn amrywio gormod. Mae'r darparwyr da neu'r rhai sy'n rhagori ar hynny'n cynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd gyda'r isgontractwyr. Maen nhw'n cadw cofnodion clir o gyfarfodydd a'r camau gweithredu sy'n dilyn. Ond yn yr un darparwr lle mae'r gweithio mewn partneriaethau'n wan, nid yw pob un o'r isgontractwyr yn mynd i gyfarfodydd yn

rheolaidd nac yn cyfathrebu'n gyson. Mae'r deilliannau isgontractwyr drwyddi draw'n anghyson.

Mae trefniadau rheoli adnoddau un o'r darparwyr yn rhagorol ac mae trefniadau dau'n dda. Digonol yw trefniadau un darparwr, ac mae trefniadau rheoli darparwr arall yn anfodddhaol. Yn y ddau ddarparwr y mae eu trefniadau rheoli adnoddau'n dda neu'n well, mae'r rheolwyr yn gofalu bod y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio'r adnoddau gorau wrth wneud eu gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r mwyafrif o'r darparwyr yn cynorthwyo'r staff yn dda gan gynnig rhaglenni datblygu proffesiynol cynhwysfawr. Ond nid yw'r ddau ddarparwr sy'n cynnig gwerth am arian nad yw'n well na digonol, yn defnyddio adnoddau'n ddigon da fel bod deilliannau'r dysgwyr yn gwella.

Figur 3.33: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae 16 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r partneriaethau yma'n cynnwys nifer o wahanol ddarparwyr yn ardaloedd yr awdurdodau lleol. Yn eu plith mae colegau addysg bellach, yr awdurdod lleol ei hun, canolfannau iaith Gymraeg, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chyrff gwirfoddol lleol.

Mae tri sefydliad addysg bellach hefyd yn darparu hyfforddiant dysgu oedolion yn y gymuned. Y sefydliadau yma yw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru.

Perfformiad a rhagolygon

Aethom ati eleni i arolygu tair o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae perfformiad un bartneriaeth yn dda ar sail y lefel dda o gynllunio strategol sydd ganddi. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud trefniadau da hefyd i sicrhau ansawdd ac i gynllunio ar gyfer gwella. Canlyniad hyn yw bod y dysgwyr yn cyflawni safonau da. Anfodddhaol yw perfformiad y ddwy bartneriaeth arall. Nid yw'r partneriaid wedi mynd ati'n ddigon da i gynllunio er mwyn cynnig arweiniad a chyfeiriad yn y dasg o reoli dysgu oedolion, ac i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y gymuned.

Mae rhagolygon gwella un bartneriaeth yn rhagorol. Mae ei phartneriaid yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd i geisio gwella'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni a gwella

ansawdd yr addysgu a'r asesu. Digonol yw rhagolygon gwella'r ddwy bartneriaeth arall. Mae un bartneriaeth wedi gwella'n araf, ac nid yw llall wedi rhoi cynlluniau strategol ar waith yn llawn.

Mae'r gwahanol bartneriaethau'n cynnig gwahanol gyrsiau i oedolion ond mae pob un yn cynnig addysg sylfaenol oedolion, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Gweithgarwch dilynol

Mae angen gweithgarwch dilynol mewn dwy o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae eu perfformiad presennol yn anfodddhaol.

Roedd angen gweithgarwch dilynol mewn dwy o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned y llynedd. Dim ond safonau digonol neu safonau anfodddhaol mae dysgwyr tair o'r pedair partneriaeth sydd angen gweithgarwch dilynol yn eu cyflawni. Mae gwaith arwain tair o'r partneriaethau yma'n ddigonol yn unig neu'n anfodddhaol. Ac mae trefniadau gwella ansawdd y pedair partneriaeth yn ddigonol neu'n anfodddhaol.

I ddarllen mwy am weithgareddau dilynol, cliciwch ar y teitl 'Gweithgarwch dilynol'.

Deilliannau

Mae safonau un o'r partneriaethau yr arolygon ni eleni'n dda. Digonol yw safonau un arall, ac mae safonau'r drydedd bartneriaeth yn anfoddfaol.

Mae dysgwyr o wahanol gefndiroedd a galluoedd yn un o'r partneriaethau, ac maen nhw'n cyflawni safonau da yn eu gwaith. Er bod eu medrau sylfaenol yn wan, mae llawer o'r dysgwyr yn llwyddo i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer o'r dysgwyr yn cyflawni safonau da yn eu dosbarthiadau ac yn sicrhau deilliannau sy'n rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol neu'n ddigon agos ato.

Araf yw cynnydd y dysgwyr yn y ddwy bartneriaeth lle'r oedd eu safonau'n anfoddfaol neu heb fod yn well na digonol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y dosbarthiadau addysg sylfaenol oedolion a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill. Mae'r dysgwyr yn aml yn gweithio ar lefelau sy'n is na'u gallu, ac nid yw eu tiwtoriaid yn eu herio er mwyn sicrhau eu bod yn symud yn gyflym i'r cam nesaf yn eu dysgu. Nid yw'r dysgwyr yma'n defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn ddigon da i allu gosod targedau penodol sy'n mesur eu cynnydd. Mae'r gyfradd y mae'r dysgwyr yma'n cyflawni deilliannau


llwyddiannus o'u cyrsiau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol neu'n ddigon agos ato. Nid oes digon o ddysgwyr yn symud ymlaen o gysiau lefel mynediad i gysiau lefel 2.

Mae lles y mwyafrif o'r dysgwyr yn gwella wrth gymryd rhan mewn dysgu oedolion. Mae eu hunanhyder yn codi a'u hunan-barch a'u gallu i ddysgu'n gwella. Mae llawer o'r dysgwyr yn mynd ymlaen i waith neu i gymdeithasau gwirfoddol a chymunedol, ac yn defnyddio'u medrau a'u gwybodaeth yn dda yno. Mae agweddau'r mwyafrif o'r dysgwyr at ofalu am iechyd eu cyrff a'u meddyliau'n dod yn fwy cadarnhaol. Mae'r dysgwyr hyn yn manteisio'n dda ar y dosbarthiadau i gynnal cysylltiadau cymdeithasol ac i ychwanegu at eu galluoedd deallusol.

“

“Mae lles y mwyafrif o'r dysgwyr yn gwella wrth gymryd rhan mewn dysgu oedolion. Mae eu hunanhyder yn codi a'u hunan-barch a'u gallu i ddysgu'n gwella.”

Ffigur 3.34: Nifer y darparwyd a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?



Darpariaeth

Yn gyffredinol, mae'r partneriaethau a gafodd eu harolygu eleni'n darparu dosbarthiadau a chysiau sy'n bodloni'r blaenoriaethau ar gyfer gwella medrau sylfaenol a medrau ar gyfer cael gwaith yn foddhaol. Ond nid yw dwy o'r partneriaethau'n mynd ati'n ddigon da i ymchwilio i anghenion eu cymunedau er mwyn cynllunio ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth. Canlyniad hyn yw nad ydyn nhw'n gwybod i ba raddau mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y cymunedau neu'r dysgwyr. At ei gilydd, nid oes digon o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i'r dysgwyr.

Mae un bartneriaeth yn gweithio'n dda, gan gyfuno medrau sylfaenol â dewis eang o gyrsiau sy'n cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ffotograffiaeth ddigidol. Ond ni welon ni hyn yn y ddwy bartneriaeth arall. Nid yw'r darparwyr sy'n cynnig dosbarthiadau cyffredinol ym maes dysgu oedolion yn helpu'r dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da.

At ei gilydd, nid yw'r un o'r partneriaethau'n gwneud digon i helpu'r dysgwyr i sefydlu dosbarthiadau annibynnol neu glybiau. Canlyniad hyn yw bod gormod o'r dysgwyr yn aros yn yr un dosbarth flwyddyn ar ôl blwyddyn, a hynny'n aml


gyda'r un tiwtor. Mae hyn yn rhwystro'r partneriaethau rhag sefydlu dosbarthiadau newydd a recriwtio dysgwyr yn ôl gofynion polisiau cenedlaethol.

Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau a gafodd eu harolygu. Ond nid yw llawer o'r tiwtoriaid yn cynllunio'r broses asesu'n ddigon da. Nid ydyn nhw'n defnyddio cynlluniau dysgu'n ddigon da i helpu'r dysgwyr i ddeall i ba raddau maen nhw'n dod yn eu blaenau ac i adnabod sut y gallan nhw wella.

Ar y cyfan nid yw'r partneriaethau'n gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol maes dysgu oedolion, er enghraifft, i ymgorffori medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym mhob un o'r meysydd pwnc. Nid ydyn nhw chwaith yn rhoi cynlluniau effeithiol ar waith i gyflwyno dysgu oedolion. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr un bartneriaeth sy'n cael help gyda'u hanghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn eu dosbarthiadau. Ond nid yw darparwyr y ddwy bartneriaeth arall yn adnabod y dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon cynnar i roi cymorth addas ar waith ar ddechrau eu cyrsiau. Mae hyn yn atal eu cynnydd.

Mae pob un o'r partneriaethau'n gweithio'n dda i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi sylw da i gydraddoldeb, ac mae'r awyrgylch ym mhob un o'r sesiynau yn groesawgar ac yn llawn parch. Ond nid yw'r partneriaethau'n gwneud digon i ymgorffori'r dimensiwn Cymreig i ddeunydd a chynnwys y cyrsiau.

Ffigur 3.35: Nifer y darparwyr a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?




Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar y cyfan, nid yw'r partneriaethau'n gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol maes dysgu oedolion, er enghraifft, i ymgorffori medrau llythrennedd a rhifedd ym mhob un o'r meysydd pwnc, ac i roi cynlluniau effeithiol ar waith i gyflwyno'r medrau hynny. Dim ond yn un o'r partneriaethau yr oedd cynlluniau da i'w gweld sy'n gosod nodau ac amcanion clir. Mae'r bartneriaeth yma'n gwirio'r cynnydd yn dda o gymharu â'r amcanion. Nid oes amcanion a thargedau clir gan y ddwy bartneriaeth arall a gafodd eu harolygu, i'w helpu i reoli eu gwaith neu i fesur ac arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth ar y dysgwyr.

Mae un bartneriaeth wedi rhoi trefniadau gweithio effeithiol ar waith i wella ansawdd. Mae'r staff yn deall eu perfformiad yn dda, ac yn deall yr agweddau arno sydd angen eu gwella. Canlyniad hyn yw bod y deilliannau i'r dysgwyr wedi gwella am fod yr addysgu a'r asesu'n well. Mae'r partneriaid yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd i wella'r safonau mae'r dysgwyr yn eu cyflawni. Maen nhw'n rhannu'r un cynllun ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gyflawni'r un amcanion. Nid yw'r ddwy bartneriaeth arall a gafodd eu harolygu'n monitro ac asesu ansawdd eu darpariaeth yn ddigon da.

Ar y cyfan, mae cymwysterau'r tiwtoriaid dysgu oedolion yn briodol i addysgu eu pynciau. Mae un bartneriaeth yn gweithio'n dda i gydlynu datblygiad staff pob un o'i phartneriaid. Nid yw'r ddwy bartneriaeth arall yn mynd ati'n ddigon da i gydlynu datblygiad y staff, ac nid ydyn nhw chwaith yn mesur effaith hyfforddiant staff ar ddysgu. Nid yw'r partneriaethau dysgu oedolion ar y cyfan yn helpu'r tiwtoriaid yn ddigon da i wella'r agweddau proffesiynol ar eu rôl. Mae hyn yn rhwystro gallu'r tiwtoriaid i wella ansawdd yr asesu ac i helpu'r dysgwyr i gynllunio'u dysgu, i wneud cynnydd da ac i wella'u deilliannau.

Ffigur 3.36: Nifer y partneriaethau a'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Mae tair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae pob un o'r canolfannau'n trefnu darpariaeth hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn dwy brifysgol bartner. Aethom ati eleni i arolygu un darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, sef Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru. Cafodd y ganolfan addysg athrawon yma ei lansio'n ffurfiol yn 2011. Mae Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De-orllewin Cymru'n cynnwys y ddarpariaeth addysg athrawon ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, sy'n golygu gweithio mewn partneriaeth ar lefel isranbarthol. Hon yw'r gyntaf o'r partneriaethau hyfforddiant athrawon i gael ei harolygu ar ôl iddyn nhw gael eu had-drefnu.

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad yma.

Y canolfannau eraill yw Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru, ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth, a Chanolfan Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon De-ddwyrain Cymru, sydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru Casnewydd.

Mae Estyn yn gwneud ymweliadau monitro â phob un o'r canolfannau. Yr ymweliadau yma, a'r arolygiad o Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De-orllewin Cymru yw sail y wybodaeth sydd yn yr adroddiad sy'n dilyn.

Deilliannau

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r safonau i ennill statws athro cymwys. Mae'r mwyafrif yn deall gofynion rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a fframwaith y Cyfnod Sylfaen, ac mae eu gwybodaeth am eu pynciau'n gadarn.

Mae'r hyfforddeion yn gyffredinol yn defnyddio dewis da o strategaethau addysgu ac yn trefnu gweithgareddau addas sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu cymell. Mae llawer o'r hyfforddeion yn cynllunio'u gwersi'n fanwl iawn, ond nid yw lleiafrif ohonyn nhw'n cynllunio tasgau i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn mynd ati'n dda i drefnu'r ystafell ddsbarth ac maen nhw'n rheoli'r disgyblion yn dda. Maen nhw hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda'r cynorthwywyr addysgu.

Mae llawer o'r hyfforddeion yn defnyddio dewis amrywiol o dechnegau asesu ar gyfer dysgu i helpu'r disgyblion ac i olrhain eu

cynnydd. Ond mewn lleiafrif o'r achosion, nid yw'r hyfforddeion yn deall yn iawn y dysgu sydd dan sylw, nid ydyn nhw'n asesu cynnydd y disgyblion, ac nid ydyn nhw'n myfyrio ar effeithiolrwydd eu haddysgu.

Mae medrau personol, medrau llythrennedd a medrau cyfathrebu da gan y mwyafrif o'r hyfforddeion, ac maen nhw'n cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion drwy'r pwnc maen nhw'n ei addysgu. Mae ychydig o'r hyfforddeion yn esiampl dda iawn o ran eu hiaith. Ond nid yw medrau llythrennedd lleiafrif o'r hyfforddeion yn ddigon sicr. Maen nhw'n gwneud camgymeriadau atalnodi a sillafu yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn yr ystafell ddsbarth, ac nid yw ambell un yn siarad yn gywir.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da gan y rhan fwyaf o hyfforddeion, ond nid yw lleiafrif o'r hyfforddeion yn annog eu disgyblion i ddatblygu'r medrau yma yn y gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn datblygu medrau iaith y disgyblion yn dda. Ond nid yw rhai o'r hyfforddeion yn esiampl dda o ran eu hiaith. Maen nhw'n gwneud camgymeriadau gramadegol neu wallau treiglo yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r mwyafrif o'r hyfforddeion yn deall y Cwricwlwm Cymreig yn dda, ond dim ond rhai sy'n cynllunio ar ei gyfer yn eu profiadau ysgol.

At ei gilydd, mae'r hyfforddeion yn datblygu nodweddion proffesiynol da ac maen nhw'n meithrin perthynas weithio gadarnhaol gyda'r disgyblion a gyda staff yr ysgol a'r brifysgol. Yn eu hastudiaethau prifysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos cymhelliant mawr a diddordeb brwd. Maen nhw'n deall yn dda'r safonau mae'n rhaid eu cyrraedd i ennill statws athro cymwys. Mae llawer yn monitro'u cynnydd eu hunain ar sail y safonau yma, ac mae tua hanner yn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau'n gywir.

“

“Mae'r hyfforddeion yn gyffredinol yn defnyddio dewis da o strategaethau addysgu ac yn trefnu gweithgareddau addas sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu cymell.”

Darpariaeth

Ar y cyfan, mae'r rhaglenni hyfforddi'n cynnig dewis helaeth o gyfleoedd i'r hyfforddeion fel patrwm o'r safonau mae gofyn eu cyrraedd i ennill statws athro cymwys. Mae pwyslais ar y problemau diweddaraf a'r blaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu llythrennedd a rhifedd y disgyblion, er bod yr hyfforddiant yn y meysydd yma'n well yn gyffredinol ar raglenni'r cyfnod cynradd.

Mae'r prifysgolion yn asesu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yr hyfforddeion yn rheolaidd. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gadarn ar y rhaglenni cynradd, ond nid yw mor effeithiol ar raglenni'r cyfnod uwchradd.

Mae llawer o'r tiwtoriaid yn cynnig esiampl dda i'r hyfforddeion, ac maen nhw'n batrwm o arfer dda yn yr ystafell ddosbarth. Ond yn yr ychydig o achosion lle mae'r hyfforddiant yn wan, mae'n arwynebol ac nid yw'n cyfateb i anghenion yr hyfforddeion. Nid yw'r gweithgareddau'n ddigon amrywiol chwaith, ac maen nhw'n rhy araf. Yn ychydig o'r achosion, nid yw gwybodaeth y tiwtoriaid am arfer bresennol yr ysgol yn ddigon diweddar.

Yn y rhan o'r hyfforddiant yn yr ysgol, mae systemau manwl ar waith yn gyffredinol i asesu cynnydd yr hyfforddeion o gymharu â safonau statws athro cymwys. Ond mewn lleiafrif o'r achosion, nid yw'r mentoriaid yn deall y safonau, ac mae eu hasesiadau'n rhy hael. Mae gormod o'r mentoriaid yn methu â monitro ffeiliau'r hyfforddeion yn ddigon gofalus. Ac mewn ychydig o achosion, nid ydyn nhw'n adnabod camgymeriadau'r hyfforddeion yn y medrau neu yn eu gwybodaeth am y pwnc.

Mae dulliau'r gwahanol diwtoriaid o asesu gwaith ysgrifenedig yr hyfforddeion yn amrywio gormod. Mae ychydig o diwtoriaid yn methu ag adnabod camgymeriadau'r hyfforddeion. Mae gormod o aseiniadau'n cael eu marcio'n rhy hael, ac nid yw'r graddau mae'r tiwtoriaid yn eu rhoi'n gyson â'r meini prawf marcio.

Mae'r hyfforddeion yn cael cyfle da i ddefnyddio systemau cymorth, ac maen nhw'n cynnig arweiniad, cymorth a chwmsela effeithiol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr y prifysgolion wedi cydweithio i gwtogi ar yr achosion o ddyblygu yn y rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ac i gyflwyno cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae'r parau o bartneriaid yn nhrefniant pob un o'r canolfannau'n gymharol newydd, ac nid yw'r rhan fwyaf wedi cysoni gofynion eu rhaglenni na'u gweithdrefnau sicrhau ansawdd.

Fel sail i'r broses hunanarfarnu, mae'r canolfannau wedi rhoi prosesau cadarn ar waith i gasglu barn yr hyfforddeion, mentoriaid yr ysgolion a thiwtoriaid y prifysgolion. Maen nhw wedi rhoi systemau sicrhau ansawdd ar waith hefyd, ond prin yw'r gwaith dadansoddi o hyfforddiant y prifysgolion. Mae llawer o arweinwyr canol yn methu â gwella ansawdd yn ddigon effeithiol drwy fonitro arfer orau a throsglwyddo'r wybodaeth i'w cydweithwyr. Canlyniad hyn yw mai amrywiol yw profiad hyfforddi'r hyfforddeion.

Mae'r mentoriaid yn cael digon o gyfleoedd ar y cyfan i gael eu hyfforddi i sicrhau bod eu medrau'n effeithiol a bod ganddyn nhw'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Ond nid yw ychydig o'r mentoriaid yn mynychu eu sesiynau hyfforddi. Nid ydyn nhw'n chwaith yn cael digon o gyfle i gymedroli eu barn drwy drafod gydag aelod o staff y brifysgol. Mae hyn yn gwneud y gwaith o asesu perfformiad yr hyfforddeion yn anghyson.

At ei gilydd, mae cymwysterau'r tiwtoriaid yn dda ac maen nhw'n cael eu defnyddio'n briodol. Ond mae gwybodaeth ychydig o'r tiwtoriaid am arferion presennol yr ysgolion yn brin, ac nid ydyn nhw'n gallu paratoi'r hyfforddeion yn effeithiol mewn rhai agweddau ar y rhaglen.

Cymraeg i oedolion

Mae chwech o ganolfannau rhanbarthol ym maes Cymraeg i oedolion yng Nghymru. Aethom ati eleni i arolygu Canolfan Gogledd Cymru sy'n ymestyn o Ynys Môn yn y gorllewin i Wrecsam yn y dwyrain. Mae'r ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag wyth o ddarparwyr ar draws y cyfan o ogledd Cymru. Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis helaeth o gyrsiau Cymraeg, o gyrsiau i ddechreuwyr i gyrsiau uwch. Hefyd, mae'r ganolfan yn cynnig dewis da o gyrsiau Cymraeg yn y gweithle.

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad arolygu yma.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn wedi'i seilio ar wybodaeth sy'n deillio o arolygiadau ac o ymweliadau yn ystod y flwyddyn â chanolfannau rhanbarthol eraill.

Deilliannau

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhanbarth Gogledd Cymru'n gwneud cynnydd da yn eu gwersi. Mae'n amlwg bod eu cymhelliant yn dda iawn ac maen nhw'n gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn dyfalbarhau. Mae ganddyn nhw fedrau dysgu annibynnol da. Maen nhw'n gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu ac yn defnyddio'r rhyngwyd. Mae llawer ohonyn nhw'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio dulliau electronig ar y rhyngwyd i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Maen nhw'n parhau i astudio'r tu allan i'r ystafell ddsbarth drwy fynychu ysgolion

dydd, ysgolion haf a chysiau deuddydd. Maen nhw'n manteisio ar bob cyfle posibl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob-dydd ac yn eu gwaith.

Ond, yn rhy aml o lawer, gofynion yr arholiadau sy'n ysgogi'r dysgu. Mae'r gofynion yma'n rhoi gormod o bwyslais ar gywirdeb gramadegol ac ennill cymhwyster, heb sicrhau bod y dysgwyr yn dod yn ddigon hyderus i gyfathrebu. Yn yr ychydig o achosion da, mae'r dysgwyr yn ymarfer eu medrau mewn sefyllfaoedd bob-dydd

ac yn dod i allu cyfathrebu'n effeithiol. Mae canolfan Gogledd Cymru'n gweithio'n effeithiol iawn gydag amryw o wahanol bartneriaid i drefnu dewis amrywiol a da o brofiadau allgyrsiol. Mae'r gwaith yma wedi cynyddu'n fawr dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at ddewis rhagorol o gyfleoedd dysgu. Ymhlith y cyrsiau allgyrsiol mae: Paned a Sgwrs, Mynd am dro bach, Gweithdy Coginio, a nosweithiau cymdeithasol.

Mae'r dysgwyr yn rhanbarth Gogledd Cymru sydd bron iawn yn rhugl yn gwella'u medrau drwy fynd i ddosbarthiadau sgwrs a stori, neu drwy astudio hanes Cymru a llenyddiaeth Cymru. Ond, yn fwy cyffredinol, nid yw dysgwyr y rhanbarthau eraill yn dod i ddeall diwylliant Cymru na hanes yr iaith Gymraeg, ac mae'r adnoddau i hybu'r agweddau yma ar ddysgu'r iaith yn brin.

Darpariaeth

Mae'r canolfannau rhanbarthol a'u partneriaid yn aml yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio cwricwlwm eang sydd yn aml yn cynnwys dewis amrywiol o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r canolfannau'n ceisio sicrhau bod dewis o gyrsiau addas ar gael yn y mwyafrif o'r ardaloedd heb wneud i'r dysgwyr deithio'n bell i'w cyrraedd. Mae'r cyrsiau'n cynnwys rhai i ddechreuwr a rhai ar lefel uwch i'r dysgwyr mwy rhugl.

Mae tiwtoriaid canolfan Gogledd Cymru'n cynllunio'u gwaith yn dda. Maen nhw'n defnyddio dewis amrywiol o weithgareddau dysgu effeithiol, er enghraifft, ymarfer iaith newydd, gwyllo a gwrando, gwaith llafar mewn parau, darllen deialogau, darllen a deall ac ysgrifennu. Maen nhw'n defnyddio dewis da o wahanol adnoddau addysgu yn eu gwarsi, gan gynnwys cardiau fflach, dillad, celfi a thafenni gwaith addas. Mae pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio'r Gymraeg yn dda iawn i addysgu'r dysgwyr ac i gyfathrebu â nhw ar lefel briodol. Maen nhw'n cyflwyno geirfa newydd yn effeithiol, ac yn ymyrryd yn dda i helpu'r dysgwyr i ddeall patrymau iaith newydd. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid

yn frwdfrydig ac yn egniol wrth gyflwyno'r gwarsi. Ond nid yw'r arfer dda hon i'w gweld mor amlwg yng ngwaith canolfannau eraill, yn enwedig ar lefel mynediad. Nid oedd fawr ddim addysgu rhagorol i'w gweld.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio tasgau gwaith cartref yn dda i wella medrau'r dysgwyr. Mae'r tiwtoriaid yn cynnig adborth manwl ar eu gwaith cartref i'r dysgwyr. Ond dim ond ychydig o diwtoriaid sy'n cynghori'r dysgwyr sut mae gwella mwy eto ar eu gwaith. Mae ychydig o diwtoriaid yn deall yn dda'r safonau mae'r dysgwyr unigol yn eu cyflawni mewn asesiadau ffurfiol. Ond, at ei gilydd, nid yw'r tiwtoriaid yn defnyddio'r asesiadau yma'n ddigon da i gynnig adborth i'r dysgwyr ar eu cynnydd, ac i'w helpu i adnabod eu cyflawniadau neu i gynnig y camau nesaf yn y broses o wella'u perfformiad.

Mae llawer o ganolfannau Cymraeg i oedolion wedi datblygu dewis amrywiol o gyrsiau e-ddysgu Cymraeg sy'n arloesol. Mae'r cyrsiau yma'n helpu'r dysgwyr i wella ac i ymarfer eu medrau Cymraeg y tu allan i'r gwarsi Cymraeg. Cyflwynodd canolfan De-orllewin Cymru gwrs cyfun yn ddiweddar sy'n golygu bod y dysgwyr yn cael deunyddiau e-ddysgu i'w hastudio am dair awr yn y ganolfan. Ond nid oes llawer o'r tiwtoriaid yn defnyddio disgiau DVD neu glipiau o raglenni teledu Cymraeg yn y gwarsi i wella gwybodaeth y dysgwyr am Gymru a'u gallu i ddeall. Dim ond ychydig o'r tiwtoriaid gorau sy'n defnyddio clipiau sain a chlipiau gweledol yn effeithiol i ddatblygu medrau gwyllo a gwrando'r dysgwyr. Anaml, hefyd, y byddan nhw'n defnyddio technoleg fel byrddau gwyn rhyngweithiol.

“

“Mae llawer o ganolfannau Cymraeg i oedolion wedi datblygu dewis amrywiol o gyrsiau e-ddysgu Cymraeg sy'n arloesol. Mae'r cyrsiau yma'n helpu'r dysgwyr i wella ac i ymarfer eu medrau Cymraeg y tu allan i'r gwarsi Cymraeg.”

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r gwaith arwain a rheoli'n rhagorol ar bob lefel yng nghanolfan Gogledd Cymru. Mae strwythurau clir a chadarn ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r ganolfan yn gallu ei beirniadu ei hun, ac mae'n defnyddio data'n dda iawn i wella'r canlyniadau. Mae ansawdd systemau arwain a rheoli'r canolfannau eraill yn amrywio mwy.

Mae canolfannau rhanbarthol Cymraeg i oedolion yn defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth yn dda ar y cyfan i ddadansoddi'r gwahaniaethau rhwng perfformiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Er enghraifft, aeth canolfan Gogledd Cymru ati i ddadansoddi gwahanol fathau o ddata perfformiad yn effeithiol. Dangosodd y data fod perfformiad dynion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, a'i fod ar yr un lefel â pherfformiad menywod erbyn hyn. Dangosodd dadansoddiad y ganolfan hefyd nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng

perfformiad dysgwyr sy'n hŷn na 60 oed ac sy'n dilyn gwahanol gyrsiau, a pherfformiad y grwpiau oedran eraill. Astudiodd y ganolfan hefyd sut mae amddifadedd yn effeithio ar gynnydd y dysgwyr. Gwelodd fod dysgwyr o wahanol fathau o amddifadedd yn llwyddo'n dda. Ond nid yw'r mwyafrif o'r canolfannau'n mynd ati'n dda i fonitro llwybrau dilyniant y dysgwyr.

Mae canolfan Gogledd Cymru wedi rhoi systemau rhagorol ar waith i wella ansawdd. Mae ganddi system hunanarfarnu o safon sy'n gwrandao ar farn amryw o wahanol randdeiliaid. Mae wedi rhoi systemau da iawn ar waith hefyd i wneud gwaith monitro ac i ledaenu gwybodaeth am arfer dda yn y dysgu a'r addysgu. Mae cymwysterau a phrofiad y mwyafrif o'r staff yn briodol ar gyfer y cyrsiau maen nhw'n eu haddysgu. Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig dewis da o gyfleoedd hyfforddi i'w staff. Ond id yw

pob un o'r canolfannau wedi creu systemau mor gadarn, ac mae eu gwaith o fonitro sesiynau'n arwain at arfarniad sy'n aml yn rhy hael.

Mae canolfan Gogledd Cymru wedi sefydlu perthynas gadarn â'i rhanddeiliaid, ac mae'n manteisio'n dda ar arbenigedd darparwyr trydydd parti. Mae'r ganolfan yn ymgynghori â llawer o'i phartneriaid, ac mae'n cynnwys eu barn wrth bennu ei chyfeiriad strategol. Mae'n gweithio gyda chanolfan Canolbarth Cymru hefyd i greu cynlluniau strategol, i reoli ansawdd, i hyfforddi ac i gynllunio'r ddarpariaeth. Ond nid yw gwaith pob canolfan mewn partneriaethau'r un mor effeithiol.

“

“Mae canolfannau rhanbarthol Cymraeg i oedolion yn defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth yn dda ar y cyfan i ddadansoddi'r gwahaniaethau rhwng perfformiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr.”

Dysgu yn y system gyfiawnder

Aethom ati eleni i arolygu'r dysgu yn Ymddiriedolaeth Prawf Cymru drwyddi draw. Fe arolygon ni'r ddarpariaeth medrau ar safleoedd prawf, a'r dysgu sydd ar gael yn ystod cosbau cymunedol fel y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned (gwaith di-dâl). Roeddem wedi barnu hefyd i ba raddau mae anghenion dysgu'n cael eu diwallu yn y rhaglenni ymddygiad troseddol achrededig.

Deilliannau

Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn uchel ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth. Mae pob un bron o'r dysgwyr yn ennill tystysgrifau llythrennedd a rhifedd yn y dosbarthiadau medrau, am fod y mwyafrif ohonyn nhw'n dilyn cymwysterau sy'n rhy hawdd. Mae hyn yn effeithio ar eu cymhelliant ac yn atal eu cynnydd wrth ddysgu.

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr ar y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned yn cwblhau cymwysterau defnyddiol, fel torri glaswellt, cymorth cyntaf a diogelwch ar safle adeiladu. Ond gan mai ar lefel 1 mae'r cymwysterau yma i gyd, nid yw'r mwyafrif o'r dysgwyr yn dilyn y cymwysterau ar y lefel iawn i gyfateb i'w hanghenion. Mae'r dysgwyr yn y mwyafrif o'r lleoliadau Gwneud Iawn â'r Gymuned yn cael profiad sy'n gysylltiedig â gwaith mewn lleoliadau sydd â rheolau clir. Mae'r dysgwyr yn dysgu bod yn fwy prydlon ac yn gwella'u medrau gweithio mewn tîm a'u medrau cyfathrebu.

Mae ychydig o'r dysgwyr yn dod o hyd i swyddi ac yn eu cadw, neu'n cael llefydd mewn addysg bellach. Mae ychydig ohonyn nhw'n symud i swydd â thâl ar ôl cymryd rhan mewn prosiectau profiad gwaith dros dro, neu maen nhw'n aros ymlaen fel gwirfoddolwyr yn yr elusennau lle maen nhw'n gweithio'u gorchmynion prawf. Ond, ar y cyfan, nid oes digon o'r dysgwyr yn mynd ymlaen i swydd â thâl neu addysg a hyfforddiant perthnasol.

Darpariaeth

Dim ond dewis digonol o weithgareddau dysgu a hyfforddi mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gynnig. Mae pwyslais y gweithgareddau yma'n rhy gul. Maen nhw'n rhoi gormod o bwyslais ar ennill unedau achrededig drwy gwblhau llyfrau gwaith, yn lle cynnig dewis o wahanol weithgareddau dysgu perthnasol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo i drefnu bod unedau a chymwysterau achrededig ar gael ar gyfer y medrau ymarferol mae'r dysgwyr yn eu dysgu ar y cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned, er mai dim ond ar lefel 1 y mae'r mwyafrif o'r rhain ar gael. Mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd da i wella'u medrau a allai arwain at swyddi, fel y cyfleoedd i weithio ar leoliadau mewn siopau elusennol ac mewn prosiectau amgylcheddol. Ond nid yw'r lleoliadau yma'n ddigon amrywiol ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth, a phrin yw cyfleoedd y dysgwyr i gael swyddi. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn ddigon da wrth gynllunio lleoliadau Gwneud Iawn â'r Gymuned.

Ar y cyfan, nid yw'r swyddogion prawf bob amser yn gwneud digon i ennyn diddordeb y dysgwyr er mwyn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maen nhw'n colli gormod o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau yma yn ystod rhaglenni prawf eraill.

Mewn rhaglenni ymddygiad troseddol achrededig, mae'r staff yn addasu sesiynau'n dda er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Ond mae nifer mawr o ddysgwyr yn gadael lleiafrif o'r rhaglenni. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i arfarnu a yw pob un o'r cyfranogwyr yn deall y rhaglenni'n ddigon da.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae llawer o'r staff prawf yn deall rôl bwysig dysgu a medrau yn y broses o gwtogi ar aildroseddu. Ond nid yw cynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth yn dweud yn ddigon clir sut byddan nhw'n mynd ati i roi dysgu a medrau ar waith.

Systemau gwael sydd ar waith i fonitro ansawdd a deilliannau dysgu a medrau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn llunio adroddiad hunanasesu nac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth mae'n ei chomisiynu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio cyllid ychwanegol yn dda i ddatblygu dysgu a medrau. Ond bydd cyllid nifer o'r rhaglenni'n ansicr yn y dyfodol ac nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu effaith hyn. Y canlyniad yw bod diffygion yn y gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth at y dyfodol.

Mae enghreifftiau da o'r staff yn cael hyfforddiant i'w helpu i adnabod anghenion dysgu'n fwy effeithiol, ac i roi sylw iddyn nhw. Er enghraifft, mae llawer o staff y cynllun Gwneud lawn â'r Gymuned yn cwblhau cymwysterau addysgu sylfaenol. Mae aelodau eraill o'r staff yn gwneud hyfforddiant ar gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu penodol. Ond nid oes dadansoddiad cyffredinol wedi cael ei wneud i asesu pa hyfforddiant fyddai'n helpu'r staff i wella deilliannau dysgu a medrau'r cleientiaid prawf.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi meithrin perthynas dda â nifer o'i phartneriaid. Ond nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cysylltiadau strategol da â chyflogwyr a busnesau'r ardal, er y gallai'r rhain wella deilliannau'r dysgwyr o ran cael swyddi.

Eleni fe ymunon ni hefyd ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar arolygiadau. Gallwch lawrlwytho'r arolygiadau ar y cyd yma:

Adroddiad ar reoli troseddwy'r yng Nghymru

<http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmiprobation/adult-inspection-reports/omi2/wales-omi2-welsh.pdf>

Pontio: Arolygiad o'r trefniadau pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn y system cyfiawnder troseddol:

http://www.hmcpsi.gov.uk/cjji/inspections/inspection_no/576/

Adran 4: Crynodebau o adroddiadau thematig Estyn

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Cynnwys

Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion	2	Pa mor dda y caiff Setiau Data Craidd Cymru Gyfan eu defnyddio i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?	10
Effaith rhaglenni dysgu fel teulu ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion	3	Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion	11
Datblygiad yr Iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen	4	Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?	12
Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3	5	Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl 16 oed	13
Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3	6	Effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith	14
Cefnogi'r disgyblion mwy galluog a thalentog yn yr ysgolion uwchradd	7	Addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd	15
Gweithredu'r fframwaith Gyrfaedd a'r Byd Gwaith	8	Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianeg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith	16
Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd	9		

Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gofyn i Estyn gynnig cyngor ar agweddau ar addysg a hyfforddiant. Ar sail tystiolaeth o arolygiadau a gwaith arolwg, byddwn ni'n cyflwyno'n canfyddiadau a'n cyngor ar ffurf adroddiadau. Mae'r rhain yn cael eu hanfon at y Gweinidog ac yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, i'r darparwyr ac i'r awdurdodau lleol. Yn yr adroddiadau llawn, fe welwch chi hefyd enghreifftiau o arfer dda ac arfer ragorol. Eleni, rydym wedi dechrau llunio cyfres o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar y safonau a'r ddarpariaeth ym mhynciau'r cwricwlwm. Y cyntaf o'r rhain yw adroddiad ar addysg gorfforol yn yr ysgolion uwchradd, a pheirianeg yn y colegau addysg bellach ac yn y darparwyr dysgu yn y gwaith.

Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion

Mae ysgolion sydd dan amgylchiadau heriol ac sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn gwneud y pethau mae pob ysgol lwyddiannus yn eu gwneud i sicrhau cyflawniad y dysgwyr. Ond maen nhw hefyd yn creu ethos cadarnhaol iawn sy'n galluogi dysgwyr dan anfantais i gyflawni'n dda. Mae'r ysgolion yma'n defnyddio strategaethau'n benodol i oresgyn y ffactorau sy'n rhoi dysgwyr dan anfantais.

Mae ysgolion effeithiol sydd dan amgylchiadau heriol:

- yn trin mynd i'r afael ag anfantais fel un o'r agweddau craidd ar waith yr ysgol gyfan – mae ganddyn nhw ddull pendant, trefnus a chydlynol sy'n canolbwyntio ar wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais;
- yn defnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr dan anfantais – maen nhw'n casglu gwybodaeth o amryw o ffynonellau ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddadansoddi cynnydd grwpiau o ddysgwyr;
- yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr dan anfantais;
- yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais – maen nhw'n deall y berthynas rhwng lles a safonau, ac yn aml maen nhw'n ailstrwythuro'u system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr dan anfantais;
- yn gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr dan anfantais – maen nhw'n cosbi mewn ffordd briodol ond maen nhw'n gweld hefyd fod systemau gwobrwyo'n gweithio'n arbennig o dda;
- yn teilwra'r cwricwlwm i gyfateb i anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddyn nhw systemau mentora sy'n arwain y dysgwyr drwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio'u llwybrau dysgu eu hunain;
- yn mynd i lawer o drafferth i gynnig y math o brofiadau gwerthfawr y mae dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maen nhw'n cynnig dewis amrywiol o glybiau, gweithgareddau a theithiau diwylliannol ac addysgol;
- yn gwrandao ar ddysgwyr dan anfantais ac yn cynnig cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol – maen nhw'n casglu barn dysgwyr am yr addysgu a'r dysgu, yn rhoi rôl allweddol i ddysgwyr yn natblygiad yr ysgol, ac yn cynnwys y dysgwyr yn uniongyrchol yn y broses o wella safonau;
- yn ennyn diddordeb rhieni a gofalgwyr dysgwyr dan anfantais – maen nhw'n cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb â nhw i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn y pethau sy'n eu rhwystro rhag dysgu; ac
- yn datblygu arbenigedd y staff er mwyn diwallu anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddyn nhw ddiwylliant o rannu arfer orau, maen nhw'n rhoi cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, ac mae ganddyn nhw dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Mae'r adroddiad yma ar arfer orau'n edrych yn fanwl ar y deg elfen yma yng ngwaith yr ysgolion effeithiol, ac mae'n defnyddio astudiaethau achos i gynnig darlun o'u heffaith ar ddeilliannau dysgwyr o deuluoedd tlotach.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Effaith rhaglenni dysgu fel teulu ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion

Mae mudiadau sy'n darparu addysg i'r teulu'n annog y rhieni a'r gofawyr i ymuno'n bennaf â rhaglenni dysgu i'r teulu sy'n para am gyfnodau byr. Mae'r athrawon dysgu fel teulu'n defnyddio dewis amrywiol o wahanol strategaethau i addysgu'r rhieni sut mae helpu a chynorthwyo'u plant yn yr ysgol. Canlyniad hyn yw codi hyder a gwella hunan-barch y rhan fwyaf o blant y teuluoedd yma.

Mae'r rhaglenni'n gwella medrau'r oedolion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n oedolion sy'n gwneud cyrsiau hirach yn cael cyfle da i ennill cymwysterau. Ond ychydig iawn o'r darparwyr sy'n olrhain a chofnodi cynnydd y dysgwyr sy'n oedolion yn ddigon da.

Mae'r dulliau o olrhain effeithiau'r rhaglenni yma ar y safonau mae'r plant yn eu cyflawni yn yr ysgol yn wan at ei gilydd. Yn benodol, nid yw'r darparwyr wedi rhoi strategaethau ar waith i fesur effeithiau'r rhaglenni ar y plant yn y tymor hir.

Mae'r ysgolion a'r cydlynwyr dysgu fel teulu'n adnabod y plant sy'n tangyflawni yn yr ysgol yn effeithiol. Ond mae gormod o'r darparwyr yn defnyddio canllawiau grantiau'r rhaglenni dysgu fel teulu fel targedau. Dylen nhw fod yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer recriwtio ar sail arolwg o'r plant a'r oedolion a fyddai'n elwa fwyaf ar y ddarpariaeth.

Nid yw'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn cynllunio rhaglenni dysgu fel teulu mewn ffordd a fyddai'n galluogi'r staff i rannu adnoddau rhaglenni eraill fel 'Dechrau'n Deg'. Nid ydyn nhw chwaith yn cynllunio cyfle i gyfranogwyr 'Dechrau'n Deg' i symud ymlaen i raglenni dysgu fel teulu pan fydd y plant yn dechrau'r ysgol.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Datblygiad yr Iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen

Mae cynnydd llawer o'r disgyblion wrth ddefnyddio Cymraeg fel ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae cyflawniad y mwyafrif o'r ysgolion wrth ddatblygu'r iaith yn dda o leiaf. Mae'r un peth yn wir yn tua hanner o'r lleoliadau nas cynhelir yr ymwelon ni â nhw yn ystod yr arolwg yma. Mae medrau siarad, gwrando a darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n dda yn yr ysgol, ond nid yw eu medrau ysgrifennu wedi datblygu gystal.

Mae'r ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg y disgyblion drwy godi eu hyder a gwella'u hagweddau at ddysgu'r iaith. Maen nhw hefyd yn defnyddio cyfleoedd yn chwe maes dysgu arall y Cyfnod Sylfaen i gyflwyno'r iaith.

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau sy'n gwneud cynnydd araf, nid ydyn nhw'n deall egwyddorion ac arferion y gwaith o ddatblygu'r iaith Gymraeg yn glir. Mae'r ymarferwyr yn aml yn methu â neilltuo digon o amser i gyflwyno datblygiad yr iaith. Nid ydyn nhw'n addasu eu harfer yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon da, er mwyn cynnig dewis amrywiol o gyfleoedd addas i'r plant i siarad Cymraeg ym mhob un maes dysgu.

Ychydig iawn o staff y rhan fwyaf o'r lleoliadau sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Yn yr achosion lle mae bylchau yng ngwybodaeth yr ymarferwyr am yr iaith, mae diffygion yn eu Cymraeg llafar sy'n golygu bod y disgyblion yn siarad neu'n dweud geiriau'n anghywir. Pan fo'r athrawon a'r

ymarferwyr yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd, maen nhw'n addysgu Cymraeg yn fwy hyderus. Ond mae lefel yr hyfforddiant sydd ar gael i'r athrawon yn amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall, a phrin iawn yn aml yw'r cyfleoedd i ymarferwyr wneud hyfforddiant yn eu lleoliadau.

Ychydig iawn o'r awdurdodau lleol sy'n cynnig hyfforddiant penodol i benaethiaid ac i uwch reolwyr ar y dulliau o arfarnu effeithiolrwydd y dulliau addysgu ac asesu newydd sy'n sail i'r gwaith o ddatblygu dysgu'r plant yn natblygiad y Gymraeg. Mae hwn yn un o'r bylchau pwysig yn rhaglen hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3

Dim ond ychydig o'r ysgolion sy'n llwyddo i gynllunio'r gwaith o ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ym mhob agwedd ar y cwricwlwm.

Nid yw'r Fframwaith Sgiliau'n dylanwadu llawer ar waith cynllunio'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Y ffaith nad yw defnyddio'r Fframwaith Sgiliau'n un o ofynion statudol yr ysgolion sy'n rhannol gyfrifol am hyn. Gwella gwybodaeth yr athrawon am bwysigrwydd datblygu medrau meddwl, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a rhifedd y disgyblion yw prif effaith y fframwaith.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn cynllunio'u cwricwlwm drwy gyfeirio'n gyntaf at Orchymynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddan nhw'n mynd ati wedyn i adnabod cyfleoedd i ddatblygu medrau generig sy'n codi yn ôl natur y pwnc. Ychydig iawn o'r ysgolion sy'n defnyddio'r fframwaith i'w helpu i drefnu ac i gynllunio ar gyfer y dilyniant o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, neu'r dilyniant yn ystod cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn digwydd i raddau helaeth am fod y fframwaith yn methu â disgrifio dilyniant mewn medrau'n ddigon clir. Mae disgrifyddion y broses o wneud cynnydd yn rhy eang ac nid oes digon o enghreifftiau.

Mae'r ysgolion yn defnyddio amryw o wahanol ffynonellau i'w helpu i gynllunio'r gwaith o ddatblygu medrau yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o'r athrawon yn defnyddio rhaglenni astudio Sgiliau Hanfodol Cymru i roi patrwm, dilyniant a phwyslais i'r gwaith o ddatblygu medrau generig yng nghyfnod allweddol 3. Mae ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru'n gwella cymhelliad y dysgwyr.

Nid yw athrawon lleiafrif o'r ysgolion yn cynnig digon o gyfleoedd addas i'r disgyblion i ddatblygu eu medru ysgrifennu estynedig. Y ffaith fod yr athrawon yn dibynnu gormod ar daflenni gwaith sy'n galw am atebion byr a syml sy'n gyfrifol am hyn.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3

Mae'r safonau llefaredd yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn uwch na'r safonau wrth ddarllen ac ysgrifennu. Ac mae safonau'r perfformiad mewn Saesneg yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn is na'r perfformiad yn y pynciau craidd eraill. Mae'r merched yn cyflawni'n llawer gwell na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg a Chymraeg, ac ar y lefel uwch.

Mae mwy a mwy o ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion i ennill cymwysterau cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru. Ond nid yw ennill y cymwysterau yma'n golygu'n anorfod fod y disgyblion yn cymhwyso'r medrau yma'n gyson ym mhob un o'u meysydd pwnc.

Mae lleiafrif o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r arolwg wedi gwneud archwiliad o fedrau llythrennedd y disgyblion. Eu nod oedd asesu i ba raddau mae'r pynciau'n adnabod y medrau yma ac yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion i'w datblygu. Yn yr ysgolion sydd wedi cynnig hyfforddiant effeithiol i'r athrawon ar strategaethau llythrennedd, mae cynlluniau gwaith y gwahanol bynciau'n tynnu sylw'n glir ac yn gyson at yr union fedrau llythrennedd y mae gofyn eu haddysgu.

Mae llawer o'r ysgolion wedi rhoi gweithdrefnau pendant ar waith i asesu galluoedd darllen y disgyblion. Maen nhw wedi gwneud trefniadau i gynorthwyo'r rhai y mae eu medrau'n wannach. Ond dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n cofnodi cynnydd y disgyblion yma ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, a dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n monitro cynnydd y darllenwyr mwy galluog yn ddigon da.

Mae pob un o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r arolwg wedi penodi cydlynwyr llythrennedd i fod yn gyfrifol am gydlynu dulliau gweithio'r ysgol gyfan. Maen nhw hefyd wedi sefydlu gweithgorau sy'n canolbwyntio ar wella medrau llythrennedd y disgyblion. Ond nid yw effaith y dulliau yma i'w gweld eto.

Er bod cynlluniau datblygu llawer o'r ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i wella llythrennedd, dim ond lleiafrif o'r ysgolion sy'n canolbwyntio ar lythrennedd yn eu gweithgareddau monitro ac arfarnu.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Cefnogi'r disgyblion mwy galluog a thalentog yn yr ysgolion uwchradd

Nid yw'r disgyblion mwy galluog a thalentog yn cyflawni gystal yng Nghymru ag yn Lloegr. Nid oes digon o'r disgyblion yn cyflawni'n well na'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran (lefel 5) yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn y pynciau craidd, sef Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid oes digon o'r disgyblion 16 oed yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill y graddau uwch (A neu A*) yn y pynciau craidd. At ei gilydd, nid yw'r mwyafrif o'r disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu herio i gyflawni'r safonau uchaf.

Yn yr ysgolion uwchradd prin hynny sy'n cynnig y ddarpariaeth orau, mae'r ysgolion wedi creu cysylltiadau pontio effeithiol â'u hysgolion cynradd partner. Maen nhw hefyd yn dadansoddi data a chanlyniadau asesiadau'n drwyadl i'w helpu i adnabod y disgyblion mwy galluog a thalentog. Mae'r disgyblion yma'n cael eu cynorthwyo'n dda drwy amryw o wahanol fathau o ddarpariaeth ychwanegol. Mae'r athrawon yn olrhain eu cynnydd ac yn ei fonitro'n ofalus iawn ym mhob un o'r cyfnodau allweddol. Mae'r ysgol gyfan yn rhoi dulliau addysgu a dysgu cyson ar waith ym mhob un o adrannau'r ysgol i herio'r disgyblion mwy galluog a thalentog.

Mae cyfathrebu effeithiol gyda rhieni yn ffactor allweddol yn yr ychydig o ysgolion lle mae'r disgyblion mwy galluog yn cael eu herio'n llwyddiannus i gyrraedd safonau uchel. Serch hynny, nid yw lleiafrif sylweddol o'r ysgolion yn rhoi gwybod i rieni fel mater o drefn arferol fod eu plant wedi'u nodi fel disgyblion mwy galluog a thalentog.

Mae disgyblion mwy galluog a thalentog yn elwa fwyaf yn yr ysgolion uwchradd hynny sy'n cynnig dewis helaeth iawn o

gyfleoedd allgyrsiol a dull hyblyg o gyflwyno cwricwlwm sy'n hyrwyddo dulliau dysgu unigol neu bersonol. Maen nhw'n elwa o sesiynau mentora i'w helpu nhw i wneud dewisiadau opsiynau a gyrfaoedd. Maen nhw hefyd yn elwa o gael eu haddysgu gan athrawon arbenigol a thiwtoriaid.

Ond yn y mwyafrif o'r ysgolion uwchradd, nid yw'r disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu herio digon, ac nid ydyn nhw'n cael cymorth priodol bob amser. Nid yw'r trefniadau i adnabod, olrhain a monitro prosesau yn ddigon trylwyr na chadarn. Ychydig o hyfforddiant mae'r staff yn ei gael ar sut i weithio'n effeithiol gyda disgyblion mwy galluog a thalentog.

Ychydig o awdurdodau lleol sy'n defnyddio data i fonitro cynnydd y disgyblion mwy galluog a thalentog yn benodol. Ychydig ohonyn nhw hefyd sy'n hyrwyddo arfer orau yn y gwaith yma rhwng ysgolion.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Mae bron pob un o'r ysgolion yn cynorthwyo disgyblion yn dda i wneud eu dewisiadau pwnc ym Mlwyddyn 9. Mae consortia'r Rhwydwaith Dysgu 14-19 wedi gwella'r amrywiaeth o ddewisiadau pwnc i'r disgyblion, ond maen nhw wedi cynyddu'r pwysau i ddisgyblion wneud dewisiadau opsiynau'n gynharach. Nid yw lleiafrif o'r ysgolion yn cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 9 yn ddigon cynnar i fod o unrhyw gymorth iddyn nhw. Cyfyngedig a bylchog yw'r trefniadau i ddarparu a defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i helpu'r disgyblion. Yn gyffredinol, nid yw'r ysgolion yn mynd ati'n drylwyr i arfarnu pa mor effeithiol mae'r disgyblion yn gwneud penderfyniadau cynllunio ym Mlwyddyn 9. Nid yw partneriaethau'r Rhwydwaith Dysgu'n casglu data'n systematig chwaith. Hefyd, nid yw llywodraethwyr ysgolion yn cael eu cynnwys digon yn y broses o gynllunio'n strategol y fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Mae'r dulliau o gyflwyno'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn amrywio gryn dipyn ar draws yr ysgolion, ac mae amrywiadau mawr o ran faint o amser gwersi mae ysgolion yn ei neilltuo i weithredu'r fframwaith yma.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r meini prawf mae ysgolion yn eu defnyddio i farnu pa mor dda maen nhw wedi cynorthwyo'r disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus yn ddiffygiol, ac nid ydyn nhw'n gwneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael. Nid ydyn nhw chwaith yn ystyried pa mor dda mae penderfyniadau'r disgyblion yn eu galluogi i lwyddo i gynnal eu dewisiadau o ran dilyniant. Nid yw'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'i ddatblygu digon i gefnogi'r broses o olrhain cyflawniad y disgyblion neu i alluogi asesu gwybodaeth ar-lein.

Mae amrywio gormod hefyd yn y graddau y mae ysgolion yn cynnwys partneriaid eraill i gyflwyno'r rhaglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Yn dros chwarter o'r ysgolion, mae partneriaid

allanol yn cyflwyno mwy na hanner o'r rhaglen cyfnod allweddol 4. Ym mhob ysgol bron, mae gwasanaethau Gyrfya Cymru'n gwneud cyfraniad pwysig at y rhaglen. Ond mewn ychydig o ysgolion, mae gostyngiadau diweddar yng ngwasanaethau Gyrfya Cymru wedi rhoi straen ar allu'r ysgolion i gyflwyno'r fframwaith yma.

Mae'r ysgolion sy'n gweithio tuag at ennill Marc Gyrfya Cymru yn gweld yn fwy clir pa wasanaethau a chymorth y mae eu hangen arnyn nhw gan bartneriaid. Maen nhw'n gweithio tuag at gyflawni amcanion sy'n gwella ansawdd rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd

Mae'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cynnig llawer o fuddion i fyfyrwyr. Drwy astudio craidd Bagloriaeth Cymru maemwyafrif o'r myfyrwyr yn gwella'u medrau hanfodol, ac maen nhw'n dod i ddeall amrywiaeth o destunau, gan gynnwys menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes na fydden nhw fel arall wedi'u hastudio.

Serch hynny, mae'r safonau sy'n cael eu cyflawni ar gwrs Bagloriaeth Cymru'n amrywio'n fawr rhwng myfyrwyr a rhwng ysgolion. Mae llawer o'r amrywio yn y safonau'n adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y ffordd mae'r ddarpariaeth wedi'u chynllunio, a'r ffordd mae'n cael ei chyflwyno yn yr ysgolion gwahanol. Hefyd, mae'n adlewyrchu amrediad gallu eang y myfyrwyr sy'n astudio craidd lefel 3. Mae'r amrediad eang o safonau sy'n cael eu cyflawni ar graidd Bagloriaeth Cymru lefel 3 yn awgrymu y byddai graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n adlewyrchu amrediad deilliannau'r myfyrwyr yn fwy teg.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn amrywio hefyd. Yn llawer o'r ysgolion, mae anghydbwysedd rhwng yr amser sy'n cael ei dreulio ar gwblhau'r gwaith papur sy'n ymwneud â chymwysterau medrau hanfodol, a'r amser sy'n cael ei dreulio ar wella medrau'r myfyrwyr eu hunain, ac ar drosglwyddo'r rhain i gefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Ond yn y mwyafrif o'r ysgolion, mae ansawdd yr addysgu yn y craidd yn gyffredinol dda. Yn lleiafrif o'r sesiynau addysgu

nid yw'r myfyrwyr yn cael eu herio digon am nad yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddiwallu anghenion amrediad gallu llawn y myfyrwyr.

Er bod prosesau hunanarfarnu sydd wedi'u sefydlu'n dda'n gyffredinol gan lawer o'r ysgolion, nid yw'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yma'n rhoi pwyslais priodol ar Fagloriaeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr yr ysgolion yn gwybod digon am ansawdd yr addysgu ar raglen Bagloriaeth Cymru, neu nid ydyn nhw'n gwybod faint o gynnydd mae'r myfyrwyr yn ei wneud yn ystod gwersi.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Pa mor dda y caiff Setiau Data Craidd Cymru Gyfan eu defnyddio i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r defnydd sy'n cael ei wneud o Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ('setiau data craidd') wedi cael effaith gadarnhaol ar hunanarfarnu ac wedi gwella'r cydweithredu rhwng ysgolion ar hyd a lled Cymru. Mae ysgolion mynd ati mwy a mwy i gysylltu gyda'r ysgolion yn eu teulu sy'n perfformio'n well er mwyn rhannu arfer orau ac i drafod strategaethau i sicrhau gwelliant.

Mae mwyafrif yr ysgolion yn mynd ati'n systematig i ddadansoddi setiau data craidd er mwyn cael darlun cliriach o'u perfformiad. Maen nhw'n adnabod prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd lle maen nhw'n tanberfformio o gymharu ag ysgolion eraill. O'r gwaith dadansoddi yma, mae'r ysgolion yn gofyn cwestiynau ynghylch pam mae disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig, neu pam nad ydyn nhw'n gwneud y cynnydd disgwylidig. Ble mae angen gwneud gwelliannau, maen nhw'n ystyried beth allan nhw wneud ynghylch hynny. Nid yw hyn yn digwydd yn lleiafrif o'r ysgolion am nad yw'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn dadansoddi data'n ddigon trylwyr i weld beth sydd angen ei wella. Nid ydyn nhw chwaith yn mynd ati'n gadarn i herio tanberfformio.

Mae'r setiau data craidd wedi helpu llawer o'r cyrff llywodraethol i gyflawni'u rôl o ddal arweinwyr ysgol yn atebol. Lle

maen nhw wedi gweld bod tanberfformio, mae'r ysgolion yn defnyddio amrediad o strategaethau i wneud gwelliannau, ac mae effaith y strategaethau yma wedi bod yn dda'n gyffredinol. Serch hynny, nid yw lleiafrif o'r llywodraethwyr yn gwybod yn iawn am y wybodaeth mae'r setiau data craidd yn ei darparu, ac nid ydyn nhw'n gwneud rhyw lawer o gyfraniad at broses hunanarfarnu'u hysgol.

Yn yr ychydig o awdurdodau lleol lle mae'r setiau data craidd yn cael eu defnyddio'n dda, mae'r swyddogion yn defnyddio'r data'n drwyadl i herio perfformiad yr ysgolion, ac maen nhw'n monitro cynnydd tuag at wneud gwelliannau. Ond mae gormod o amrywio ar hyd a lled Cymru o ran pa mor systematig mae'r awdurdodau'n mynd ati i wneud hyn.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn yr unedau cyfeirio disgyblion yn gwneud gwaith anodd gyda'r disgyblion y mae eu hymddygiad nhw'n gallu bod yn heriol. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn teimlo bod y staff yn yr unedau cyfeirio disgyblion yn gwrando arnyn nhw.

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau cyfeirio disgyblion yn mabwysiadu strategaethau rheoli ymddygiad, ymyriad corfforol cyfyngol a dulliau atal y mae Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain yn eu cymeradwyo. Ond lle nad yw'r unedau cyfeirio disgyblion yn gwneud hyn, mae hyn yn golygu bod y disgyblion a'r staff yn agored i niwed yn ystod digwyddiad.

Yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn helpu'r disgyblion i reoli'u hymddygiad eu hunain. Maen nhw'n mynd ati'n dda i ddefnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad y maen nhw wedi cytuno arnyn nhw, yn ogystal ag asesiadau risg disgyblion unigol. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r cynlluniau a'r asesiadau risg yn mynd i'r afael yn ddigon da â rheoli ymddygiad anodd disgyblion unigol. Mae gormod o bolisiau nad ydyn nhw'n adlewyrchu'n ddigon clir yr arfer yn yr uned cyfeirio disgyblion o ddydd i ddydd, neu nid ydyn nhw'n rhoi arweiniad ddigon defnyddiol i'r staff am y gweithdrefnau y dylen nhw eu dilyn.

Mae pob un o'r unedau cyfeirio disgyblion yn defnyddio rhyw fath o drefn 'seibiant', fel rhan o'u strategaeth rheoli ymddygiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r unedau

cyfeirio disgyblion yn defnyddio ystafelloedd dynodedig ar gyfer 'seibiant' sy'n helpu'r disgyblion i adennill rheolaeth a rheoli'u hemosiynau mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn esmwyth. Yn rhy aml, mae cyfnod o 'seibiant' yn dilyn ymlaen o ymyriad corfforol cyfyngol ac atal. Yn yr achosion yma, mae'r disgyblion yn dehongli 'seibiant' fel cosb yn hytrach nag fel cyfle i adennill hunanfeddiant a rheolaeth.

Nid yw trefniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer rheoli llinell a llywodraethu mewn unedau cyfeirio disgyblion yn ddigon cadarn. Nid ydyn nhw'n gwneud digon i ddal athrawon â gofal yn atebol am redeg yr unedau cyfeirio disgyblion o ddydd i ddydd. Nid yw'r adrodd yn canolbwyntio digon ar les y disgyblion, nac yn arfarnu strategaethau ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n ymddwyn yn heriol. Mae'r diffyg arfarnu ac adrodd yma yn ei gwneud hi'n anodd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion addysg gyflawni'u cyfrifoldebau i ddiogelu disgyblion.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?

Yn yr awdurdodau lleol sydd â lefel uwch na'r angen o leoedd ysgol dros ben, nid yw adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol i wella ansawdd addysg pob un o'r dysgwyr. Rhwng 2006 a 2011, fe wnaeth nifer y lleoedd gwag gynyddu o ryw bumed. Nid yw un awdurdod lleol wedi cyflawni'r lefel mae Llywodraeth Cymru'n ei hargymhell, sef dim mwy na 10% o leoedd dros ben ar draws yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ar hyn o bryd, mae amrediad eang o strategaethau'n cael eu defnyddio ledled Cymru i leihau lleoedd dros ben. Blaenoriaeth yr awdurdodau lleol yn gyffredinol yw ad-drefnu ysgolion er mwyn gwella safonau. Ond anaml y mae'r awdurdodau lleol yn mynd ati i olrhain yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy ad-drefnu ysgolion.

Mae dulliau amrywiol wedi'u defnyddio dros amser i arfarnu cost cynnal lleoedd dros ben yn yr ysgolion o ran adnoddau ariannol sy'n cael eu camgyfeirio. Mae'r awdurdodau lleol

hynny sydd wedi mynd ati i gyfrifo cost lleoedd dros ben wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol perswadio cymunedau ysgol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r angen i leihau'r nifer ohonyn nhw. Ond mae diffyg dull safonedig cenedlaethol i gyfrifo cost lleoedd dros ben yn creu anawsterau o ran cynnal trafodaethau gwybodaeth am effeithiolrwydd strategaethau penodol neu'r effaith ar ddeilliannau'r disgyblion.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl 16 oed

Mae llawer o ddarparwyr wedi gwneud cynnydd da yn sefydlu strwythurau ffurfiol i alluogi dysgwyr i ddylanwadu ar waith y darparwr. Mae'r strwythurau yma'n cynnwys fforymau a phaneli dysgwyr, a chynrychiolaeth ar gyrff llywodraethol neu gynghorau. Hefyd, mae darparwyr wedi defnyddio arolygon dysgwyr a holiaduron i helpu dysgwyr gyfrannu at ffurf eu profiad dysgu. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi gallu dylanwadu ar sut mae eu dysgu'n cael ei gyflwyno, ac ar eu hamgylchedd dysgu.

Yn gyffredinol mae trefniadau addas gan y darparwyr i gynnwys barnau'r dysgwyr, drwy eu prosesau cynllunio'r cwricwlwm, er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Ond nid yw'r darparwyr yn mynd ati i gofnodi, monitro ac arfarnu effaith gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar ddeilliannau cymwysterau neu ddeilliannau personol a chymdeithasol y dysgwyr.

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach i gyfrannu at y broses benderfynu ar lefel genedlaethol. Ond ychydig o gyfleoedd mae dysgwyr mewn sectorau ôl-16 eraill yn eu cael i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol. Er enghraifft, nid yw dysgwyr mewn cwmnïau dysgu yn y gwaith yn cael yr un

mynediad i undebau â dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae nifer o fforymau dysgwyr sy'n oedolion ar hyd a lled Cymru, a phe bydden nhw'n cael eu cyfuno, bydden nhw'n darparu rhwydwaith cenedlaethol defnyddiol ar gyfer ymgynghori â dysgwyr sy'n oedolion am natur a chwmpas dysgu oedolion. Fe allai rhwydwaith o'r fath helpu i gefnogi agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer helpu dysgwyr gryfhau democratiaeth leol, ac i rannu'u barn am beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u cymunedau, a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith

Mae darparwyr yn gweld llawer llai o gleientiaid nag a gynlluniwyd i gychwyn, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn cyrraedd eu targedau. Mae cyfraddau dilyniant wedi gwella ychydig bach o'r rhaglenni Adeiladu Sgiliau sydd wedi'u terfynu. Mae nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i hyfforddiant arall neu gyflogaeth yn uwch ar y rhaglenni Hyfforddeiaethau nag ar y rhaglenni Camau at Waith; mae cyfraddau dilyniant yn dal yn anfoddfaol ar y rhaglenni hynny. Mae rhan fwyaf o'r darparwyr yn cyflwyno hyfforddiant mewn grwpiau bach i'r cleientiaid. Ond nid yw rhai cleientiaid wedi cael eu cyfeirio at y rhaglenni cywir.

Anghyson yw ansawdd y wybodaeth i ddarparwyr gan Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, i'w helpu nhw i roi dysgwyr ar y rhaglenni priodol. Mae'n dibynnu gormod ar berthynas bersonol dda rhwng y darparwr a phersonél asiantaeth. Mae gan lawer o ddarparwyr gysylltiadau sy'n gwella neu gysylltiadau da â Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mae'r mwyafrif o'r darparwyr yn mynd ati'n effeithiol i asesu rhwystrau'r dysgwyr i ddysgu'n effeithiol, ond mae ansawdd ac effeithiolrwydd cymorth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn amrywio'n fawr. Mae rhwystrau cymhleth, a rhwystrau lluosog yn aml, gan lawer o'r dysgwyr rhag gwneud cynnydd. Yn aml mae darparwyr yn dod i wybod am y rhwystrau difrifol yma, sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl, ymddygiad troseddol neu broblemau personol eraill, pan fyddan nhw wedi meithrin perthynas gyda'r dysgwyr dros amser. Mae'r wybodaeth yma'n dod yn rhy

hwyr yn aml i'r darparwr fynd i'r afael â'r materion ac i roi cymorth effeithiol i'r dysgwyr yn ystod cyfnod byr y rhaglen.

Mae'r darparwyr yn cysylltu'n dda â phartneriaid a gyda chynrychiolwyr y darparwyr eraill yng Nghymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau i drafod cynnydd, materion eraill ac arfer dda. Yn gyffredinol mae'r darparwyr yn cynnal cysylltiadau da gyda'r cyflogwyr maen nhw'n gweithio gyda nhw. Ond nid yw llawer o gyflogwyr yn deall yn iawn beth yw'r rhaglenni cyflogadwyedd.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/264973.8/Adolygiad%20cychwynnol%20o%20effeithiolrwydd%20rhaglenni%20Hyfforddeiaethau%20a%20Chamau%20at%20Waith%20Llywodraeth%20Cymru%20-%20lonawr%202013/?navmap=30,163>

Addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd

Yn 'Creu Cymru Egniol' (Llywodraeth Cymru 2009) fe wnaeth Llywodraeth Cymru nodi fod rhaglenni addysg gorfforol sydd wedi'u cyflwyno'n dda a'u cynllunio'n briodol, sy'n cael eu hategu gan amrywiaeth o weithgareddau yn yr ysgol, yn ffactorau hanfodol o ran helpu plant a phobl ifanc i fyw bywydau egniol a dod yn oedolion egniol.

Er 2001, mae canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi cynyddu'n gyson mewn addysg gorfforol. Yn 2011, llwyddodd 73% o'r disgyblion hynny yng Nghymru a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer addysg gorfforol TGAU i gyflawni graddau A*-C. Mae hyn ddau bwynt canran uwchlaw'r ffigur ar gyfer y DU, sy'n welliant o 70% yn 2010.

Yn llawer o'r gwersi a gafodd eu harsylwi ar gyfer yr arolwg yma, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn deall cysyniadau allweddol, ac o ran datblygu eu medrau pwnc penodol a'u medrau ehangach, yn enwedig eu medrau cyfathrebu a meddwl.

Mae'r addysgu'n dda neu'n well yn tua thri chwarter o'r gwersi a gafodd eu harsylwi. Lle mae'r addysgu'n rhagorol, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maen nhw'n cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n herio ac yn ennyn diddordeb y disgyblion. Maen nhw hefyd yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion fyfyrion ar eu gwaith, ei

arfarnu a'i wella. Yn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon da i wneud yn siŵr bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgareddau creadigol ac anturus a gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles yng nghyfnod allweddol 3. Mae hyn wedi helpu ennyn diddordeb merched yn fwy llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn mynd ati'n dda i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r fenter '5x60' wedi bod yn llwyddiannus o ran ychwanegu at y rhaglenni allgyrsiol mwy traddodiadol, mewn tîm yn bennaf, yr oedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn eu cynnig yn y gorffennol.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianeg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith

Mae cyfradd lwyddo'r dysgwyr peirianeg o ran ennill eu cymwysterau yn agos at y cyfartaledd ar gyfer yr holl feysydd dysgu mewn addysg bellach, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd mewn dysgu yn y gwaith. Mae'r gyfradd wella dros y blynyddoedd diwethaf yn debyg i'r gwelliant ym mhob maes dysgu. Mae llawer o enghreifftiau o arfer dda, ac arfer ragorol weithiau, mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

Mae'r cysylltiadau rhwng ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith yn gwella'n gyffredinol, ond nid yw pob un o'r darparwyr yn gallu denu digon o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol, sydd â'r medrau cywir, i fynd i mewn i yrfaedd peirianeg. Yn rhy aml, mae ysgolion yn edrych ar yrfa mewn peirianeg fel opsiwn i'r disgyblion llai galluog. Nid oes digon o gynrychiolaeth gan ddysgwyr sy'n ferched o hyd ar raglenni peirianeg.

Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n dda yn gyffredinol, ac yn rhagorol weithiau, yn y sesiynau yr arsylwon ni. Mae'r dysgwyr yn astudio mewn adeiladau da, ac ar y cyfan mae ganddyn nhw ddigon o ddeunyddiau ac offer.

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr peirianeg yn symud ymlaen yn dda at raglenni ar lefel uwch, ac maen nhw'n cael

prentisiaethau neu gyflogaeth o natur dechnegol neu'n ymwneud â pheirianeg. Serch hynny, mae cyfran rhy uchel o ddysgwyr peirianeg yn gadael rhaglenni ac nid yw'r darparwyr yn gwybod i ble maen nhw'n mynd.

Mae'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnis gan ddarparwyr yn adlewyrchu cydbwysedd yn bennaf rhwng dyheadau'r dysgwyr ac anghenion diwydiant yn lleol ac yn rhanbarthol. Yn y mwyafrif o'r darparwyr, mae'r dysgwyr yn gallu symud ymlaen at raglenni arbenigol mewn addysg uwch trwy drefniadau breindal gyda'r sector prifysgol. Ond mae llawer o'r trefniadau breindal yma'n rhy fiwrocraidd a chyfyngol.

Mae'r darparwyr wedi ehangu eu rhaglenni amser llawn, ac yn aml maen nhw'n cynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r rhaglen llwybr i brentisiaeth yn llwyddiannus o ran

paratoi dysgwyr ar gyfer prentisiaethau. Mae'r darparwyr wedi dechrau cynnig rhaglenni peirianeg sy'n cynnwys nifer o'r technolegau mwy newydd, fel ffotoneg, deunyddiau cyfansawdd ac ynni. Ond nid oes digon o ddarparwyr yn cynnwys y rhain ar y cyfan.

Yn gyffredinol mae dysgwyr peirianeg yn dweud yn gadarn eu bod yn fodlon â'u rhaglenni astudio, yn enwedig y sesiynau ymarferol. Nid ydyn nhw mor fodlon â'r dosbarthiadau theori ffurfiol sy'n cynnwys mathemateg, llythrennedd a gwyddoniaeth ar lefelau uwch.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y ddolen yma.

Adran 5: Sylwadau ar berfformiad

Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Cynnwys

Allwedd i'r derminoleg rydyn ni'n ei defnyddio	1	Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion	11
Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen	2	Pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	12
Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3	4	Y tu hwnt i addysg orfodol: medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes	13
Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4	6	Addysg bellach	14
Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched	8	Dysgu yn y gwaith	15
Presenoldeb a gwaharddiadau	9		

Yn y rhan yma o'r adroddiad blynyddol, rydyn ni wedi creu cyfres o siartiau i ddangos deilliannau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol, a chanlyniadau arholiadau allanol. Rydyn ni hefyd yn cynnig sylwadau ar y siartiau.

Allwedd i'r derminoleg rydyn ni'n ei defnyddio


Pynciau craidd	Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth
Cyfnod allweddol 1	Hyd at 2011, roedd plant saith oed yn cael eu hasesu yn erbyn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac roedd disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 2.
Y Cyfnod Sylfaen	Mae hwn wedi disodli cyfnod allweddol 1 ar gyfer disgyblion pump i saith oed. Mae plant yn cael eu hasesu yn saith oed, ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni deilliant 5.
Cyfnod allweddol 2	Ar gyfer disgyblion 11 oed. Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn 11 oed ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 4.
Cyfnod allweddol 3	Ar gyfer disgyblion 11 i 14 oed. Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn 14 oed ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 5.
Cyfnod allweddol 4	Ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed
Trothwy lefel 2	Mae trothwy lefel 2 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyferth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 2 sy'n gyferth â phum TGAU â graddau A*-C.
Trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg	Mae trothwy lefel 2 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyferth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 2 sy'n gyferth â phum TGAU â graddau A*-C, ond mae hefyd yn cynnwys graddau TGAU A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy lefel 1	Mae trothwy lefel 1 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyferth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 1 sy'n gyferth â phum TGAU â graddau D-G.
Dangosydd pwnc craidd	Mae'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yn ymwneud â'r perfformiad a ddisgwyllir yn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd.
Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae'r cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru.
Trothwy lefel 3	Mae trothwy lefel 3 yn cynnwys deilliannau Safon Uwch a'r amrediad llawn o gymwysterau lefel 3 cymeradwy. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 3 sy'n gyferth â dwy Safon Uwch graddau A-E.
Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach	Mae'r cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach yn cynnwys yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru.
Cyfraddau llwyddo	Mae cyfraddau llwyddo'n dangos nifer y dysgwyr sy'n ennill cymhwyster fel canran o'r rheini a ddechreuodd y cwrs.

Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen¹

Ffigur 5.1: Y Cyfnod Sylfaen – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant a ddisgwylir (deilliant 5) neu'r deilliant a ddisgwylir ac un yn uwch (deilliant 6), 2012

Eleni, am y tro cyntaf, cafodd yr holl blant saith oed yng Nghymru eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae disgwyl i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn yr oedran yma, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cyflawni deilliant 6 neu uwch. Am mai hon oedd blwyddyn gyntaf cynnal asesiadau'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ganlyniadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae Ffigur 1.1 yn dangos y canlyniadau ar gyfer 2012.



DPCh - Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

ILICS - Iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu - Saesneg

ILICC - Iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu - Cymraeg

DatMath - Datblygiad mathemategol


DCS - Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

¹ SDR 129/2012 Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2012, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/1208141/?skip=1&lang=cy>

Yn 2012 fe wnaeth dros naw o bob deg disgybl gyflawni deiliant 5 o leiaf yn y maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLLADD). Ond dim ond ychydig dros wyth o bob deg disgybl wnaeth gyflawni'r lefel yma ym mhob un o dri maes dysgu DPChLLADD, iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a datblygiad mathemategol.

Yn iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol, dim ond rhyw chwarter o'r disgyblion wnaeth gyflawni'r deilliannau uwch, sef 6 neu uwch. Serch hynny, yn DPChLLADD, llwyddodd bron i bedwar o bob deg disgybl i gyflawni'r deilliannau uwch.

Ffigur 5.2: Cyfnod allweddol 1 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgwyilir (lefel 2) a'r lefel a ddisgwyilir ac un yn uwch (lefel 3), 2011




Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3²

Ffigur 5.3: Cyfnod allweddol 2 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir (lefel 4) a'r lefel a ddisgwylir ac un yn uwch (lefel 5), 2009-2012

Pan fyddan nhw'n cael eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth), mae disgwyl i ddisgyblion gyflawni lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 pan fyddan nhw'n 11 oed, ac mae disgwyl i'r disgyblion mwyaf galluog gyflawni lefel 5. Mae disgwyl i ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 pan fyddan nhw'n 14 oed i gyflawni lefel 5 o leiaf, ac mae disgwyl i'r disgyblion mwyaf galluog gyflawni lefel 7 neu uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, fe wnaeth y canlyniadau wella ym mhob pwnc. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir o leiaf ym mhob un o'r pynciau craidd (y dangosydd pwnc craidd, neu'r DPC) wedi gwella dros ddau a hanner pwynt canran. Dyma'r gwelliant mwyaf sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uchaf wedi gwella ym mhob pwnc hefyd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012. Yn Saesneg oedd y gwelliant mwyaf. Erbyn hyn mae rhyw un o bob tri disgybl yn cyflawni lefel 6 neu uwch yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ond dim ond ychydig dros chwarter o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel yma yn Gymraeg iaith gyntaf.




² SDR 129/2012 Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2012, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/1208141/?skip=1&lang=cy>

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012, fe wnaeth y canlyniadau wella o dri phwynt canran neu fwy ym mhob pwnc. Roedd gwelliant o dros 4.5 pwynt canran yn y ganran o ddisgyblion 14 oed a gyflawnodd lefel 5 o leiaf ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn y cyfnod allweddol yma eto, dyma'r gwelliant mwyaf sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Fe wnaeth y ganran sy'n cyflawni'r lefelau uchaf wella yng nghyfnod allweddol 3 hefyd. Yn mathemateg eto mae'r canrannau uchaf sy'n cyflawni'r lefelau yma, ac mae rhyw hanner o'r holl ddisgyblion yn cyflawni lefel 6 o leiaf, ac mae un o bob pump n cyflawni lefel 7. Yn Saesneg mae'r canrannau isaf lle mae llai na phedwar o bob deg disgybl yn cyflawni lefel 6 o leiaf, a dim ond un o bob deg sy'n cyflawni lefel 7.

Ffigur 5.4: Cyfnod allweddol 3 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir (lefel 5), y lefel a ddisgwylir ac un yn uwch (lefel 6) a'r lefel a ddisgwylir a dau yn uwch (lefel 7), 2009-2012



Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4³

Ffigur 5.5: Canlyniadau'r arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion yng Nghymru

	2008-2009	2009-2010	2010-2011	2011-2012
Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg	47.2%	49.4%	50.1%	51.1%
Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2	60.7%	63.8%	67.3%	72.6%
Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng y ddau ddangosydd yma	13.5	14.4	17.2	21.5

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion 15 oed yn sefyll arholiadau allanol. Yn 2012, llwyddodd dros saith o bob deg o'r disgyblion yma i gyrraedd trothwy lefel 2. Ond ni wnaeth y ganran sy'n cyrraedd y trothwy yma ac yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg wedi gwella mor gyflym â hyn. Rydyn ni wedi dweud mewn blynyddoedd blaenorol ein bod ni'n pryderu am y bwlch sy'n cynyddu rhwng y canlyniadau yma. Yn 2012, fe aeth y bwlch yma'n fwy fyth. Nid yw'r ysgolion yn gwneud digon o gynnydd o ran gofalu bod disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 hefyd yn ennill cymwysterau yn y meysydd allweddol yma, sy'n flaenoriaethau cenedlaethol i Gymru.

Mae'r perfformiad mewn mathemateg yn waeth na pherfformiad yn y pynciau craidd eraill (Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth) ac mae'r bwlch o gymharu â pherfformiad yn Lloegr wedi mynd yn fwy dros y blynyddoedd diwethaf.

³ SDR 212/2012 Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2011/12, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/121206/?skip=1&lang=cy>

Ffigur 5.6: Canlyniadau'r arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed yng Nghymru (parhau)

	2008-2009	2009-2010	2010-2011	2011-2012
Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 1	88.2%	89.7%	90.3%	91.8%
Y ganran a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd	46.0%	48.0%	48.7%	48.9%
Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio		305.1	311.6	323.5
Y ganran a adawodd addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig ⁴	0.9%	0.8%	0.6%	0.4%

Amrywiol oedd y gwelliant o ran y dangosyddion eraill yn 2012. Fe wnaeth y sgôr pwyntiau wedi'i gapio a'r ganran sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 wella ychydig yn gyflymach na'r flwyddyn flaenorol. Ond ni wnaeth y ganran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wella'u sylweddol. Fe wnaeth canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wella eto yn 2012, ac mae'n llai na hanner un y cant.

⁴ SDR 213/2012 Disgyblion sy'n Ymadael ag Addysg Amser Llawn heb Gymhwyster, 2011/12, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/121211/?skip=1&lang=cy>

Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched

Ffigur 5.7: Perfformiad bechgyn a merched ar draws y Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol

2012	Bechgyn	Merched	Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran
Y ganran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen	75.5%	85.7%	10.2
Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2	79.4%	86.0%	6.6
Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3	67.2%	78.2%	11
Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4	45.1%	52.8%	7.8

Eleni eto, mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 3 y mae'r gwahaniaeth mwyaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r gwahaniaethau mwyaf yn y deilliannau gwell ar gyfer merched yn iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu yn Saesneg, ac mewn Cymraeg fel iaith gyntaf. Ond mae bechgyn yn gwneud yn well na merched o ran cyflawni'r deilliannau uwch mewn datblygiad mathemategol.

Fe wnaeth perfformiad bechgyn ar lefel 4 neu uwch wedi gwella'n gyflymach na pherfformiad y merched yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012. O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth lleiaf ers pum mlynedd wedi bod rhwng canran y bechgyn a'r merched a gyflawnodd y lefel yma ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Serch hynny, fe wnaeth y gwahaniaeth mewn perfformiad gynyddu i'r rheini sy'n cyflawni'r lefelau uwch ym mhob pwnc heblaw am fathemateg, lle mae bechgyn yn dal i wneud ychydig yn well na merched.

Yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched gynyddu eto yn 2012 ym mhob pwnc ar bob lefel, heblaw am Cymraeg fel iaith gyntaf ar lefel 5 neu uwch. Yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf mae'r gwahaniaethau mwyaf o hyd, ac mewn mathemateg mae'r gwahaniaethau lleiaf.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi cau'n gyson yng nghyfnod allweddol 4. Ond yn 2012, mae'r gwahaniaeth wedi cynyddu ychydig ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion.


Presenoldeb a gwaharddiadau

Yn yr ysgolion cynradd⁵, mae'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan wedi bod yn sefydlog ar ryw 93% ers 2002-2003. Yn 2011-2012, roedd gwelliant o 0.5 pwynt canran yn y gyfradd bresenoldeb gyffredinol mewn ysgolion cynradd. Gwellodd y cyfraddau presenoldeb ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Yng Ngheredigion oedd y gyfradd bresenoldeb uchaf, ac ym Merthyr Tudful oedd y gyfradd isaf.

Mae gwelliant o 0.7 pwynt canran wedi bod eleni yn y cyfraddau presenoldeb ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd⁶ yng Nghymru. Mae'r ffigur yma'n dangos bod y gwelliant graddol er 2005-2006 yn parhau. Mae cyfraddau absenoldeb cyffredinol merched yn parhau'n uwch na rhai bechgyn, er bod y bwlch wedi cau rhyw fymryn. Gwellodd y cyfraddau presenoldeb eleni yn 14 o'r awdurdodau lleol, fe wnaethon nhw aros yr un peth â chyfraddau'r llynedd mewn tri awdurdod, ond disgynnodd y cyfraddau mewn pum awdurdod.

Salwch oedd yn cyfrif am dros 50% o'r absenoldebau a gafodd eu cofnodi mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ffigur 5.8: Presenoldeb yng Nghymru gan ddisgyblion o oed ysgol gorfodol



(a) Mae presenoldeb ysgolion cynradd hefyd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol, lle cafodd data eu darparu.

(b) Mae presenoldeb ysgolion uwchradd hefyd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol, lle cafodd data eu darparu.


⁵ SDR 9/2013 Absenoldeb o ysgolion cynradd, 2011-2012, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130122-absenteeism-primary-schools-2011-12-en.pdf>

⁶ SDR 159/2012 Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd 2011-2012, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120925/?skip=1&lang=cy>

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol⁷ yng Nghymru'n dal i ostwng bob blwyddyn ers iddi gyrraedd uchafbwynt yn 2004-2005. Bechgyn sy'n gyfrifol am 73% o'r gwaharddiadau parhaol ac mae hynny'n ostyngiad o 10 pwynt canran o gymharu â'r llynedd. Ar 30%, mae mwy o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn cael addysg yn eu cartref nag unrhyw ddarpariaeth addysg arall, ond nid yw 15% o'r disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn cael unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Ymosod neu drais tuag at ddisgyblion a staff yw'r prif resymau a roddwyd dros wneud gwaharddiadau parhaol. Mae'r rhesymau hyn yn cyfrif am dros 40% o'r gwaharddiadau parhaol.

Mae cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi gostwng i'w lefel isaf am y deg mlynedd diwethaf. Ond mae cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi codi fymryn bach o ffigurau'r llynedd. Herio'r rheolau yw'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros wneud gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai, neu chwe diwrnod neu fwy.

Ffigur 5.9: Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru, 2008-2011



⁷ SDR 33/2012 Gwaharddiadau o Ysgolion yng Nghymru, 2010-2011, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120228/?skip=1&lang=cy>

Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion

Yn 2012, roedd canran y dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a gyflawnodd trothwy lefel 3 yn debyg i'r ganran yn 2011. Roedd gostyngiad yn y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog a gyflawnwyd gan y dysgwyr yma.

Roedd canlyniadau ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog yn is nag y maen nhw wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Ffigur 5.10: Canlyniadau arholiadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion yng Nghymru

	2009-2010	2010-2011	2011-2012
Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 3	94.9%	96.3%	96.9%
Sgôr pwyntiau ehangach	747.9	798.9	772.9

Pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant⁸

Roedd cynnydd o un pwynt canran ers y llynedd yng nghanran y bobl ifanc 16 i 18 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Er hynny, mae canran y bobl ifanc 19 i 24 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng gan bron i bwynt canran.

Ffigur 5.11: Canran y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2009-2011

Oed	2009	2010	2011
16-18	12.2%	11.1%	12.0%
19-24	22.0%	23.0%	22.2%

⁸ SB 95/2012 Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (Blwyddyn hyd at 30 Mehefin 2012), Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121010/?skip=1&lang=cy>

Y tu hwnt i addysg orfodol: medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes⁹

Mae'r lefelau cymwysterau cyffredinol yng Nghymru wedi cynyddu yn 2011, gan barhau'r patrwm cyffredinol o gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2011, roedd amcangyfrif o 11% o oedolion oed gweithio yng Nghymru wedi adrodd nad oedd ganddyn nhw unrhyw gymwysterau, o gymharu â 12% y flwyddyn flaenorol. Yn 2011, roedd gan 74% o oedolion oed gweithio gymwysterau hyd at lefel 2 o leiaf, o gymharu â 72% yn 2010. Y gyfran â chymwysterau lefel gradd (lefel 4 neu uwch) oedd 32% o gymharu â 31% yn 2010.

Cyfran yr oedolion oed gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau a oedd mewn cyflogaeth yn 2011 oedd 41%, o gymharu â 50% yn 2001. Mae'r newid yn y cyfraddau cyflogaeth rhwng 2001 a 2011 yn llai ar gyfer y rheini â lefelau cymwysterau uwch.

Ffigur 5.12: Lefel cymwysterau uchaf oedolion o oed gweithio, 2002-2011



- Dim cymwysterau
- Wedi cymhwyso hyd at lefel 2
- Wedi cymhwyso i lefel 2
- Wedi cymhwyso i lefel 3
- Wedi cymhwyso i lefel 4 neu uwch


⁹ SB111/2012 Lefel y Cymwysterau Uchaf a Ddelir gan Oedolion o Oed Gweithio yng Nghymru, 2011, Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121121/?skip=1&lang=cy>

Addysg bellach¹⁰

Gwellodd y cyfraddau cyrhaeddiad fymryn bach o gymharu â 2009-2010 yn yr holl feysydd bron, ac ar bob lefel. Roedd cyfraddau cyrhaeddiad ar gyrsiau hir yn amrywio o 84% mewn busnes, gweinyddi a'r gyfraith i 94% mewn lletygarwch ac arlwy.

Y gyfradd gyffredinol ar gyfer cyrhaeddiad yn yr holl gyrsiau hir oedd 89%, sef yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 5.13: Cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau hir mewn sefydliadau addysg bellach, 2008-2011



Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer yr holl gyrsiau mewn colegau addysg bellach yn 2010-2011 oedd 81%, sef yr un gyfradd â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer cyrsiau hir, roedd y cyfraddau uchaf ar lefel 1 a'r cyfraddau isaf ar lefel 3. Ar lefel 2, y gyfradd lwyddo oedd 78%, sef yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Y cyfraddau llwyddo ar gyrsiau hir ar lefelau 1 a 3 oedd 81% a 77% yn y drefn honno, sef cyfraddau tebyg i'r flwyddyn flaenorol – 81% a 76% yn y drefn honno.

¹⁰SDR56/2012 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith, 2010/2011, Llywodraeth Cymru <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/120405/?skip=1&lang=cy>

Dysgu yn y gwaith¹¹


Yn 2010-2011, roedd y cyfraddau llwyddo mewn gweithgarwch dysgu yn y gwaith ym mhob math o raglen yn debyg iawn yn gyffredinol i gyfraddau'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn Prentisiaethau Modern wella o 84% i 85%, ac fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn Prentisiaeth Modern Sylfaen ostwng o 85% i 84%.

Mae'r cyfraddau llwyddo ar raglenni Adeiladu Sgiliau'n parhau'n ddigon tebyg i gyfraddau'r flwyddyn flaenorol. Ond mae nifer y dysgwyr Adeiladu Sgiliau wedi gostwng ryw 80% o gymharu â'r nifer y flwyddyn flaenorol ers cyflwyno'r rhaglenni newydd Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith.

Aeth canran is o'r dysgwyr (16%) i mewn i gyflogaeth newydd neu i fath arall o gyflogaeth, nag yn 2009-2010. Arhosodd y ganran o ddysgwyr a oedd yn chwilio am waith neu a oedd yn ddi-waith ar ryw 28%.

Y cyfraddau llwyddo ar gyfer y fframwaith dysgu yn y gwaith yn 2010-2011 ar gyfer pob un o'r meysydd pwnc oedd 81% mewn Prentisiaethau Modern Sylfaen ac 83% mewn Prentisiaethau Modern. Mae'r ffigurau yma'r un fath ag yn y flwyddyn flaenorol ar gyfer Prentisiaethau Modern Sylfaen, a thri phwynt canran yn uwch ar gyfer Prentisiaethau Modern nag yn y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 5.14: Cyfraddau llwyddo gweithgarwch dysgu yn y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, 2008-2011



¹¹ SDR56/2012 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith: 2010/2011. Llywodraeth Cymru <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/120405/?skip=1&lang=cy>

Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM



Adroddiad Blynyddol 2011-2012



Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

